



edexcel 

Unedau

BTEC Cenedlaethol

Edexcel BTEC Cenedlaethol Tystysgrif/Tystysgrif Estynedig/
Diploma Lefel 3 mewn Cynhyrchu i'r Diwydiannau
Creadigol (QCF)

I'w haddysgu gyntaf Medi 2010

Medi 2011



Translated by: Fiona Gannon

Proofread by: Catrin Alun

Cynnwys

Uned 1:	Technegau Cyn Cynhyrchu ar gyfer Diwydiannau'r Cyfryngau Creadigol	1
Uned 2:	Sgiliau Cyfathrebu ar gyfer Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol	7
Uned 3:	Technegau Ymchwil ar gyfer Diwydiannau'r Cyfryngau Creadigol	13
Uned 4:	Prosiect Rheoli Cynhyrchu'r Cyfryngau Creadigol	19
Uned 5:	Gweithio'n Unol â Briff yn Niwydiannau'r Cyfryngau Creadigol	25
Uned 6:	Dulliau Beirniadol o Ymdrin â Chynnyrch y Cyfryngau Creadigol	31
Uned 7:	Deall Sector y Cyfryngau Creadigol	37
Uned 8:	Deall y Diwydiannau Teledu a Ffilmiau	43
Uned 9:	Deall y Diwydiant Radio	49
Uned 10:	Deall y Diwydiant Recordio Sain	55
Uned 11:	Deall Diwydiannau'r Cyfryngau Printiedig	61
Uned 12:	Deall Diwydiant y Cyfryngau Rhyngweithiol	67
Uned 13:	Deall y Diwydiant Gemau Cyfrifiadur	75
Uned 14:	Gweithio ar eich Liwt eich Hun yn Sector y Cyfryngau Creadigol	81
Uned 15:	Datblygu Busnes Bach yn Niwydiannau'r Cyfryngau Creadigol	87
Uned 16:	Technegau Golygu Ffilm a Fideo	93
Uned 17:	Prosesau a Thechnegau Cynhyrchu Sain	97
Uned 18:	Cynhyrchu Cyfryngau Printiedig	103
Uned 19:	Graffeg Ddigidol ar gyfer Cyfryngau Rhyngweithiol	109

Uned 20:	Llwyfannau a Thechnolegau Gemau Cyfrifiadur	115
Uned 21:	Deall Technoleg Fideo	121
Uned 22:	Technegau Un Camera	127
Uned 23:	Technegau Camerâu Lluosog	133
Uned 24:	Ysgrifennu ar gyfer Teledu a Fideo	139
Uned 25:	Astudiaethau Teledu a Fideo	145
Uned 26:	Astudiaethau Ffilm	151
Uned 27:	Technegau Cynhyrchu Rhaglenni Ffeithiol ar gyfer y Teledu	157
Uned 28:	Cynhyrchu Rhaglenni Corfforaethol a Hyrwyddol	163
Uned 29:	Cynhyrchu Fideo Cerddoriaeth	169
Uned 30:	Cynhyrchu Hysbysebion ar gyfer y Teledu	175
Uned 31:	Cynhyrchu Cyfryngau Gweithredu Cymdeithasol a Chymunedol	181
Uned 32:	Dylunio Identau ar gyfer y Teledu	187
Uned 33:	Cynhyrchu Animeiddio Symudiad Stop	193
Uned 34:	Cynhyrchu Animeiddio 2D	199
Uned 35:	Cynhyrchu Gwaith Gosodiadau Fideo	205
Uned 36:	Technegau Cyfweld ar gyfer Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol	211
Uned 37:	Technegau Cyflwyno ar gyfer Darlledu	217
Uned 38:	Cynhyrchu Trac Sain ar gyfer y Ddelwedd Symudol	223
Uned 39:	Ysgrifennu Sgriptiau ar gyfer y Radio	229
Uned 40:	Cynhyrchu Pecynnau Llafar	235
Uned 41:	Cynhyrchu Newyddion ar gyfer y Radio	241
Uned 42:	Drama Radio	247
Uned 43:	Astudiaethau Radio	253
Uned 44:	Rhaglennu Seiliedig ar Gerddoriaeth	259

Uned 45:	Cynhyrchu Hysbysebion ar gyfer y Radio	265
Uned 46:	Technegau Cynhyrchu Rhaglenni Ffeithiol ar gyfer y Radio	271
Uned 47:	Llyfrau a Chyfeirlyfrau Sain	277
Uned 48:	Recordio Cerddoriaeth	283
Uned 49:	Cyflwyniad i Dechnoleg Cerddoriaeth	289
Uned 50:	Ysgrifennu Copi	295
Uned 51:	Patrwm a Dyluniad Tudalennau	301
Uned 52:	Ysgrifennu Ffeithiol ar gyfer Deunydd Printiedig	307
Uned 53:	Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus	313
Uned 54:	Graffeg Ddigidol ar gyfer Print	319
Uned 55:	Cynhyrchu Naratif Graffeg	325
Uned 56:	Cyfathrebu Digidol	331
Uned 57:	Ffotograffiaeth ac Arfer Ffotograffig	337
Uned 58:	Awduro a Dylunio Dewislenni DVD	343
Uned 59:	Awduro ar y We	349
Uned 60:	Awduro Cyfryngau Rhyngweithiol	355
Uned 61:	Dylunio Cyfryngau Rhyngweithiol	361
Uned 62:	Cynhyrchu Fideo Digidol ar gyfer Cyfryngau Rhyngweithiol	367
Uned 63:	Sain mewn Cyfryngau Rhyngweithiol	373
Uned 64:	Graffeg Symudol a Llunio Fideo Cyfansawdd	379
Uned 65:	Animeiddio Gwe ar gyfer Cyfryngau Rhyngweithiol	383
Uned 66:	Modelu 3D	389
Uned 67:	Animeiddio 3D	395
Uned 68:	Amgylcheddau 3D	401
Uned 69:	Lluniadu Celf Gysyniadol ar gyfer Gemau Cyfrifiadur	407

Uned 70:	Peiriannau Gemau Cyfrifiadur	413
Uned 71:	Dylunio Gwrthrych-Gyfeiriadol ar gyfer Gemau Cyfrifiadur	419
Uned 72:	Dylunio Gemau Cyfrifiadur	425
Uned 73:	Sain ar gyfer Gemau Cyfrifiadur	431
Uned 74:	Datblygu Stori Gêm Gyfrifiadur	437
Uned 75:	Rhyngwynebau Dynol-cyfrifiadurol ar gyfer Gemau Cyfrifiadur	443
Uned 76:	Flash ar gyfer Gemau Cyfrifiadur	449
Uned 77:	Dylunio Profion ar gyfer Gemau Cyfrifiadur	455
Uned 78:	Graffeg Ddigidol ar gyfer Gemau Cyfrifiadur	461

Uned 1: Technegau Cyn Cynhyrchu ar gyfer Diwydiannau'r Cyfryngau Creadigol

Côd yr Uned:	J/502/5694
FfCCH Lefel 3 :	BTEC Cenedlaethol
Gwerth Credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Bydd yr uned hon yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o waith cyn cynhyrchu a'u sgiliau yn y maes hwnnw. Mae'r uned yn cwmpasu gofynion cynllunio a threfnu adnoddau ar gyfer cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu, sut mae cael hyd i adnoddau, a sut mae trefnu eu defnydd. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu eu dealltwriaeth o faterion iechyd, diogelwch a chyfreithiol yng nghyswllt gwaith cyn cynhyrchu.

Cyflwyniad i'r uned

Mae gwaith cyn cynhyrchu, sef ymchwil a chynllunio yn bennaf, yn elfen hanfodol o unrhyw gynnyrch cyfryngau llwyddiannus. Er enghraifft, mae cwblhau sesiwn ffotograffiaeth ffasiwn yn llwyddiannus ar gyfer cylchgrawn yn dibynnu ar argaeledd lleoliadau, deunydd a doniau er mwyn cyflawni'r gwaith. Mae recordio deunydd fideo yn llwyddiannus ar leoliad yn dibynnu ar sicrhau bod aelodau'r criw a'r doniau yn y lle iawn ar yr amser iawn. Mae gwaith cyn cynhyrchu da yr un mor bwysig lle bo costau i'w talu am bobl a deunyddiau, a lle bo rhaid cadw at gyllidebau a therfynau amser.

Fel arfer, gwneir y gwaith cyn cynhyrchu gan y cynhyrchwyr a'u timau. Gallai tîm gynnwys nifer o staff, o reolwyr lleoliadau i ddylunwyr setiau. Mae gan bob un ohonynt ran hanfodol i'w chwarae wrth gynhyrchu cynnyrch cyfryngau. Bydd eu gwaith yn cynnwys llunio braslun o gyllidebau a strategaethau ariannu, cael hyd i wybodaeth ffeithiol, deunydd ychwanegol a chyfranwyr, defnyddio archifo, ymchwilio i leoliadau, cynnal asesiadau risg, a threfnu a chydlynu logisteg.

Trwy ddilyn yr uned hon bydd dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth bod unrhyw gynhyrchiad cyfryngau yn gweithredu o fewn terfynau o ran amser, cyfleusterau, personél a chyllideb. Byddant yn dysgu sut mae nodi gofynion cynhyrchiad cyfryngau, a sut mae cynllunio ar gyfer darparu'r gofynion hynny. Byddant hefyd yn dysgu bod gwaith cyn cynhyrchu llwyddiannus yn golygu sicrhau bod yr holl wahanol elfennau ar gyfer cynhyrchu yn y lle iawn ar yr amser iawn.

Ar ben hynny, bydd yr uned yn galluogi dysgwyr i gynnal asesiadau risg cynhyrchu a datblygu ymwybyddiaeth o hawliau a chyfrifoldebau cynhyrchwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ym myd y cyfryngau.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall gofynion cynhyrchiad cyfryngau penodol
- 2 Gallu paratoi dogfennaeth cyn cynhyrchu ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau penodol
- 3 Gallu cymhwyso cynllunio cyn cynhyrchu ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau penodol.

Cynnwys yr Uned

1 Deall gofynion cynhyrchiad cyfryngau penodol

Y math o gynhyrchiad: e.e. ffilm, teledu, fideo, radio, sain, cyfryngau rhyngweithiol, y we, gêm cyfrifiadur, printio, ffoto-ddelweddu

Cyllid: ffynonellau cyllid; gofynion, e.e. cyfarpar, cludiant, doniau, criw, deunyddiau, llogi cyfleuster, cliriadau

Amser: e.e. terfynau amser, argaeledd cyfarpar, argaeledd personél, terfynau amser ar gyfer cliriadau

Personél: maint y tîm; rolau; sgiliau a phrofiad; adnoddau; argaeledd; costau; CVs y tîm neu'r criw

Cyfleusterau: e.e. cyfarpar cynhyrchu, cyfarpar ôl-gynhyrchu, tai cyfleuster, all-gyflenwi; argaeledd; costau

Deunyddiau: math, e.e. deunydd gwreiddiol, deunydd archifau a llyfrgelloedd, deunydd llyfrgell ffotograffig, deunydd llyfrgell sain, y rhynggrwyd, asedau, sain, sgript, animateg, graffeg, cyfweiliadau, gwisgoedd, celfi, cerddoriaeth wedi ei recordio; ffynonellau; costau; cliriadau

Cyfranwyr: math, e.e. arbenigwyr, doniau, y cyhoedd; bywgraffiadau o'r cyfranwyr

Lleoliadau: adnabod; rhagchwiliadau; cyfyngiadau a risgiau, e.e. pellter, mynediad, cost, tywydd

Codau ymarfer a rheoleiddio: cliriadau, e.e. Mechanical Copyright Protection Society-Performing Rights Society Alliance (MCPS-PRS), rhyddhau modelau, caniatâd i ddefnyddio lleoliadau; cyfreithiol, e.e. hawlfraint, iechyd a diogelwch; yswiriant, e.e. atebolrwydd cyhoeddus, yswiriant cwblhau; cyrff rheoleiddio, e.e. Ofcom, Comisiwn Cwynion y Wasg (PCC), Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA), Pan European Game Information (PEGI), Entertainment Software Rating Board (ESRB), British Board of Film Classification (BBFC); undebau llafur, e.e. Producers' Alliance for Cinema and Television (PACT), National Union of Journalists (NUJ), Broadcasting Entertainment, Cinematograph and Theatre Union (BECTU); cymdeithasau masnach, e.e. The Independent Games Developers' Association (TIGA), Entertainment and Leisure Software Publishers' Association (ELSPA), British Interactive Media Association (BIMA)

2 Gallu paratoi dogfennaeth cyn cynhyrchu ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau penodol

Gweithdrefn: nodi'r cyllid sydd ar gael; nodi'r personél y mae eu hangen; nodi'r personél sydd ar gael; nodi'r adnoddau y mae eu hangen; nodi'r adnoddau sydd ar gael; paratoi cyllideb; contractio personél; llogi adnoddau; paratoi amserlenni; nodi'r goblygiadau iechyd a diogelwch; nodi'r goblygiadau cyfreithiol; nodi'r risgiau i'r prosiect

Dogfennaeth: dogfennaeth y cynhyrchiad, e.e. sgriptiau, byrddau stori, byrddau hwyliau, brasluniau bawd, rhestr eiddo, rhestrau cyswllt, rhagchwiliadau i leoliadau; amserlenni cynhyrchu; cyllideb; cliriadau; cynlluniau, e.e. cynlluniau lleoliad, cynlluniau stiwdio; asesiadau iechyd a diogelwch; asesiadau risg; trefniadau wrth gefn

3 Gallu cymhwyso cynllunio cyn cynhyrchu ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau penodol

Elfennau o gynhyrchu: logisteg; cyllid; prosesau creadigol

Rheoli Prosiect: rheoli personél; rheoli adnoddau; rheoli amser; monitro cynnydd; rheoli risg; rheoli argyfwng; cynnal dogfennaeth

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 amlinellu gofynion a ffynonellau gofynion cynhyrchiad cyfryngau penodol [YA]	T1 esbonio gyda pheth manyldeb a chyflwyno'n alluog ofynion a ffynonellau gofynion cynhyrchiad cyfryngau penodol	Rh1 rhoi esboniad cynhwysfawr a chyflwyno at safon sydd bron yn broffesiynol ofynion manwl gywir a ffynonellau gofynion cynhyrchiad cyfryngau penodol
LI2 creu dogfennaeth cyn cynhyrchu amlinellol ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau penodol gyda pheth cymorth	T2 creu dogfennaeth cyn cynhyrchu alluog, fanwl, wedi ei chyflwyno'n ofalus ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau penodol, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh2 creu dogfennau cyn cynhyrchu trwyadl, manwl gywir a chynhwysfawr ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau penodol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cymhwyso cynllunio cyn cynhyrchu i gynhyrchiad cyfryngau penodol, gan weithio gyda pheth cymorth. [GT, HR]	T3 cymhwyso cynllunio cyn cynhyrchu yn alluog i gynhyrchiad cyfryngau penodol, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 cymhwyso cynllunio cyn cynhyrchu i gynhyrchiad cyfryngau penodol at safon sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol MC — meddylwyr creadigol	DM — dysgwyr myfyriol GT — gweithwyr tîm	HR — hunanreolwyr CE — cyfranogwyr effeithiol
---------	--	---	--

Uned 2: Sgiliau Cyfathrebu ar gyfer Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol

Côd yr Uned:	Y/600/6609
FfCCH Lefel 3 :	BTEC Cenedlaethol
Gwerth Credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yng nghyd-destunau cynhyrchu'r cyfryngau creadigol, a hynny ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Cyflwyniad i'r uned

Nod yr uned hon yw gwella sgiliau cyfathrebu ymarferol dysgwyr, a dylid ei dysgu mewn cyd-destunau cynhyrchu trwy unedau eraill gorfodol a dewisol. Mae'r uned nid yn unig yn ymwneud â sgiliau cyfathrebu ehangach yn gyffredinol, sy'n rhan hanfodol o fywyd pob dydd, ond hefyd yn targedu'n benodol sgiliau y gall dysgwyr ddisgwyl eu defnyddio'n rheolaidd yn y sector cyfryngau creadigol, megis pitsio syniadau, ysgrifennu cynigion a llunio adroddiadau. Byddant felly yn datblygu eu gallu i gyfleu eu syniadau a'u meddyliau trwy areithiau pitsio, cynigion ac adroddiadau i amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan ddefnyddio dulliau cyfarch a mathau o dechnoleg sy'n briodol. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu sgiliau gwirio a phrawffddarllen deunyddiau ysgrifenedig.

Trwy'r uned hon byddant yn dysgu sut mae dethol gwybodaeth a gafwyd o ffynonellau a'i chrynhai wrth gynnal ymchwil ar gyfer aseiniadau neu gynyrchiadau.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu tynnu gwybodaeth o ffynonellau ysgrifenedig
- 2 Gallu creu adroddiad mewn cyd-destun cynhyrchu cyfryngau
- 3 Gallu pitsio cynnig cynhyrchu cyfryngau gan ddefnyddio technoleg briodol.

Cynnwys yr Uned

1 Gallu tynnu gwybodaeth o ffynonellau ysgrifenedig

Ffynonellau ysgrifenedig: e.e. llyfrau, newyddiaduron, gwefannau, cylchgronau, papurau newydd, taflenni i'w dosbarthu

Darllen: gan ganolbwyntio; darllen yn fras (sgimio): sganio; defnyddio mynegai; chwilio am eiriau; chwilio am ymadroddion;

Tynnu gwybodaeth allan: e.e. ysgrifennu nodiadau, crynhoi, amlygu testun, anodi dogfen, tanlinellu adrannau, copïo a phastio dyfyniadau

2 Gallu creu adroddiad mewn cyd-destun cynhyrchu cyfryngau

Creu adroddiad: cynnwys; strwythur; cywair ieithyddol; crynodeb; mynegai; cyflwyniad; elfennau gweledol, e.e. darluniadau, graffeg, siartiau, graffiau

Cyd-destunau: e.e. ar gyfer cleient, ar gyfer cyflogwr, asesiad o'r farchnad, dadansoddiad o'r farchnad, dadansoddiad o gynnyrch, hunanwerthusiad

Adolygu: prawfddarllen (sillafu, atalnodi, gramadeg, eglurder mynegiant, strwythur y cynnwys); gwirio electronig (sillafu, atalnodi, gramadeg, thesawrws)

3 Gallu pitsio cynnig cynhyrchu cyfryngau gan ddefnyddio technoleg briodol

Cynnig: amlinelliad o'r syniad; costau; gofynion, e.e. lleoliadau, doniau, criw; cynulleidfa; USP (Pwynt(iau) Gwerthu Unigryw)

Technoleg: meddalwedd cyflwyniadau, e.e. PowerPoint, Keynote, Google Presentation, SlideRocket, Adobe Acrobat; dylunio sleidiau; trawsnewid; cymhorthion gweledol, e.e. animeiddiadau, clipiau fideo, clipiau sain, clipluniau, siartiau, graffiau, cipluniau, tudalennau ar y we; materion hawlfraint

Cyfeiriad: eglurder lleisiol; goslef y llais; cywair, e.e. awdurdodol, llawn hiwmor; eglurder mynegiant; defnydd o iaith dechnegol; cynnal diddordeb, e.e. cyswllt llygad, ategu pwyntiau, cyfeirio at y sgrin

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 defnyddio technegau priodol i dynnu gwybodaeth berthnasol allan o ffynonellau ysgrifenedig	T1 defnyddio technegau priodol i dynnu gwybodaeth allan o ffynonellau ysgrifenedig gyda pheth manylder	Rh1 defnyddio technegau priodol i dynnu gwybodaeth gynhwysfawr allan o ffynonellau ysgrifenedig
LI2 cyflwyno adroddiad ar gynhyrchiad cyfryngau sy'n cyfleu gwybodaeth berthnasol [YA]	T2 cyflwyno adroddiad strwythuredig, manwl ar gynhyrchiad cyfryngau, sy'n cyfleu gwybodaeth ac yn egluro casgliadau yn eglur	Rh2 cyflwyno adroddiad sylweddol, wedi'i strwythuro'n dda ar gynhyrchiad cyfryngau, sy'n cyfleu gwybodaeth gydag enghreifftiau manwl gywir, ac yn cyfiawnhau casgliadau â dadleuon sy'n eu cynnal
LI3 adolygu adroddiadau i wneud newidiadau gydag effeithiau llesol o bryd i'w gilydd [DA]	T3 adolygu adroddiadau i wneud newidiadau gydag effeithiau llesol yn aml	Rh3 adolygu adroddiadau i wneud newidiadau gydag effeithiau llesol yn gyson
LI4 defnyddio a rheoli technoleg briodol er mwyn pitsio cynnig ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau [HR]	T4 defnyddio a rheoli technoleg er mwyn pitsio cynnig ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau yn effeithiol a chyda pheth dychymy	Rh4 defnyddio a rheoli technoleg er mwyn pitsio cynnig ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau yn greadigol ac yn ysbrydoledig, at safon sydd bron yn broffesiynol
LI5 defnyddio dulliau cyfarch priodol wrth bitsio cynhyrchiad cyfryngau er mwyn cyfathrebu syniadau. [MC]	T5 defnyddio dulliau cyfarch priodol wrth bitsio cynhyrchiad cyfryngau er mwyn cyfathrebu syniadau'n effeithiol.	Rh5 defnyddio dulliau cyfarch priodol wrth bitsio cynhyrchiad cyfryngau gyda fflach er mwyn creu argraff wrth gyfathrebu syniadau.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 3: Technegau Ymchwil ar gyfer Diwydiannau'r Cyfryngau Creadigol

Côd yr Uned:	L/600/6669
FfCCH Lefel 3 :	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth o ymchwil sy'n berthnasol i gynhyrchu cyfryngau creadigol a sgiliau yn y maes hwnnw. Bydd y dysgwyr yn cyflwyno eu canfyddiadau yn ysgrifenedig ac ar lafar, ac yn dysgu sut mae dyfynnu eu ffynonellau a chyfeirio atynt.

Cyflwyniad i'r uned

Mae ymchwil yn sylfaenol i bob agwedd ar gynhyrchu cyfryngau creadigol, ac mae'n fan cychwyn hanfodol ar gyfer cynrychiadau ar unrhyw raddfa. Gellir ei defnyddio i ganfod dichonoldeb ariannol cynhyrchiad yn y dyfodol, i gasglu ystod o wybodaeth sy'n berthnasol i gyd-destun y cynhyrchiad, neu i helpu i gynllunio gofynion technolegol a logisteg.

Mae hefyd gwmnïau cyfryngau sy'n cynnal ymchwil helaeth gan ddefnyddio ystod o ddulliau soffistigedig i gasglu data am ddefnydd cynulleidfaoedd o gynnyrch a gwasanaethau cyfryngau. Mae hyn wedi dod yn fwyfwy angenrheidiol yn yr amgylchedd hynod gymysg a chystadleuol mae diwydiannau'r cyfryngau yn gweithredu oddi mewn iddo.

Gallai dysgwyr sy'n chwilio am swydd sy'n gofyn am sgiliau ymchwil ystyried cyflogaeth mewn asiantaeth ymchwil, neu ym maes cynhyrchu ar gyfer y radio, teledu neu ffilmiau, tra bod gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau ymchwil yn hollbwysig mewn nifer o rolau hysbysebu a marchnata. Maent hefyd, wrth gwrs, yn bwysig ym maes newyddiaduraeth. Fodd bynnag, mae peth gallu i ymgymryd ag ymchwil yn hanfodol i unrhyw un sy'n gweithio yn niwydiannau'r cyfryngau.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall natur a phwrpasau ymchwil yn niwydiannau'r cyfryngau creadigol
- 2 Gallu cymhwyso ystod o ddulliau a thechnegau ymchwil
- 3 Gallu cyflwyno canlyniadau ymchwil.

Cynnwys yr Uned

1 Deall natur a phwrpasau ymchwil yn niwydiannau'r cyfryngau creadigol

Mathau o ymchwil: ymchwil feintiol, e.e. graddio rhaglenni, ffigurau cylchrediad darllen, ymweliadau â gwefan, ffigurau swyddfa docynnau, gwerthiant CDs a DVDs; ymchwil ansoddol, e.e. adolygiadau o ffilmiau, adolygiadau o gemau, gwefannau ffansîn, agweddau at gynnyrch cyfryngau, ymatebion i storïau newyddion, ymatebion i ymgyrchoedd hysbysebu, trafodaeth

Dulliau a ffynonellau ymchwil: ymchwil eilaidd (llyfrau, newyddiaduron, llyfrau cyfeiriadol a chyfeiriaduron, cyfnodolion, papurau newydd, archifau ffilmiau, llyfrgelloedd ffotograffau, y we fyd-eang, fforymau chwilio'r rhyngwrwd, cronfeydd data CD Rom, deunydd sain, lefelau graddio, ffigurau cylchrediad, ystadegau'r llywodraeth); ymchwil gynradd (technegau cyfweld, arsylwadau, holiaduron, arolygon, mathau o gwestiynau, grwpiau ffocws, paneli cynulleidfa, cyfranogiad mewn fforymau ar y rhyngwrwd; asiantaethau casglu data, e.e. Broadcasters' Audience Research Board (BARB), Radio Joint Audience Research Ltd (RAJAR); wedi eu cynhyrchu eich hun, e.e. eich cofnod fideo, sain neu ffotograffig eich hun o ddigwyddiadau

Pwrpasau'r ymchwil: ymchwil cynulleidfa (data cynulleidfa, proffilio cynulleidfa, demograffeg, geodemograffeg, ymddygiad defnyddwyr, agweddau defnyddwyr, ymwybyddiaeth cynulleidfa); ymchwil marchnad (marchnad cynnyrch, cystadleuaeth, dadansoddi cystadleuwyr, lleoli hysbysebion, effeithiau hysbysebu); ymchwil cynhyrchu (cynnwys, dichonoldeb, cyfryngau lleoli, cyllid, costau, adnoddau technolegol, personél, lleoliadau)

2 Gallu cymhwyso ystod o ddulliau a thechnegau ymchwil

Ymchwil eilaidd: ymchwil feintiol, e.e. graddio rhaglenni, ffigurau cylchrediad darllen, ymweliadau â gwefan, ffigurau swyddfa docynnau, gwerthiant CDs a DVDs; ymchwil ansoddol, e.e. adolygiadau o ffilmiau, adolygiadau o gemau, gwefannau ffansîn, agweddau at gynnyrch cyfryngau, ymatebion i storïau newyddion, ymatebion i ymgyrchoedd hysbysebu, chwilio fforymau ar y rhyngwrwd

Ymchwil gynradd: ymchwil feintiol, e.e. holiaduron, arolygon; ymchwil ansoddol, e.e. cyfweiliadau (wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy e-bost), grwpiau ffocws, cyfranogiad mewn fforymau ar y rhyngwrwd, paneli cynulleidfa; wedi eu cynhyrchu eich hun, e.e. arsylwadau, eich cofnod fideo, sain neu ffotograffig eich hun o ddigwyddiadau

Ymchwil cynulleidfa: dosbarthiad cynulleidfa (economaidd gymdeithasol, geodemograffig, seicograffig, ethnograffig, oedran, rhyw, tueddfryd rhywiol, galwedigaeth, addysg); dewisiadau cyfryngau; dewisiadau cynnyrch; patrymau prynu

Ymchwil marchnad: marchnad cynnyrch; cystadleuaeth; dadansoddi cystadleuwyr; lleoli hysbysebion; effeithiolrwydd hysbysebu

Ymchwil cynhyrchu: cynnwys; adnoddau, e.e. personél, doniau, cyllid, cyflenwyr, cyfleusterau, lleoliadau, cymorth o ran logisteg; costau; dichonoldeb; lleoliad, e.e. cyhoeddi, darlledu, gwelediad, podlediad, cynulleidfa

Dehongli canlyniadau: coladu; gwerthuso; crynhoi

3 Gallu cyflwyno canlyniadau ymchwil

Fformat: adroddiad ysgrifenedig; cyflwyniad llafar, e.e. unigolyn, grŵp, PowerPoint, tryloywon ar daflunydd, amlgyfrwng, dyddiadur fideo, dyddiadur sain; darluniad, e.e. graffiau, siartiau cylch, siartiau bar, graffeg, clipiau fideo, clipiau sain

Cynnwys: gweithdrefnau; data; canfyddiadau; casgliadau; cynigion

Dyfyniad a chyfeiriad: arddulliau llyfryddiaeth, e.e. Harvard, Modern Languages Association (MLA), American Psychological Association (APA); dyfynnu a dyfyniadau; troednodau; diolchiadau; credydau; atodiadau; cydnabod deunydd hawlfraint, e.e. print, ffilm, fideo, sain, ffotograffau, llythyrau a gyhoeddwyd; ymwadiad

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio natur a phwrpasau ymchwil yn niwydiannau'r cyfryngau creadigol, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio natur a phwrpasau ymchwil yn niwydiannau'r cyfryngau creadigol, gan roi enghreifftiau manwl ohonynt a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 rhoi esboniad cynhwysfawr ar natur a phwrpasau ymchwil yn niwydiannau'r cyfryngau creadigol, gydag enghreifftiau a esboniwyd, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cymhwyso dulliau a thechnegau ymchwil gyda pheth cymorth [YA]	T2 cymhwyso dulliau a thechnegau ymchwil yn alluog heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cymhwyso dulliau a thechnegau ymchwil at safon sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cyflwyno canlyniadau ymchwil.	T3 cyflwyno canlyniadau ymchwil yn alluog.	Rh3 cyflwyno canlyniadau ymchwil at safon sydd bron yn broffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol MC — meddylwyr creadigol	DM — dysgwyr myfyriol GT — gweithwyr tîm	HR — hunanreolwyr CE — cyfranogwyr effeithiol
---------	--	---	--

Uned 4: Prosiect Rheoli Cynhyrchu'r Cyfryngau Creadigol

Côd yr Uned:	F/600/6703
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi i ddysgwyr y ddealltwriaeth, yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol i reoli'r broses o gynhyrchu cynnyrch cyfryngau, o'r syniad cychwynnol hyd at ei gwblhau.

Cyflwyniad i'r uned

Mae gweithio yn niwydiant y cyfryngau yn cynnwys amrywiaeth eang o bobl sydd ag amrywiaeth eang o sgiliau mewn strwythurau trefniadol sy'n esblygu. Maent i gyd yn gweithio tuag at gynhyrchu cynnyrch penodol. Pennir trefniadaeth unrhyw gynnyrch cyfryngau gan gyfyngiadau'r cynhyrchiad a ffocws y cynnyrch ei hun, boed yn fideo hyrwyddo, yn rhaglen radio, yn wefan, neu'n llythyr newyddion. Bydd yn cynnwys rheolaeth gyffredinol trwy reolwr neu dîm rheoli a chyfeiriad llawn dychymyg trwy'r tîm creadigol. Ar ben hynny, bydd y cynhyrchiad yn dod yn fyw trwy sgiliau a gwybodaeth unigolion a thimau arbenigol a fydd yn rheoli ac yn datblygu eu meysydd cyfrifoldeb allweddol.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr wella eu sgiliau trwy gynllunio a rheoli cynhyrchiad cyfryngau. Bydd dysgwyr yn cymhwysu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth y maent wedi eu datblygu mewn unedau eraill i reoli cynhyrchiad cyfryngau, naill ai trwy ymgymryd ag aseiniad unigol a'i reoli, neu trwy gyflawni rôl bwysig mewn tîm cynhyrchu a rennir yn nifer o dimau bach, ac a fydd o bosib yn cwmpasu nifer o wahanol gyfryngau.

Gall dysgwyr ddisgwyl cael profiad o reoli cynhyrchu o darddiad cychwynnol ac ymchwilio i syniad, trwy'r pitsio, i reoli tîm cynhyrchu neu ran o un, gan gymryd cyfrifoldeb personol am effeithiolrwydd y broses gynhyrchu. Bydd dysgwyr yn datblygu'r gallu i chwarae rhan allweddol mewn cynhyrchiad, a byddant yn cael cyfle i ddangos y nodweddion rheoli, y ffocws unigol a'r sgiliau cydweithio priodol y mae eu hangen ar gyfer cynhyrchiad llwyddiannus.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu cynnig, datblygu ac ymchwilio i syniad ar gyfer cynnyrch cyfryngau
- 2 Gallu pitsio cynnig ar gyfer cynnyrch cyfryngau
- 3 Gallu rheoli proses gynhyrchu er mwyn creu cynnyrch cyfryngau.

Cynnwys yr Uned

1 Gallu cynnig, datblygu ac ymchwilio i syniad ar gyfer cynnyrch cyfryngau

Cynnig syniadau: tasgu syniadau mewn grŵp ac ar lefel unigol; dadansoddi pob syniad; dethol; cyfiawnhau

Datblygu syniad: e.e. byrddau hwyliau, brasluniau bawd, brasfodelau, arolygon

Cyfyngiadau: amser; costau; personél; adnoddau; ystyriaethau cyfreithiol a moesegol, e.e. preifatrwydd, cyfraith enllib, difenwi, cyfraith gwahaniaethu ar sail hil, diogelu data, rhyddid gwybodaeth; codau ymarfer; hawlfraint (gofyniad, perchennog, cliriad, cost)

Ymchwilio i syniad: ymchwil cynulleidfa, e.e. oedran, rhyw, grwpiau economaidd gymdeithasol, ffordd o fyw, lleoliad; ffigurau cynulleidfa, e.e. RAJAR, BARB, ABC, CAA, ELSPA, ChartTrack, MCV; ymchwil i'r cynnwys cynradd, e.e. cyfweiliadau, holiaduron, eich arsylwadau eich hun; ymchwil i'r cynnwys eilaidd, e.e. papurau newydd, cylchgronau, llyfrau, sain, clyweledol, electronig, y rhyngrwyd, archifau, llyfrgelloedd; ymchwilio i gystadleuwyr; ymchwilio i'r farchnad

2 Gallu pitsio cynnig ar gyfer cynnyrch cyfryngau

Cynnig: amlinelliad o'r cynnwys; cynulleidfa darged; adnoddau; gofynion personél, e.e. cast a chriw, tîm, arbenigwyr; cyllideb; amserlen y prosiect

Pitsh: arddull; fformat, e.e. PowerPoint, cyflwyniad fideo, cyflwyniad lluosog; technoleg, sgrîn fideo, taflunydd, chwarae sain yn ôl; gwybodaeth am y cynnyrch (amlinelliad o'r cynnwys, cynulleidfa darged, adnoddau, gofynion o ran cast a chriw, cyllideb, amserlen y prosiect, addasrwydd i'r farchnad); paratoi deunyddiau; ymarfer pitsio; cyflwyno'r pitsh

3 Gallu rheoli proses gynhyrchu er mwyn creu cynnyrch cyfryngau

Cynllunio: rolau cynhyrchu cytunedig; dyrannu swyddi; diffiniadau o'r tasgau a therfynau amser ar eu cyfer; amlinelliad o'r cynnwys y cytunwyd arno yn y cynnig; cyfarfodydd rhagarweiniol a chyfarfodydd tîm rheolaidd; agendâu a chofnodion; amserlenni arfaethedig; logisteg, e.e. personél, cyfarpar, lleoliadau, cyfleusterau ychwanegol, adnoddau ychwanegol; trefniadau wrth gefn, e.e. adnoddau wrth gefn; logisteg wrth gefn; rhoi amser i'r prosiect aeddfedu; asesiadau risg

Rheoli'r cynhyrchu: cyfnod cyn cynhyrchu; cyfnod cynhyrchu; cyfnod ôl-gynhyrchu; technegau rheoli prosiect, e.e. taenlen, meddalwedd penodol, dulliau ystwyth, sgrymiau; perfformiad y tîm a'r unigolyn; trefniadau wrth gefn o ran staffio ac adnoddau; monitro ac adolygu; datrys problemau; blaenoriaethu; rheoli argyfwng; rheoli ansawdd; cadw at ddyddiadau cyflwyno; addasiadau wedi cwblhau

Cynnyrch: nodweddion technegol ac esthetig; gwireddu'r cynnig; addasrwydd at y diben, e.e. cynulleidfa, corff comisiynu neu asiantaeth, cleient

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwyr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwyr yn gallu:
LI1 cynnig, datblygu ac ymchwilio i syniad ar gyfer cynnyrch cyfryngau, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol a chan dderbyn peth cymorth [YA, MC]	T1 cynnig, datblygu ac ymchwilio i syniad ar gyfer cynnyrch cyfryngau, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh1 cynnig, datblygu ac ymchwilio i syniad ar gyfer cynnyrch cyfryngau, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI2 pitsio cynnig ar gyfer cynnyrch cyfryngau gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc a chan dderbyn peth cymorth	T2 pitsio cynnig ar gyfer cynnyrch cyfryngau yn alluog gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 pitsio cynnig ar gyfer cynnyrch cyfryngau at safon sydd bron yn broffesiynol, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.
LI3 rheoli proses gynhyrchu er mwyn creu cynnyrch cyfryngau, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol a chan dderbyn peth cymorth. [HR, GT]	T3 rheoli proses gynhyrchu yn alluog er mwyn creu cynnyrch cyfryngau at safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 rheoli proses gynhyrchu at safon sydd bron yn broffesiynol i greu cynnyrch cyfryngau, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 5: Gweithio'n Unol â Brïff yn Niwydiannau'r Cyfryngau Creadigol

Côd yr Uned:	M/600/6700
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw tywys y dysgwyr trwy holl broses gweithio'n unol â brïff, o'r trafodaethau cychwynnol, trwy'r broses o ddatblygu a gwireddu syniadau mewn cysylltiad â'r cleient, i'r hunanwerthuso terfynol wrth gwblhau'r gwaith.

Cyflwyniad i'r uned

Mae cryn dipyn o waith yn niwydiannau'r cyfryngau, yn enwedig yn achos cwmnïau bach a chanolig a phobl sy'n gweithio ar eu liwt eu hunainain, yn cael ei wneud yn unol â brïff i gleient. Mae'n hanfodol, felly, bod y rhai sy'n ymuno â'r diwydiant yn deall gofynion gweithio'n unol â brïff, boed yn un y bu cwmni neu unigolyn yn ei drafod gyda chleient, neu'n un a osodwyd ar gyfer cystadleuaeth. Mathau cyffredin o frïff fyddai, er enghraifft, rhaglen gorfforaethol neu farchnata, gwefan, canllaw sain, neu waith celf ar gyfer gêm gyfrifiadurol. Gallai'r cleient fod yn gwmni mawr rhyngwladol neu'n fusnes bach lleol, ond pwy bynnag ydyw, yr un yn y bôn yw'r sgiliau sydd ynghlwm wrth gynhyrchu cynnyrch cyfryngau yn unol â brïff proffesiynol.

Mae delio gyda brïff yn galw am ystod o sgiliau, yn cynnwys y sgiliau busnes angenrheidiol i gyd-drafod un, y gallu creadigol i gynnig syniadau, a'r sgiliau technegol penodol angenrheidiol i wireddu'r syniadau hynny. Mae angen sgiliau rhyngpersonol da hefyd, gan fod angen gallu treiddio i feddwl rhywun arall i ryw raddau er mwyn dod i ddeall beth sydd ganddyn nhw mewn golwg mewn gwirionedd. Mae'n rhaid dweud hefyd, nad yw'r perthynas gyda chleientiaid bob amser yn hwylus nac yn hawdd.

Gellir rhoi'r uned hon yng nghyd-destun unrhyw sector o'r cyfryngau. Mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer cynnwys lleoliadau gwaith, profiad gwaith, briffiau byw a bennwyd yn allanol, a briffiau cystadleuaeth yn y rhaglen.

Gallai gweithio yn unol â brîff byw roi cyfle i ddysgwyr weithio mewn amgylchedd proffesiynol gyda phobl neu i bobl sy'n ennill eu bywoliaeth yn y diwydiannau print, sain, delweddau symudol neu gyfryngau rhyngweithiol. Bydd gweithio yn unol â brîff go iawn yn galluogi dysgwyr i gwrdd â chleientiaid a gweithio at derfynau amser. Bydd adborth y cleient yn amhrisiadwy o ran datblygu agwedd broffesiynol at waith y cyfryngau. Dylai dysgwyr brofi'r un math o ofynion a chyfyngiadau â phobl broffesiynol wrth eu gwaith, gan fod gweithio yn unol â brîff yn cynrychioli agwedd hollbwysig ar arfer proffesiynol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall gofynion gweithio'n unol â brîff
- 2 Gallu datblygu ymateb wedi ei gynllunio i frîff
- 3 Gallu cymhwyso ymateb i frîff
- 4 Gallu adolygu gwaith wrth gwblhau brîff.

Cynnwys yr Uned

1 Deall gofynion gweithio'n unol â brïff

Strwythur briffiau: contractiol; wedi'u cyd-drafod; ffurfiol; anffurfiol; comisiwn; tendr; brïff cydweithredol; cystadleuaeth

Darllen brïff: adnabod natur y brïff a'r gofynion sydd ymhlyg ynddo

Cyd-drafod y brïff: ymgynghori â'r cleient; elfen o ddisgresiwn wrth ddehongli'r brïff; cyfyngiadau (cyfreithiol, moesegol, rheoliadol); newidiadau i'r cynnyrch terfynol a gynigiwyd; newidiadau i'r gyllideb; newidiadau i'r amodau ffioedd

Cyfleoedd: nodi cyfleoedd ar gyfer hunanddatblygiad; sgiliau newydd; meithrin sgiliau lluosog; cyfraniadau at frïff y prosiect

2 Gallu datblygu ymateb wedi ei gynllunio i frïff

Cynllunio: paratoi cynllun i ateb y gofynion; materion iechyd a diogelwch; deddfwriaeth berthnasol y mae'n rhaid ei dilyn; aelodau'r tîm sy'n rhan o'r gwaith; rôl aelodau'r tîm; strwythur trefniadol; arferion gwaith

Amserlenni: terfynau amser; argaeledd; adnoddau; adborth

Datblygu: tasgu syniadau; mapio-meddwl; nodi atebion posib; triniaethau; sgriptiau; rhaglennu/dylunio fformatau; i ymateb i ofynion y brïff; ymchwilio i botensial atebion; gwerthuso yn erbyn y gofynion a'r cyfyngiadau; dewis yr opsiwn gorau; trafod gyda'r cleient; cytuno ar ymateb terfynol

3 Gallu cymhwyso ymateb i frïff

Cymhwyso: cyfnod cyn cynhyrchu; cyfnod cynhyrchu; cyfnod ôl-gynhyrchu; monitro cynnydd; adolygu; diwygio

Perthynas gyda'r cleient: cyswllt gyda'r cleient; delio ag anawsterau neu gwynion; diwygiadau i'r brïff; diwygiadau i'r cynllun

4 Gallu adolygu gwaith wrth gwblhau brïff

Fformat: e.e. cyflwyniad; adroddiad ysgrifenedig; viva voce

Cyfyngiadau a brofwyd: cyfreithiol; rheoliadol; ariannol

Rheoli: rheoli amser; sgiliau arweinyddiaeth; cyfathrebu; gofynion o ran cyfarfodydd; cyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt; gweithio at amserlenni cytunedig; argymhellion ar gyfer tasgau yn y dyfodol

Adborth: e.e. gan gyfoedion, gan y cleient, gan y gynulleidfa, gan y goruchwyliwr; cyfraniad at nodau'r gweithle; eich addasrwydd eich hun ar gyfer y diwydiant

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio gofynion gweithio'n unol â brîff	T1 esbonio gofynion gweithio'n unol â brîff, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny	Rh1 esbonio'n gynhwysfawr ofynion gweithio'n unol â brîff, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro
LI2 cynllunio ymateb i frîff, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T2 cynllunio ymateb i frîff yn alluog, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynllunio ymateb i frîff at safon sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cymhwyso ymateb i frîff, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T3 cymhwyso ymateb i frîff yn alluog, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cymhwyso ymateb i frîff at safon sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI4 gwneud sylwadau ar eich gwaith eich hun wrth gwblhau brîff, gan wneud peth defnydd priodol o derminoleg y pwnc.	T4 esbonio eich gwaith eich hun wrth gwblhau brîff, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan wneud defnydd o derminoleg y pwnc sy'n gywir at ei gilydd.	Rh4 gwerthuso eich gwaith eich hun yn feirniadol wrth gwblhau brîff, gan gyfeirio at arfer proffesiynol, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 6: Dulliau Beirniadol o Ymdrin â Chynnyrch y Cyfryngau Creadigol

Côd yr Uned:	Y/600/6612
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o sut mae cynhyrchwyr cyfryngau yn creu eu cynnyrch ar gyfer cynulleidfaoedd targed. Mae hefyd yn ceisio datblygu eu dealltwriaeth feirniadol a phersonol o'r cynnyrch hynny. Bydd edrych ar gynhyrchu cyfryngau o'r persbectif hwn yn golygu bod gan ddysgwyr fwy o ffocws wrth gyflawni eu gwaith cynhyrchu eu hunain.

Cyflwyniad i'r uned

Mae sector y cyfryngau yn amrywiol ac yn datblygu'n barhaus. Ar draws y sector mae cynhyrchwyr cyfryngau'n datblygu cynnyrch unigryw sy'n cyflawni pwrpas a swyddogaeth benodol. Mae'r cynnyrch cyfryngau hyn wedi datblygu dros amser mewn ymateb i newidiadau mewn cymdeithas, diwylliant a thechnoleg ac, yn fwy penodol, mewn ymateb i newid agwedd at gynulleidfaoedd o fewn y diwydiant, ac i newidiadau yn chwaeth a diddordebau'r cynulleidfaoedd hynny. Er mwyn gweithio'n llwyddiannus mewn unrhyw un o ddiwydiannau'r cyfryngau, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n ymuno â'r sector yn deall sut mae diwydiant yn ystyried ei gynulleidfaoedd wrth lunio cynnyrch a sut dderbyniad mae'r cynnyrch hynny'n ei gael gan y cynulleidfaoedd targed. Ystyr hynny yw gallu meddwl yn feirniadol am y cynnyrch mae gweithwyr proffesiynol eraill yn eu gwneud neu wedi eu gwneud.

Mae'r uned yn galluogi dysgwyr i ystyried y berthynas ddeinamig rhwng cynhyrchwyr cyfryngau a'u cynulleidfaoedd. Bydd dysgwyr yn archwilio sut mae cynhyrchwyr yn ystyried cynulleidfaoedd penodol ac yn eu targedu, gan edrych ar sut mae cynhyrchwyr yn creu cynnyrch ar gyfer cynulleidfaoedd a sut mae cynulleidfaoedd yn defnyddio'r cynnyrch hynny ac yn ymateb iddynt.

Wedyn bydd dysgwyr yn edrych ar sut mae cynnyrch cyfryngau yn cario ystyr, trwy ystyried sut rydym yn 'gwneud synnwyr' ohonynt, gan gadw mewn cof bod llawer o ffyrdd o ymdrin â chynnyrch cyfryngau a'u 'darllen'. Bydd dysgwyr yn cael cyfle i feddwl am eu hymatebion eu hunain i amrywiaeth o gynnyrch cyfryngau gan ddefnyddio technegau dadansoddi priodol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall sut mae cynhyrchwyr cyfryngau yn diffinio cynulleidfaoedd ar gyfer eu cynnyrch
- 2 Deall sut mae cynhyrchwyr cyfryngau yn creu cynnyrch ar gyfer cynulleidfaoedd penodol
- 3 Deall sut mae cynulleidfaoedd cyfryngau yn ymateb i gynnyrch cyfryngau
- 4 Gallu datblygu ymatebion i gynnyrch cyfryngau.

Cynnwys yr Uned

1 Deall sut mae cynhyrchwyr cyfryngau yn diffinio cynulleidfaedd ar gyfer eu cynnyrch

Diffinio cynulleidfaedd: ymchwil cynulleidfa feintiol, e.e. BARB, RAJAR, ABC; ymchwil cynulleidfa ansoddol, e.e. grwpiau ffocws, holiaduron, cyfweliadau wyneb yn wyneb; proffilio cynulleidfa, e.e. statws economaidd gymdeithasol, seicograffeg, geodemograffeg, oedran, rhyw, tueddfryd rhywiol, hunaniaeth ranbarthol, prif ffrwd, amgen, cylch cyfyngedig

2 Deall sut mae cynhyrchwyr cyfryngau yn creu cynnyrch ar gyfer cynulleidfaedd penodol

Cyfarch cynulleidfaedd: dethol cynnwys, e.e. geiriau, delweddau, sain, dilyniannau, lliwiau, ffontiau; llunio cynnwys, e.e. naratif, cynllun, capsiynau, angori; codau a chonfensiynau, e.e. ieithyddol, gweledol, sain, symbolaidd, technegol; dulliau o gyfarch

Adborth gan y gynulleidfa: e.e. grwpiau ffocws, paneli cynulleidfa, treialu a phrofi, adolygiadau, cwynion

3 Deall sut mae cynulleidfaedd cyfryngau yn ymateb i gynnyrch cyfryngau

Damcaniaeth cynulleidfa: model nodwydd hypodermig; damcaniaeth defnyddiau a boddhad; astudiaeth ar dderbyniad; cymeriant goddefol neu weithredol

Dadleuon ynghylch effeithiau: e.e. effeithiau gweld cynnwys rhywiol neu dreisgar fanwl, effeithiau hysbysebu, pryderon iechyd; dadleuon ynghylch sensoriaeth

Ymatebion: wedi'u cyd-drafod; dewisol; gwrthwynebol; cyfranogol; gallu diwylliannol; diwylliant cefnogwyr

4 Gallu datblygu ymatebion i gynnyrch cyfryngau

Dulliau beirniadol: e.e. dadansoddi cynnwys, dadansoddi semiotig, strwythuriaeth

Genre: yn ôl y dechnoleg gynhyrchu, e.e. ffilm, fideo, sain, print, digidol; dull dosbarthu, e.e. teledu, sinema, radio, y rhyngwryd, CD, iPod, ffôn symudol, cyfrifiadur cartref, consolau llaw; codau a chonfensiynau generig (cynnwys, arddull, symbolaidd, diwylliannol, technegol); newidiadau dros amser, e.e. yn y cynulleidfa, symudiadau ideolegol, ail-ddiffinio, darfodiad, spŵf, pastiche, parodi

Strwythurau naratif: naratif, e.e. un llinyn, llinynnau lluosog, caeedig, agored, llinol, anllinol; naratif amgen; enigma; uchafbwynt; cydbwysedd

Cynrychiolaeth: negyddol; cadarnhaol; o grwpiau cymdeithasol; o faterion cymdeithasol; stereoteipio; presenoldeb ac absenoldeb

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio sut mae cynhyrchwyr cyfryngau yn diffinio cynulleidfaoedd gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio sut mae cynhyrchwyr cyfryngau yn diffinio cynulleidfaoedd, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n gynhwysfawr sut mae cynhyrchwyr cyfryngau yn diffinio cynulleidfaoedd, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio sut mae cynhyrchwyr cyfryngau yn creu cynnyrch ar gyfer cynulleidfaoedd penodol gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T2 esbonio sut mae cynhyrchwyr cyfryngau yn creu cynnyrch ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n gynhwysfawr sut mae cynhyrchwyr cyfryngau yn creu cynnyrch ar gyfer cynulleidfaoedd, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 disgrifio sut mae cynulleidfaoedd cyfryngau yn ymateb i gynnyrch cyfryngau, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T3 esbonio sut mae cynulleidfaoedd cyfryngau yn ymateb i gynnyrch cyfryngau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh3 esbonio'n gynhwysfawr sut mae cynulleidfaoedd cyfryngau'n ymateb i gynnyrch cyfryngau, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI4 cyflwyno ymateb disgrifiadol i gynnyrch cyfryngau, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [YA]	T4 cyflwyno trafodaeth ar gynnyrch cyfryngau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd.	Rh4 cyflwyno dadansoddiad o gynnyrch cyfryngau gyda dadleuon cefnogol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 7: Deall Sector y Cyfryngau Creadigol

Côd yr Uned:	M/600/6681
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth o sector y cyfryngau creadigol i'r dysgwyr. Mae'r uned yn cwmpasu diwydiannau'r sector, eu perchenogaeth, a materion cyfreithiol a rheoliadol. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu dealltwriaeth o gyfleoedd cyflogaeth, amodau gwaith a sut mae ymgeisio am waith yn sector y cyfryngau.

Cyflwyniad i'r uned

Mae diwydiannau'r cyfryngau yn ehangu ar lefel genedlaethol a byd-eang. Mae recriwtio i'r sector wedi cyflymu, gan gynnig cyfleoedd proffesiynol newydd. Mae mwy o bobl yn gweithio yn y cyfryngau heddiw nag mewn unrhyw sector cyflogaeth arall. Mae datblygiadau wedi digwydd ar draws y sector hefyd yn ystod y ddau ddegawd diwethaf mewn ymateb i newidiadau technolegol, gydag effaith amlwg ar gynhyrchu cyfryngau, dosbarthu a phatrymau cyflogaeth. Mae'r datblygiadau eraill ehangach yn cynnwys dadreoleiddio a'r ddadl ynghylch statws ac ariannu darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r datblygiadau parhaus ym maes technoleg cyfryngau digidol yn creu amgylchedd eithriadol gymysg a chystadleuol. Bydd yr holl ddatblygiadau hyn yn effeithio ar y rhai sy'n chwilio am gyflogaeth yn sector y cyfryngau.

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r arferion proffesiynol sy'n hanfodol i weithio mewn unrhyw un o ddiwydiannau'r cyfryngau. Bydd dysgwyr yn deall bod diwydiannau'r cyfryngau yn amrywiol, ac yn cynnwys llawer o strwythurau trefniadol gwahanol sy'n gweithredu ar lefel leol, cenedlaethol a byd-eang. Bydd dysgwyr yn caffael dealltwriaeth hanfodol o gyfleoedd cyflogaeth a rolau swyddi yn y sector, ac yn ystyried sut gallant feithrin sgiliau a lluosogi sgiliau trwy hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. Byddant hefyd yn datblygu peth gwybodaeth am faterion ariannol a thueddiadau perchenogaeth.

Bydd yr uned yn galluogi dysgwyr i ddeall eu rôl broffesiynol o fewn cyfres o gyfyngiadau cyfreithiol a moesegol. Byddant yn dysgu am y materion rheoliadol a'r sefydliadau sy'n berthnasol i ddiwydiannau'r cyfryngau, sydd yn pennu cwrpas arfer proffesiynol a'i gyfyngiadau.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall strwythur a pherchenogaeth sector y cyfryngau
- 2 Deall y cyfyngiadau moesegol a chyfreithiol a geir yn sector y cyfryngau
- 3 Deall sut rheoleiddir sector y cyfryngau
- 4 Gwybod am gyfleoedd cyflogaeth a rolau swyddi yn sector y cyfryngau
- 5 Gallu paratoi deunydd datblygu gyrfa personol.

Cynnwys yr Uned

1 Deall strwythur a pherchenogaeth sector y cyfryngau

Sector: teledu, radio; ffilm; animeiddio; cyfryngau rhyngweithiol; gemau cyfrifiadur; cyhoeddi; y wasg; ffoto-ddelweddu; hysbysebu a marchnata

Strwythur a pherchenogaeth: perchenogaeth breifat; cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus; cwmnïau rhyngwladol; cwmnïau annibynnol; uwch gwmnïau; gwirfoddol; traws-gyfryngol; amrywiaethu; integreiddio fertigol a llorweddol; cyfran o berchenogaeth; cydsoddi a throffeddiannu; rheoleiddio traws-gyfryngol; ffynonellau incwm; amrywiaeth cynnyrch; proffidioldeb yr ystod o gynnyrch; perfformiad yn erbyn pryderon ariannol; amcanion sefydliadol; trwyddedau a masnachfreintiau; cystadleuwyr; cwsmeriaid; cystadleuaeth a thueddiadau cenedlaethol a byd-eang

2 Deall y cyfyngiadau moesegol a chyfreithiol a geir yn sector y cyfryngau

Moesegol: materion a sensitifrwydd cymdeithasol, e.e. cynrychiolaeth rhyw, cynrychiolaeth credoau crefyddol, defnyddiau ieithyddol, hygyrchedd; codau ymarfer cyrff proffesiynol, e.e. canllawiau cynhyrchwyr y BBC, safonau hygyrchedd Consortiwm y We Fyd-eang (W3C)

Cyfreithiol: cynnwys, dehongli a chymhwyso cyfreithiau yn ymwneud â chyfryngau, e.e. Deddf Darlledu 1990 (a newidiadau diweddarach), Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989, Deddf Cyhoeddiadau Anwedus 1959 (a newidiadau diweddarach), Deddf Ffilmiau 1985, Deddf Recordiadau Fideo 1984, Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (a newidiadau diweddarach), Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Trwyddedu 2003 (a newidiadau diweddarach); cyfraith preifatrwydd; cyfraith hawlfraint ac eiddo deallusol; cyfraith enllib

3 Deall sut rheoleiddir sector y cyfryngau

Cyrff rheoliadol a phroffesiynol: e.e. British Board of Film Classification (BBFC), British Video Association, Film Distributors Association, Video Standards Council (VSC), Television, Radio and Telecommunications Office for Communication (Ofcom), Trading Standards Central, Trading Standards Nets, Press Complaints Commission (PCC), Advertising Standards Authority (ASA), The Mobile Entertainment Forum (MEF), The Independent Games Developers Association (IGDA), British Academy of Film and Television Arts (BAFTA), Commercial Radio Companies Association (CRCA), The International Visual Communication Association (IVCA), Worldwide Web Consortium (W3C), British Web Design and Marketing Association, British Interactive Multimedia Association (BIMA)

Materion rheoliadol: e.e. perchenogaeth, monopoli, mynediad, dewis defnyddwyr, rhyddid gwybodaeth, sensoriaeth, chwaeth a gwedduster

4 Gwybod am gyfleoedd cyflogaeth a rolau swyddi yn sector y cyfryngau

Cyfleoedd cyflogaeth: llawn-amser; rhan-amser; hunanliwtio; gwaith shifftiau; parhaol; dros dro; sgiliau lluosog; gwirfoddol; achlysurol; talu fesul awr; gwaith gosod; recriwtio (cyngor ar yrfaeodd, ffeiriau masnach, y wasg genedlaethol, y wasg fasnachol, cysylltiadau personol, rhwydweithio, clywed gan eraill, y rhyngrwyd)

Rolau swyddi: e.e. creadigol, technegol, golygyddol, marchnata, rheoli, gweinyddol, cyfreithiol, ariannol

Datblygiad proffesiynol: addysg a hyfforddiant, e.e. llawn-amser, rhan-amser, Lefel 2, Lefel 3, graddedig; profiad gwaith; datblygiad proffesiynol parhaus; ffynonellau gwybodaeth, e.e. Cyngorau Sgiliau Sector, undebau llafur, gwasanaethau gyrfaeodd; cofnod o hanes cyflogaeth a sgiliau, e.e. curriculum vitae (CV), geirdaon, portffolio, ffilm enghreifftiol, CD, gwefan bersonol; datblygiad gyrfa, e.e. hyfforddiant yn y gwaith, datblygiad proffesiynol parhaus, hyfforddi'r hunan; sgiliau swyddogaethol (TGCh, Mathemateg, Saesneg)

Ymddygiad proffesiynol: dibynadwyedd; presenoldeb a phrydlondeb; ymrwymiad; effeithlonrwydd; hunan-gyflwyniad; sgiliau cyfathrebu; cyfraniad at brosiectau tîm; rheoli amser; cyfrifoldeb personol

5 Gallu paratoi deunydd datblygu gyrfa personol

Deunydd datblygu gyrfa: enghreifftiau o waith, e.e. portffolio, ffilm enghreifftiol, CD, MiniDisc™, gwefan bersonol; curriculum vitae (CV); llythyrau cais; geirdaon

Cyflwyniad ar gyfer cyflogaeth: sgiliau cyfweld; hunan-gyflwyniad (codau ieithyddol, codau gwisgo, sgiliau rhyngbersonol)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio strwythur a pherchenogaeth sector y cyfryngau [YA]	T1 esbonio strwythur a pherchenogaeth sector y cyfryngau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny	Rh1 esbonio'n gynhwysfawr strwythur a pherchenogaeth sector y cyfryngau, gan gyfeirio at enghreifftiau wedi eu hegluro
LI2 disgrifio'r cyfyngiadau moesegol a chyfreithiol a geir yn sector y cyfryngau [YA]	T2 esbonio'r cyfyngiadau moesegol a chyfreithiol a geir yn sector y cyfryngau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt	Rh2 esbonio'n gynhwysfawr y cyfyngiadau moesegol a chyfreithiol a geir yn sector y cyfryngau, gan gyfeirio at enghreifftiau wedi eu hegluro
LI3 disgrifio sut rheoleiddir sector y cyfryngau [YA]	T3 esbonio'r materion rheoliadol sy'n effeithio ar sector y cyfryngau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt	Rh3 esbonio'n gynhwysfawr y materion rheoliadol sy'n effeithio ar sector y cyfryngau, gan gyfeirio at enghreifftiau wedi eu hegluro
LI4 disgrifio cyfleoedd cyflogaeth a rolau swyddi yn sector y cyfryngau [YA]	T4 esbonio cyfleoedd cyflogaeth a rolau swyddi yn sector y cyfryngau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt	Rh4 esbonio'n gynhwysfawr gyfleoedd cyflogaeth a rolau swyddi yn sector y cyfryngau, gan gyfeirio at enghreifftiau wedi eu hegluro
LI5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol, gan ddefnyddio iaith ffurfiol sylfaenol. [DA]	T5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol wedi'i gynhyrchu'n ofalus, gan ddefnyddio iaith ffurfiol sy'n gywir at ei gilydd.	Rh5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol at safon sydd yn agos at fod yn broffesiynol, gan ddefnyddio iaith ffurfiol gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 8: Deall y Diwydiannau Teledu a Ffilmiau

Côd yr Uned:	M/600/6695
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr am y diwydiannau teledu a ffilmiau a strwythur cwmnïau unigol. Bydd yr uned yn datblygu eu dealltwriaeth o rolau swyddi, arferion gwaith a rheoleiddio, ac yn eu galluogi i baratoi'r ddogfennaeth angenrheidiol i wneud cais am swydd yn y diwydiannau hyn.

Cyflwyniad i'r uned

Bu llawer o newidiadau yn y diwydiannau teledu a ffilmiau yn ystod y ddau ddegawd diwethaf. Mae datblygiad technoleg newydd, a'r newidiadau anochel o ran deddfwriaeth llywodraethu ac arferion gwaith, wedi arwain at gynnydd yn yr ystod o wasanaethau a darparwyr gwasanaeth sydd bellach yn rhan o ddiwydiant mwyfwy amrywiol. Sbardunwyd y newidiadau hyn, gan mwyaf, gan y technolegau sydd wedi galluogi cwmnïau cyfryngau i gael mynediad at gynulleidfaedd mwy mewn ffyrdd gwahanol i'r rhai traddodiadol, ac o ganlyniad i ddarparu ystod ac amrywiaeth ehangach o gynnwys. Er mai'r enwau mwyaf cyfarwydd yn y cartref, megis y BBC, ITV, Sianel 4/S4C a Sianel 5 yw'r amlycaf o hyd ar deledu daearol, mae gwasanaethau sianeli lluosog trwy loeren a chebl wedi newid gwedd y teledu yn y Deyrnas Unedig ac ar draws y byd. Mae'r chwyldro digidol bellach yn golygu bod cynulleidfaedd yn gallu defnyddio'r teledu a lluo o gynnwys cyfryngol eraill ym mha ffordd bynnag sydd fwyaf cyfleus iddyn nhw. O ganlyniad, mae cynnwys y cyfryngau wedi dod yn fwy cynhwysol, gan ddarparu ar gyfer ystod ehangach o chwaeth a barn, a sbectrwm ehangach o ran oedran, a chefnidir diwylliannol a daearyddol.

Yn yr un modd, mae'r diwydiant ffilmiau wedi mynd trwy ystod o newidiadau technolegol, ariannol, masnachol ac esthetig. Mae hyn wedi arwain at gyfnod cymharol gryf o dwf a datblygiad yn niwydiant ffilmiau Prydain yn ystod blynyddoedd cyntaf yr 21ain ganrif.

Mae dealltwriaeth o weithrediad yr amrywiol strwythurau trefniadol yn y diwydiannau teledu a ffilmiau yn hanfodol i unrhyw un sy'n bwriadu gweithio yn y sectorau hyn. Mae yr un mor bwysig bod unrhyw un sy'n dymuno mynd ymlaen i astudio ar gyfer cymwysterau lefel uwch yn ymwybodol o'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael o ran swyddi a'r hyfforddiant perthnasol sy'n angenrheidiol.

Nod yr uned hon yw rhoi cyfle i'r dysgwyr gaffael gwybodaeth am y sefydliadau allweddol yn y diwydiannau teledu a ffilmiau a strwythur cwmnïau unigol. Bydd dysgwyr yn archwilio a datblygu eu dealltwriaeth o'r diwydiannau hyn trwy astudio'r ystod o rolau technegol, rheoli, creadigol, ymchwil ac ariannol a chyfleoedd am swyddi sydd ar gael yn y meysydd hynny ar hyn o bryd.

Mae'r uned hon yn cwmpasu rhwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol, tueddiadau sy'n effeithio ar y diwydiannau, a sut mae datblygu agwedd broffesiynol at gyflogaeth.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am berchenogaeth ac ariannu yn y diwydiannau teledu a ffilmiau
- 2 Gwybod am rolau swyddi yn y diwydiannau teledu a ffilmiau
- 3 Deall y rhwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol a geir yn y diwydiannau teledu a ffilmiau
- 4 Deall technolegau sy'n datblygu yn y diwydiannau teledu a ffilmiau
- 5 Gallu paratoi deunydd datblygu gyrfa personol.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am berchenogaeth ac ariannu yn y diwydiannau teledu a ffilmiau

Perchenogaeth: gwasanaeth cyhoeddus; masnachol; preifat; corfforaethol; cwmnïau annibynnol; cwmnïau byd-eang; integreiddio fertigol a llorweddol; monopoli

Ariannu: ffi trwydded; tanysgrifiad; talu wrth wyllo; nawdd; hysbysebu; lleoli cynnyrch; cyfalaf preifat; cymorth ariannol; cronfeydd datblygu

2 Gwybod am rolau swyddi yn y diwydiannau teledu a ffilmiau

Rolau swyddi: rheoli; creadigol; golygyddol; technegol; ymchwil; ariannol; sefydliadol; gweinyddol

Patrymau gwaith: gwaith shifftiau; tymor sefydlog; oriau swyddfa; hunanliwtio; patrymau afreolaidd; cyfraddau yr awr; gwaith gosod

3 Deall y rhwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol a geir yn y diwydiannau teledu a ffilmiau

Contractau: mathau o gontract; cyfrinachedd; anghynhwysedd

Deddfwriaeth cyflogaeth: iechyd a diogelwch; cyfleoedd cyfartal; Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006; atebolrwydd y cyflogwr; hawliau'r cyflogai; perthyn i undeb llafur; eiddo deallusol: hawlfraint; masnachnodau; mathau eraill o eiddo deallusol; honni perchenogaeth

Moesegol: codau ymarfer; polisïau a gweithdrefnau; pryderon a disgwyliadau cymdeithasol sy'n dod i'r amlwg cynrychiolaeth, e.e. unigolion, grwpiau, crefyddau, materion

Cyfreithiol: Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (a newidiadau diweddarach); Deddf Darlledu 1990 (a newidiadau diweddarach); Deddf Cyhoeddiadau Anwedus 1959 (a newidiadau diweddarach); British Board of Film Classification (BBFC); Ofcom

4 Deall technolegau sy'n datblygu yn y diwydiannau teledu a ffilmiau

Technolegau sy'n datblygu: e.e. lloeren, cebl, analog, digidol, seiliedig ar ffilm, rhyngweithiol, y rhyngrwyd, clirlun, cynnyrch defnyddwyr, cynnwys ffrydio, gwyllo ar gais, peiriannau recordio digidol, talu wrth wyllo

5 Gallu paratoi deunydd datblygu gyrfa personol

Dulliau recriwtio: e.e. y wasg genedlaethol; y wasg fasnachol; y rhynggrwyd; clywed gan eraill; cysylltiadau personol; dyrchafiad mewnol; rhwydweithio; ffeiriau masnach

Sgiliau a chymwysterau: addysg a hyfforddiant, e.e. llawn-amser, rhan-amser, Lefel 2, Lefel 3, graddedig; dadansoddi sgiliau (sgiliau personol, sgiliau technolegol, anghenion hyfforddi, cynllun datblygiad personol); ffynonellau gwybodaeth, e.e. Cynghorau Sgiliau Sector, undebau llafur, gwasanaethau gyrfaedd

Sgiliau trosglwyddadwy: nodweddion personol, e.e. gwybodaeth a sgiliau, ymroddiad, effeithlonrwydd, dibynadwyedd, prydlondeb, hunan-gyflwyniad; sgiliau swyddogaethol (TGCh, Mathemateg, Saesneg)

Cyflwyniad ar gyfer cyflogaeth: portffolio; ffilm enghreifftiol; gwefan personol; curriculum vitae (CV); llythyrau cais; sgiliau cyfweld; sgiliau cyflwyno; hunan-gyflwyniad (codau ieithyddol, codau gwisgo, sgiliau rhyngpersonol); geirdaon

Datblygiad gyrfa: hyfforddiant yn y gwaith; datblygiad proffesiynol parhaus; hunanhyfforddiant

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio perchenogaeth ac ariannu yn y diwydiannau teledu a ffilmiau, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio perchenogaeth ac ariannu yn y diwydiannau teledu a ffilm, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n gynhwysfawr berchenogaeth ac ariannu yn y diwydiannau teledu a ffilmiau, gan gyfeirio at enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio nodweddion, dyletswyddau a chyfrifoldebau rolau swyddi rheoli, creadigol a thechnegol yn y diwydiannau teledu a ffilmiau, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T2 esbonio nodweddion, dyletswyddau a chyfrifoldebau rolau swyddi rheoli, creadigol a thechnegol yn y diwydiannau teledu a ffilmiau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n gynhwysfawr nodweddion, dyletswyddau a chyfrifoldebau rolau swyddi rheoli, creadigol a thechnegol yn y diwydiannau teledu a ffilmiau, gan ddangos y berthynas rhyngddynt a'i gilydd, gan gyfeirio at enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 disgrifio rhwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol yn y diwydiannau teledu a ffilmiau, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T3 esbonio rhwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol yn y diwydiannau teledu a ffilm, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh3 esbonio'n gynhwysfawr rwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol yn y diwydiannau teledu a ffilmiau, gan gyfeirio at enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 disgrifio technolegau sy'n datblygu yn y diwydiannau teledu a ffilmiau, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T4 esbonio technolegau sy'n datblygu yn y diwydiannau teledu a ffilm, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh4 esbonio'n gynhwysfawr dechnolegau sy'n datblygu yn y diwydiannau teledu a ffilmiau, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol, gan ddefnyddio iaith ffurfiol sylfaenol. [DA]	T5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol wedi'i gynhyrchu'n ofalus, gan ddefnyddio iaith ffurfiol sy'n gywir at ei gilydd.	Rh5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol at safon sydd yn agos at fod yn broffesiynol, gan ddefnyddio iaith ffurfiol gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 9: Deall y Diwydiant Radio

Côd yr Uned:	D/600/6692
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o drefniadaeth a datblygiad diwydiant radio gwasanaeth cyhoeddus a masnachol y DU, y cyfleoedd cyflogaeth a'r arfer gwaith a geir ynddo, a'i strwythur rheoliadol. Mae'r uned yn gyfle i baratoi'r ddogfennaeth angenrheidiol i wneud cais am swydd radio.

Cyflwyniad i'r uned

Radio yw un o'r diwydiannau cyfryngau sy'n tyfu gyflymaf. Adeg ysgrifennu mae cannoedd, yn llythrennol, o orsafoedd radio yn y DU, yn darparu cymysgedd o bob math o radio, ac mae'r nifer ar gynydd. Mae datblygiad radio digidol, cymunedol a radio rhyngryd yn golygu bod mwy o gyfleoedd nag erioed o'r blaen i ymuno â'r diwydiant bywiog hwn. Pa rôl swydd bynnag yr ymgwymerir â hi, mae dealltwriaeth o ymddygiad sefydliadol a sut mae gweithredu yn amgylchedd darlledu gorsaf radio, neu fel aelod o dîm cynhyrchu mewn cwmni cynhyrchu annibynnol llai, yn hanfodol. Mae hefyd yn bwysig deall yr ystod o dechnoleg a ddefnyddir yn y diwydiant.

Gyrrir y sector radio masnachol gan incwm a gynhyrchir o hysbysebu ar y radio, ac mae gwybod am bwysigrwydd y llif ariannu hwn yn sylfaenol er mwyn deall sut yr ariannir y diwydiant. Mae'r rheoleiddiwr darlledu yn gofyn bod radio cymunedol, ar y llaw arall, yn creu 'budd cymdeithasol' trwy'r hyn y mae'n ei gynhyrchu, ac mae dealltwriaeth o ystyr hynny yn hollbwysig i'r rhai sy'n anelu am waith yn y rhan honno o'r diwydiant.

Mae swyddogion personél ym maes darlledu radio yn aml yn sylwi nad yw ceisiadau cychwynnol am waith yn y diwydiant yn cael eu cefnogi gan ymrwymiad i'r cyfrwng. Dylai darpar gyflogeion gorsafoedd radio fod yn gyfarwydd â'r ystod o raglenni y mae eu gorsaf darged yn eu cyflenwi. P'un a yw'r darpar weithiwr radio yn edrych ar gynhyrchu newyddiaduraeth newyddion, cyflwyno dilyniannau cerddorol, sgysiau deallus, rhaglenni ffeithiol, rhaglenni addysgiadol, comedi radio, siarad, chwaraeon, neu elfennau masnachol ar y radio, mae dealltwriaeth o sut mae allbwn un orsaf radio yn wahanol i un arall yn hanfodol. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwybod am gynulleidfa darged gorsaf radio, a sut deuir o hyd i'r gynulleidfa honno.

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut mae pedair prif sector y diwydiant radio yn cael eu trefnu, eu strwythuro a'u hariannu. Gwneir dysgwyr yn ymwybodol o'r ystod o swyddi, heblaw swydd cyflwynydd, sydd ar gael yn y diwydiant, a'r amodau gwaith a'r rhwymedigaethau contractiol sydd ynghlwm wrthynt. Byddant yn deall y cyfyngiadau cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i raglenni a ddarlledir, pwy bynnag yw'r gynulleidfa darged, a'u bod yn effeithio ar bawb sy'n gweithio ym maes y radio, ac felly y dylai pawb eu deall. Daw'r uned i ben trwy roi cyfle i ddysgwyr baratoi ar gyfer symud ymlaen i'w dewis lwybr gyrfa yn y diwydiant radio.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall strwythurau trefniadol a pherchenogaeth yn niwydiant radio y DU
- 2 Deall rolau swyddi, arferion gwaith a chontractau cyflogaeth yn niwydiant radio y DU
- 3 Deall rôl y cyrff rheoleiddio a'r materion cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i ddiwydiant radio y DU
- 4 Deall y technolegau sy'n datblygu yn niwydiant radio y DU
- 5 Gallu paratoi ar gyfer cyflogaeth yn niwydiant radio'r DU.

Cynnwys yr Uned

1 Deall strwythurau trefniadol a pherchenogaeth yn niwydiant radio y DU

Radio masnachol: gorsafoedd radio cenedlaethol; gorsafoedd radio rhanbarthol; gorsafoedd radio lleol; perchenogaeth grŵp a chorfforaethol; perchenogaeth ar ddau, tri neu bedwar cyfrwng; refeniw o hysbysebu; materion trwyddedu darllediadau; rhaglennu cerddoriaeth; rhaglennu llafar

Radio gwasanaeth cyhoeddus: strwythur y BBC; arferion cynhyrchu mewnol; amcanion y siarter frenhinol (2007); ffi trwydded y BBC; Ariannu'r Swyddfa Gartref (BBC World); rôl y llywodraethwyr; dewis y cynhyrchydd; comisiynu a chynhyrchu annibynnol ar gyfer rhaglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB)

Radio nid-er-elw: radio cymunedol; radio ysbyty; radio myfyrwyr; radio chwaraeon a digwyddiadau arbennig; cyfyngiadau cynhyrchu incwm; materion trwyddedu; Trwydded Gwasanaeth Cyfyngedig (RSL); AM Pŵer Isel (LPAM)

Cwmnïau annibynnol sy'n cynhyrchu rhaglenni radio: cynnig; y broses gomisiynu a phitsio ar gyfer rhaglenni radio'r BBC; sicrhau cliriad i gynnig

2 Deall rolau swyddi, arferion gwaith a chontractau cyflogaeth yn niwydiant radio y DU

Rolau swyddi: gohebydd; cyfwelydd; ymchwilydd; awdur sgriptiau; cyflwynydd; newyddiadurwr radio; cynhyrchydd; cynorthwydd stiwdio; amserlenydd rhaglenni; deliwr masnachol; peiriannydd sain; golygydd; rheolwr yr orsaf; gwerthwr amser ar yr awyr; rheolaeth yr orsaf; hyfforddiant cymunedol; cymorth gwirfoddolwyr

Arferion gwaith: gorsafoedd bychain lleol; gorsafoedd grŵp corfforaethol; gweithrediadau rhwydwaith; asesu risg; iechyd a diogelwch; lluosogi sgiliau; radio'r BBC; radio masnachol; radio cymunedol; radio myfyrwyr; radio ysbyty; hyfforddiant mewn swydd; cyhoeddiadau masnach; profiad gwaith; cyfleoedd am swyddi; y wasg fasnachol; ffeiriau masnach; hyrwyddo; cysylltiadau personol; rhwydweithio; datblygiad proffesiynol parhaus; arferion gwaith

Contractau cyflogaeth: disgrifiadau swyddi; manylebau person; telerau ac amodau cyflogaeth; Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006; ystyriaethau treth cyflogwr ac Yswiriant Gwladol; hunanliwtio; parhaol; radio'r BBC; radio masnachol; radio cymunedol; cwmnïau annibynnol sy'n cynhyrchu rhaglenni

3 Deall rôl y cyrff rheoleiddio a'r materion cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i ddiwydiant radio y DU

Cyrff rheoleiddio: Ofcom; Commercial Radio Companies Association (CRCA); Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA); Mechanical Copyright Protection Society-Performing Rights Society Alliance (MCPS-PRS)

Cyfreithiol: gofynion rheoliadol; cydymffurfio; hawlfraint; eiddo deallusol; masnachnodau; goblygiadau masnachfraint; trwyddedwyr; polisi iechyd a diogelwch; deddfau seneddol, e.e. Deddf Darlledu 1990 (a newidiadau diweddarach)

Moesegol: polisiâu a gweithdrefnau; gofynion moesegol; pryderon a disgwyliadau cymdeithasol sy'n dod i'r amlwg

4 Deall y technolegau sy'n datblygu yn niwydiant radio y DU

Technolegau digidol: Darlledu Sain ddigidol (DAB); Digital Radio Mondiale (DRM); dyfodol FM a DAB; materion newid o analog i ddigidol; lefel y rhai sy'n derbyn gwasanaeth digidol: perchenogaeth ar radio digidol; Freesat; Di-Wi

Technolegau dosbarthu: effeithiau dulliau dosbarthu newydd ar batrymau gwranddo trwy argaeledd; podlediadau; gwranddo eto; iPlayer; dosbarthu cynnwys oddi wrth gynhyrchwyr annibynnol i orsafoedd radio trwy fand eang

Llwyfannau derbyn: dulliau o ddosbarthu rhaglenni i gynulleidfa; (daearol, lloeren, y rhyngwrld, ffrydio, ar gais, gwranddo eto, podledu, blogio) cebl; ffôn symudol

5 Gallu paratoi ar gyfer cyflogaeth yn niwydiant radio'r DU

Dulliau recriwtio: y wasg genedlaethol; y wasg fasnachol; y rhyngwrld; clywed gan eraill; cysylltiadau personol; dyrchafiad mewnol; rhwydweithio; ffeiriau masnach

Cyfleoedd hyfforddi: radio cymunedol; radio ysbyty; radio myfyrwyr; radio chwaraeon a digwyddiadau arbennig; gwaith gwirfoddol

Cyrff proffesiynol: Cynghorau Sgiliau Sector (Skillset, Sgiliau Diwylliannol a Chreadigol); undebau llafur; cyrff masnachol a sector, e.e. National Association of Broadcasters (NAB), Commercial Radio Companies Association (CRCA), Radio Centre (cyfuniad o RAB a CRCA); Community Media Association (CMA)

Cyflogaeth gychwynnol: cael hyd i gyfleoedd cyflogaeth; gofynion mynediad; llwybr y BBC; y llwybr masnachol; hyfforddiant galwedigaethol; cymwysterau; sgiliau; gwybodaeth; nodweddion personol (ymrwymiad, effeithlonrwydd, dibynadwyedd, prydlondeb, hunan-gyflwyniad); llwybrau gyrfa

Cyflwyniad ar gyfer cyflogaeth: disg neu dâp enghreifftiol; curriculum vitae (CV); llythyrau cais; sgiliau cyfweld; sgiliau cyflwyno; hunan-gyflwyniad (codau ieithyddol, codau gwisgo, sgiliau rhyngpersonol); geirdaon

Datblygiad gyrfa: hyfforddiant yn y gwaith; datblygiad proffesiynol parhaus; hunan-hyfforddiant; sgiliau swyddogaethol (TGCh, Mathemateg, Saesneg)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio strwythurau trefniadol a phatrymau perchenogaeth yn niwydiant radio y DU, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio strwythurau trefniadol a phatrymau perchenogaeth yn niwydiant radio y DU, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n gynhwysfawr strwythurau trefniadol a phatrymau perchenogaeth yn niwydiant radio y DU, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio rolau swyddi, arferion gwaith a chontractau cyflogaeth yn niwydiant radio y DU, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T2 esbonio rolau swyddi ac effaith contractau cyflogaeth ar arferion gwaith yn niwydiant radio y DU, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n gynhwysfawr effaith contractau cyflogaeth ar rolau swyddi ac arferion gwaith yn niwydiant radio y DU, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 disgrifio rôl y cyrff rheoleiddio, a'r materion cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i ddiwydiant radio y DU, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [DA]	T3 esbonio rôl y cyrff rheoleiddio, a'r materion cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i ddiwydiant radio y DU, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh3 esbonio'n gynhwysfawr rôl y cyrff rheoleiddio, a'r materion cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i ddiwydiant radio y DU, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 disgrifio technolegau sy'n datblygu yn niwydiant radio y DU, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [DA]	T4 esbonio technolegau sy'n datblygu sy'n berthnasol i ddiwydiant radio y DU, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh4 esbonio'n gynhwysfawr y technolegau sy'n datblygu sy'n berthnasol i ddiwydiant radio y DU, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI5 paratoi ar gyfer cyflogaeth mewn rôl a nodwyd yn niwydiant radio y DU, gan ddefnyddio iaith ffurfiol sylfaenol. [YA]	T5 paratoi'n ofalus ar gyfer cyflogaeth mewn rôl a nodwyd yn niwydiant radio y DU, gan ddefnyddio iaith ffurfiol glir sy'n gywir at ei gilydd.	Rh5 paratoi, at safonau sydd bron yn broffesiynol, ar gyfer cyflogaeth mewn rôl a nodwyd yn niwydiant radio y DU, gan ddefnyddio iaith ffurfiol gywir a rhugl.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 10: Deall y Diwydiant Recordio Sain

Côd yr Uned:	K/600/6694
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth o drefniadaeth y diwydiant recordio sain, y mathau o swyddi sydd ar gael o fewn y diwydiant, a sut mae caffael y swyddi hynny a gwneud cynnydd ynddynt.

Cyflwyniad i'r uned

Mae patrymau gwaith yn y diwydiant recordio sain wedi newid yn ddramatig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae datblygiad technoleg ddigidol wedi arwain at symud i ffwrdd oddi wrth gyfadeladau stiwdio recordio mawr i unedau bychain, sydd yn aml yn eiddo i gynhyrchydd recordiau. Mae hyn wedi arwain at newid pwyslais o gyflogwyr mawr i bobl hunangyflogedig sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain.

Fodd bynnag, mae dealltwriaeth o ymddygiad sefydliadol a sut mae gweithredu yn amgylchedd y stiwdio recordio, neu fel aelod o dîm cynhyrchu mewn cwmni cynhyrchu annibynnol llai, yn hanfodol ar gyfer rôl pob swydd. Gyrrir y sector recordio masnachol gan incwm a gynhyrchir drwy ddarparu lle i'w logi mewn stiwdios, a gall y rheiny gael eu trefnu gan gwmni recordiau, cynhyrchydd, cyfansoddwr neu'r artistiaid eu hunain.

Mae cyflogwyr yn y diwydiant recordio yn aml yn sylwi nad yw ceisiadau cychwynnol am waith yn y diwydiant yn cael eu cefnogi gan ymrwymiad i'r cyfrwng. Mae angen i ddarpar weithwyr fod yn ymroddedig i gynhyrchu sain dda ym mhob maes, a heb eu twyllo gan ddelwedd o weithio mewn diwydiant llawn sglein, sy'n bendant yn gamarweiniol. Wedi dweud hynny, gall person ymroddedig gael hyd i gyfleoedd gwych ar gyfer mynegiant creadigol yn y diwydiant hwn.

Dylai darpar weithwyr stiwdio recordio fod yn gyfarwydd â'r ystod o waith a gynhrychir gan y stiwdios. P'un a yw'r darpar weithiwr recordio yn chwilio am waith ym maes recordio masnachol a bandiau, recordio clasurol, gwerin, jazz, cerddoriaeth ffilm, ôl-gynhyrchu sain, y gair llafar neu recordio ar gyfer darlledu, mae dealltwriaeth o sut mae allbwn un stiwdio yn wahanol i allbwn un arall yn hanfodol. Mae hynny hefyd yn golygu gwybod am y gwahanol gleientiaid mae stiwdio recordio yn ymwneud â nhw a sut rheolir patrymau llogi stiwdios. Mae'n hanfodol gwybod beth yw'r berthynas rhwng y recordiad a'r diwydiant recordiau, ac â gwneuthurwyr a chyflenwyr cyfarpar.

Mae hefyd yn hanfodol deall yr ystod o dechnoleg a ddefnyddir yn y diwydiant. Mae technoleg ddigidol a rhai llwyfannau meddalwedd bellach yn safonol. Fodd bynnag, er mwyn defnyddio'r dechnoleg hon hyd eithaf ei photensial, mae'n hanfodol meddu ar wybodaeth sylfaenol gadarn ynghylch hanfodion arfer recordio da a thechnegau traddodiadol, a gallu trosi hynny'n arfer da mewn technolegau newydd. Nid dim ond gwasgu botymau a manipwleiddio tonnau ar sgrin yw recordio sain. Mae'n golygu datblygu perthynas dda gydag artistiaid, rheoli amser yn dda, sgiliau trefnu a chynllunio da, yn ogystal â gwybodaeth dechnegol. Y pwyslais yw helpu i dynnu'r potensial creadigol mwyaf posib o sesiwn, yn ogystal ag atgynhyrchu sain yn gywir. Mae gwybodaeth dda am gerddoriaeth o bob math hefyd yn fantais fawr yn y diwydiant hwn.

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o drefniadaeth y diwydiant recordio sain, y mathau o swyddi sydd ar gael o fewn y diwydiant, a sut mae caffael y swyddi hynny a gwneud cynnydd ynddynt. Effeithir ar bawb sy'n gweithio ym maes recordio gan y cyfyngiadau cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i gynhyrchu recordiadau, sut bynnag y'u dosbarthir a'u marchnata i gynulleidfa darged, a dylent ddeall y cyfyngiadau hynny, felly mae rhan olaf yr uned yn ymdrin â'r materion hynny.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall strwythurau trefniadol a pherchenogaeth yn niwydiant recordio'r DU
- 2 Deall rolau swyddi, arferion gwaith a chontractau cyflogaeth yn niwydiant recordio'r DU
- 3 Deall materion cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i ddiwydiant recordio'r DU
- 4 Deall y technolegau sy'n datblygu yn niwydiant recordio'r DU
- 5 Gallu paratoi ar gyfer cyflogaeth yn niwydiant recordio'r DU.

Cynnwys yr Uned

1 Deall strwythurau trefniadol a pherchenogaeth yn niwydiant recordio'r DU

Maint a pherchenogaeth stiwdios recordio: stiwdios recordio mawr a rhai cerddorfaol; stiwdios recordio llai a chyfadeiladau stiwdio; stiwdios recordio preswyl; perchenogaeth grŵp a chorfforaethol; unig berchenogion; stiwdios sydd yng ngofal y perchennog; perchenogaeth y cyfryngau

Mathau o sefydliad ac arbenigedd: stiwdios recordio masnachol a bandiau; recordio clasurol; recordio byw ac ar leoliad; cerddoriaeth ar gyfer ffilmiau a theledu; stiwdios ôl-gynhyrchu sain; stiwdios meistrolï; recordio trosleisio; stiwdios dylunio sain ac effeithiau; stiwdios cerddoriaeth a sain ar gyfer gemau; stiwdios cerddoriaeth a sain ar gyfer cyfryngau rhyngweithiol; cwmnïau annibynnol sy'n cynhyrchu recordiadau; cynhyrchwyr a pheirianwyr sy'n gweithio ar eu liwt eu hunainain; Adrannau A ac R; gwneuthurwyr a dosbarthwyr cyfarpar; gwasgwyr recordiau a dosbarthwyr recordiadau; dosbarthu a safleoedd ar y rhyngwrwyd

2 Deall rolau swyddi, arferion gwaith a chontractau cyflogaeth yn niwydiant recordio'r DU

Rolau swyddi: peiriannydd recordio; cynhyrchydd; cynorthwydd stiwdio; trefnydd llogi; rheolwr y stiwdio; golygydd; rheolaeth ar y stiwdio; rheolaeth dechnegol; gwasanaeth a chynnal a chadw; peiriannydd meistrolï; gwasgu a dosbarthu; gweinyddiaeth stiwdio; arlwy; cadw cofnod o'r staff a chofnodion ysgrifenedig; materion storio tapiau; cyfrifon, treth a chyllid stiwdio; marchnata stiwdio;

Arferion gwaith: stiwdios bach lleol; stiwdios grŵp corfforaethol; stiwdios coleg; stiwdios recordio arddangos; stiwdios prosiectau; stiwdios cartref; gweithrediadau rhwydwaith stiwdios cyfansoddwyr ac awduron caneuon; asesu risg; iechyd a diogelwch; meithrin sgiliau lluosog; hyfforddiant mewn swydd; cyhoeddiadau masnach; profiad gwaith; cyfleoedd am swyddi; ffeiriau masnach; hyrwyddo; cysylltiadau personol; rhwydweithio; datblygiad proffesiynol parhaus; arferion gwaith

Contractau: contractau cyflogaeth; disgrifiadau swyddi; manylebau person; telerau ac amodau cyflogaeth; Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006; swyddi hunanliwtio a pharhaol; ystyriaethau treth cyflogwr ac Yswiriant Gwladol

3 Deall materion cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i ddiwydiant recordio'r DU

Cyfreithiol: gofynion rheoliadol; cydymffurfio; hawlfraint; eiddo deallusol; masnachnodau; Mechanical Copyright Protection Society-Performing Rights Society Alliance (MCPS-PRS); goblygiadau masnachfraint; trwyddedwyr; polisi iechyd a diogelwch

Moesegol: polisiâu a gweithdrefnau; gofynion moesegol; lladrad; pryderon a disgwyliadau cymdeithasol sy'n dod i'r amlwg

4 Deall y technolegau sy'n datblygu yn niwydiant recordio'r DU

Technolegau digidol: sain amgylchynol a'r effeithiau ar wrando; Darlledu Sain ddigidol (DAB); perchenogaeth gynyddol ar chwaraewyr MP3

Technolegau dosbarthu: effeithiau dulliau newydd o ddsbarthu ar stiwdios recordio; dosbarthu cynnwys trwy fand eang; lawrlwytho i chwaraewyr cerddoriaeth; effeithiau modelau dosbarthu newydd ar ddefnyddwyr

Llwyfannau derbyn: dulliau o ddsbarthu rhaglenni i gynulleidfa; (y rhynggrwyd, ffrydio, ar gais, podledu, blogio); ffôn symudol; iPhone

5 Gallu paratoi ar gyfer cyflogaeth yn niwydiant recordio'r DU

Dulliau recriwtio: e.e. y wasg genedlaethol, y wasg fasnachol, y rhynggrwyd, clywed gan eraill, cysylltiadau personol, dyrchafiad mewnol, rhwydweithio, ffeiriau masnach

Cyfleoedd hyfforddi: recordio cymunedol; recordio arddangos; recordio gan ddysgwyr; recordio byw; gwaith gwirfoddol

Cyflogaeth gychwynnol: gofynion mynediad; y llwybr masnachol; hyfforddiant galwedigaethol; cymwysterau; sgiliau; gwybodaeth; sgiliau swyddogaethol (TGCh, Mathemateg, Saesneg, Cymraeg); nodweddion personol (ymrwymiad, effeithlonrwydd, dibynadwyedd, prydlondeb, hunan-gyflwyniad)

Cyflwyniad ar gyfer cyflogaeth: cael hyd i gyfleoedd cyflogaeth; paratoi ar gyfer cyfweiliad; disg arddangos; curriculum vitae (CV); llythyrau cais; sgiliau cyfweiliad; sgiliau cyflwyno; hunan-gyflwyniad (codau ieithyddol, codau gwisgo, sgiliau rhyngpersonol); geirdaon

Datblygiad gyrfa: hyfforddiant yn y gwaith; datblygiad proffesiynol parhaus; hunanhyfforddiant; marchnata a hunan-hyrwyddo; cysylltiadau;

Cyrff proffesiynol: Cynghorau Sgiliau Sector (Sgiliau Diwylliannol a Chreadigol, Skillset); undebau llafur; cyrff masnachol; achrediad cyrsiau gan y diwydiant; Association of Professional Recording Services (APRS); Music Producers' Guild (MPG); APPS (Association of Post-Production Studios); Joint Audio Media Educational Support (JAMES); Audio Engineering Society (AES); Professional Light and Sound Association (PLASA); Music Industries Association (MIA); British Phonographic Industry (BPI); Association of Independent Record Companies (AIM)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio strwythurau trefniadol a phatrymau perchenogaeth yn niwydiant recordio'r DU, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio strwythurau trefniadol a phatrymau perchenogaeth yn niwydiant recordio'r DU, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n gynhwysfawr strwythurau trefniadol a phatrymau perchenogaeth yn niwydiant recordio'r DU, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio rolau swyddi, arferion gwaith a chontractau cyflogaeth yn niwydiant recordio'r DU, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T2 esbonio rolau swyddi ac effaith contractau cyflogaeth ar arferion gwaith yn niwydiant recordio y DU, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n gynhwysfawr effaith contractau cyflogaeth ar rolau swyddi ac arferion gwaith yn niwydiant recordio y DU, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 disgrifio'r materion cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i ddiwydiant recordio'r DU, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T3 esbonio'r materion cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i ddiwydiant recordio'r DU, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh3 esbonio'n gynhwysfawr y materion cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i ddiwydiant recordio'r DU, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 disgrifio technolegau sy'n datblygu yn niwydiant recordio'r DU, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T4 esbonio technolegau sy'n datblygu sy'n berthnasol i ddiwydiant recordio'r DU, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh4 esbonio'n gynhwysfawr y technolegau sy'n datblygu sy'n berthnasol i ddiwydiant recordio'r DU, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI5 paratoi ar gyfer cyflogaeth mewn rôl a nodwyd yn niwydiant recordio'r DU, gan ddefnyddio iaith ffurfiol sylfaenol. [HR]	T5 paratoi'n effeithiol ac yn alluog ar gyfer cyflogaeth mewn rôl a nodwyd yn niwydiant recordio'r DU, gan ddefnyddio iaith ffurfiol glir sy'n gywir at ei gilydd.	Rh5 paratoi, at safonau sydd bron yn broffesiynol, ar gyfer cyflogaeth mewn rôl a nodwyd yn niwydiant recordio'r DU, gan ddefnyddio iaith ffurfiol gywir a rhugl.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 11: Deall Diwydiannau'r Cyfryngau Printiedig

Côd yr Uned:	D/600/6689
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn y diwydiannau cyfryngau printiedig, a'u galluogi i baratoi deunydd datblygu gyrfa personol.

Cyflwyniad i'r uned

Fel holl ddiwydiannau'r cyfryngau, mae diwydiannau'r cyfryngau printiedig wedi mynd trwy gyfnod o newid a datblygiad cyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn sgîl cyflwyno technoleg ddigidol a phrosesau cynhyrchu mwy integredig. Mae dulliau newydd o gynhyrchu a dosbarthu wedi arwain at lawer mwy o bwyslais ar dechnoleg gyfrifiadurol ac angen am weithlu sy'n meddwl ar lefel uwch o sgiliau, gyda dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o wahanol ffurfiau cyfryngau printiedig.

Mae'r sector yn un eang ac amrywiol, gyda llawer o wahanol agweddau, a chyda phobl yn ymgymryd ag amrywiaeth o rolau. Bydd yr uned hon yn rhoi i'r dysgwyr ddealltwriaeth o'r gwahanol strwythurau trefniadol a'r amrywiol swyddi y gall dysgwyr anelu atynt yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig. Mae'r amrywiaeth o swyddi yn golygu bod angen i'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant deall y mathau o gontractau cyflogaeth sy'n debygol o gael eu cynnig iddynt, a'r mathau o batrymau gwaith y gallai fod gofyn iddynt gadw atynt mewn gwahanol sefydliadau.

Mae'r gallu i gyflawni sgiliau lluosog yn ffactor mwyfwy pwysig ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiannau hyn, gan fod llawer o bapurau newydd a chylchgronau yn datblygu fersiynau ar-lein o'u cynnyrch papur ac yn defnyddio pecynnau caledwedd a meddalwedd mwyfwy soffistigedig i baratoi, dylunio a chreu eu cynnyrch.

Fel pob agwedd ar ddiwydiannau'r cyfryngau creadigol, mae diwydiannau'r cyfryngau printiedig yn dibynnu yn y pen draw ar gyfuniad o allu creadigol a chyllid cadarn, ac felly mae peth dealltwriaeth o economeg y diwydiannau hefyd yn ofynnol. Mae cynnyrch y diwydiannau yn targedu cynulleidfaoedd penodol, felly mae angen bod gan bawb sy'n gweithio yn y sector ddealltwriaeth gadarn o'r cyfyngiadau a'r arferion cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol sy'n helpu i sicrhau bod y cynulleidfaoedd hynny'n derbyn gwasanaeth priodol, ac sydd hefyd yn ffurfio a rheoli'r diwydiannau a'u cynnyrch.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig
- 2 Deall arferion gwaith a chontractau cyflogaeth a ddefnyddir yn gyffredin yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig
- 3 Deall materion ariannol a thueddiadau'r farchnad sy'n effeithio ar ddiwydiannau'r cyfryngau printiedig
- 4 Deall rhwymedigaethau cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig
- 5 Gallu paratoi deunydd datblygu gyrfa personol.

Cynnwys yr Uned

1 Deall strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig

Strwythurau trefniadol: cwmnïau cyhoeddi cenedlaethol a rhyngwladol; cyhoeddwr annibynnol lleol a rhanbarthol; sefydliadau statudol a gwirfoddol; adrannau (ymchwil, newyddiaduraeth, golygyddol, dylunio, ffotograffig, cynhyrchu, cyn mynd i'r wasg, argraffu, gorffeniad printio, cyhoeddi, gwerthiant, marchnata a dosbarthu)

Rolau swyddi: ymchwilydd; dylunydd graffeg; artist cynllun; ffotograffydd; newyddiadurwr; ysgrifennwr copi; is-olygydd; golygydd; argraffwr; cydlynnydd cynhyrchu; gorffennwr printio; gweithiwr gwerthiant; cyhoeddwr

2 Deall arferion gwaith a chontractau cyflogaeth a ddefnyddir yn gyffredin yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig

Arferion gwaith: camau cynhyrchu print; arddull tŷ; effaith technoleg ddigidol; dylanwadau hanesyddol; rôl undebau; penderfynyddion economaidd; allgyflenwi; is-gontractio; masnachfreintio; prentisiaethau; meithrin sgiliau lluosog; gwaith shifftiau; hyblygrwydd

Contractau cyflogaeth: mathau o gontract; (parhaol, dros dro, llawn-amser, rhan-amser, hunanliwtio, gwirfoddol); rheoliadau cyflogaeth; cyfleoedd cyfartal; Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran)2006

3 Deall materion ariannol a thueddiadau'r farchnad sy'n effeithio ar ddiwydiannau'r cyfryngau printiedig

Ariannol: ffynonellau incwm (hysbysebu, nawdd, pris y cynnyrch, cystadlaethau, llinellau ffôn premiwm); ffynonellau gwariant (staffio, llogi, prynu a chynnal a chadw cyfarpar, costau deunyddiau, ymchwil a datblygu, marchnata, hyrwyddo, dosbarthu); modelau busnes; cyfrifoldebau ariannol; paratoi cyllideb; costio ac amcangyfrif; systemau rheoli ac adrodd; dadansoddiadau adennill costau

Tueddiadau'r farchnad: cynnyrch a gwasanaethau; gweledigaeth o'r sefydliad; amcanion a nodau'r sefydliad; cystadleuwyr; cynulleidfa darged; tueddiadau'r farchnad ryngwladol a chenedlaethol; effaith technoleg newydd; cyfuno ffurfiau'r cyfryngau; amrywiaethu; rhyngwladoli

4 Deall rhwymedigaethau cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig

Cyfreithiol: gofynion rheoliadol; cydymffurfio; hawlfraint; masnachnodau; eiddo deallusol; enllib; iechyd a diogelwch; diogelu data; dirmyg llys; deunydd sy'n peri tramgwydd; deddfau seneddol, e.e. Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (a newidiadau diweddarach), Deddf Cyhoeddiadau Anwedus 1959 (a newidiadau diweddarach), Deddf Diogelu Data 1998

Moesegol: polisïau a gweithdrefnau; gofynion moesegol; pryderon a disgwyliadau cymdeithasol sy'n dod i'r amlwg; preifatrwydd; torri cyfrinachedd; cwynion; budd y cyhoedd; cynrychiolaeth, e.e. unigolion, grwpiau, crefyddau, materion

Cyrff proffesiynol: cyrff cyflogi; undebau; cyrff rheoleiddio, e.e. Comisiwn Cwynion y Wasg (PCC), Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA)

5 Gallu paratoi deunydd datblygu gyrfa personol

Dulliau recriwtio: y wasg genedlaethol; y wasg fasnachol; y rhyngwrwyd; clywed gan eraill; cysylltiadau personol; dyrchafiad mewnol; rhwydweithio; ffeiriau masnach

Sgiliau a chymwysterau: addysg a hyfforddiant, e.e. llawn-amser, rhan-amser, Lefel 2, Lefel 3, graddedig; dadansoddi sgiliau (sgiliau personol, sgiliau technoleg, anghenion hyfforddi, cynllun datblygiad personol); ffynonellau gwybodaeth, e.e. Cynghorau Sgiliau Sector, undebau llafur, gwasanaethau gyrfaedd

Sgiliau trosglwyddadwy: nodweddion personol, e.e. gwybodaeth a sgiliau, ymroddiad, effeithlonrwydd, dibynadwyedd, prydlondeb, hunan-gyflwyniad; sgiliau swyddogaethol (TGCh, Mathemateg, Saesneg/Cymraeg)

Cyflwyniad ar gyfer cyflogaeth: portffolio; gwefan bersonol; curriculum vitae (CV); llythyrau cais; sgiliau cyfweld; hunan-gyflwyniad (codau ieithyddol, codau gwisgo, sgiliau rhyngbersonol); geirdaon

Datblygiad gyrfa: hyfforddiant yn y gwaith; datblygiad proffesiynol parhaus; hunanhyfforddiant

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n gynhwysfawr strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio arferion gwaith a chontractau cyflogaeth yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T2 esbonio arferion gwaith a chontractau cyflogaeth yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n gynhwysfawr arferion gwaith a chontractau cyflogaeth yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 disgrifio materion ariannol a thueddiadau cyfredol y farchnad yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T3 esbonio materion ariannol a thueddiadau cyfredol y farchnad yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh3 esbonio'n gynhwysfawr materion ariannol a thueddiadau cyfredol y farchnad yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 disgrifio rhwymedigaethau cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol y rhai sy'n gweithio yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T4 esbonio rhwymedigaethau cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol y rhai sy'n gweithio yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh4 esbonio'n gynhwysfawr rhwymedigaethau cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol y rhai sy'n gweithio yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig, gydag enghreifftiau wedi'u hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol, gan ddefnyddio iaith ffurfiol sylfaenol. [DA]	T5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol wedi'i gynhyrchu'n ofalus, gan ddefnyddio iaith ffurfiol sy'n gywir at ei gilydd.	Rh5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol at safon sydd yn agos at fod yn broffesiynol, gan ddefnyddio iaith ffurfiol gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 12: Deall Diwydiant y Cyfryngau Rhyngweithiol

Côd yr Uned:	L/600/6686
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o'r strwythurau trefniadol a'r cyfleoedd cyflogaeth a geir yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol. Bydd dysgwyr yn edrych ar sut mae paratoi cynlluniau a deunydd datblygu gyrfa personol. Mae'r uned hefyd yn ymdrin â rhwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol a materion rheoliadol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'n anodd diffinio diwydiant y cyfryngau rhyngweithiol oherwydd ei dwf cyflym a'r ffaith ei fod yn gorgyffwrdd â llawer o ddiwydiannau eraill. Nododd cyfrifiad Skillset yn 2006 fod y diwydiant yn cyflogi rhyw 50,000 o bobl yn y DU ar y pryd, oedd yn golygu mae dyna ddiwydiant mwyaf y sector cyfryngau creadigol. Mae'r diwydiant yn creu amrywiaeth eang o gynnwys amlgyfrwng ar gyfer y rhynggrwyd, cyfrifiaduron, ciosgau, ffonau symudol, DVDs, teledu digidol, chwaraewyr cyfryngau a thechnolegau eraill sy'n dod i'r amlwg.

Yn ogystal â datblygu sgiliau ar gyfer rôl benodol yn y diwydiant, mae angen hefyd bod gan unigolion drosolwg o strwythur y diwydiant, a'u bod yn ymwybodol o sut mae eu rôl yn rhyngweithio ag eraill. Mae diwydiant y cyfryngau rhyngweithiol, wrth ehangu, yn cynnwys llawer o wahanol fathau o fusnesau, y mae ar bob un ohonynt angen unigolion sydd â sgiliau amlddisgyblaeth. Mae'r busnesau yn amrywio o ran maint o unigolion hunangyflogedig sy'n gweithio gartref i sefydliadau corfforaethol mawr sydd â miloedd o weithwyr. Mae llawer o'r gwaith yn cael ei wneud i gyrff eraill ac yn cael ei drefnu trwy gontractau neu is-gontractau, yn aml o ganlyniad i broses dendro.

Mae llwyddiant, parhad a datblygiad busnesau yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol yn dibynnu nid yn unig ar sgiliau creadigol a thechnegol, ond hefyd ar ddealltwriaeth ehangach o'r arferion proffesiynol sy'n hanfodol i weithio yn y diwydiant. Rhaid i ddysgwyr ddeall bod prosiectau'n cynnwys nifer o unigolion, a'u bod wedi eu rhwymo gan gyfyngiadau technegol, ariannol, cyfreithiol a rheoliadol. Mae angen hefyd iddynt ddeall y gwahanol strwythurau trefniadol sy'n gweithredu ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang, a dod i ddeall cyfleoedd cyflogaeth, rolau swyddi a datblygiad proffesiynol yn y diwydiant.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol
- 2 Deall tueddiadau cyfredol y farchnad yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol
- 3 Deall rhwymedigaethau contractiol, rheoliadol a moesegol yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol
- 4 Gwybod am gyfleoedd cyflogaeth yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol
- 5 Gallu paratoi deunydd datblygu gyrfa personol.

Cynnwys yr Uned

1 Deall strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol

Strwythurau trefniadol: sectorau'r diwydiant; mathau o gwmnïau; strwythur mewnol cwmni a'i adrannau

Rolau a chyfrifoldebau swyddi: meysydd trefniadol e.e. creadigol, technegol, golygyddol, marchnata, rheoli, gweinyddol, cyfreithiol, ariannol; mathau o swyddi, e.e. dylunio amlgyfrwng, cynhyrchu amlgyfrwng, datblygwr y we, delweddu ffotograffig, datblygwr cymwysiaid, dadansoddwr, strategydd cynnwys, pensaer gwybodaeth, animeiddiwr, awdur sgriptiau, arbenigwr ar optimeiddio peiriannau chwilio (SEO), arbenigwr ar ddefnyddiadwyedd, modelwr 3D, rhaglennydd, profwr sicrhau ansawdd; lefel o gyfrifoldeb, e.e. aelod o'r tîm, yn arwain, cynhyrchydd, rheolwr; patrymau gwaith (oriau swyddfa, oriau afreolaidd, cadeiriau poeth, hunanliwtio, contract cyfnod sefydlog, staff)

Setiau o sgiliau: creadigol; dylunio; technegol; busnes; entrepreneuriaeth; rheolaeth; marchnata

2 Deall tueddiadau cyfredol y farchnad yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol

Tueddiadau'r farchnad: cynnyrch a gwasanaethau; ymchwil a datblygiad; amrywiaeth cynnyrch; cylch datblygu cynnyrch; proffidioldeb yr ystod o gynnyrch; mesur perfformiad yn erbyn pryderon ariannol; gweledigaeth o'r sefydliad; amcanion a chynlluniau'r sefydliad; trwyddedau a masnachfreintiau; cystadleuwyr; cwsmeriaid; agwedd y sefydliad at risg; tueddiadau cyfredol y farchnad ryngwladol a chenedlaethol, e.e. datblygu Gwe 2.0, marchnata mewn bydoedd rhithwir

Tueddiadau'r diwydiant: hawliau eiddo; dilyniannau; gwerthiant am bris gostyngol; cymharu â meincnodau'r diwydiant, allgyflenwi; cydsoddi a chaffael

3 Deall rhwymedigaethau contractiol, rheoliadol a moesegol yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol

Contractiol: mathau o gontract; deiliaid fformat (trwyddedwyr, confensiynau enwi, golwg a theimlad); cyd-drafod contractau; cytundebau peidio â datgelu; prosesau comisiynu; costio; amserlennu; rheoli amser; rheoli risg; is-gontractio; allgyflenwi; gweithio'n unol â brîff; cosbau

Materion rheoliadol: mynediad; dewis defnyddwyr; rhyddid gwybodaeth; sensoriaeth; perchenogaeth; chwaeth a gwedduster; gofynion rheoliadol; cydymffurfio; hawlfraint; masnachnodau; eiddo deallusol; hygyrchedd; goblygiadau masnachfaint; trwyddedwyr; polisi iechyd a diogelwch; gofynion cyfreithiol, e.e. cyfraith preifatrwydd, cyfraith hawlfraint, hawliau eiddo deallusol, enllib, Deddf Cyhoeddiadau Anwedus 1959, Deddf Recordiadau Fideo 1984, Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006; safonau, e.e. safonau hygyrchedd y Worldwide Web Consortium (W3C) y we fyd-eang; cyrff rheoleiddio, e.e. Office of Communication (Ofcom), Safonau Masnach, Comisiwn Cwynion y Wasg (PCC), Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA), The Mobile Entertainment Forum (MEF), The International Visual Communication Association (IVCA), internet Service Providers' Association (ISPA), internet Watch Foundation (IWF), Search Engine Marketing Professional Organization (SEMPO), rheoleiddio gan ddarparwyr gwasanaeth ar y rhyngwrwyd; hunan-reoleiddio

Cyrff proffesiynol: British Interactive Multimedia Association (BIMA); British Computer Society; British Web Design and Marketing Association; UK Web Design Association; Association of Web Design Professionals; codau ymarfer cyrff proffesiynol

Moesegol: polisiâu a gweithdrefnau; gofynion moesegol; materion a sensitifwyrdd cymdeithasol, e.e. cynrychiolaeth rhyw, cynrychiolaeth credoau crefyddol; pryderon a disgwyliadau cymdeithasol sy'n dod i'r amlwg materion diwylliannol a iaith

4 Gwybod am gyfleoedd cyflogaeth yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol

Cyfleoedd cyflogaeth: llawn-amser; rhan-amser; hunanliwtio; gwaith shifftiau; parhaol; dros dro; sgiliau lluosog; gwirfoddol; achlysurol; talu fesul awr; gwaith gosod;

recriwtio (cyngor gyrfaoedd, ffeiriau masnach, y wasg genedlaethol, y wasg fasnachol, cysylltiadau personol, rhwydweithio, clywed gan eraill, y rhyngwrwyd)

Dulliau recriwtio: e.e. y wasg genedlaethol, y wasg fasnachol, y rhyngwrwyd, clywed gan eraill, cysylltiadau personol, dyrchafiad mewnol, rhwydweithio, ffeiriau masnach

Sgiliau trosglwyddadwy: nodweddion personol, e.e. gwybodaeth a sgiliau, ymroddiad, effeithlonrwydd, dibynadwyedd, prydlondeb, hunan-gyflwyniad; sgiliau swyddogaethol (TGCh, Mathemateg, Saesneg/Cymraeg); rheoli amser; cyfrifoldeb personol

Datblygiad proffesiynol: addysg bellach a hyfforddiant, e.e. llawn-amser, rhan-amser, graddau sylfaen, graddau baglor, graddau meistr; profiad gwaith; hyfforddiant yn y gwaith; dadansoddi sgiliau (sgiliau personol, sgiliau technoleg, anghenion hyfforddi, cynllun datblygiad personol); datblygiad proffesiynol parhaus; ffynonellau gwybodaeth, e.e. Skillset, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol; undebau llafur, gwasanaethau gyrfaoedd

5 Gallu paratoi deunydd datblygu gyrfa personol

Cyflwyniad ar gyfer cyflogaeth: portffolio; ffilm enghreifftiol, e.e. CD, DVD; gwefan bersonol; curriculum vitae (CV); llythyrau cais; sgiliau cyfweld; sgiliau cyflwyno; hunan-gyflwyniad (codau ieithyddol, codau gwisgo, sgiliau rhyngbersonol); geirdaon

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad yn'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n gynhwysfawr strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio tueddiadau cyfredol y farchnad yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T2 esbonio tueddiadau cyfredol y farchnad yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n gynhwysfawr dueddiadau cyfredol y farchnad yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 disgrifio rhwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol yn y diwydiant cyfryngau rhyngweithiol, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T3 esbonio rhwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh3 esbonio'n gynhwysfawr rwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol yn y diwydiant cyfryngau rhyngweithiol, gan gyfeirio at enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 disgrifio cyfleoedd cyflogaeth yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA, DA]	T4 esbonio cyfleoedd cyflogaeth yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh4 esbonio'n gynhwysfawr gyfleoedd cyflogaeth yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol, gyda chyfiawnhad ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, a rhan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol, gan ddefnyddio iaith ffurfiol sylfaenol. [DA]	T5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol wedi'i gynhyrchu'n ofalus, gan ddefnyddio iaith ffurfiol sy'n gywir at ei gilydd.	Rh5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol at safon sydd yn agos at fod yn broffesiynol, gan ddefnyddio iaith ffurfiol gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 13: Deall y Diwydiant Gemau Cyfrifiadur

Côd yr Uned:	A/600/6683
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r diwydiant gemau cyfrifiadur yn gweithredu. Bydd dysgwyr yn dadansoddi sefydliadau, materion ariannol a chyfyngiadau cyfreithiol, ac yn paratoi deunydd datblygu gyrfa. Bydd dysgwyr yn ymarfer technegau ffurfiol ar gyfer rheoli prosiectau.

Cyflwyniad i'r uned

Mae cyhoeddi gemau yn fusnes anferth. Mae'r diwydiant gemau cyfrifiadur wedi dod yn un o'r ffurfiau ar adloniant cyfryngau sy'n tyfu gyflymaf. Mae gwerthiant bydeang meddalwedd gemau yn fwy na £10 biliwn bob blwyddyn. Mae'r diwydiant gemau yn fwy amrywiol nag y gellid tybio ar y cychwyn. Yn ogystal â'r model traddodiadol cyhoeddwr-datblygwr-adwerthwr, mae dosbarthu ar-lein, chwarae diwifr a chwarae ar borwr yn bodoli, ac mae llawer rhan ddifrifol o ddiwydiannau eraill yn mabwysiadu technoleg gemau yn gyflym ar gyfer hyfforddiant ac efelychu.

Rhaid i'r rhai sy'n bwriadu gweithio yn y diwydiant hwn ddatblygu gwerthfawrogiad o sut mae'r diwydiant yn gweithredu, ac mae angen i bawb sydd am ymuno â'r diwydiant fod yn ymwybodol o rôl pob sefydliad ym maes cyhoeddi gemau. Pa swydd bynnag y maent yn bwriadu ei chyflawni, rhaid iddynt ddysgu am ymddygiad sefydliadol a sut mae perfformio mewn amgylchedd corfforaethol ac mewn busnes annibynnol llai. Bydd yr uned hon yn rhoi i ddysgwyr ddealltwriaeth gyffredinol o strwythurau trefniadol a'r amrywiol rolau swyddi y gallant anelu atynt yn y diwydiant gemau cyfrifiadur.

Mae busnes gemau cyfrifiadur yn dibynnu yn y pen draws ar greadigrwydd a chyllid, ac mae angen peth dealltwriaeth o economeg y busnes. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn dod i werthfawrogi'r costau, y trosiant a'r elw sydd ar gael i bob cwmni wrth ddatblygu, cyhoeddi a dosbarthu teitl. Dylent hefyd fod yn ymwybodol o dueddiadau'r farchnad sy'n effeithio ar y diwydiant.

Effeithir ar bawb sy'n gweithio ym maes gemau gan y cyfyngiadau cyfreithiol, yr ystyriaethau proffesiynol a'r rhwymedigaethau moesegol penodol a geir yn y diwydiant gemau cyfrifiadurol, a dylent eu deall. Dylai dysgwyr werthfawrogi contractau gwaith personol a'r mathau o gontract a geir rhwng sefydliadau'r diwydiant. Rhaid i bawb sy'n chwilio am swydd yn y diwydiant ddeall pwysigrwydd eiddo deallusol, ac mae'n hollbwysig eu bod yn datblygu dealltwriaeth o gyfyngiadau'r llywodraeth a chyfyngiadau cyrff rheoliadol sy'n effeithio ar yr hyn y maent yn ei greu.

Bydd yr uned yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dull proffesiynol o ymdrin â rheoli prosiectau. Bydd hynny'n amhrisiadwy mewn unrhyw yrfa yn y dyfodol. Bydd archwilio camau datblygiad gêm a sut rheolir y broses yn effeithiol â meddalwedd modern a dulliau eraill yn annog agwedd ddisgybledig at gynhyrchu prydlon ac effeithiol.

Yn olaf, bydd dysgwyr yn edrych ar sut mae paratoi cynlluniau a deunydd datblygu gyrfa personol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn y diwydiant gemau
- 2 Deall materion ariannol a thueddiadau cyfredol y farchnad sy'n effeithio ar y diwydiant gemau
- 3 Deall y rhwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol a geir yn y diwydiant gemau
- 4 Gallu defnyddio technegau rheoli prosiectau a ddefnyddir yn gyffredin yn y diwydiant gemau
- 5 Gallu paratoi deunydd datblygu gyrfa personol.

Cynnwys yr Uned

1 Deall strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn y diwydiant gemau

Strwythurau trefniadol: y math o gwmni (stiwdios datblygu, tai cyhoeddi, stiwdios annibynnol); adrannau (dylunio, cynhyrchu, rhaglennu, sicrhau ansawdd (SA), marchnata, dosbarthu, cyfreithiol)

Rolau swyddi: mathau o swyddi (modelwr 3D, animeiddiwr, artist, peiriannydd sain, dylunydd, awdur sgriptiau, dylunydd lefel, technegydd lleoli, cynhyrchydd, rhaglennydd, profwr sicrhau ansawdd); lefel o gyfrifoldeb (aelod o'r tîm, yn arwain, cynhyrchydd, rheolwr); patrymau gwaith (oriau swyddfa, oriau afreolaidd, cadeiriau poeth, hunanliwtio, contract cyfnod sefydlog, staff)

2 Deall materion ariannol a thueddiadau cyfredol y farchnad sy'n effeithio ar y diwydiant gemau

Ariannol: modelau busnes; systemau cyllidebol; cyfrifoldebau ariannol; paratoi cyllideb; gwerthuso perfformiad yn erbyn cyllidebau; cyfnodau cyllidebu; systemau rheoli ac adrodd; dadansoddiadau adennill costau; grwpiau ariannu; cerrig milltir; trwyddedwyr; masnachfreintiau

Tueddiadau'r farchnad: cynnyrch a gwasanaethau; gweledigaeth o'r sefydliad; amcanion a chynlluniau'r sefydliad; cystadleuwyr; cwsmeriaid; agwedd y sefydliad at risg; tueddiadau'r farchnad ryngwladol a chenedlaethol

Tueddiadau'r diwydiant: eiddo deallusol breiniol (IP); eiddo deallusol gwreiddiol; dilyniannau; gwerthiant am bris gostyngol; cymharu â'r diwydiant ffilmiau; allgyflenwi; cydsoddi a chaffael

3 Deall y rhwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol a geir yn y diwydiant gemau

Contractiol: mathau o gontract; deiliaid fformat (trwyddedwyr, confensiynau enwi, golwg a theimlad); cyd-drafod contractau; prosesau comisiynu; costio; amserlennu; rheoli amser; rheoli risg; is-gontractio; allgyflenwi; gweithio'n unol â brîff

Cyfreithiol: gofynion rheoliadol; cydymffurfio; hawlfraint; masnachnodau; hawliau eiddo deallusol; Pan European Game Information (PEGI); British Board of Film Classification (BBFC); goblygiadau masnachfaint; trwyddedwyr; polisi iechyd a diogelwch

Moesegol: polisiâu a gweithdrefnau; gofynion moesegol; pryderon a disgwyliadau cymdeithasol sy'n dod i'r amlwg

Cyrff proffesiynol: The Entertainment and Leisure Software Publishers' Association (ELSPA); The Independent Games Developers Association (IGDA); Women in Games; British Academy of Film and Television Arts (BAFTA); The Mobile Entertainment Forum (MEF)

4 Gallu defnyddio technegau rheoli prosiectau a ddefnyddir yn gyffredin yn y diwydiant gemau

Technegau: cylch bywyd y prosiect; cerrig milltir; dulliau ystwyth; meddalwedd, e.e. Microsoft Project; offer rheoli; siartiau llosgi lawr

Risgiau a threfniadau wrth gefn: nodi a rheoli risgiau posib; cynllunio wrth gefn; cyfleu gwybodaeth; prosesau ar gyfer gwerthuso llwyddiant

5 Gallu paratoi deunydd datblygu gyrfa personol

Dulliau recriwtio: e.e. y wasg genedlaethol, y wasg fasnachol, y rhynggrwyd, clywed gan eraill, cysylltiadau personol, dyrchafiad mewnol, rhwydweithio, e.e. aelodaeth o IGDA, cynadleddau a ffeiriau masnach

Sgiliau a chymwysterau: addysg a hyfforddiant, e.e. llawn-amser, rhan-amser, Lefel 2, Lefel 3, graddedig; dadansoddi sgiliau (sgiliau personol, sgiliau technoleg, anghenion hyfforddi, cynllun datblygiad personol); ffynonellau gwybodaeth, e.e. Cynghorau Sgiliau Sector, undebau llafur, gwasanaethau gyrfaedd

Datblygiad gyrfa: hyfforddiant yn y gwaith; datblygiad proffesiynol parhaus; hunan-hyfforddiant

Sgiliau trosglwyddadwy: nodweddion personol, e.e. gwybodaeth a sgiliau, ymroddiad, effeithlonrwydd, dibynadwyedd, prydlondeb, hunan-gyflwyniad; sgiliau swyddogaethol (TGCh, Mathemateg, Saesneg/Cymraeg)

Cais am gyflogaeth: portffolio, e.e. oriel ddigidol, ffilm enghreifftiol, gwefan bersonol; dogfennau cais (curriculum vitae (CV), llythyron cais, geirdaon); sgiliau chwilio am swydd, e.e. sgiliau cyfweld, sgiliau cyflwyno, sgiliau hunan-gyflwyniad (cod ieithyddol, cod gwisg, sgiliau rhyngbersonol)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn y diwydiant gemau, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn y diwydiant gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n gynhwysfawr strwythurau trefniadol a rolau swyddi yn y diwydiant gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio tueddiadau cyfredol y farchnad a materion ariannol yn y diwydiant gemau gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T2 esbonio tueddiadau cyfredol y farchnad a materion ariannol yn y diwydiant gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n gynhwysfawr dueddiadau cyfredol y farchnad a materion ariannol yn y diwydiant gemau, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 disgrifio rhwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol yn y diwydiant gemau, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T3 esbonio rhwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol yn y diwydiant gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh3 esbonio'n gynhwysfawr rwymedigaethau contractiol, cyfreithiol a moesegol yn y diwydiant gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cymhwyso technegau rheoli prosiectau i gyfarwyddo prosiect, gyda pheth cymorth [HR]	T4 cymhwyso technegau rheoli prosiectau i gyfarwyddo prosiect yn alluog, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh4 cymhwyso technegau rheoli prosiectau i gyfarwyddo prosiect at safon sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol, gan ddefnyddio iaith ffurfiol sylfaenol. [DA]	T5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol wedi'i gynhyrchu'n ofalus, gan ddefnyddio iaith ffurfiol sy'n gywir at ei gilydd.	Rh5 paratoi deunydd datblygu gyrfa personol at safon sydd yn agos at fod yn broffesiynol, gan ddefnyddio iaith ffurfiol gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 14: Gweithio ar eich Liwt eich Hun yn Sector y Cyfryngau Creadigol

Côd yr Uned:	F/600/6698
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o natur a rôl gwaith ar eich liwt eich hun yn sector y cyfryngau creadigol. Bydd y dysgwyr yn edrych ar agweddau cyfreithiol ac ariannol hunanliwtio, cynnal llif gwaith a datblygiad proffesiynol.

Cyflwyniad i'r uned

Bu datblygiadau arwyddocaol yn sector y cyfryngau creadigol yn ystod y degawdau diwethaf. I ryw raddau mae'r rhain wedi digwydd o ganlyniad i ddatblygiadau technolegol a newidiadau ehangach ym mherchenogaeth y cyfryngau, dadreoleiddio a phatrymau gwaith newidiol. Mae cynllun strategol Skillset 2005-08 yn adrodd sut bydd technolegau allweddol sy'n dod i'r amlwg yn dylanwadu ar newidiadau ym mhob diwydiant clyweledol, gan gynnwys technolegau di-wifr, consolau gemau'r genhedlaeth nesaf a thechnolegau symudol.

Mae'r tueddiadau a'r datblygiadau amrywiol hyn wedi cael effaith amlwg ar waith hunanliwtwyr. Ar y naill law, mae strwythurau trefniadol newydd cwmnïau cyfryngau wedi creu mwy o gyfleoedd ar gyfer y rhai sydd am weithio ar eu liwt eu hunainain. Ar y llall, gwrthbwsir y cyfleoedd hyn gan newidiadau i amodau gwaith y rhai sydd wedi gorfod ymgymryd â chontractau ar eu liwt eu hunain lle bu ganddynt ar un adeg swydd barhaol amser llawn yn y sector, a hefyd gan y nifer lluosog o raddedigion newydd yn y cyfryngau sy'n chwilio am waith.

Mae'r uned hon yn trafod rôl hunanliwtio yn gyffredinol, heb gyfeirio'n benodol at ddiwydiant arbennig nag arbenigedd cyfryngau, ac mae'n cyflwyno rôl yr hunanliwtiwr gyda'i holl bosibiliadau a chyfyngiadau, gan gynnwys yr angen am gynnal arferion gweithio diogel.

Yn yr uned bydd y dysgwyr yn dod i ddeall natur a rôl gwaith hunanliwtio yn sector y cyfryngau creadigol. Byddant yn ystyried y rhwymedigaethau contractiol a'r materion ariannol cysylltiedig. Bydd dysgwyr hefyd yn dod i ddeall mai un o brif ofynion gweithio ar eich liwt eich hun yw cynnal llif gwaith a sgiliau. Mae'r uned felly yn cwmpasu'r angen am ddatblygiad proffesiynol, aelodaeth o gyrff proffesiynol ac adborth ar y gwaith a wnaed.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall hunanliwtio yn sector y cyfryngau creadigol
- 2 Deall rhwymedigaethau contractiol a materion ariannol hunanliwtio yn sector y cyfryngau creadigol
- 3 Gallu cynllunio ar gyfer datblygiad proffesiynol a chynnal sgiliau fel gweithiwr ar ei liwt ei hun yn sector y cyfryngau creadigol
- 4 Gallu datblygu strategaeth i gynnal llif gwaith mewn arbenigedd hunanliwtio a ddewiswyd yn sector y cyfryngau creadigol.

Cynnwys yr Uned

1 Deall hunanliwtio yn sector y cyfryngau creadigol

Sector: diwydiannau, e.e. ffilmiau, teledu, radio, cyfryngau rhyngweithiol, gemau rhyngweithiol, newyddiaduraeth; arbenigedd, e.e. rhaglen ddogfen, fideos hyrwyddo, golygu, dylunio gwe, animeiddio, awdur sgriptiau, gweithiwr bwrdd stori, cynhyrchu cerddoriaeth, awdur geiriau caneuon, ffotograffydd, ysgrifennwr copi, golygydd copi, golygydd sain, arbenigwr effeithiau sain

Adnoddau: cyfarpar; deunyddiau; lle i weithio; cyllid; amser; personol

Proffesiynoldeb: dibynadwyedd; cadw at derfynau amser; rheoli amser; ymrwymiad; moeseg bersonol a phroffesiynol; perthnasoedd busnes; sgiliau cyflwyno; sgiliau cyfathrebu; côd gwisgo;

Iechyd a diogelwch: arferion gwaith diogel; diogelwch yr ardal waith; hunanddisgyblaeth; rheoli straen; rheoli amser; deiet ac ymarfer corff; cynllunio amser o'r gwaith; gwyliau; yswiriant

2 Deall rhwymedigaethau contractiol a materion ariannol hunanliwtio yn sector y cyfryngau creadigol

Contractiol: mathau o gontractau; cyd-drafod contractau; prosesau comisiynu; gweithio'n unol â brîff; cynigion a thriniaethau; costio a chyllidebau; amserlennu; rheoli risg; is-gontractio; hawlfraint; eiddo deallusol

Ariannol: trefniadau talu personol; anfonebu; cyfrifon; gorbenion; treuliau; treth incwm; TAW; Yswiriant Gwladol; yswiriant personol; pensiynau; defnydd o gyfrifyddion; cynlluniau a rhagfynegiadau busnes; opsiynau cyllido ac ariannu

3 Gallu cynllunio ar gyfer datblygiad proffesiynol a chynnal sgiliau fel gweithiwr ar ei liwt ei hun yn sector y cyfryngau creadigol

Archwiliad o sgiliau proffesiynol: cymwysterau; profiad; aelodaeth o gyrff proffesiynol; cryfderau; gwendidau; anghenion hyfforddiant; diweddarau sgiliau (Cronfa Buddsoddi mewn Sgiliau Skillset, gwasanaeth gyrfaedd Skillset, bwrsariaethau Freedom for Freelancers, Hyfforddiant Sgiliau Busnes i Hunanliwtwyr)

Cynnal sgiliau: cymwysterau; profiad; cael hyd i amser i ddatblygu sgiliau a dilyn hyfforddiant; dysgu rhan-amser; dysgu o bell; cyrsiau byr; dysgu gan weithwyr proffesiynol eraill; rhwydweithio; newyddiaduron masnach; cyrff proffesiynol e.e. British Interactive Multimedia Association (BIMA), British Film Institute (BFI), British Web Design and Marketing Association, British Academy of Film and Television Arts (BAFTA), UK Film Council, National Association of Broadcasters (NAB), Radio Centre, Independent Publishers Guild (IPG), Association of Online Publishers (AOP), Association of Learned and Professional Society Publishers, Producers' Alliance for Cinema and Television (PACT), New Producers' Alliance (NPA); undebau llafur, e.e. Broadcasting Entertainment Cinematograph and Theatre Union (BECTU), National Union of Journalists (NUJ)

Hunan-asesu: adborth gan gleientiaid; adborth gan gymheiriaid; hunan-adolygu; sesiynau hyfforddiant

4 Gallu datblygu strategaeth i gynnal llif gwaith mewn arbenigedd hunanliwtio a ddewiswyd yn sector y cyfryngau creadigol

Ffynonellau gwaith: gwefannau; asiantau ac asiantaethau; newyddiaduron masnach; digwyddiadau masnach; rhwydweithio; cynnal cysylltiadau; clywed gan eraill

Marchnata'r hunan: cardiau busnes; datblygu gwefan; curriculum vitae (CV); ffilm enghreifftiol; portffolio proffesiynol; rhwydweithio; datganiadau i'r wasg; deunydd hyrwyddo; gwyliau ffilmiau; arddangosfeydd

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio natur hunanliwtio yn sector y cyfryngau creadigol [YA]	T1 esbonio natur hunanliwtio yn sector y cyfryngau creadigol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny	Rh1 ystyried yn feirniadol natur hunanliwtio yn sector y cyfryngau creadigol, gyda dadleuon i'ch cynnal ac enghreifftiau wedi eu hegluro'n llawn
LI2 disgrifio'r rhwymedigaethau contractiol a'r materion ariannol sy'n berthnasol i hunanliwtio yn sector y cyfryngau creadigol [YA]	T2 esbonio'r rhwymedigaethau contractiol a'r materion ariannol sy'n berthnasol i hunanliwtio yn y sector cyfryngau creadigol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt	Rh2 ystyried yn feirniadol y rhwymedigaethau contractiol a'r materion ariannol sy'n berthnasol i hunanliwtio yn sector y cyfryngau creadigol, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro'n llawn
LI3 paratoi cynllun datblygiad proffesiynol a chynnal sgiliau ar gyfer gweithiwr ar ei liwt ei hun yn sector y cyfryngau creadigol gyda pheth cymorth [DA]	T3 paratoi'n alluog gynllun datblygiad proffesiynol a chynnal sgiliau ar gyfer gweithiwr ar ei liwt ei hun yn sector y cyfryngau creadigol gyda chymorth achlysurol yn unig	Rh3 paratoi, at safon sydd bron â bod yn broffesiynol, gynllun datblygiad proffesiynol a chynnal sgiliau ar gyfer gweithiwr ar ei liwt ei hun yn sector y cyfryngau creadigol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 paratoi strategaeth i gynnal llif gwaith mewn arbenigedd hunanliwtio o'ch dewis yn sector y cyfryngau creadigol, gyda pheth cymorth. [MC]	T4 paratoi strategaeth yn ofalus ac yn alluog i gynnal llif gwaith mewn arbenigedd hunanliwtio o'ch dewis yn sector y cyfryngau creadigol, gyda chymorth achlysurol yn unig.	Rh4 paratoi at safon sydd bron â bod yn broffesiynol, strategaeth i gynnal llif gwaith mewn arbenigedd hunanliwtio a ddewiswyd yn sector y cyfryngau creadigol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 15: Datblygu Busnes Bach yn Niwydiannau'r Cyfryngau Creadigol

Côd yr Uned:	K/600/6615
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i'r sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol i gychwyn busnes cyfryngau bychan llwyddiannus. Byddant hefyd yn ymchwilio i ystyriaethau ariannol a chyfreithiol perthnasol. Bydd dysgwyr yn archwilio syniad busnes posib ac yn cynhyrchu cynllun busnes priodol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae sector y cyfryngau wedi bod yn symud yn araf i ffwrdd oddi wrth gwmnïau mawr gyda staff yn gweithio ar gontractau parhaol at gwmnïau bach sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau cynhyrchu ac sy'n aml yn cyflogi eu gweithlu dros dro neu ar eu liwt eu hunain ar gyfer prosiectau penodol. Gwelwyd hyn ar draws y sector wrth i'r angen am fuddsoddiad mewn technoleg ar raddfa fawr symud i gymwysiadau digidol ar raddfa lai. Bellach mae llawer o bobl sydd â'u cwmnïau eu hunain, ac mae nifer cynyddol o fasnachwyr unigol yn gweithredu yn niwydiant y cyfryngau. Mae'n bosib bod llawer o gwmnïau cyfryngau yn gweithredu o safleoedd bychain iawn, ond mae ganddynt y gallu i gynhyrchu deunydd i'r safon broffesiynol uchaf.

Bydd yr uned hon yn cyflwyno dysgwyr i'r ffactorau y bydd angen iddynt eu hystyried wrth ddatblygu a rhedeg eu busnes eu hunain yn sector y cyfryngau. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall goblygiadau rhedeg eu busnes eu hunain. Rhaid iddyn nhw roi sylw i'r amser a'r costau sydd ynghlwm wrth gadw cofnodion gofalus o'u gweithgareddau busnes a'r incwm a gynhyrchir, nid yn unig er mwyn cynllunio llif arian, ond hefyd at ddibenion treth, cyfrifon a chynllunio. Mae angen hefyd iddynt ddeall ffactorau eraill megis rhwydweithio er mwyn cael hyd i waith a'i gadw.

Mae angen i bobl fod yn entrepreneuriaid os ydynt i lwyddo yn y sector hwn.

Gellir dysgu llawer o'r sgiliau angenrheidiol i redeg busnes llwyddiannus mewn amgylchedd astudiaethau busnes. Fodd bynnag, mae angen cysylltu'r sgiliau hyn â meysydd penodol yn sector y cyfryngau creadigol er mwyn i'r busnes ganolbwyntio ar arferion busnes priodol i'r cyfryngau bychain. Gellir datblygu rhai o'r sgiliau angenrheidiol i lwyddo yn sector y cyfryngau trwy brosiectau a gyflawnir mewn rhannau eraill o'r cymhwyster hwn.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall y sgiliau a'r adnoddau y mae eu hangen ar gyfer busnes bach yn sector y cyfryngau creadigol
- 2 Gwybod am agweddau cyfreithiol ac ariannol ar sefydlu busnes bach
- 3 Gallu cynhyrchu cynnig ar gyfer cychwyn busnes bach yn sector y cyfryngau creadigol.

Cynnwys yr Uned

1 Deall y sgiliau a'r adnoddau y mae eu hangen ar gyfer busnes bach yn sector y cyfryngau creadigol

Sgiliau: creadigol; gwerthiant; marchnata; rheoli; ariannol; technegol; gweithredol (cofnodi a gwirio perfformiad y busnes, gweinyddu, cynllunio, amserlennu); cryfderau a gwendidau; profiad blaenorol; hunan-gyflwyniad; cyflwyniad corfforaethol

Adnoddau: lleoliad a chyfleusterau (cost, hygyrchedd, cyfathrebu, caledwedd, meddalwedd, gofynion o ran arwynebedd llawr, cyfle i ehangu neu grebachu, potensial i allgyflenwi gweithrediadau allweddol); cyflenwyr; darparwyr gwasanaethau; gofynion o ran asedau; cymorth proffesiynol; hyfforddiant

2 Gwybod am agweddau cyfreithiol ac ariannol ar sefydlu busnes bach

Statws cyfreithiol: unig fasnachwr; partneriaeth; cwmni cyfyngedig; memorandwm ac erthyglau cymdeithas; atebolrwydd cyfyngedig; cwmni cydweithredol

Agweddau cyfreithiol: cyfreithiau cenedlaethol; rheoliadau a chyfreithiau lleol; iechyd a diogelwch; rheoliadau tân; atebolrwydd cyfreithiol; yswiriant; caniatâd cynllunio; contractau; dyletswyddau a chyfrifoldebau; cyfraith cyflogaeth; cyrff rheoleiddio; ffynonellau cyngor, e.e. cyfreithwyr, cyfrifyddion, gwasanaethau busnesau bach; meddalwedd a thrwyddedau TG eraill; strategaeth ac amddiffyniad ar gyfer eiddo deallusol

Treth: atebolrwydd o ran treth (atebolrwydd treth personol, treth gorfforaethol, PAYE (Talu wrth Ennill)); yswiriant gwladol; TAW

Ffynonellau cyllid: gofynion cyllid, yn enwedig yn y cyfnodau cychwynnol; cyfeirio a defnyddio cyfalaf menter yn erbyn cyllid bancio; manteision cymharol elw argadwedig neu brydlesu; adenillion a ragwelir ar fuddsoddiad neu gyfalaf a ddefnyddiwyd; benthyciadau; gorddrafftiau; chynlluniau benthyciadau a grantiau'r llywodraeth; cynlluniau cychwyn busnes; amrywiadau lleol a rhanbarthol; ariannu arbennig ar gyfer prosiectau; cymorthdaliadau cyflogaeth

Systemau ariannol: hyfywedd ariannol; dyledion; meintiau elw; llif arian; cyfran o'r farchnad a bod yn fregus; cyllideb goroesiad personol; costau gorbenion (adeiladau, cyfarpar, cyflenwadau, costau rhedeg, talu staff, treuliau marchnata, treuliau datblygu'r busnes, pensiynau, masnach a thanysgrifiadau eraill); rhagfynegi llif arian; cadw cofnodion; anfonebu; tracio taliadau; systemau meddalwedd cyfrifyddol

Rheoli credyd: pwysigrwydd rheoli credyd; technegau rheoli credyd syml

3 Gallu cynhyrchu cynnig ar gyfer cychwyn busnes bach yn sector y cyfryngau creadigol

Syniadau: cysylltiedig â'ch sgiliau cyfryngau eich hun; y galw gan gynulleidfa neu gleient; dilyniant gwaith

Ffynonellau gwaith: tueddiadau'r farchnad; y galw am fusnesau newydd; ymchwil marchnad; ymchwil a gyhoeddwyd; perthnasoedd rhyngddibynnol gyda chwmnïau eraill; tueddiadau cystadleuwyr

Staffio: proffil sgiliau'r staff; recriwtio; hyfforddiant; monitro perfformiad; addasu sgiliau

Cynnig busnes: adolygu gwybodaeth a syniadau; gosod targedau a nodau; diben y cynllun; elfennau (y math o fusnes, cleientiaid tebygol, y farchnad, cystadleuwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol); adnoddau (personél, corfforol, ariannol, darparwyr gwasanaethau); rhagolygon ariannol ac elw; cyfleoedd i dyfu a datblygu; Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT); nodweddion unigryw; trefniadau wrth gefn

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio'r sgiliau a'r adnoddau y mae eu hangen i ddatblygu busnes bach yn sector y cyfryngau creadigol, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio'r sgiliau a'r adnoddau y mae eu hangen i ddatblygu busnes bach yn sector y cyfryngau creadigol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drylwyr y sgiliau a'r adnoddau y mae eu hangen i ddatblygu busnes bach yn sector y cyfryngau creadigol, gydag enghreifftiau wedi'u hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio'r agweddau cyfreithiol ac ariannol ar gychwyn busnes bach, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [DA]	T2 esbonio'r agweddau cyfreithiol ac ariannol ar gychwyn busnes bach, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n drwyadl yr agweddau cyfreithiol ac ariannol ar gychwyn busnes bach, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 paratoi cynnig priodol ar gyfer cychwyn busnes bach yn sector y cyfryngau creadigol gyda pheth cymorth. [HR]	T3 paratoi cynnig galluog ar gyfer cychwyn busnes bach yn sector y cyfryngau creadigol heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 paratoi cynnig ar gyfer cychwyn busnes bach yn sector y cyfryngau creadigol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 16: Technegau Golygu Ffilm a Fideo

Côd yr Uned:	F/502/5676
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau'r dysgwyr o ran prosesau ôl-gynhyrchu delweddau symudol, a'u dealltwriaeth o'r prosesau hynny. Bydd dysgwyr yn gwneud hyn trwy archwilio arfer proffesiynol golygu, a datblygu eu sgiliau technegol a chreadigol eu hunain. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu dealltwriaeth o sut gall eu gwaith effeithio ar ganlyniad terfynol cynhyrchiad.

Cyflwyniad i'r uned

Mae golygu deunydd ffilm neu fideo yn rhan hanfodol o unrhyw gynhyrchiad clyweledol. Heb y broses o ddileu, ychwanegu a manipwleiddio'r deunydd gwreiddiol, byddai rhaid saethu pob ffilm a fideo mewn dilyniant, heb wneud camgymeriadau.

Mae'r broses olygu yn cynnwys gwneud penderfyniadau creadigol ynghylch y deunydd gwreiddiol. Mae'n gyfle i greadigrwydd y cyfnod ffilmio barhau nes cyrraedd y cynnyrch gorffenedig.

Trwy astudio datblygiad ac egwyddorion golygu, bydd dysgwyr yn cael cipolwg ar 'iaith' golygu a'r confensiynau technegol a ddefnyddir gan olygyddion i gyfathrebu â chynulleidfaoedd.

Bydd sgiliau'n cael eu hymarfer trwy olygu deunydd fideo neu, lle bo cyfleusterau'n caniatáu, ffilm. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu dealltwriaeth o sut gall eu gwaith effeithio ar ganlyniad terfynol cynhyrchiad.

Bydd dysgwyr yn gallu arbrofi gyda phrosesau golygu a defnyddio eu sgiliau i gynhyrchu eu ffilm a'u cynnyrch fideo eu hunain Dylen nhw ddysgu nad proses dechnegol yn unig yw golygu, ond ei bod hefyd yn esthetig, a dylent allu dangos y ddealltwriaeth honno trwy eu harfer a'u mynegiant o egwyddorion.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall datblygiad ac egwyddorion golygu
- 2 Gallu paratoi deunydd delweddau symudol ar gyfer ei olygu
- 3 Gallu golygu deunydd delweddau symudol.

Cynnwys yr Uned

1 Deall datblygiad ac egwyddorion golygu

Datblygiad: golygu yn y camera; dilyn yr hyn sy'n digwydd; safbwyntiau lluosog; amrywio saethiadau; manipwleiddio cynefin amser a gofod; ffilm, fideo; analog; digidol

Dibenion: adrodd stori, e.e. creu cysylltiad â'r gwylwr, datblygu drama, y berthynas â'r genre, creu symbyliad; cyfuno saethiadau yn ddilyniannau; creu cyflymdra

Confensiynau a thechnegau: di-fwlch; dilyniant; wedi'i symbylu; montage; torri a neidio; golygu paralel; rheol 180°; sbleisio; pontio, e.e. torri, toddi, pylu, sychu; torri i ffwrdd; saethiad safbwynt; saethu-yn ôl-saethu; darparu gwybodaeth a'i dal yn ôl; rhythm golygu; trawstorri; torri i'r trac sain

2 Gallu paratoi deunydd delweddau symudol ar gyfer ei olygu

Technegau paratoi: gwirio deunydd am wallau; cydamseru brysluniau; cynhyrchu log brysluniau; marcio sgript; labelu tapiau; storio tapiau neu ffilm; cynhyrchu rhestr o'r penderfyniadau golygu; creu biniau; egluro pwrpas y gwaith gyda chleient neu gyfarwyddwr

Paratoi i olygu: mewnfario clipiau; biniau; llinellau amser; rheoli ffolderi a storio; golygu ar-lein ac oddi ar lein; fformatau; cydraniad

3 Gallu golygu deunydd delweddau symudol

Technoleg olygu: cymwysiadau meddalwedd; caledwedd, e.e. llinell, heb fod yn llinol; clirlun; diffiniad safonol; tapiau; disg caled; cyflymdra trosglwyddo data; allforio cynyrchiadau; mathau o ffeiliau, e.e. mov, avi, flv; cywasgu

Y broses olygu: defnyddio technegau priodol, e.e. di-fwlch, dilyniant, wedi'i symbylu, montage, torri a neidio, golygu paralel; defnyddio pontio priodol, e.e. torri, toddi, pylu, sychu; defnyddio confensiynau priodol, e.e. torri i ffwrdd, torri ar weithred, creu cyferbyniad, rhyngdorri; cyflymdra effeithiol; cyfleu gwybodaeth yn effeithiol; defnyddio sain i greu effaith; cydamseru sain a golygfeydd; cyfuno traciau sain; gorgyffwrdd sain; golygu oddi ar lein; golygu ar-lein

Offer ôl-gynhyrchu: testun ar y sgrîn; golygu delweddau; golygu sain

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio datblygiad ac egwyddorion golygu, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio datblygiad ac egwyddorion golygu, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 asesu'n feirniadol ddatblygiad ac egwyddorion golygu, gyda dadleuon cefnogol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cymhwyso technegau paratoi i olygu gyda pheth cymorth	T2 cymhwyso technegau paratoi i olygu yn alluog, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cymhwyso technegau paratoi i olygu o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cymhwyso technegau golygu, gan weithio o fewn confensiynau priodol, a chyda pheth cymorth. [MC]	T3 cymhwyso technegau golygu i safon dechnegol dda, gan arddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 cymhwyso technegau golygu i safon dechnegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan arddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 17: Prosesau a Thechnegau Cynhyrchu Sain

Côd yr Uned:	M/600/0119
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw annog dysgwyr i symud y tu hwnt i ddefnydd sylfaenol o gyfarpar sain, gan ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o sain ac acwsteg, ynghyd â thechnegau ar gyfer sgiliau cipio, cymysgu a golygu sain.

Cyflwyniad i'r uned

Ni ddylid byth danamcangyfrif pwysigrwydd sain a cherddoriaeth i gynyrchiadau cyfryngau. Mae sain a cherddoriaeth nid yn unig yn creu naws ac yn pwysleisio cynnwys emosiynol y cynhyrchiad, ond hefyd yn helpu i hoelio sylw'r gwyliwr neu'r gwrandawr ar y cynnwys gweledol. Mae ansawdd sain a'i ddyluniad yn hanfodol ar gyfer pob agwedd ar y cyfryngau, yn cynnwys ffilm, teledu, darlledu radio, podlediadau a darlledu ar y rhynggrwyd. Wrth i ansawdd cyfarpar domestig wella, ac i fwy o bobl brynu systemau sain amgylchynol, bydd defnyddwyr yn mynnu cael sain o ansawdd uwch yn barhaus. Bydd hyn yn berthnasol i bob maes, o ddramâu cyfnod, rhaglenni dogfen, chwaraeon a darllediadau newyddion, i ddarllediadau animeiddio, gemau a cherddoriaeth fyw.

Mae gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant yn gwybod bod eglurder a sain groyw yn hollbwysig. Cynhyrchir yr eglurder hwn trwy gymhwyso gwybodaeth dda am egwyddorion sylfaenol technegau recordio a chynhyrchu sain, sy'n golygu bod modd clywed deialog, bod cydbwysedd cywir mewn cerddoriaeth ac effeithiau, a thriniaeth briodol o sain ar gyfer gwahanol gyfryngau darlledu. Bydd datblygu dealltwriaeth o iaith sylfaenol sain, ynghyd â sgiliau gwranddo cysylltiedig, yn helpu dysgwyr i werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith dysgwyr eraill yn feirniadol, a'i gymharu â gwaith ymarferwyr yn y gorffennol a'r presennol.

Mae'r uned hon yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu y tu hwnt i ddefnydd sylfaenol o gyfarpar sain a radio, gan estyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion technegol trwy fewnbwn damcaniaethol ac ymchwilio. Mae'n rhoi cyfle i ddysgwyr ymagweddu'n arbrofol, gan gaffael sgiliau cynhyrchu newydd a darganfod effeithiau newid cyfarpar neu leoliad ar sain a recordiwyd. Bydd dysgwyr yn datblygu eu technegau golygu ac ôl-gynhyrchu a'u dealltwriaeth dechnegol ac esthetig o gynhyrchu sain a cherddoriaeth ar gyfer cynnyrch cyfryngau. Ni fwriedir i ddysgwyr astudio mathemateg a ffiseg sain yn yr uned hon.

Mae pwyslais ar sgiliau gwrando, sgiliau cyfathrebu ac egwyddorion sylfaenol peirianeg sain yn cyfateb i ddisgwyliadau'r diwydiant gan ddysgwyr. Mae cyflogwyr yn y diwydiant yn chwilio am sgiliau cyfathrebu da yn ogystal ag arbenigedd technegol, ac mae cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cyfathrebu yn yr uned hon.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall nodweddion amgylcheddau acwstig gwahanol yng nghyswllt recordio sain
- 2 Deall confensiynau wrth gynhyrchu ac ôl-gynhyrchu sain
- 3 Gallu cipio a recordio sain o wahanol ffynonellau
- 4 Gallu cymysgu a golygu sain a recordiwyd.

Cynnwys yr Uned

1 Deall nodweddion amgylcheddau acwstig gwahanol yng nghyswllt recordio sain

Acwsteg o dan do: egwyddorion sain ac acwsteg; acwsteg mewn stiwdio; ystafell fyw; ystafell farw; recordio ar y safle; mathau o arwynebau a'u nodweddion; dirgryniad; triniaeth gwrthsain; gwneud yn fawr o'r ardaloedd acwstig sydd ar gael; sgrinio

Acwsteg yn yr awyr agored: digwyddiadau ar y pryd; tameidiau sain; awyrgylch cefndir; sŵn sŵn diangen; naws ddiangen; sŵn sŵn y gwynt

Acwsteg wedi'i hefelychu: unedau effeithiau; prosesyddion; cywasgu a chyfyngu; meddalwedd gyfrifiadurol; sain amgylchynol; mono; stereo; sianeli lluosog; gwedd; pitsh; oediad amser; recordio anuniongyrchol

2 Deall confensiynau wrth gynhyrchu ac ôl-gynhyrchu sain

Confensiynau technegol: cynllun a gweithrediad y stiwdio; fformatau recordio a chwarae yn ôl; trosglwyddo ffeiliau a safleoedd trosglwyddo; systemau recordio llinol a heb fod yn llinol; ISDN; ffôn; llinellau oedi; rhegi a chablu; effeithiau; dilyniannau; cyfnodau a phrosesau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu; rolau cynhyrchu

Materion cyfreithiol: hawlfraint; hawliau perfformio; trwyddedau; contractau

3 Gallu cipio a recordio sain o wahanol ffynonellau

Cipio sain: darllediadau stiwdio a'r tu allan; cyfweliadau; awyrgylch; perfformiadau byw a chynadleddau; monolog; deialog; dadl grŵp; rhyngweithio gan gynulleidfa; cyfranogiad

Mathau o feicroffonau a'u nodweddion: deinamig; cynhwysydd; cyddwysydd trydan; rhuban; carbon; offer llaw grisial; stondin; clip tei; reiff; bŵm; diagramau pegynnol cysylltiedig (omni, cardioid, hyper-cardioid); meicroffonau radio

Ffynonellau wedi eu recordio ymlaen llaw: DVD; CD; tâp; disg caled; fformatau ffeiliau sain MiniDisc™, e.e. MP3; trawsnewid ffeiliau; recordiadau sydd fel petaent yn fyw; recordiadau byw; cyngherddau; deunydd cyfweliadau; sylwebaeth; deunydd llyfrgell

Cyfarpar recordio: rhyngwynebau; ceblau a chymarebau pŵer; mewnbwn ac allbwn cymysgyddion; llif a lefelau signal; mesur a monitro; croywder y signal sain; chwistrelliad uniongyrchol; aml-drac; recordio stereo ac un trac; recordio analog; recordio digidol; llinol; anllinol; CD; DVD; disg caled

4 Gallu cymysgu a golygu sain a recordiwyd

Cymysgu sain: ar gyfer y radio; ar gyfer cerddoriaeth; sain ar gyfer gemau; cymysgu ar gyfer rhyddhau record; posibiliadau cynhyrchu; ôl-gynhyrchu sain; sain byw; recordiadau; recordiadau stiwdio; analog; meddalwedd gyfrifiadurol; cywasgu a chyfartalu; defnyddio dirgryniad ac effeithiau; cydamseru; meddalwedd recordio a dilyniannu; midi; syntheseiddyddion; meddalwedd sampl

Golygu: llafar; cerddoriaeth; sŵn cefndir a naws; cynnwys; cywiriadau; golygu llinol; golygu anllinol; rhestrau golygu; rhestrau chwarae

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio nodweddion gwahanol amgylcheddau acwstig yng nghyswllt recordio sain, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio nodweddion gwahanol amgylcheddau acwstig yng nghyswllt recordio sain, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio nodweddion gwahanol amgylcheddau acwstig yn drwyadl yng nghyswllt recordio sain, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio confensiynau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu sain, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [HR]	T2 esbonio confensiynau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu sain gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio confensiynau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu sain yn drwyadl, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 cynhyrchu sain wedi ei recordio o amrywiaeth o ffynonellau gyda pheth cymorth [MC]	T3 cynhyrchu sain wedi ei recordio o amrywiaeth o ffynonellau i safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynhyrchu sain wedi ei recordio o amrywiaeth o ffynonellau i safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI4 cynhyrchu traciau sain wedi eu cymysgu a'u golygu, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol a chyda pheth cymorth. [MC]	T4 cynhyrchu traciau sain wedi eu cymysgu a'u golygu i safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh4 cynhyrchu traciau sain wedi eu cymysgu a'u golygu at safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 18: Cynhyrchu Cyfryngau Printiedig

Côd yr Uned:	K/600/6663
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r technegau a'r dechnoleg cynhyrchu print a ddefnyddir yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig, gan roi cyfle iddynt ddangos eu dysgu trwy amrywiaeth o weithgareddau ymarferol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r cynnyrch a greir yn niwydiannau'r cyfryngau printiedig yn amrywio'n aruthrol, ac yn cynnwys llyfrau, papurau newydd, cylchgronau, delweddau celfyddyd gain, cartonau a mathau eraill ar becynnu, hysbysebu a deunydd cyhoeddusrwydd arall. Mae technoleg ddigidol wedi parhau i ddatblygu ac wedi cynyddu'r cyfleoedd yn sylweddol i gynhyrchwyr deunydd printiedig unigol sefydlu eu busnesau eu hunain neu ddefnyddio technoleg i greu eu cynnyrch printiedig a'u deunydd cyhoeddusrwydd proffesiynol eu hunain.

Mae diwydiannau'r cyfryngau printiedig wedi parhau i groesawu technoleg ddigidol yn eu prosesau cynhyrchu, er bod gweisg mecanyddol yn dal i gael eu defnyddio mewn nifer sylweddol o gwmnïau, gyda'r prosesau traddodiadol â llaw bellach yn gwasanaethu marchnad arbenigol fach iawn.

Bydd disgwyl i ddysgwyr ymchwilio ac adnabod gwahaniaethau cymhwysiad ac 'addasrwydd at y diben' amrywiaeth o brosesau, a hynny o ran eu sensitifrwydd esthetig a dadansoddiad logisteg, megis cadw at derfynau amser a chyfyngiadau cyllidebol. Cyflwynir y dysgwyr i ffyrdd o ddatblygu syniadau ar gyfer cynnyrch printiedig. Bydd yr uned yn cynnwys gwaith ymarferol, sy'n rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu sgiliau o ran dylunio a pharatoi deunydd ar gyfer cynhyrchu print.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall technegau a thechnoleg cynhyrchu cyfryngau printiedig
- 2 Gallu datblygu syniadau a chynnig dyluniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau printiedig
- 3 Gallu cynhyrchu cynnyrch cyfryngau printiedig
- 4 Gallu myfyrio ar eu gwaith cynhyrchu cyfryngau printiedig eu hunain.

Cynnwys yr Uned

1 Deall technegau a thechnoleg cynhyrchu cyfryngau printiedig

Technegau a thechnoleg: â llaw, e.e. ysgythru, intaglio, torlun leino, sgrîn-brintio, torlun pren, lithograffeg; mecanyddol, e.e. llythrenwasg, grafur, proses sgrîn; digidol, e.e. llungopïo, argraffu laser, chwistrelliad inc, cyhoeddi pen desg, printio sgrîn digidol

Adnabod gwahaniaethau: o ran y copi; delwedd; deunyddiau; rhediad argraffu; cost

Defnyddiau: argraffu papurau newydd; argraffu cylchgronau; argraffu llyfrau; mewol (swyddfeydd, y sectorau preifat a chyhoeddus); argraffwyr masnachol

Manteision ac anfanteision: y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen; costau; cyflymdra; ystyriaethau esthetig; ystyriaethau technegol

2 Gallu datblygu syniadau a chynnig dyluniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau printiedig

Cynhyrchu syniadau: meddwl yn greadigol, e.e. mapio meddwl, tasgu syniadau, trafodaeth grŵp; ymchwil, e.e. arfer masnachol yn awr ac yn y gorffennol; ymatebion i'r briff; casglu adborth; cyflwyno syniadau; syniadau cofnodi, e.e. nodiadau, brasluniau, collage, lluniau arbrofol

Creu dyluniad gwreiddiol: cynllunio cychwynnol, e.e. brasluniau bawd, taflenni syniadau; lluniadau cysyniadol, e.e. yn defnyddio testun, teipograffeg, darluniad, llinell, tŵn, lliw; ymwybyddiaeth o ddulliau â llaw, mecanyddol a digidol

Cynnyrch: e.e. cynhyrchu papurau newydd, cynhyrchu cylchgronau, deunydd cyhoeddusrwydd, pecynnu, llyfrau, print celfyddyd gain

Ystyriaethau: costau; yr adnoddau sydd ar gael; nifer; cynulleidfa; marchnad darged; ffactorau ansawdd; materion cyfreithiol a moesegol

Paratoi cyn mynd i'r wasg; e.e. rhoi'r dudalen at ei gilydd, prosesu ffilm, prawfddarllen, gwaith digidol cyn mynd i'r wasg

Ar y wasg: e.e. papur, inc, cemegion

Gorffeniad print: e.e. plygu, rhwymo, lamineiddio, boglynnu

3 Gallu cynhyrchu cynnyrch cyfryngau printiedig

Digidol: creu testun gwreiddiol; delwedd; deunydd ffotograffig ar gyfer gwaith digidol cyn mynd i'r wasg; prawfddarllen ac argraffu; ffurf luosog neu unwaith ac am byth, e.e. llungopïo, argraffu laser, cyhoeddi pen desg

Mecanyddol: e.e. grafur, proses sgrîn, lithograffeg offset, y we, fflecsograffeg, llythrenwasg

Paratoi: gosod, e.e. cludydd delwedd, y wasg; dethol, e.e. papur, inc, lliw(iau), cymysgu inc, cofrestru lliwiau

Defnyddiau a chynnyrch: addasrwydd at y diben, e.e. rhediadau argraffu, cwmpas y dudalen; ystod, e.e. cynhyrchu papurau newydd, cynhyrchu cylchgronau, deunydd cyhoeddusrwydd, pecynnu, llyfrau, taflenni, poster, cartwnau, print celfyddyd gain

4 Gallu myfyrio ar eu gwaith cynhyrchu cyfryngau printiedig eu hunain

Iaith weledol: cyfansoddiad (cyfosodiad, cysylltiad); creu delwedd, e.e. ffurf, gwead, siâp, patrwm, llinell, tŵn, lliw; cynrychiolaeth, e.e. symbolau, trosiad, semioteg, cynodiad

Cynulleidfaoedd: e.e. grŵp cymdeithasol, rhyw, grŵp cyfoedion, galwedigaethol, gwleidyddol

Cyd-destun hanesyddol a diwylliannol: e.e. cymdeithasol, crefyddol, gwleidyddol, economaidd, cyfeiriadau at gelf a dylunio, diwylliant poblogaidd

Cynnyrch gorffenedig: gwireddu bwriadau; addasrwydd at y diben; ymateb i adborth; nodweddion technegol; nodweddion esthetig; y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd

Prosesau cynhyrchu: cymwyseddau technegol; gallu creadigol; rheoli amser

Ffynonellau gwybodaeth: hunan-werthuso; dogfennaeth, e.e. syniadau, nodiadau, logiau cynhyrchu, brasluniau, printiau arbrofol, nodiadau ar gynhyrchwyr masnachol neu broffesiynol a chynnyrch printiedig; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio gwahanol fathau o dechnegau a thechnoleg cynhyrchu cyfryngau printiedig, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio gwahanol fathau o dechnegau a thechnoleg cynhyrchu cyfryngau printiedig, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drwyadl wahanol fathau o dechnegau a thechnoleg cynhyrchu cyfryngau printiedig, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynhyrchu syniadau a chreu dyluniadau gwreiddiol ar gyfer cynnyrch cyfryngau printiedig, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chyda pheth cymorth [MC]	T2 cynhyrchu syniadau a chreu dyluniadau gwreiddiol effeithiol ar gyfer cynnyrch cyfryngau printiedig at safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynhyrchu syniadau a chreu dyluniadau gwreiddiol ar gyfer cynnyrch cyfryngau printiedig o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu cynnyrch cyfryngau printiedig gan ddefnyddio technoleg a phrosesau priodol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol a chyda pheth cymorth [GT, HR]	T3 cynhyrchu cynnyrch cyfryngau printiedig o safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynhyrchu cynnyrch cyfryngau printiedig o safon dechnegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan arddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cyflwyno sylwadau ar eu gwaith cynhyrchu cyfryngau printiedig eu hunain, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [DA]	T4 esbonio eu gwaith cynhyrchu cyfryngau printiedig eu hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd.	Rh4 gwerthuso eu gwaith cynhyrchu cyfryngau printiedig eu hun yn feirniadol yng nghydestun arfer proffesiynol, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 19: Graffeg Ddigidol ar gyfer Cyfryngau Rhyngweithiol

Côd yr Uned:	F/600/6622
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned yw cyflwyno'r dysgwyr i offer a thechnegau sylfaenol meddalwedd graffeg ddigidol a ddefnyddir i gynhyrchu delweddau ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol. Bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau wrth ddefnyddio meddalwedd delweddu digidol trwy gynhyrchu deunydd gweledol sydd wedi ei fanipwleiddio'n ddigidol. Byddant yn arbrofi gydag arddulliau graffeg a ddefnyddir i greu naws a thema mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, ac yn myfyrio'n feirniadol ar eu gwaith eu hun.

Cyflwyniad i'r uned

Mae angen i unrhyw un sy'n ystyried gyrfa yn y diwydiant cyfryngau rhyngweithiol fod yn ymwybodol o'r gwahanol ddisgyblaethau a sgiliau sy'n berthnasol i'r diwydiant, ond a allai fod y tu allan i'w diddordebau penodol neu eu nodau gyrfa eu hunain. Er enghraifft, rhaid i unrhyw un sy'n ymwneud â chynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol fod yn gyfarwydd â chreu delweddau digidol, gan mai ar sail graffeg ddigidol y gwerthir cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol. Mae creu graffeg ddigidol yn berthnasol i bob agwedd ar ddylunio, ac mae galw mawr am y sgiliau hyn yn niwydiannau'r cyfryngau. Dylai'r rhai sy'n dymuno gweithio yn y diwydiant hwn, felly, sicrhau profiad ymarferol sylfaenol o gynhyrchu a datblygu graffeg ddigidol i'w defnyddio mewn cyfryngau rhyngweithiol er mwyn cyfleu syniadau neu ddatblygu arbenigedd.

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn dod yn gyfarwydd ag offer a thechnegau sylfaenol y feddalwedd graffeg ddigidol a ddefnyddir i gynhyrchu delweddau ar gyfer cyfryngau rhyngweithiol. Y technegau hyn yw'r sail ar gyfer datblygu graffeg hysbysebion, tudalennau cylchgronau, gwefannau, rhyngwynebau DVD, animeiddiadau, yn wir pob dylunio sgrîn a phrint. Mae'r uned hon, felly, yn hanfodol ar gyfer datblygu sgiliau dylunio digidol.

Mae'r broses graffeg ddigidol yn cynnwys ychwanegu at ddelweddau a gipiwyd yn ddigidol neu eu trawsnewid trwy ddefnyddio meddalwedd arbenigol sy'n golygu delweddau. Bydd y dysgwyr yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau wrth ddefnyddio meddalwedd delweddu digidol trwy gynhyrchu deunydd gweledol sydd wedi ei fanipwleiddio'n ddigidol.

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn datblygu sgiliau priodol wrth ddefnyddio meddalwedd graffeg ddigidol, ac mae'r uned hon yn darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad ymarferol trwy ymwybyddiaeth sylfaenol a phrofiad o offer meddalwedd a ddefnyddir yn gyffredin. Bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i arbrofi gydag arddulliau graffeg a ddefnyddir i greu naws a thema mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol.

Gan fod yr uned hon yn annog dysgwyr i fynegi sgiliau defnyddio'r dychymyg, mae'n briodol cyflawni peth ymarfer hunan-fyfyriol beirniadol. Bydd y sgil proffesiynol hwn yn annog arfer a fydd o werth gydol oes mewn unrhyw yrfa yn y dyfodol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall damcaniaeth a chymwysiaidau technoleg graffeg ddigidol
- 2 Gallu cynhyrchu syniadau o ran graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol
- 3 Gallu creu graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan ddilyn arfer y diwydiant.

Cynnwys yr Uned

1 Deall damcaniaeth a chymwysiadau technoleg graffeg ddigidol

Cymwysiadau graffeg cyfryngau rhyngweithiol: llywio, e.e. botymau treiglo, bariau llywio, dewislenni llywio; graffeg wedi'i animeiddio, e.e. gifiau wedi eu hanimeiddio; baneri ar y we; graffeg logos; eiconau sgrîn; cefndiroedd; graffeg gwead

Picse: elfen y llun, cydraniad y ddelwedd, dwysedd

Delweddau Raster: cywasgu (lossy, lossless) estyniadau ffeiliau e.e. bmp, png, gif, tiff, jpg, psd

Delweddau vector: pwyntiau; llinellau; cromlinau; polygonau; estyniadau ffeiliau, e.e. eps, ai, fla

Dyfnder did: samplu; didau fesul picse (BPP); monocrom; 256; lliw uchel; lliw gwir

Gofod lliw: graddfa lwyd; RGB (coch, gwyrdd, glas); YUW (goleuder a gwahaniaeth lliw); HSV (arlliw, dwysedd, gwerth)

Cipio delwedd: sganwyr; camerâu digidol; cydraniad (picseli'r fodfedd); storio (cof, maint y ffeil, rheoli asedau)

Optimeiddio: cyrchfan darged; dyfnder did; cydraniad; dimensiynau; allbwn arfaethedig y ddelwedd, e.e. sgrîn, y we fyd-eang

2 Gallu cynhyrchu syniadau o ran graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol

Symbyliad: e.e. brîff gan gleient, eich brîff eich hun, o ymchwil marchnad

Syniadau: tasgu syniadau; byrddau hwyliau; brasluniau bawd

Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol: hawlfraint; materion moesegol, e.e. cyfrinachedd, cynrychiolaeth (hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb), gweddustra, enllib; hawliau eiddo deallusol

Graffeg cyfryngau rhyngweithiol: llywio, e.e. botymau treiglo, bariau llywio, dewislenni llywio; gifiau wedi eu hanimeiddio; baneri ar y we; graffeg logos; eiconau sgrîn; cefndiroedd; graffeg gwead

Manyleb graffeg: anghenion y cleient; cynulleidfa; brasluniau bawd; arddull weledol, e.e. lliw, arddull, cyfansoddiad; teipograffeg; ystyriaethau technegol, e.e. fformat y ffeil, maint y ffeil, optimeiddio, allbwn a fwriedir

3 Gallu creu graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan ddilyn arfer y diwydiant

Cynllunio: rheoli asedau (storio ac adalw ffeiliau, confensiynau enwi); llif gwaith (amserlennu, rheoli amser yn effeithlon); terfynau amser (cerrig milltir cynhyrchu, elfennau y gellir eu cyflenwi, sicrhau ansawdd)

Rhyngwyneb meddalwedd: e.e. ardal waith, blwch offer, bar statws, gwybodaeth am ffeiliau, rheoli ffenestri, paletau sy'n arnofio, docio patelau a thabiau

Rheoli asedau: llwybr allforio'r ffeil; fformat y ffeil; cywasgu; confensiynau enwi ffeiliau; copi wrth gefn o'r ffeil

Llif gwaith: e.e. sleisio delweddau, optimeiddio (dyfnder did, cydraniad, dimensiynau)

Dewislenni: agor; arbed; newydd; mewnforio; allforio; golygu; gweld; help

Gosodiadau delweddau: maint; cydraniad, lled; uchder; modd lliw; cefndir; tryloywder; cymhareb wyneb-weddau

Offer lluniadu: opsiynau offer; brwsh; pensil; dyblygu; clonio; llenwi; testun; llinell; strôc; siâp; chwyddo; canllawiau a mesuryddion; grid; snap; paletau, e.e. lliw, graddoli, haenau, gwrthrych, brwshys, hanes, camau, maint, cydraniad; haenau, e.e. copïo, arbed, trefnu; gwastatáu; dethol lliwiau, e.e. blaendir, cefndir, swatshys lliwiau, diferydd

Offer golygu: dethol, e.e. marquee, lasso, ffon hud, lasso magnetig, dad-dethol; trawsnewid, e.e. graddfa, troi, rhoi ar oleddf, fflipio; torri; copïo; pastio; cropio; tocio; dileu; dadwneud; llenwi

Offer uwch: effeithiau, e.e. effeithiau haenau, hidlyddion, sianeli; addasu delweddau, e.e. golau a chyferbyniad, arlliw a dwysedd, cydbwysedd lliw, graddoli, tryloywder, gwyrddroi; masgiau; llwybrau e.e. llwybrau fector, troi testun yn llwybrau; sleisio delweddau

Cipio delwedd: sganiwr; camera digidol

Graffeg cyfryngau rhyngweithiol: botymau treiglo; bariau llywio; animeiddio gif; eiconau sgrîn; graffeg logos; cefndiroedd; sgriniau dewislen; graffeg gwead; manipwleiddio a golygu ffotograffau digidol

Camau cynhyrchu: ffeiliau datblygu gwreiddiol; delwedd derfynol wedi ei gwastatáu a'i hoptimeiddio ar gyfer y cleient

Nodweddion esthetig: cyfansoddiad; paletau lliw; teipograffeg; creu ystyr

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol, nodweddion esthetig); sgiliau cynhyrchu (cynhyrchu syniadau, manyleb graffeg, llif gwaith a rheoli amser, gallu technegol, gwaith tîm)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio damcaniaeth a chymwysiadau technoleg graffeg ddigidol gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio damcaniaeth a chymwysiadau technoleg graffeg ddigidol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohoni, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drwyadl ddamcaniaeth a chymwysiadau technoleg graffeg ddigidol, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 creu syniadau amlinellol o ran graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T2 creu syniadau manwl o ran graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan ddefnyddio peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 creu syniadau sydd wedi cael eu pwysu a'u mesur yn drylwyr o ran graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gyda gallu creadigol a fflach, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 creu graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC,HR,DA]	T3 creu graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol o safon dechnegol dda gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 creu graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol sydd o safon dechnegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 20: Llwylfannau a Thechnolegau Gemau Cyfrifiadur

Côd yr Uned:	L/600/6610
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o dechnolegau caledwedd a meddalwedd gemau cyfrifiadur, eu dysgu sut mae rhoi cyfuniad o'r cydrannau hyn at ei gilydd a'u cysylltu i greu systemau y gellir eu chwarae, ac i bwysleisio pwysigrwydd gwybod am y datblygiadau diweddaraf o ran meddalwedd a chaledwedd gemau.

Cyflwyniad i'r uned

Mae datblygu gemau cyfrifiadur yn broses ar y cyd, sy'n galw am dimau amlddisgyblaeth. Dylai dylunwyr gemau feddu ar ddealltwriaeth lawn o alluoedd a manteision y gwahanol llwyfannau caledwedd (megis PC, consol neu ddyfeisiau symudol), yn ogystal â bod yn gyfarwydd â thechnolegau a thechnegau meddalwedd sy'n briodol ar gyfer pob un o'r llwyfannau hynny. Mae galw mawr am wybodaeth gadarn am llwyfannau caledwedd cyfoes gemau, yn ogystal â'r dechnoleg ddiweddaraf o ran meddalwedd, ymhlith y rhai sy'n chwilio am yrfa yn y diwydiant hwn.

Rhaid i ddylunwyr gemau allu cyfleu eu gweledigaeth i artistiaid, rhaglenwyr, cynhyrchwyr, staff marchnata ac eraill sy'n ymwneud â'r broses ddatblygu, gallu cynnig beirniadaeth adeiladol ar waith eraill a derbyn adborth ar eu gwaith eu hunain. Mae angen bod gan bawb sy'n ymuno â'r diwydiant hwn ymwybyddiaeth sylfaenol o'r systemau a ddefnyddir i gynnal chwarae'r gêm, a meddu ar beth gafael ar sut mae gemau rhyngweithiol soffistigedig heddiw wedi cael eu galluogi gan ddatblygiadau caledwedd a meddalwedd. Yn y modd hwn gellir sefydlu iaith gyffredin gytunedig ar gyfer cyfnewid ystyriaethau technegol a marchnata dyluniad pob gêm.

Mae angen gwybodaeth dechnegol dda ar gyfer unrhyw swydd yn y diwydiant, gydag ymwybyddiaeth o'r gwahanol lwyfannau a thechnolegau ar gyfer gemau. Er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ag eraill, mae angen deall yr iaith dechnegol a ddefnyddir i ddisgrifio elfennau o systemau gemau, a gallu adnabod y cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth y llwyfan terfynol a ddewiswyd ar gyfer unrhyw gêm. I osgoi gofyn yr amhosib gan y llwyfan penodedig, rhaid i'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant fod yn ymwybodol o swyddogaeth a phwrpas pob cydran yn y system gemau rhyngweithiol fodern.

Cyfrifiaduron wedi eu neilltuo yw systemau gemau, ac mae angen cyfarwyddiadau meddalwedd i drefnu eu prosesu. Mae gan wahanol lwyfannau ofynion rhaglennu arbennig. Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i edrych ar nodweddion a chyfyngiadau'r feddalwedd sylfaenol a ddefnyddir ar gyfer llwyfannau gemau nodweddiadol.

Mae'r diwydiant gemau yn esblygu'n barhaus, yn greadigol ac yn dechnolegol, ac mae'n bwysig bod dysgwyr yn gwybod am y datblygiadau diweddaraf. Mae'r uned hon nid yn unig yn annog astudio technolegau caledwedd a meddalwedd, ond hefyd cyfuno'r cydrannau hynny yn systemau y gellir eu chwarae i'w defnyddio gan chwaraewyr unigol ac yn rhyngweithiol rhwng timau.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall y mathau o lwyfannau gemau
- 2 Deall technolegau caledwedd ar gyfer llwyfannau gemau
- 3 Deall technolegau meddalwedd ar gyfer llwyfannau gemau
- 4 Gallu cysylltu a chyflunio llwyfannau a dyfeisiau fel bod modd chwarae'r gêm.

Cynnwys yr Uned

1 Deall y mathau o lwyfannau gemau

Hanes datblygu: llinell amser; galluogi datblygiadau technegol

Arcêd: nodweddion, e.e. gweithio ag arian, efelychu PC, sail fector, sail disg laser; cyfyngiadau

Consolau: nodweddion, e.e. Playstation, Xbox, PSP, DS, Wii; cyfyngiadau

PC: nodweddion, e.e. oddi ar lein, ar-lein; cyfyngiadau

Symudol: nodweddion, e.e. dal yn y llaw, PDA (cynorthwywyr data personol), ffôn, GSM, 3gpp; cyfyngiadau

Teledu: nodweddion, e.e. rhyngweithiol, ar-lein, darllediadau gwasanaeth cyhoeddus, cebl, lloeren, MHP; cyfyngiadau

2 Deall technolegau caledwedd ar gyfer llwyfannau gemau

Rhyngwyneb dynol-cyfrifiadurol: dyfeisiau rhyngwyneb; dylunio ergonomig; cyfluniadau botymau; dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr; cludadwyedd

Uned brosesu ganolog (CPU): mathau; cyflymdra; cache; cyfeiriad/bws data

Prosesydd graffeg: mathau; cyflymdra; cache; cyfeiriad/bws data; prosesydd dau ddimensiwn (2D) a thri dimensiwn (3D), e.e. picseli, polygonau, nwrbaud; cyflymdra; cof graffeg

Cof: diben; cof mynediad ar hap (RAM); capasiti; math, e.e. rambus deinamig (RDRAM), statig (SRAM), deinamig (DRAM), unedig

Arddangosiad: wedi ei fewnosod; allanol; crisial hylif (LC); lliw; monocrom

Sain: cardiau sain; prosesydd sain; mono; stereo; 3D; amgylchynol; sianeli; cyfradd samplo; cof; prosesydd cyfathrebu cyfryngau (MCP)

Cyfrwng storio gemau: priodol; safonol; cof fflach; disg hyblyg digidol (DVD); disg optegol; disg cyfryngau unffurf (UMD); tâp magnetig; mewanol; cyflymdra; maint; manteision ac anfanteision; gwrth-ladrad

Dyfeisiau rhyngwyneb: dyfeisiau gemau, e.e. padl, ffon lywio, bysellfwrdd, pad llywio, llygoden, olwyn, pedalau, tegau llygad; pyrth; diwifr; â chebl; analog; digidol; pyrth rheoli

Cysylltedd: annibynnol; pyrth rheoli; rhwydwaith ardal leol (LAN); rhwydwaith ardal eang (WAN); y rhyngwyd; band eang; gwasanaeth radio pecyn cyffredinol diwifr (GPRS); protocol cymhwysiad diwifr (WAP); di-wi; Bluetooth®

Cyflenwad pŵer: batri mewanol; ffynhonnell allanol

3 Deall technolegau meddalwedd ar gyfer llwyfannau gemau

Dibyniaeth ar lwyfan: dibynnol; annibynnol

Systemau gweithredu: ar gyfer PC/Macintosh, e.e. Windows, Linux, Mac OS; ar gyfer offer llaw, e.e. Windows CE, Palm OS; ar gyfer dyfeisiau symudol, e.e. Symbian OS (Nokia N-Gage), BREW, Mophun

Gyrwyr: gyrrwr cerdyn sain; gyrrwr cerdyn graffeg; rheolwr rhyngwyneb rhwydwaith (NIC)

Meddalwedd cymhwysiad: ieithoedd wedi eu dehongli ar gyfer gemau (Java, J2ME, C#); ieithoedd wedi eu casglu ar gyfer gemau (C++); canolbwyntio ar wrthrychau (C++, C#, Java, J2SE, J2ME); sgriptio, e.e. Lingo, UnrealScript, QuakeC, Iaith Fewnosod Maya, ActionScript, JavaScript

API graffigol: OpenGL; OpenGL ES; DirectX

API sain: OpenAL; API Sain Java:

Teledu: mynediad amodol; iTV ETV

4 Gallu cysylltu a chyflunio llwyfannau a dyfeisiau fel bod modd chwarae'r gêm

Cysylltu a chyflunio: consol i'r arddangosydd; consol i gonsol; rhwydwaith ardal leol (LAN), e.e. tebyg at ei debyg, ar sail gweinydd; rhwydwaith ardal eang (WAN), e.e. Xbox live, MS Arcade, chwaraewyr lluosog ar-lein; diwifr; dyfeisiau cebl i lwyfannau, e.e. bysellfwrdd, llygoden, rhodlen, ffon reoli, olwyn, pedalau, tegau llygad; dyfeisiau diwifr i lwyfannau, e.e. ffon reoli, bysellfwrdd, llygoden, rheolydd, olwyn; gyrrwyr dyfeisiau PC (cerdyn graffeg, cerdyn sain, rheolydd rhyngwyneb rhwydwaith)

Gosod a chyflunio gemau: gosod gemau PC a chonsol; cyflunio gemau PC a chonsol

Adeiladu tystiolaeth: e.e. log dysgu, blogiau, wicis, rhestr wirio wedi'i dilysu, ffotograffau, fideo, portffolio

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio mathau o lwyfannau gemau gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio mathau o lwyfannau gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drwyadl y mathau o lwyfannau gemau, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio technolegau caledwedd ar gyfer llwyfannau gemau gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T2 esbonio technolegau caledwedd ar gyfer llwyfannau gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n drwyadl dechnolegau caledwedd ar gyfer llwyfannau gemau, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 disgrifio technolegau meddalwedd ar gyfer llwyfannau gemau gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T3 esbonio technolegau meddalwedd ar gyfer llwyfannau gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh3 esbonio'n drwyadl dechnolegau meddalwedd ar gyfer llwyfannau gemau, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI4 cymhwyso technegau i gysylltu a chyflunio llwyfannau a dyfeisiau gyda pheth cymorth. [HR]	T4 cymhwyso technegau i gysylltu a chyflunio llwyfannau a dyfeisiau'n alluog, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh4 cymhwyso technegau i gysylltu a chyflunio llwyfannau a dyfeisiau o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 21: Deall Technoleg Fideo

Côd yr Uned:	H/502/5766
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn rhoi i ddysgwyr yr wybodaeth angenrheidiol am dechnoleg fideo i'w galluogi i gynhyrchu yn y stiwdio neu ar leoliad. Lluniwyd yr uned i roi cyfle i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o egwyddorion fideo a gweithrediad cyfarpar recordio ac ôl-gynhyrchu.

Cyflwyniad i'r uned

Mae gwybodaeth am dechnoleg fideo digidol yn hanfodol ar draws ystod o ddiwydiannau cyfryngau (cynhyrchu teledu, fideo a chyfryngau rhyngweithiol yw'r amlycaf, o bosib) ac mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau cynhyrchu, yn cynnwys cynhyrchu rhaglenni ffeithiol a ffuglen, cynhyrchu hyrwyddol a hysbysebion, ac amrywiol agweddau ar gynhyrchu gwefannau. Yn ogystal â sgiliau ar lefel uchel, bydd cyflogwyr hefyd yn disgwyl dealltwriaeth o alluoedd a chymwysiadau'r dechnoleg hon.

Bydd dealltwriaeth o'r gwahanol fformatau, mathau o ffeiliau a systemau cywasgu a ddefnyddir ar gyfer fideo digidol ledled y byd yn ddefnyddiol wrth ddod i benderfyniadau ynghylch fformatau cynhyrchu fideo ar gyfer rhaglenni a fwriadwyd i gynulleidfa benodol.

Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o dechnoleg ôl-gynhyrchu a thechnoleg fythol-newidiol golygu anllinol digidol. Mae ystod gynyddol o galedwedd a meddalwedd ar gael ar gyfer ôl-gynhyrchu, a bydd dysgwyr yn arbrofi ac yn cymhwyso'r dechnoleg hon i'w gwaith ôl-gynhyrchu. Byddant hefyd yn datblygu sgiliau o ran unioni a gweithrediad technegol systemau ar leoliad, yn y stiwdio ac ôl-gynhyrchu.

Mae'r uned yn rhoi cyflwyniad gwerthfawr i'r sgiliau sy'n ofynnol wrth weithio naill ai mewn cwmni cynhyrchu bychan neu ar eich liwt eich hun yn y diwydiant fideo.

Gellir dangos gwybodaeth am y cyfarpar hwn a'r gallu i'w ddefnyddio trwy gynhyrchu rhaglenni fideo cyfan, neu gynnwys ar gyfer cymwysiadau eraill. Gall dysgwyr gymhwyso'r wybodaeth a'r sgiliau i'w gwaith cynhyrchu arall.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall egwyddorion technoleg fideo
- 2 Gallu defnyddio technoleg cynhyrchu recordiadau fideo
- 3 Gallu defnyddio technoleg ôl-gynhyrchu fideo.

Cynnwys yr Uned

1 Deall egwyddorion technoleg fideo

Safonau teledu: PAL (Phase Alternation Line); SECAM (Séquentiel Couleur Avec Mémoire); trosi safonau; cymarebau sgrin lydan; signalau fideo cydrannol signalau fideo cyfansawdd; fideo clirlun; HDMI (Rhyngwyneb Amlgyfrwng Clirlun); DVI (Rhyngwyneb Gweledol Digidol)

Systemau darlledu: darlledu daearol; darlledu lloeren; darlledu digidol; ambleth; cebl; teledu ar y rhyngwyd; systemau ar alw

Recordio digidol: domestig; fformatau proffesiynol a darlledu; recordio ar dâp a gyriant caled; unioni a gweithredu cysylltiad; gosod y camera ar gyfer lleoliad penodol; tymheredd lliw; lensys (amlygiad, ffocws)

Golygu digidol: mathau o ffeiliau; maint y ffeil; cywasgu; cydweddiad y system; caledwedd; meddalwedd; trosglwyddo data; rheoli ffeiliau

2 Gallu defnyddio technoleg cynhyrchu recordiadau fideo

Camerâu: CCD (Charge-Coupled Device) sengl; tri CCD; tymheredd lliw; cydbwysedd du a gwyn; bar lliw; cynnydd; hidlyddion; cyflymdra'r glicied; iris; lliw; du a gwyn

Systemau stiwdio a chamerau lluosog: cyfluniadau camerau lluosog; cysylltu; cydamseru allbwn ac unioni system; cymysgwyr lluniau stiwdio; cyfluniad sain; unioni; rig goleuo; systemau siarad yn ôl

3 Gallu defnyddio technoleg ôl-gynhyrchu fideo

Systemau ôl-gynhyrchu: caledwedd; meddalwedd; monitro; capsynau; cysylltiadau sain; cydamseru sain a llun

Arferion ôl-gynhyrchu: lawrlwytho deunydd digidol o dâp a disg; fformadu gyriannau caled; systemau llusgo a gollwng; llinellau amser; storio darnau o ffilm; gyriannau caled allanol; gyriannau RAID; allforio i dâp ac amrywiol fformatau ffeiliau; cywasgu a mathau o ffeiliau; cod amser

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio egwyddorion technoleg fideo digidol a recordio fideo digidol gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA, DA]	T1 esbonio egwyddorion technoleg fideo digidol a recordio fideo digidol gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drwyadl egwyddorion technoleg fideo digidol a recordio fideo digidol gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 defnyddio technoleg cynhyrchu fideo digidol gyda pheth cymorth [YA, DA]	T2 defnyddio technoleg cynhyrchu fideo digidol yn alluog, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 defnyddio technoleg cynhyrchu fideo digidol o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 defnyddio technoleg ôl-gynhyrchu fideo digidol gyda pheth cymorth. [HR]	T3 defnyddio technoleg ôl-gynhyrchu fideo digidol yn alluog, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 defnyddio technoleg ôl-gynhyrchu fideo digidol o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 22: Technegau Un Camera

Côd yr Uned:	D/502/5698
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn archwilio nodweddion cynhyrchu un camera, ac yn datblygu'r sgiliau creadigol, trefniadol a thechnegol gofynnol i ddyfeisio, cynllunio a gweithredu eu cynyrchiadau eu hunain.

Cyflwyniad i'r uned

Gyda chyflwyno rhagor o sianeli teledu, rhai ohonynt wedi'u neilltuo ar gyfer dramâu, mae'r cynhyrchiad drama un camera wedi dod yn boblogaidd iawn gyda darlledwyr a chynulleidfaoedd. Mae hynny'n golygu y dylai fod mwy o gyfleoedd i bobl sydd â sgiliau technegau un camera gael eu cyflogi yn y sector hwn. Gallai hynny fod o ran sgiliau technegol wrth gynhyrchu neu sgiliau creadigol i ddatblygu syniadau er mwyn eu cynhyrchu.

Nod yr uned yw rhoi cyfle i'r dysgwyr ddefnyddio sgiliau cynhyrchu a ddysgwyd eisoes mewn unedau blaenorol, a'u datblygu ymhellach i greu cynhyrchiad gan ddefnyddio technegau un camera.

Mae'r uned yn rhoi cyfle i ddysgwyr archwilio cynyrchiadau un camera sydd eisoes yn bodoli. Bydd hynny'n eu helpu i feddwl am eu cynyrchiadau eu hunain, eu cynllunio a'u cynhyrchu. Fel rhan o'r archwilio hwn, bydd dysgwyr yn edrych ar y defnydd o sgrïptiau camera a byrddau stori yn offerynnau i adrodd stori.

Bydd y dysgwyr yn datblygu'r sgiliau trefniadol sy'n ofynnol ar gyfer cynllunio a gweithredu cynhyrchiad drama un camera. Byddant yn nodi rolau cynhyrchu allweddol ac yn ymgymryd ag un neu fwy o'r rhain yn ystod eu cynhyrchiad eu hunain. Bydd dylunio set, sinematograffeg, goleuo, defnydd o dechnegau golygu a sain i gyd yn rhan o'r sgiliau a ddatblygir gan ddysgwyr trwy ddilyn yr uned hon.

Bydd materion iechyd a diogelwch hefyd yn derbyn sylw wrth saethu ar leoliad ac mewn stiwdio, gyda'r dysgwyr yn cynhyrchu asesiadau risg cyn unrhyw waith cynhyrchu.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall nodweddion cynhyrchiad un camera
- 2 Gallu cynllunio cynhyrchiad un camera
- 3 Gallu cymhwysu technegau un camera mewn cynhyrchiad.

Cynnwys yr Uned

1 Deall nodweddion cynhyrchiad un camera

Fformatau: e.e. cyfres, drama gyfres, drama unigol; genre, e.e. cyfnodol, drama ddogfen, trosedd, opera sebon, comedi

Strwythurau naratif: e.e. llinol (neu ddilyniannol), anllinol (neu annilyniannol), ôl-fflach, realaeth, gwrth-realaeth; diweddebau, e.e. agored, caeedig

Technegol: camera; goleuo; sain; golygu; sgriptio; creu golygfa; creu stori

2 Gallu cynllunio cynhyrchiad un camera

Dyfeisio: cael hyd i syniadau; datblygu syniadau; strwythurau naratif; cymeriad; sgriptiau; triniaethau; byrddau stori

Adnoddau: doniau; eiddo; gwisgoedd; lleoliadau; cyfarpar recordio fideo a'i chwarae yn ôl; cyfarpar recordio sain a'i chwarae yn ôl; cyfarpar goleuo; effeithiau sain a gweledol

Cynllunio: triniaethau; sgriptiau saethu; cofnodion cyfarfodydd cyn-cynhyrchu; amserlenni saethu; taflenni galw; rolau cynhyrchu; cynlluniau llawr neu leoliad; rhestrau propiau; taflenni adroddiadau dyddiol; amserlenni cynhyrchu

Iechyd a diogelwch: asesiadau risg (stiwidio, lleoliadau)

3 Gallu cymhwyso technegau un camera mewn cynhyrchiad

Y broses gynhyrchu: ymarferion; saethiad; cofnodion saethu; logiau cynhyrchu; cymwyseddau technegol; galluedd creadigol; eich gwaith eich hun; gwaith tîm

Y broses ôl-gynhyrchu: adolygu deunydd a recordiwyd; paratoi i olygu; golygu'r lluniau a'r sain; adolygu'r golygu

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio nodweddion cynhyrchiad un camera gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio nodweddion cynhyrchiad un camera, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drwyadl nodweddion cynhyrchiad un camera, gan gyfeirio at enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynhyrchu cynlluniau amlinellol ar gyfer cynhyrchiad un camera, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol a chyda pheth cymorth [MC]	T2 cynhyrchu syniadau manwl ar gyfer cynhyrchiad un camera, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynhyrchu syniadau sydd wedi'u pwysu a'u mesur yn drwyadl ar gyfer cynhyrchiad un camera, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu cynhyrchiad un camera, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [HR]	T3 cynhyrchu cynhyrchiad un camera o safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 cynhyrchu cynhyrchiad un camera o safon dechnegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 23: Technegau Camerâu Lluosog

Côd yr Uned:	T/600/6648
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth o fformatau teledu camerâu lluosog, a datblygu sgiliau o ran technegau cynhyrchu camerâu lluosog. Bydd dysgwyr hefyd yn dod i werthfawrogi sut mae'r broses camerâu lluosog yn integreiddio â sgiliau cynhyrchu eraill, ac yn cael profiad gwerthfawr o reolaeth stiwdio, cyfarwyddo camerâu lluosog a thechnegau llawr stiwdio.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r term 'cynhyrchiad camerâu lluosog' yn cwmpasu ystod eang o arbenigeddau a sgiliau yn y diwydiant delweddu symudol. Fe'i cymhwysir mewn sefyllfaoedd mor amrywiol â darllediadau byw o ddigwyddiadau chwaraeon a chyngherddau, cynyrchiadau teledu megis sioeau gemau a sgwrsio, a darparu arddangosiadau sgrin ar gyfer cynadleddau corfforaethol.

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer y sector hwn o'r diwydiant trwy astudio cynyrchiadau proffesiynol a chymhwyso'r wybodaeth honno mewn cynyrchiadau camerâu lluosog ymarferol. Mae'r uned yn cyflwyno sgiliau technegol uwch wrth ddefnyddio cyfarpar sain a lluniau, ac arferion gwaith a chonfensiynau hanfodol gweithio'n llwyddiannus mewn tîm cynhyrchu.

Mae gafael dda ar y sgiliau hyn yn darparu sylfaen ar gyfer gweithio mewn rolau technegol a chynhyrchu penodol yn y diwydiant, o gynhyrchydd stiwdio i gamera chwaraeon, ac ar raglenni mor amrywiol ag operâu sebon, sioeau gemau comedi, darllediadau gwyliau cerddorol, cylchgronau newyddion lleol neu gemau pêl-droed yr Uwch Gynghrair.

Gall y sgiliau technegol a gwaith tîm a ddatblygir gydweddu â rhai o unedau eraill a'u datblygu, megis cyn-cynhyrchu, cynhyrchu fideo a rheoli cynhyrchu, yn ogystal â rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gaffael sgiliau arbenigol newydd megis cymysgu lluniau a rheoli llawr.

Mae'r uned yn adlewyrchu arfer proffesiynol drwy ddarparu cyfle i ymarfer sgiliau cynhyrchu mewn amgylchedd sydd â chyfyngiadau amser llym, ac mae gofyn felly bod ymrwymiad i weithio ar y safonau uchaf posib.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall fformatau rhaglenni sy'n defnyddio cynhyrchu camerâu lluosog
- 2 Gallu cynllunio cynhyrchiad camerâu lluosog
- 3 Gallu cyflawni rôl weithredol mewn cynhyrchiad camerâu lluosog.

Cynnwys yr Uned

1 Deall fformatau rhaglenni sy'n defnyddio cynhyrchu camerâu lluosog

Fformatau rhaglenni: digwyddiadau byw, e.e. chwaraeon, cyngherddau, cynyrchiadau llwyfan, digwyddiadau cyhoeddus; cynyrchiadau stiwdio, e.e. sioeau gemau, sioeau sgwrsio, cylchgronau newyddion, dramâu mewn stiwdio

Rhesymau dros ddefnyddio camerâu lluosog: dangos beth sy'n digwydd; cyfleu ystyr i'r gwylwr; arddull weledol; cynnal diddordeb y gwylwr; cyfyngiadau amgylchedd stiwdio neu leoliad; recordio ar yr un pryd gan sawl camera

2 Gallu cynllunio cynhyrchiad camerâu lluosog

Rolau cynhyrchu camerâu lluosog: gweithio camera; cymysgu sain; cymysgu lluniau; cyfarwyddo; desg oleuo; rheoli'r llawr; cynhyrchu graffeg

Datblygu syniadau ar gyfer rhaglenni: fformat rhaglenni, e.e. cynhyrchiad stiwdio, digwyddiad byw; syniadau o ran cynnwys; arddull weledol; arddull gyflwyno; sgriptiau, dolenni ac elfennau a fewnosodwyd; mireinio'r syniadau gwreiddiol i greu sgript terfynol

Prosesau cynllunio: yr ystod o gyfarpar sy'n ofynnol; dyrannu rolau swyddi; trawsnewid sgriptiau geiriau yn rhestrau saethu; dylunio, e.e. goleuo, set, sain; recce o'r lleoliad; amseru a dilyniannu; ystyriaethau iechyd a diogelwch;

Dogfennaeth gynhyrchu: sgriptiau wedi eu hamseru; rhestrau saethu; cynlluniau llawr y stiwdio; cynlluniau o'r lleoliad; cynlluniau goleuo; asesiadau risg; rhestr wirio cyfarpar; sgript camera

3 Gallu cyflawni rôl weithredol mewn cynhyrchiad camerâu lluosog

Cyflawni rôl ymarferol: e.e. camerâu, desg cymysgu sain; cymysgwr lluniau, cyfarwyddo, desg oleuo, siarad yn ôl, chwarae fideo yn ôl, rheoli'r llawr, cynhyrchu graffeg; cyfathrebu'n effeithiol

Dulliau gweithredu: cyfathrebu o fewn y tîm cynhyrchu, e.e. galw am saethiadau, siarad yn ôl, rhoi ciwiau; cymysgu lluniau; mewnosod fideo a graffeg; cymysgu sain; ystyriaethau iechyd a diogelwch

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio fformatau rhaglenni cynhyrchiad camerâu lluosog gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio fformatau rhaglenni cynhyrchu camerâu lluosog, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drwyadl fformatau rhaglenni cynhyrchu camerâu lluosog, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynllunio cynhyrchiad camerâu lluosog gyda pheth cymorth [MC]	T2 cynllunio cynhyrchiad camerâu lluosog yn alluog ac yn effeithiol, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynllunio cynhyrchiad camerâu lluosog o safon sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cyflawni rôl weithredol mewn cynhyrchiad camerâu lluosog gyda pheth cymorth. [GT]	T3 cyflawni rôl weithredol mewn cynhyrchiad camerâu lluosog at safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 cyflawni rôl weithredol mewn cynhyrchiad camerâu lluosog o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 24: Ysgrifennu ar gyfer Teledu a Fideo

Côd yr Uned:	A/600/6702
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw meithrin agwedd ymarferol at y broses o ysgrifennu'n creadigol ar gyfer y teledu a fideo drwy ddatblygu sgiliau'r dysgwyr mewn ymchwil gefndirol, pitsio, ysgrifennu cynigion, a thechneg ysgrifennu sgrïptiau. Ar ben hynny, mae'r uned yn ystyried y broses gomisiynu a datblygu, a bydd yn rhoi i'r dysgwyr y sgiliau ysgrifennu naratif angenrheidiol i greu sgrïptiau teledu a fideo.

Cyflwyniad i'r uned

Calon cynnyrch teledu neu fideo llwyddiannus yw sgrïpt wedi'i hymchwilio'n dda a'i hysgrifennu'n effeithiol, mewn fformat priodol. Mae'r ystod eang o ofynion sgrïptiau ar draws genres y teledu a fideo yn galw am awduron sy'n hyblyg ac yn alluog o ran cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig.

Nod yr uned hon yw cyflwyno dysgwyr i'r sgiliau sy'n ymwneud ag ysgrifennu sgrïptiau, a rôl awduron yn y diwydiant cynhyrchu teledu a fideo modern. Mae'r uned hon yn annog ymwybyddiaeth alwedigaethol trwy edrych ar y broses gomisiynu, ond mae hefyd yn ceisio rhoi i'r dysgwyr drosolwg o'r broses ysgrifennu sgrïptiau, trwy fabwysiadu dull o'r sgrïpt i'r sgrîn, ac felly annog y dysgwyr i feddwl yn gyfannol. Mae gwaith yn yr uned hon hefyd yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ymarfer technegau cyflwyno a phitsio allweddol, a myfyrio ar yr ystod eang o sgiliau cyfathrebu y mae eu hangen i lwyddo yn y maes hynod gystadleuol hwn. Fodd bynnag, bwriedir i'r uned fod yn ymarferol yn bennaf, ac o ddewis, wedi ei harwain gan gynhyrchu.

Gydag eithriad nodedig y ddrama gyfres, mae'r diwydiant yn symud oddi wrth y broses gomisiynu draddodiadol o 'ysgrifennu aseiniadau' ac mae bellach yn dibynnu'n drymach nag erioed o'r blaen ar systemau a arweinir gan awduron, megis ymatebion seiliedig ar gynigion i gomisiynau neu gyflwyniadau diofyn. I adlewyrchu hyn, anogir y dysgwyr i gynhyrchu sgriptiau o'u syniadau eu hunain, a fydd yn golygu cychwyn prosiectau annibynnol, a'u rheoli, yn ogystal ag ystyried y dull seiliedig ar gomisiwn. Cynhwysir hefyd yr angen am gyflwyno cynnig mewn fformat priodol, ynghyd â'r sgiliau i gyflwyno cynnig ar lafar a fformadu sgript yn unol â chonfensiynau'r diwydiant, er mwyn adlewyrchu'r newid hwn yn y diwydiant.

Sgript yw'r glasbrint ar gyfer cynhyrchu teledu neu fideo, a rhaid i awduron da fedru datblygu cynnyrch realistig a phriodol ar gyfer diwydiant sydd â gofynion uchel iawn.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am y broses gomisiynu ar gyfer ysgrifennu i'r teledu ac i fideo
- 2 Gallu ymchwilio, casglu a pharatoi deunyddiau cefndir
- 3 Gallu cynhyrchu cynigion sgriptiau
- 4 Gallu pitshio cynigion sgriptiau
- 5 Gallu cynhyrchu sgriptiau ar gyfer cynhyrchu teledu a fideo.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am y broses gomisiynu ar gyfer ysgrifennu i'r teledu ac i fideo

Comisiynu: rolau swyddi o fewn y broses gomisiynu (golygyddion comisiynu, cynhyrchwyr, cyfarwyddwyr, golygyddion sgriptiau, asiantau, awduron); cyrff comisiynu (corfforaethau, cwmnïau cynhyrchu annibynnol, cyfarwyddwyr neu gynhyrchwyr annibynnol, sefydliadau, cystadlaethau); rôl yr awdur ar hyd y broses gynhyrchu (cynllunio cyn cynhyrchu, golygu sgriptiau, ymwneud â'r cyfarwyddwr neu'r cynhyrchydd, cynhyrchu sgript saethu, cloi tudalennau, addasu yn ystod y cyfnod saethu)

Gweithio fel awdur: cynrychiolaeth asiant; breindaliadau; cyflwyniad proffesiynol; rheoli amser

Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol: hawlfraint; bias; sensoriaeth; trothwyon deunydd; enllib; llên-ladrad

2 Gallu ymchwilio, casglu a pharatoi deunyddiau cefndir

Deunydd cefndir: sgriptiau a gyhoeddwyd; gwybodaeth ffeithiol; barn; dyfaliad; deunydd sydd eisoes yn bodoli o ddarllediad arall a chyfryngau ysgrifenedig i'w addasu neu ei drawsnewid

Ymchwil: cynradd, e.e. cyfweiliadau gwreiddiol, grwpiau ffocws, arolygon, holiaduron; eilaidd, e.e. arsylwi cynnyrch sydd eisoes yn bodoli, llyfrau, cylchgronau, papurau newydd, newyddiaduron, y rhyngwyd, archifau CD ROM, cronfeydd data electronig, grwpiau newyddion, cyfweiliadau sydd eisoes yn bodoli;

Paratoi deunydd: gwerthuso defnydd y deunydd y cafwyd hyd iddo; tynnu'r data a'r wybodaeth sy'n ddefnyddiol allan; rhoi mewn trefn a threfnu yn unol â'r bwriadau; storio

3 Gallu cynhyrchu cynigion sgriptiau

Cynhyrchu: casglu ymchwil; prosesu geiriau; cyflwyno ar ffurf brintiedig; tracio newidiadau adolygu

Cynnig: teitl y sgript a gynigir; trosolwg (adnabod y genre, trosolwg o'r cysyniad, pwynt gwerthu unigryw (USP), senario cychwynnol, cynulleidfa darged a awgrymir); bwriad y cynnyrch (cysyniad uchel, crynodeb o'r naratif, cyfathrebu a fwriedir); neges; crynodeb o'r cymeriadau (enw, oedran, symbyliad dramatig, rôl yn y naratif); gofynion o ran doniau ffeithiol (rôl, oedran, trosolwg o'r persona ar y sgrîn)

Dibenion y sgrïpt: rhaglennu ffeithiol, e.e. newyddion, rhaglenni dogfen, cysylltiadau, sgrïptiau cyflwynwyr: darparu gwybodaeth, e.e. fideo hyrwyddo, ffilmiau gwybodaeth byr gan y llywodraeth, eitemau cylchgrawn ffeithiol: rhaglennu adloniant, e.e. sioeau cwis, adloniant ysgafn, *Variety*, sioeau cylchgrawn i blant, darllediadau cerddoriaeth, darlledu perfformiadau; darllediadau byw, e.e. chwaraeon, adloniant, diwylliannol; ffuglen, e.e. drama, comedi sefyllfa, sioeau sgetsys, opera sebon, ffilmiau nodwedd

4 Gallu pitshio cynigion sgrïptiau

Pitsh: sgiliau cyflwyno geiriol; cyfathrebu syniadau; deunyddiau cefnogi, e.e. delweddau, copiâu papur o'r cynnig; cyswllt â'r cleient, e.e. tŏn priodol, defnydd o iaith, cyfathrebu agored; ymwybyddiaeth o natur hyrwyddol y pitshio; cyddrafod newidiadau ac addasu i anghenion y cleient; gwybodaeth am y cynnyrch

5 Gallu cynhyrchu sgrïptiau ar gyfer cynhyrchu teledu a fideo

Cystrawen a geirfa: ystyriaethau o ran y gynulleidfa darged, e.e. cwmpas yr eirfa, gwybodaeth bresennol, ymwybyddiaeth o iaith sathredig, diffiniad o derminoleg neu jargon; ciwiau safonol i mewn ac allan; sillafiadau ffonetig; canllawiau ynganu; tŏn y cyfarch; fformatau safonol, e.e. Rhybuddio-Cynghori-Ailadrodd; strwythurau naratif

Fformatau sgrïptiau: confensiynau cyffredin (ffont, maint, terminoleg gyffredin, labelu tudalennau); fformat drama'r BBC; gosodiad ffilm; gosodiad clyweledol (A/V); manylebau'r genre, e.e. newyddion, comedi sefyllfa, sioe sgetsys, cwis, fformat cylchgrawn

Cyfarwyddiadau sgrïpt: penawdau dechrau golygfa; gweithredu; enwau'r cymeriadau; deialog; ciwiau doniau; disgrifiadau saethu, e.e. ELS (saethu o bellter eithriadol), LS (saethu o hirbell), $\frac{3}{4}$, MCU (agos canolig), dau saethiad; cynnwys ciwiau, e.e. VT (tâp fideo), SOT (sŵn ar y tâp); cyfarwyddiadau saethu, e.e. sefydlu, papur wal, torri i ffwrdd, POV (safbwynt)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI1 disgrifio rôl yr awdur yn y broses gomisiynu, gan ddefnyddio peth o derminoleg y pwnc yn briodol</p> <p>[YA]</p>	<p>T1 esbonio rôl yr awdur yn y broses gomisiynu, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd</p>	<p>Rh1 esbonio'n drwyadl rôl yr awdur yn y broses gomisiynu, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson</p>
<p>LI2 casglu a pharatoi deunyddiau cefndir addas ar gyfer prosiect ysgrifennu sgrïpt gyda pheth cymorth</p> <p>[MC]</p>	<p>T2 casglu a pharatoi gwybodaeth gefndir dda ar gyfer prosiect ysgrifennu sgrïpt yn alluog, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol</p>	<p>Rh2 casglu a pharatoi gwybodaeth gefndir ragorol ar gyfer prosiect ysgrifennu sgrïpt at safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol</p>
<p>LI3 cynhyrchu cynigion sgrïptiau at ddibenion penodol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth</p> <p>[MC]</p>	<p>T3 cynhyrchu cynigion sgrïptiau at ddibenion penodol, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol</p>	<p>Rh3 cynhyrchu cynigion sgrïptiau at ddibenion penodol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol</p>
<p>LI4 pitshio cynnig a baratowyd</p>	<p>T4 pitshio cynnig a baratowyd yn effeithiol</p>	<p>Rh4 pitshio cynnig a baratowyd at safon sydd bron yn broffesiynol</p>

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 cynhyrchu sgrïpt at ddiben penodol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chyda pheth cymorth. [MC, HR]	T5 cynhyrchu sgrïpt at ddiben penodol yn alluog, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh5 cynhyrchu sgrïpt at ddiben penodol o safon sydd bron yn broffesiynol, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 25: Astudiaethau Teledu a Fideo

Côd yr Uned:	D/600/6675
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o berchenogaeth a strwythur y diwydiant teledu a fideo, yn fasnachol ac yn gyhoeddus, y dadleuon allweddol sydd wedi ffurfio'r diwydiant ac sy'n parhau i wneud hynny, a sut mae cynulleidfaoedd yn defnyddio cynrychiadau teledu a fideo ac yn ymateb iddynt.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r diwydiant teledu a fideo yn gynhyrchydd cyfryngau pwysig, ac mae ei ddatblygiad a'i ddylanwad ar gynulleidfaoedd, o ran adloniant, addysg a gwybodaeth, wedi sbarduno llawer o ddadleuon, o fewn y llywodraeth ac ymhlith y cyhoedd. Er ei fod yn bosib bod ei ddylanwad a'i bŵer fel cyfrwng cyfathrebu yn dechrau cael ei erydu gan gyfryngau newydd, mae'n dal yn rym aruthrol o safbwynt cymdeithasol a diwylliannol, ac felly mae'n eithriadol o bwysig yn wleidyddol. Rhaid bod gan unrhyw un sydd am weithio yn y diwydiant hwn wybodaeth dda am ei strwythur presennol a sut mae'n debygol o esblygu, yn ogystal â dealltwriaeth gadarn o'r dadleuon ynghylch materion megis pwy sy'n ei reoli a'i berthynas â'r gymdeithas a'r cynulleidfaoedd y mae'n eu gwasanaethu mewn theori.

Trwy'r uned hon bydd dysgwyr yn archwilio sut mae perchenogaeth a rheoleiddio yn effeithio ar allbwn a mynediad i gynnyrch teledu, gan gynnwys effaith technolegau newydd ar gynhyrchu, dosbarthu a defnydd.

Bydd y materion allweddol a'r dadleuon yr edrychir arnynt yn cynnwys cynnal safonau, y berthynas rhwng gwasanaeth cyhoeddus a theledu masnachol, a'r cwestiwn ynghylch effeithiau a dylanwadau posib ar gynulleidfaoedd.

Bydd archwilio cynnyrch teledu a fideo yn ddadansoddol yn galluogi dysgwyr i ddeall yn well sut mae cynhyrchwyr a darlledwyr yn targedu eu cynulleidfaoedd, ac i greu cysylltiadau rhwng sefydliad, testun a chynulleidfa.

Mae'r uned hon yn darparu cyfle rhagorol i ddarpar gyflogeion teledu ddeall beth sy'n pennu ffurf cynnyrch teledu. Bydd yr uned yn rhoi cipolwg clir iddynt ar y cyfyngiadau sydd ar gynhyrchu, o safbwynt rheoliadol ac o ran galwadau'r gynulleidfa.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall strwythur y diwydiant teledu a fideo yn y DU
- 2 Gwybod am y materion allweddol a'r dadleuon sy'n effeithio ar y diwydiant teledu a fideo
- 3 Gallu cymhwyso technegau dadansoddi testun i astudio cynnyrch teledu/fideo.

Cynnwys yr Uned

1 Deall strwythur y diwydiant teledu a fideo yn y DU

Perchenogaeth: cyhoeddus (ymgorffori, llywodraethu, atebolrwydd); masnachol (trwydded i ddarlledu, cwmnïau rhyngwladol ac uwch gwmnïau, integreiddio fertigol a llorweddol, monopoli); cynhyrchwyr annibynnol

Cynhyrchu incwm: darlledu am ddim (ffi trwydded, refeniw hysbysebu, nawdd); tanysgrifiad; talu wrth wyllo; gweithgaredd masnachol heblaw darlledu, e.e. gwerthu rhaglenni, gwerthu fideos, cyhoeddi, ategolion, nwyddau, masnachfreintiau

Systemau a thechnolegau: analog; digidol; lloeren; cebl; y rhynggrwyd; ar-alw; technolegau sy'n dod i'r amlwg

Rheoleiddio: hunan-reoleiddio, e.e. canllawiau cynhyrchwyr, trothwy 9 o'r gloch, cyrff ymgynghorol; rheoleiddio statudol (Deddf Darlledu 1990 a 1996, Ofcom)

2 Gwybod am y materion allweddol a'r dadleuon sy'n effeithio ar y diwydiant teledu a fideo

Materion a dadleuon: chwaeth a gwedduster; ansawdd a safonau; ethos gwasanaeth cyhoeddus; ethos y farchnad rydd; perchenogaeth a mynediad; rheoleiddio a'r farchnad rydd; cystadlu am gynulleidfa; effeithiau gwasanaethau ar-alw, e.e. ar amserlennu; effeithiau ffrydio cyfryngau ar-lein, e.e. ar sensoriaeth

Dylanwad ac effeithiau: theorïau effaith, e.e. gweithredol, goddefol, model nodwydd hypodermig, damcaniaeth defnyddiau a boddhad, model llif dau gam, effaith diferu cyson; damcaniaeth derbyn

3 Gallu cymhwyso technegau dadansoddi testun i astudio cynnyrch teledu/fideo

Ffurfiâu: ffuglen; rhaglen ddogfen; newyddion; hysbysebu; hyrwyddo; cyfuniad

Naratif: llinol; anllinol; un llinyn; llinynnau lluosog; realaeth; gwrth-realaeth; penagored; caeedig; un rhaglen; cyfres; drama gyfres

Genre: e.e. opera sebon, drama drosedd, drama ysbyty, ffordd o fyw, gweddnewid, defnyddiwr, comedi sefyllfa, sioeau sgwrsio, teledu 'realaeth'

Dulliau dadansoddol: proffilio cynulleidfa; dadansoddi cynulleidfa; mathau o ddarlleniadau; e.e. a ffafrir, gwrthwynebol, wedi'u cyd-drafod, gwyrrol; arwyddocâd; codau a chonfensiynau; dadansoddiad naratif

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio strwythur y diwydiant teledu a fideo gyda pheth defnydd o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio strwythur y diwydiant teledu a fideo gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drylwyr strwythur y diwydiant teledu a fideo gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 amlinellu'n gywir y materion allweddol a'r dadleuon sy'n effeithio ar y diwydiant teledu a fideo, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T2 esbonio'r materion allweddol a'r dadleuon sy'n effeithio ar y diwydiant teledu a fideo, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 gwerthuso'n feirniadol y materion allweddol a'r dadleuon sy'n effeithio ar y diwydiant teledu a fideo, gyda dadleuon cefnogol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 disgrifio cynnyrch teledu/fideo trwy gymhwyso technegau dadansoddi testun, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [YA]	T3 esbonio cynnyrch teledu/fideo trwy gymhwyso technegau dadansoddi testun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd.	Rh3 gwerthuso cynnyrch teledu/fideo yn feirniadol trwy gymhwyso technegau dadansoddi testun gyda dadleuon cefnogol ac enghreifftiau wedi eu hegluro a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 26: Astudiaethau Ffilm

Côd yr Uned:	T/600/6634
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o sut caiff ffilmiau eu creu ar gyfer cynulleidfaoedd penodol a sut maent yn creu ystyr ar gyfer y cynulleidfaoedd hynny trwy archwilio arferion y diwydiant a chymhwyso ystod o ddulliau damcaniaethol. Bydd y mewnwelediad a ddatblygir gan ddysgwyr yn hysbysu eu gwaith cynhyrchu yn y dyfodol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae pob dull o astudio ffilm yn ddamcaniaethol i ryw raddau. Mae hyd yn oed trafodaeth ysgafn am ffilmiau yn aml yn datgelu cydnabyddiaeth o'r auteur fel ffynhonnell ystyr y ffilm, a buddsoddiad diwylliannol yn hynny. Mae agwedd ddamcaniaethol at ffilm yn cydnabod yn syml bod angen i ni gymhwyso ffyrdd penodol o ymateb i destunau ffilm yn ymwybodol, er mwyn gwneud ein dehongliad yn glir, nid i eraill yn unig, ond hefyd i ni ein hunain. O'i wneud yn iawn, nid ymarferiad ailgyflwyno damcaniaeth yn unig yw hyn: mae cymhwyso damcaniaeth yn effeithiol a defnyddio offer dadansoddi penodol i gynhyrchu gwahanol ffyrdd o ddeall yr un testunau yn gwella ein dealltwriaeth, yn bywiogi ein gwerthfawrogiad, ac, yn achos ymarferwyr ffilm, yn hysbysu ac yn gwella eu gweithgaredd cynhyrchu.

Trwy ddilyn yr uned hon bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o nifer o ddulliau damcaniaethol o edrych ar ffilm, a'u cymhwyso i ffilmiau penodol. Daw'r dysgwyr i ddeall nad yw ffilmiau'n bodoli mewn gwagle, ac nad ydynt chwaith yn ymddangos fel blodau yn y gwanwyn. Yn hytrach, cânt eu creu gan ystod o benderfynyddion a dylanwadau sy'n cynnwys, ymhlith eraill, diwylliant a gwleidyddiaeth y wlad lle cânt eu cynhyrchu, y cyllid sy'n caniatáu eu cynhyrchu, technoleg cynhyrchu, dosbarthu ac arddangos ffilm, a natur a strwythur y diwydiant sy'n eu cynhyrchu.

Ar ben hynny, bydd dysgwyr yn archwilio'r berthynas, sy'n aml yn gymhleth, rhwng cynulleidfaoedd a ffilmiau, ac yn gallu deall pam a sut mae cynulleidfaoedd yn gwylio ffilmiau ac yn gwneud synnwyr ohonynt mewn ffyrdd arbennig.

Mae cyfleoedd yn yr uned i ddatblygu a chymhwyso technegau ymchwil trwy gwblhau darn o ymchwil cynulleidfa ymarferol. Bydd yr uned hefyd yn helpu i roi'r gwaith cynhyrchu a wnaed mewn unedau eraill yn ei gyd-destun.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu cymhwyso gwahanol agweddau dadansoddol i ffilmiau
- 2 Deall y berthynas rhwng ffilmiau a'u cyd-destunau cynhyrchu
- 3 Deall y berthynas rhwng cynhyrchwyr a chynulleidfaoedd
- 4 Deall y berthynas rhwng cynulleidfaoedd a ffilmiau.

Cynnwys yr Uned

1 Gallu cymhwyso gwahanol agweddau dadansoddol i ffilmiau

Agweddau dadansoddol: dulliau, e.e. dadansoddi genre, dadansoddi cynnwys, dadansoddi naratif, astudiaeth ar dderbyniad, astudiaeth ar gefnogwyr; damcaniaeth ffilmiau, e.e. strwythuraeth, semioteg, damcaniaeth auteur, ffeministiaeth, theori'r anghyffredin (queer), Marcsiaeth, seicoddadansoddi

Cymhwysiad: i ddyfyniadau; i ffilmiau cyfan; i genres

2 Deall y berthynas rhwng ffilmiau a'u cyd-destunau cynhyrchu

Cyd-destunau cynhyrchu: Hollywood, Bollywood, Prydeinig, gwledydd sy'n datblygu, cynrychiadau rhyngwladol ar y cyd, annibynnol

Ffactorau sy'n dylanwadu ar y berthynas: penderfynyddion ariannol; cyrff ariannu; cwotas; cymhellion treth; technolegau cynhyrchu; dosbarthu ac arddangos; tueddiadau; genres a chylchoedd; sêr; materion cymdeithasol a gwleidyddol; materion rheoliadol; synergedd rhwng gwahanol ffilmiau; integreiddio fertigol a llorweddol

3 Deall y berthynas rhwng cynhyrchwyr a chynulleidfaoedd

Y berthynas rhwng cynhyrchwyr a chynulleidfaoedd: ymchwil cynulleidfa; ymateb y cynhyrchydd i ymchwil; targedu cynulleidfa; dosbarthu; cyhoeddusrwydd a marchnata, e.e. hysbysebu, adolygu, sioeau sgwrsio, nwyddau cysylltiedig, dangosiad cyntaf, gwobrau, presenoldeb ar-lein

4 Deall y berthynas rhwng cynulleidfaoedd a ffilmiau

Y berthynas rhwng cynulleidfaoedd a ffilmiau: gwylwyr gweithredol; pleser; fframweithiau dehongli; llythrennedd yn y cyfryngau; rhyngdestuniaeth; darlleniadau a ffafrir; effeithiau; cefnogwyr; natur rhyngweithiol; rhwydweithio cymdeithasol; profiadau cyn ac ar ôl gwyllo; amodau derbyn, e.e. sinema, rhyddhau DVD, mynediad ar-lein

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 cymhwyso dulliau o ddadansoddi ffilmiau gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [DA]	T1 cymhwyso dulliau o ddadansoddi ffilmiau yn ystyrlon, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 cymhwyso dulliau o ddadansoddi ffilmiau yn feirniadol, gan gynnal pwyntiau â dadleuon ac enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio'r berthynas rhwng ffilmiau a'u cyd-destunau cynhyrchu gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T2 esbonio'r berthynas rhwng ffilmiau a'u cyd-destunau cynhyrchu gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n drylwyr y berthynas rhwng ffilmiau a'u cyd-destunau cynhyrchu, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 disgrifio'r berthynas rhwng cynhyrchwyr a chynulleidfaoedd ffilmiau gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T3 esbonio'r berthynas rhwng cynhyrchwyr a chynulleidfaoedd ffilmiau gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh3 esbonio'n drylwyr y berthynas rhwng cynhyrchwyr a chynulleidfaoedd ffilmiau, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI4 disgrifio'r berthynas rhwng cynulleidfaoedd a ffilmiau gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc.	T4 esbonio'r berthynas rhwng cynulleidfaoedd a ffilmiau gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd.	Rh4 esbonio'n drylwyr y berthynas rhwng cynulleidfaoedd a ffilmiau, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 27: Technegau Cynhyrchu Rhaglenni Ffeithiol ar gyfer y Teledu

Côd yr Uned:	H/600/6631
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu'r ystod lawn o sgiliau y mae eu hangen ar gyfer cynhyrchu rhaglenni ffeithiol, o ymchwilio a chynllunio cynrychiadau hyd at y broses gynhyrchu.

Cyflwyniad i'r uned

Cynhyrchu rhaglenni ffeithiol yw un o feysydd allbwn mwyaf y teledu, ac mae'n darparu ystod helaeth o gyfleoedd a rolau proffesiynol yn y diwydiant.

Y sector hwn yw'r prif gyfathrebydd gwybodaeth yng nghyswllt digwyddiadau byd-eang, materion neu farn lleol, ac agweddau cymdeithas neu gymunedau, o'r materion byd-eang mwyaf difrifol i adloniant pur. Mae'n darparu cyfleoedd aruthrol o ran syniadau ar gyfer cynrychiadau posib.

Mae'r genre yn cynnwys newyddion, rhaglenni dogfen, addysg, cylchgrawn, trafodaeth, adolygu, sioe sgwrsio, diddordeb arbennig (fformatau hobi, gweddwed a sut mae gwneud), teledu 'realaeth' ac is-genres eraill. Mae'n golygu ymwneud â materion cyfryngau allweddol cynrychiolaeth, mynediad, gwrthrychedd, goddrychedd a chyfleu ystyr.

Mae'r uned hon yn adeiladu ar sgiliau cyn cynhyrchu, cynhyrchu a rheoli cynhyrchu cyffredinol, ac yn darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau arbenigol uwch megis newyddiaduraeth darlledu, technegau cyflwyno a chyfweld, a'r proffesiynoldeb sy'n ofynnol wrth weithio gyda'r cyhoedd.

Er mai 'ffeithiol' yw'r diffiniad sylfaenol o'r genre, mae ystod eang o gyfleoedd i ddatblygu gallu creadigol o fewn y broses gynhyrchu a hefyd yng nghynnwys y pwnc, gan gynnwys cyfleoedd i ddysgwyr weithio ar brosiectau sydd o ddiddordeb a her personol iddynt.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall materion yn ymwneud â rhaglennu ffeithiol ar gyfer y teledu
- 2 Deall codau a chonfensiynau rhaglennu ffeithiol ar gyfer y teledu
- 3 Gallu cynllunio ac ymchwilio rhaglen ffeithiol ar gyfer y teledu
- 4 Gallu cynhyrchu rhaglen ffeithiol ar gyfer y teledu.

Cynnwys yr Uned

1 Deall materion yn ymwneud â rhaglennu ffeithiol ar gyfer y teledu

Materion: cywirdeb; cydbwysedd; bod yn ddiuedd; gwrthrychedd; goddrychedd; barn; bias; cynrychiolaeth; mynediad; preifatrwydd; contract gyda'r gwyliwr

2 Deall codau a chonfensiynau rhaglennu ffeithiol ar gyfer y teledu

Newyddion: darllenwyr newyddion yn y stiwdio; gohebwyd yn y maes; cysylltiadau â'r stiwdio; dull o gyfarch y gwyliwr; cyfweld; arbenigwyr a thystion; strwythur yr adroddiad; ffilm o ddigwyddiadau ar y pryd

Rhaglen ddogfen: fformatau rhaglenni dogfen (esboniadol, arsylwi, rhyngweithio, ymatblyg, perfformiadol); realaeth; dramateiddio; troi'n naratif

3 Gallu cynllunio ac ymchwilio rhaglen ffeithiol ar gyfer y teledu

Genres: newyddion; rhaglenni dogfen, e.e. drama ddogfen, opera sebon ddogfennol, adloniant sy'n cynnwys gwybodaeth, teledu 'realaeth', addysgiadol, bywyd gwyllt, diddordeb arbennig, gwednewid; cylchgrawn; trafodaeth; adolygu; sioe sgwrsio

Datblygu syniadau: cysyniad y rhaglen; cynulleidfa darged; technegau datblygu, e.e. creu naratif, senario, synopsis, y broses ymchwil, cwestiynau cyfweliad

Ymchwil: ffynonellau cynradd, e.e. cysylltiadau, cyfweliadau; ffynonellau eilaidd, e.e. darllediadau, adolygiadau, y rhyngwyd, archifau; gwirio gwybodaeth

Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol: ffilmio'n gyhoeddus; cliriadau a chaniatâd; preifatrwydd; enllib a difenwi; gofynion Deddf Darlledu 1994; canllawiau cynhyrchwyr y BBC; Ofcom

Cynllunio: trefnu'r cynhyrchiad; rolau a chyfrifoldebau; amserlenni; apwyntiadau cyfweld a chysylltiadau; rhagchwiliadau o'r lleoliad; cyllideb (a gynlluniwyd, yn esblygu); asesiadau risg; dogfennaeth

Cynnig: syniad am bwnc; fformat; genre; arddull; cynulleidfa; nod arfaethedig; cyllideb

4 Gallu cynhyrchu rhaglen ffeithiol ar gyfer y teledu

Technegau cynhyrchu: ffilmio (golygfeydd cyffredinol, cyfweliadau, torri i ffwrdd); graffeg; darnau wedi eu sgriptio i'r camera; stiwdio; lleoliad; man cyhoeddus; sain (sain amgylchynol, trac gwyllt, cyfweliadau, disgrifiadau'r cyflwynydd, sain stiwdio)

Rheoli'r cynhyrchu: monitro cynnydd; nodi a datrys problemau; trefnu'r cynhyrchiad, e.e. taflenni galw, llogi cyfarpar, rheoli'r lleoliad, rheoli logisteg

Golygu: creu naratif; cyfleu ystyr; darlunio'r pwnc

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio materion sy'n ymwneud â rhaglenni teledu ffeithiol gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio materion sy'n ymwneud â rhaglenni teledu ffeithiol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drylwyr faterion sy'n ymwneud â rhaglenni teledu ffeithiol, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio codau a chonfensiynau rhaglenni teledu ffeithiol, gan fynegi syniadau gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T2 esbonio codau a chonfensiynau rhaglenni teledu ffeithiol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n drylwyr godau a chonfensiynau rhaglenni ffeithiol, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 cynllunio ac ymchwilio rhaglen ffeithiol ar gyfer y teledu, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol a chan dderbyn peth cymorth [YA, MC, HR]	T3 cynllunio ac ymchwilio rhaglen ffeithiol ar gyfer y teledu yn effeithiol, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynllunio ac ymchwilio rhaglen ffeithiol ar gyfer y teledu o ansawdd sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cynhyrchu rhaglen ffeithiol ar gyfer y teledu, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol a chan dderbyn peth cymorth. [MC, HR, GT]	T4 cynhyrchu rhaglen ffeithiol ar gyfer y teledu yn alluog, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh4 cynhyrchu rhaglen ffeithiol ar gyfer y teledu o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan arddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 28: Cynhyrchu Rhaglenni Corfforaethol a Hyrwyddol

Côd yr Uned:	R/600/6611
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr y ddealltwriaeth, yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol i gynllunio a chynhyrchu rhaglenni corfforaethol a hyrwyddol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae cynhyrchu rhaglenni corfforaethol a hyrwyddol yn cyfrif am ran helaeth o gynhyrchu delweddau symudol, ac yn cynnwys cynrychiadau gwybodaeth corfforaethol, hyrwyddo cerddoriaeth a rhaglenni hyfforddi. Mae pobl yn gweld rhaglenni corfforaethol a hyrwyddol bob dydd, ac maent yn ddylanwad mawr ar arferion prynu. Mae archfarchnadoedd bellach yn gosod sgriniau mawr ar draws yr ale siopa er mwyn denu siopwyr i brynu cynnyrch. Mae llawer o gwmnïau mawr yn cynhyrchu rhaglen gorfforaethol flynyddol ar gyfer buddsoddwyr a staff.

Mae cwmnïau cynhyrchu yn cynhyrchu rhaglenni at amrywiaeth eang o ddibenion: cynadleddau a seminarau, DVDs ar gyfer sefydlu a hyfforddi staff, cyfweiliadau 'pen sy'n siarad' gyda phrif weithredwyr a sêr, pitsh gwerthiant a fideos 'dadfriffio' ar gyfer cyflwyniadau cysylltiadau cyhoeddus, a hyd yn oed gwisiau tafarn. Gallai cwmnïau cynhyrchu hefyd greu fideos 'yn tystio i'w safon' ar gyfer cwmnïau sydd am ddangos eu cleientiaid bodlon ar-lein, Mpegs firaol ar gyfer marchnata ar-lein, a negeseuon fideo MMS ar gyfer ffonau symudol.

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn ymchwilio i arferion cyfredol, ac yn edrych ar natur amrywiol y sector. Byddant yn arbrofi gyda thechnegau a thechnoleg i gynhyrchu rhaglen hyrwyddo neu gorfforaethol orffenedig. Byddant yn ymarfer technegau cynhyrchu proffesiynol ac yn cynhyrchu deunydd sy'n bodloni brîff penodol a gofynion cleient.

Mae'r uned hon yn cynnig cyfle gwirioneddol i ddatblygu sgiliau cyn cynhyrchu a chynhyrchu, ac i gynhyrchu gwaith gorffenedig.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall codau, confensiynau ac arfer cyfredol ym maes rhaglenni corfforaethol a hyrwyddol
- 2 Gallu cynllunio rhaglenni corfforaethol neu hyrwyddol yn unol â brîff
- 3 Gallu cynhyrchu rhaglenni corfforaethol neu hyrwyddol yn unol â brîff.

Cynnwys yr Uned

1 Deall codau, confensiynau ac arfer cyfredol ym maes rhaglenni corfforaethol a hyrwyddol

Codau a chonfensiynau yn ymwneud â'r canlynol: arddull; cynnwys; ffurf (gweithgaredd hyrwyddo, hyfforddiant, gwybodaeth, cerddoriaeth, gwerthiant)

Arfer cyfredol yn ymwneud â'r canlynol: cyfarpar; fformatau; technegau

Materion cyfreithiol: preifatrwydd; enllib; hawlfraint; cyfreithiau cyfredol yn ymwneud ag, e.e. cysylltiadau hiliol, anabledd, anweddustra

Materion moesegol: cynrychiolaeth, e.e. hil, rhyw, crefydd

Arferion cynhyrchu: cyswllt â'r cleient; datblygiad syniadau; triniaethau; cynigion; bwrdd stori; sgriptiau; sgriptiau saethu; amserlennu; iechyd a diogelwch

2 Gallu cynllunio rhaglenni corfforaethol neu hyrwyddol yn unol â briff

Gofynion cynhyrchu: manyleb y cleient; anghenion y gynulleidfa; defnyddio technegau priodol (un camera, camerâu lluosog, dybio sain, stiwdio, lleoliad); defnyddio fformatau priodol

Cynllunio: amserlennu; rolau cynhyrchu a rheoli; monitro cynnydd; nodi logisteg

Adnoddau: amser; cyllideb; ffisegol, e.e. cyfarpar, lleoliad, stiwdio, eiddo; pobl, e.e. criw, doniau

3 Gallu cynhyrchu rhaglenni corfforaethol neu hyrwyddol yn unol â briff

Cynhyrchu: recordio mewn stiwdio neu ar leoliad; iechyd a diogelwch; rheoli cynhyrchu; recordio deunydd; rheoli logisteg

Ôl-gynhyrchu: coladu deunydd; logio deunydd; ffurfio deunydd; cysylltu â'r cleient; adolygu deunydd; gwneud newidiadau

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio codau, confensiynau ac arfer cyfredol rhaglenni corfforaethol a hyrwyddol, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio codau, confensiynau ac arfer cyfredol rhaglenni corfforaethol a hyrwyddol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drylwyr godau, confensiynau ac arfer cyfredol rhaglenni corfforaethol a hyrwyddol, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynllunio rhaglen hyrwyddo neu gorfforaethol i friff, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [HR, MC]	T2 cynllunio rhaglen hyrwyddo neu gorfforaethol i friff yn effeithiol, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynllunio rhaglen hyrwyddo neu gorfforaethol i friff o ansawdd sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu rhaglen hyrwyddo neu gorfforaethol i friff, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [HR]	T3 cynhyrchu rhaglen hyrwyddo neu gorfforaethol i friff yn effeithiol, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 cynhyrchu rhaglen hyrwyddo neu gorfforaethol i friff o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan arddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 29: Cynhyrchu Fideo Cerddoriaeth

Côd yr Uned:	M/600/6650
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn archwilio pwrpas, arddulliau a chonfensiynau'r fideo cerddoriaeth. Wedyn byddant yn datblygu, yn cynllunio ac yn cynhyrchu fideo cerddoriaeth.

Cyflwyniad i'r uned

Mae llawer o gyfleoedd i gymhwyso technegau cynhyrchu fideo cerddoriaeth yn niwydiannau'r cyfryngau. Heblaw am allfeydd sefydledig sianeli cerddoriaeth ar y teledu, marchnata a hyrwyddo yn y diwydiant cerddoriaeth boblogaidd a gwerthiant uniongyrchol DVDs, mae hefyd wefannau ar gyfer artistiaid newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, Myspace a YouTube, deunydd i'w lawrlwytho i'r ffôn, a chrefft VJ mewn lleoliadau cerddoriaeth, cyngherddau a gwyliau.

Mae fideos cerddoriaeth yn gyfle delfrydol i arbrofi gyda delweddau symudol gwledol, gan roi cyfle i'r dysgwyr ddefnyddio eu dychymyg creadigol i'r eithaf, a chymhwyso sgiliau technegol, sydd wedi cael eu datblygu mewn unedau eraill.

Mae astudio arddulliau a chonfensiynau sefydledig y fideo cerddoriaeth yn fan cychwyn, gan fod angen i ddysgwyr ddeall beth sydd eisoes wedi cael ei wneud i ddatblygu eu syniadau eu hunain. Wedyn gallan nhw arbrofi gyda thechnegau i greu fideos cerddoriaeth, a allai adlewyrchu eu diddordebau cerddorol eu hunain, neu gallent fod yn gweithio i fand neu artist i greu fideo cerddoriaeth ar gyfer briff 'byw'. Byddant hefyd yn gallu gwella a datblygu ymhellach sgiliau trosglwyddadwy cynhyrchu fideo, yn enwedig technegau ôl-gynhyrchu golygu a chymhwyso effeithiau, gyda'r posibilrwydd o ychwanegu technegau uwch megis cyfuno animeiddio digidol neu fframiau stop â lluniau byw, allwedd chroma ac effeithiau matte (di-sglein).

Bydd y dysgwyr yn datblygu'r wybodaeth greadigol angenrheidiol i adlonni'r gynulleidfa darged a chynnal eu sylw, i allu ystyried gofynion cleient, ac i gyflawni diben hyrwyddol y cynnyrch.

Mae'n hawdd trosglwyddo datblygiad cysyniadau creadigol a'r sgiliau angenrheidiol i'w cymhwyso i lawer o genres eraill, yn cynnwys hysbysebu, drama, a dylunio gemau cyfrifiadurol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall diben fideos cerddoriaeth
- 2 Deall arddulliau, confensiynau a thechnegau fideos cerddoriaeth
- 3 Gallu creu a chynllunio cynhyrchiad fideo cerddoriaeth ar gyfer trac cerddoriaeth penodol
- 4 Gallu gweithio i gwblhau cynhyrchu fideo cerddoriaeth.

Cynnwys yr Uned

1 Deall diben fideos cerddoriaeth

Dibenion: hyrwyddo; estyn incwm; estyn allfeydd (sianel gerddoriaeth, gwerthiant DVD a CD uniongyrchol, y wefan, lawrlwytho); synergedd (ffilmiau, rhaglenni teledu); strategaethau cynhyrchwyr (prif label, annibynnol, wedi'u cynhyrchu gan yr artist ei hun)

2 Deall arddulliau, confensiynau a thechnegau fideos cerddoriaeth

Arddulliau: genres cerddoriaeth boblogaidd; deunydd mewn cyngerdd ac 'fel petai'n fyw'; animeiddio (symudiad stop, digidol); deongliadol; naratif; argraffiadol; swreal; pastiche; parodi; cyfeiriadaeth; homage/teyrnged; dylanwad hysbysebion

Confensiynau: dehongli geiriau; estyn neu gadarnhau ystyr y gân; crybwyll; cysylltiadau ag artistiaid eraill

Technegau: torri gyda'r curiad; effeithiau; meimio a chydamseru gwefusau; chwarae nôl a chydamseru gwefusau; multi-mage; symudiadau'r camera; onglau'r camera; allwedd chroma

3 Gallu creu a chynllunio cynhyrchiad fideo cerddoriaeth ar gyfer trac cerddoriaeth penodol

Cynnig syniadau: dewis trac cerddorol; dadansoddi'r trac cerddorol (ystyr, cynnwys, delweddau, naratif, hyd, cyflymdra, arddull, semioteg); arddull y perfformiwr; delwedd y perfformiwr; arddull y fideo; cysyniad creadigol

Ymchwil: ffynonellau ar gyfer lleoliadau; ffilmiau a ganfuwyd (archifau fideo, llyfrgelloedd, gwefannau, hawlfraint, ildiadau)

Cynllunio: sgript; bwrdd stori; sgript saethu (symudiadau'r camera, tynnu lluniau, onglau, dilyniant); dethol criw technegol a pherfformiad; rolau a chyfrifoldebau tîm; trefnu ac amserlennu'r cynhyrchu; rhagchwiliadau o'r lleoliad; asesiadau risg; caniatâd i ffilmio; cliriadau

4 Gallu gweithio i gwblhau cynhyrchu fideo cerddoriaeth

Gwaith: e.e. yn unigol, fel cyfarwyddwr, fel rheolwr cynhyrchu, fel gweithredydd camera, fel golygydd

Cynhyrchu: e.e. gweithredu uniongyrchol, rheoli'r cynhyrchu, saethu ffilm, creu animeiddiad, goleuo, creu SFX, golygu; log cynhyrchu

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio dibenion fideos cerddoriaeth gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio dibenion fideos cerddoriaeth, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drylwyr ddibenion fideos cerddoriaeth, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.
LI2 disgrifio arddulliau, confensiynau a thechnegau fideos cerddoriaeth gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T2 esbonio arddull, confensiynau a thechnegau fideos cerddoriaeth, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n drylwyr arddulliau, confensiynau a thechnegau fideos cerddoriaeth, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.
LI3 creu a chynllunio cynhyrchiad fideo cerddoriaeth ar gyfer trac cerddorol penodol, gan weithio oddi mewn i'r confensiynau gyda pheth cymorth [MC]	T3 creu a chynllunio cynhyrchiad fideo cerddoriaeth ar gyfer trac cerddoriaeth penodol, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 creu a chynllunio cynhyrchiad fideo cerddoriaeth ar gyfer trac cerddoriaeth penodol o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 gweithio i gwblhau cynhyrchu fideo cerddoriaeth, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chyda pheth cymorth. [GT, HR]	T4 gweithio'n alluog i gwblhau cynhyrchu fideo cerddoriaeth sy'n dangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh4 gweithio gydag ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol i gwblhau cynhyrchu fideo cerddoriaeth, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 30: Cynhyrchu Hysbysebion ar gyfer y Teledu

Côd yr Uned:	M/600/6602
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i gymhwyso sgiliau cynhyrchu er mwyn creu hysbyseb ar gyfer y teledu. Bydd y dysgwyr yn edrych ar hysbysebion teledu sydd eisoes yn bodoli er mwyn ymchwilio i sut gellir llunio negeseuon sy'n dwyn perswâd. Wedyn byddant yn cynllunio ac yn cynhyrchu hysbyseb ar gyfer y teledu, ac yn gwerthuso effeithiolrwydd eu cynnyrch gorffenedig.

Cyflwyniad i'r uned

Mae hysbysebu o'n cwmpas ym mhobman ac yn rhan annatod o fywyd pob dydd. Dyma un o sectorau mwyaf diwydiant y cyfryngau, gan fod hysbysebion yn cael eu cyflwyno mewn ystod eang o gyfryngau, megis teledu, ffilm, radio, cylchgronau, poster, hysbysfyrddau, y wasg a'r rhyngwyd. O'r rhain i gyd, mae'n debygol mai hysbysebu ar y teledu sydd â'r proffil uchaf, gyda rhai hysbysebion teledu mor effeithiol a chofiadwy fel eu bod yn dod yn glasurol ac yn rhan o gefndir diwylliannol cenedlaeth gyfan o wylwyr. Defnyddir y teledu i farchnata bron pob cynnyrch y gellir ei ddychmygu, o nwyddau traul pob dydd, fel powdwr golchi, i geir moethus, tra bod rhai hysbysebion yn hyrwyddo gwasanaeth megis yswiriant, bancio neu gymorth os bydd eich cerbyd yn torri i lawr.

Mae hysbysebu ar y teledu wedi dod yn fwyfwy soffistigedig, gan ddefnyddio'r technegau cynhyrchu digidol diweddaraf. Gall y cynnwys a'r arddull fod yn syml neu'n gymhleth, gan ddefnyddio strwythurau naratif traddodiadol neu ddelweddau swreal llai amlwg, a gall y negeseuon fod yn agored neu'n gynnil. Nid ymddengys bod unrhyw un dull y gellid dweud ei fod yn fwy effeithiol nag un arall.

Mae'r uned hon yn cychwyn trwy ystyried strwythur hysbysebion, sut maen nhw'n ceisio gweithio a sut gellir llunio negeseuon sy'n dwyn perswâd. Bydd deall y pethau hyn yn creu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio cynhyrchu hysbysebion ar gyfer y teledu, yn ogystal â galluogi'r dysgwyr i ddod yn ddefnyddwyr mwy craff.

Trwy ymchwil a dadansoddi, bydd y dysgwyr yn edrych ar gynhyrchu hysbysebion ac yn archwilio'r berthynas rhwng y gynulleidfa, y cyfrwng a'r neges. Yn ddiethriad mae hysbysebwr yn targedu cynulleidfa hynod benodol, y gobeithir y bydd yn creu cysylltiad â brand arbennig, ac felly'n penderfynu ei brynu. Mae dealltwriaeth o sut meddylir am y cynulleidfa oedd hynny, a sut y deuir o hyd iddynt yn hanfodol, felly.

Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau cynhyrchu ymarferol ac yn dysgu sut mae cynllunio, cynhyrchu a monitro'r cynhyrchu hyd at lunio hysbyseb orffenedig ar gyfer y teledu. Mae'r uned felly yn rhoi cyfle i'r dysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n rhan annatod o ffurfiau eraill ar gynhyrchu cyfryngau, ac yn sgîl hynny gaffael sgiliau a gwybodaeth sy'n eithriadol o drosglwyddadwy. Yn olaf, byddant yn gwerthuso effeithiolrwydd y cynnyrch gorffenedig.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am strwythurau a thechnegau hysbysebion teledu
- 2 Gallu cael syniad gwreiddiol a'i ddatblygu ar gyfer hysbyseb teledu
- 3 Gallu cynhyrchu hysbyseb teledu
- 4 Gallu myfyrio ar eu gwaith cynhyrchu hysbyseb teledu eu hunain.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am strwythurau a thechnegau hysbysebion teledu

Strwythurau: ffurf, e.e. naratif realaeth, naratif gwrth-realaeth, animeiddio, rhaglen ddogfen, pennau sy'n siarad, annibynnol, cyfres; arddull, e.e. llawn hiwmor, swreal, dramatig, parodiaidd; codau a chonfensiynau (ongl y camera, saethiad, eiconograffeg, golygu, goleuo, sain, cerddoriaeth); graffeg gyfrifiadurol; effeithiau arbennig (SFX)

Technegau: negeseuon cudd ac agored; ymatebion neu gysylltiad emosiynol, e.e. ateb i broblem, ofn, pryder, tosturi, hunan-ganfyddiad, safle cymdeithasol; cymeradwyaeth gan sêr

Nodweddion cynnyrch neu wasanaethau: manteision a gynigir; rhagoriaethau ar gynnyrch eraill tebyg; cynnig gwerthu unigryw (USP); apêl ffordd o fyw; hunaniaeth y brand

Rheoleiddio: Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA); Ofcom

Gwybodaeth am y gynulleidfa: paneli mesur cynulleidfa; graddau; cyfweiliadau wyneb yn wyneb; grwpiau ffocws; holiaduron; proffiliau rhaglenni; Broadcasters' Audience Research Board (BARB); asiantaethau ymchwil teledu

Ffynonellau gwybodaeth: cardiau graddau; pecynnau gwybodaeth hysbysebwy; gwefannau asiantaethau ymchwil

Dosbarthiad y gynulleidfa: Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol; seicograffeg; geodemograffeg; yn ôl oedran; yn ôl rhyw

2 Gallu cael syniad gwreiddiol a'i ddatblygu ar gyfer hysbyseb teledu

Ymchwil ar gyfer y cynhyrchiad: brîff; cleient; cyllideb; terfyn amser; adnoddau technegol; cyfyngiadau technegol; adnabod y gynulleidfa darged, e.e. meintiol, ansoddol, grwpiau ffocws; amodau derbyn; data ymchwil marchnad; materion cyfreithiol a moesegol, e.e. codau ymarfer, fframwaith rheoliadol

Syniadau: cynhyrchu syniadau e.e. mapio meddwl, trafodaeth grŵp, arfer y presennol a'r gorffennol; cofnodi syniadau, e.e. nodiadau, brasluniau; cynlluniau a chynigion cychwynnol; nodi'r neges; cynnwys; arddull; perthnasedd i'r gynulleidfa

3 Gallu cynhyrchu hysbyseb teledu

Cyn cynhyrchu: crynodeb; sgript; byrddau stori; amserlen cynhyrchu; cynlluniau o'r lleoliad; sgript saethu; asesu risg; criw; actorion

Cynhyrchu: technoleg, e.e. camerâu, tapiâu, treipodau, meicroffonau, goleuadau; saethu; goleuo; recordio sain; iechyd a diogelwch

Ôl-gynhyrchu: technoleg, e.e. ystafelloedd golygu, desgiau cymysgu; logio tâp; rhestrau o benderfyniadau golygu; golygu; cymysgu sain

4 Gallu myfyrio ar eu gwaith cynhyrchu hysbyseb teledu eu hunain

Ffynonellau gwybodaeth: hunanwerthuso; dogfennaeth, e.e. nodiadau, brasluniau, byrddau stori, brasluniau bawd, byrddau hwyliau, gosodiadau arbrofol, logiau cynhyrchu; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient

Cynnrych gorffenedig: addasrwydd at y diben; eglurder cyfathrebu; priodoldeb ar gyfer y gynulleidfa; cymharu â'r bwriadau gwreiddiol; effeithiolrwydd technegau; effeithiolrwydd y cynnwys; effaith y gwaith; nodweddion technegol; nodweddion esthetig

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio strwythurau a thechnegau hysbysebion teledu gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio strwythurau a thechnegau hysbysebion teledu, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drylwyr strwythurau a thechnegau hysbysebion teledu, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cael syniad gwreiddiol ar gyfer hysbyseb teledu a'i ddatblygu, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, YA]	T2 cael syniad gwreiddiol ar gyfer hysbyseb teledu a'i ddatblygu, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cael syniad gwreiddiol ar gyfer hysbyseb teledu, a'i ddatblygu, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu hysbyseb teledu, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [GT, HR]	T3 cynhyrchu hysbyseb teledu o safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynhyrchu hysbyseb teledu o safon dechnegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan arddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cyflwyno sylwadau ar eu gwaith cynhyrchu hysbyseb teledu eu hunain, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [DA]	T4 esbonio eu gwaith cynhyrchu hysbyseb teledu eu hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd.	Rh4 gwerthuso eu gwaith cynhyrchu hysbyseb teledu eu hun yn feirniadol yng nghydestun arfer proffesiynol, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 31: Cynhyrchu Cyfryngau Gweithredu Cymdeithasol a Chymunedol

Côd yr Uned:	J/600/6671
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gymhwyso sgiliau cynhyrchu mewn cyd-destun cymunedol. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i weithredu cymdeithasol a chynnyrch cyfryngau cymunedol sydd eisoes yn bodoli, ac yna'n cymhwyso eu dealltwriaeth trwy gynhyrchu darn o waith sydd â diben cymunedol a gweithredu cymdeithasol penodol. Yn olaf, byddant yn gwerthuso effeithiolrwydd y cynnyrch gorffenedig.

Cyflwyniad i'r uned

Gall y cyfryngau gael effaith ddofn ar agweddau ac ymddygiad, a lluniwyd llawer o waith cyfryngau i gysylltu â phobl mewn ffyrdd penodol - er enghraifft er mwyn newid sut y gwelir mater penodol, i hybu achos, i herio ideoleg amlwg, neu i gymell cyfrannu elusennol. Gellir disgrifio hyn fel cyfryngau gweithredu cymdeithasol.

Nodweddir maes cynyddol cyfryngau cymunedol gan wasanaeth i gymuned, wedi ei gyfuno â chyfranogiad y gymuned honno yn y broses gynhyrchu. Rhoddwyd hwb i gyfryngau cymunedol yn y DU ers i orsafoedd radio cymunedol amser llawn gael eu gwneud yn gyfreithlon yng Ngorchymyn Radio Cymunedol 2004.

Yn y ddau achos, ni luniwyd y gwaith a gynhyrchir yn bennaf ar gyfer adloniant nac elw, ond mewn ymateb i agenda gymdeithasol neu wleidyddol benodol.

Gall gwaith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymunedol ddigwydd mewn amrywiaeth o ffurfiau. Gall gynnwys gwaith a fwriadwyd i'w ddsbarthu i gynulleidfa dorfol, megis gwaith ymgyrchu dros elusennau, gwybodaeth gyhoeddus neu bleidiau gwleidyddol. Fodd bynnag, gall hefyd gynnwys gwaith a fwriadir yn bennaf i sicrhau gwelliannau i'r gymuned leol, gyda dosbarthiad ac arddangosiad torfol yn flaenoriaethau llawer is. Mae cyfryngau cymunedol hefyd yn rhoi pwyslais ar y manteision mae cyfranogwyr yn eu derbyn drwy fod yn rhan o'r cynhyrchu. Nid yw gwaith cynhyrchu gweithredu cymdeithasol a chymunedol bob amser yn ffuglennol, gan fod modd iddo gynnwys gwaith dramatig sy'n deillio o faterion cymdeithasol a chymunedol penodol, a fwriadir i'w hamlygu.

Trwy ddilyn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng pwrpas gwaith a'i dechnegau, yr amodau cynhyrchu, a dosbarthiad ac arddangosiad arfaethedig y gwaith, nid yng nghyswllt cyfryngau cymunedol yn unig, ond hefyd yng nghyswllt y cyfryngau yn gyffredinol. Byddant yn rhoi ystyriaeth i faterion mynediad, cyllido a chynrychiolaeth. Wedyn byddant yn rhoi'r ddealltwriaeth hon ar waith trwy gynhyrchu darn o waith sydd â phwrpas cymunedol neu weithredu cymdeithasol dilys, ar sail ymchwil. Yn olaf, byddant yn gwerthuso effeithiolrwydd y cynnyrch gorffenedig.

Yn ogystal â sgiliau technegol, mae gofyn bod gan y dysgwyr rywfaint o aeddfedrwydd yn yr uned hon i ddelio â'r cyhoedd a materion a allai fod yn sensitif neu'n ddadleuol. O ganlyniad, gall fod yn fwy priodol fel uned yn yr ail flwyddyn.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall pwrpas ac effaith gwaith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymunedol
- 2 Gallu ymchwilio ar gyfer gwaith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymdeithasol
- 3 Gallu cynllunio a chynhyrchu darn o waith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol neu gymunedol
- 4 Gallu myfyrio ar eu gwaith cynhyrchu cyfryngau g weithredu cymdeithasol neu gymunedol eu hunain.

Cynnwys yr Uned

1 Deall pwrpas ac effaith gwaith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymunedol

Diben: creu newid lleol, cenedlaethol neu fyd-eang; newid agweddau; cynyddu ymwybyddiaeth; creu mynediad i gynhyrchu cyfryngau ar gyfer grwpiau annhraddodiadol; herio cynrychiolaethau ac agendâu amlwg; creu neu gryfhau cysylltiadau cymunedol; darparu gwybodaeth; ymgyrchu; newid ymddygiad pleidleisio; cael hyd i ffordd i mewn i gyfryngau prif ffrwd; adeiladu perthynas gyda'r rhai sydd dan sylw

Effaith: tystiolaeth o unrhyw newid sy'n cael ei achosi trwy brosiectau

2 Gallu ymchwilio ar gyfer gwaith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymdeithasol

Technegau ymchwil: cynradd; eilaidd; ansoddol; meintiol

Materion ymchwil: nodau ac amcanion; cymdeithasol; materion personol a gwleidyddol; ystyriaethau moesegol; ymwybyddiaeth o faterion sensitif o gwmpas y rhai sy'n destun sylw; adnoddau a nodweddion cymunedol; materion mynediad; gwaith cymaradwy sydd eisoes yn bodoli; materion ariannu; cyfleoedd i ddsbarthu ac arddangos

3 Gallu cynllunio a chynhyrchu darn o waith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol neu gymunedol

Cynllunio: datblygu ffurf ac arddull sy'n briodol ar gyfer y neges; defnyddio dyfeisiau penodol ar gyfer y cyfrwng; cyswllt â chyfranogwyr, cyfranwyr a chleientiaid; amserlennu gweithgareddau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu; cydlynu personél ac adnoddau

Cynhyrchu: cyn cynhyrchu; cynhyrchu; ôl-gynhyrchu; defnyddio technegau priodol ar gyfer y cyfrwng, y cyd-destun a'r pwnc

4 Gallu myfyrio ar eu gwaith cynhyrchu cyfryngau g weithredu cymdeithasol neu gymunedol eu hunain.

Ffynonellau gwybodaeth: hunan-werthuso; dogfennaeth, e.e. nodiadau, brasluniau, byrddau stori, brasluniau bawd, byrddau hwyliu, gosodiadau arbrofol, logiau cynhyrchu; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient

Cynnrych gorffenedig: addasrwydd at y diben; eglurder cyfathrebu; priodoldeb ar gyfer y gynulleidfa; cymharu â'r bwriadau gwreiddiol; effeithiolrwydd technegau; effeithiolrwydd y cynnwys; effaith y gwaith; nodweddion technegol; nodweddion esthetig

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio pwrpas ac effaith gwaith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymunedol [YA]	T1 esbonio pwrpas ac effaith gwaith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymunedol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono	Rh1 esbonio'n drylwyr bwrpas ac effaith gwaith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymunedol, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro
LI2 cynnal ymchwil ar gyfer gwaith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymunedol gyda pheth cymorth [YA, HR, CE]	T2 cynnal ymchwil ar gyfer gwaith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymunedol yn alluog, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynnal ymchwil ar gyfer gwaith cynhyrchu cyfryngau cymunedol o safon sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.
LI3 cynllunio a chynhyrchu cynnyrch cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymunedol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, GT, HR, CE]	T3 cynllunio a chynhyrchu cynnyrch cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymunedol o safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynllunio a chynhyrchu cynnyrch cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymunedol o safon dechnegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 gwneud sylwadau ar eich gwaith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymunedol eich hun. [DA]	T4 esbonio eich gwaith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymunedoleich hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono.	Rh4 gwerthuso'n feirniadol eich gwaith cynhyrchu cyfryngau gweithredu cymdeithasol a chymunedoleich hun yng nghyd-destun arfer proffesiynol, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 32: Dylunio Identau ar gyfer y Teledu

Côd yr Uned:	D/600/6613
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth o ddylunio a chynhyrchu graffeg ac identau ar y sgrin ar gyfer y teledu, a datblygu sgiliau yn y maes hwnnw, gan ddefnyddio technolegau priodol manipwleiddio a chynhyrchu delweddau.

Cyflwyniad i'r uned

Yn ddiweddar mae natur cynhyrchu a darlledu ar y teledu wedi esblygu'n gyflym. Mae ehangu darlledu teledu cebl, lloeren a digidol wedi creu twf yn nifer y sianeli teledu, yn ogystal â faint o gynnwys tele-weledol sy'n ofynnol ar gyfer y diwydiant newydd â'i sianeli lluosog.

Yn y farchnad fythol-gynyddol hon, mae hunaniaeth gorfforaethol cwmnïau cynhyrchu a darlledu teledu yn bwysicach nag erioed, efallai. Gyda'r gwylwyr yn cael dewis mor helaeth, mae'n hanfodol sicrhau bod golwg a thôn yr holl gynnwys ar y sgrin yn hawdd ei adnabod ar unwaith, ac yn apelio at y gynulleidfa darged.

O fewn y diwydiant, mae galw mawr am unigolion sydd â'r ddealltwriaeth a'r dychymyg i weithio gyda delwedd cwmni, a hefyd y gallu technegol i wireddu eu hanghenion. Mae pŵer delwedd unedig ar y sgrin yn cael ei gydnabod yn helaeth, ac mae'r cyfleoedd ar gyfer dylunwyr arbenigol mewnol ac ar eu liwt eu hunain yn eang.

Er bod identau fel arfer yn cynnwys sain ac elfen weledol, mae'r uned hon, er mwyn mireinio dealltwriaeth y dysgwyr, yn delio ag agwedd weledol creadigaethau o'r fath yn unig.

Mae'r uned hon yn cyflwyno'r dysgwyr i'r technegau proffesiynol ar gyfer dylunio graffeg ac identau teledu yn greadigol ar y sgrin, a'u cynhyrchu'n effeithiol. Mae'n cynnwys heriau esthetig a thechnegol ym maes y teledu, anghenion y gwylwyr, cyddrafod briff yn greadigol, rolau tîm a sgiliau cysylltiedig. Ar ben hynny, mae'r uned yn rhoi cyfle i ymchwilio i botensial y technolegau perthnasol ar gyfer manipwleiddio a chynhyrchu delweddau.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall dyluniad a phwrpas identau teledu
- 2 Deall cyfleoedd a chyfyngiadau cynrychiolaeth graffeg ar y sgrin
- 3 Gallu creu identau teledu gwreiddiol a'u cynllunio'n unol â brîff
- 4 Gallu cynhyrchu ident teledu yn unol â brîff.

Cynnwys yr Uned

1 Deall dyluniad a phwrpas identau teledu

Dylunio: dwysedd yr wybodaeth; gofod ac amser; tempo ar y sgrin; rhyngweithio gyda'r gwylwyr; wedi'i arwain gan wybodaeth; wedi'i arwain gan adloniant

Diben: hunaniaeth; brandio; marchnata; pecynnu ac ail-becynnu; amserlennu; segmentau oddi mewn i'r trefniadau amserlennu

2 Deall cyfleoedd a chyfyngiadau cynrychiolaeth graffeg ar y sgrin

Cyfleoedd: creu hunaniaeth gorfforaethol; arddangos gwybodaeth a seiliwyd ar destun; brandio'r cynnwys; creu tŷn; apelio at y gynulleidfa darged; annog teyrngarwch i'r brand

Cyfyngiadau: teipograffeg; cydraniad; lliw; maint; cymhareb agwedd; systemau recordio a throslgwyddo analog a digidol

Cyfathrebu creadigol: gwella syniadau; gwthio'r dechnoleg; cyfleu syniadau gweledol i gynulleidfa nad yw'n weledol; creu o dan bwysau amser a chyllideb; apelio at gynulleidfa darged; gwerthfawrogi'r tŷn a ddymunir

3 Gallu creu identau teledu gwreiddiol a'u cynllunio'n unol â brîff

Cynllunio: cyllideb cynhyrchu; amserlenni; rheoli a rolau; gwaith papur cynhyrchu; gweithio i gleient

Datblygu dyluniad: llunio byrddau stori; amseru dilyniannau animeiddio; ehangu neu leihau'r cysyniad i greu cyfres o identau

4 Gallu cynhyrchu ident teledu yn unol â brîff

Cysyniadau a chymwysyadau: animeiddio 2D; animeiddio 3D; symudiad stop; creu haenau

Golygu digidol: meddalwedd golygu; cof; fformatau ffeiliau

Rheoli'r cynhyrchu: amserlennu; cadw at derfynau amser; rheoli adnoddau; gweithio'n unol â brîff y cleient; cyswllt â chleientiaid; cyd-drafod â chleientiaid; rheoli ansawdd; gwaith tîm; cyflwyniadau

Proffesiynoldeb: cadw at derfynau amser; rheoli ansawdd; gwaith tîm; cyflwyno syniadau'n effeithiol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad yn'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio dyluniad a phwrpas identau teledu gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio dyluniad a phwrpas identau teledu, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drylwyr ddyluniad a phwrpas identau teledu, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio cyfleoedd a chyfyngiadau cynrychiolaeth graffeg ar y sgrin, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T2 esbonio cyfleoedd a chyfyngiadau cynrychiolaeth graffeg ar y sgrin, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohoni, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n drylwyr gyfleoedd a chyfyngiadau cynrychiolaeth graffeg ar y sgrin, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 creu identau teledu gwreiddiol a'u cynllunio'n unol â brîff, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC]	T3 creu identau teledu gwreiddiol a'u cynllunio'n unol â brîff, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 creu identau teledu gwreiddiol a'u cynllunio'n unol â brîff, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cynhyrchu ident teledu'n unol â brîff, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol gyda pheth cymorth. [HR]	T4 cynhyrchu ident teledu'n unol â brîff, gan weithio at safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh4 cynhyrchu ident teledu'n unol â brîff, gan weithio at safon sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 33: Cynhyrchu Animeiddio Symudiad Stop

Côd yr Uned:	L/502/5700
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau dysgwyr wrth gynhyrchu animeiddio symudiad stop, gan ddefnyddio dulliau traddodiadol fesul ffrâm i animeiddio deunyddiau 3D megis gwrthrychau, pypedau, ffigurau clai a modelau eraill.

Cyflwyniad i'r uned

Mae animeiddio wedi dod yn ffurf gynyddol bwysig ar y cyfryngau, a gellir gweld enghreifftiau mewn fformatau mor wahanol â hysbysebu, ffilmiau nodwedd, cynnwys ar gyfer ffonau symudol, y rhyngwyd a'r teledu.

Mae'r diwydiant yn cynnwys cwmnïau cynhyrchu mawr a bach sy'n gweithio ar brosiectau animeiddio symudiad stop gan ddefnyddio amrywiaeth o fformatau at amrywiaeth o ddibenion. Mae animeiddio ar bob graddfa yn golygu bod angen pobl sydd â syniadau ffres, cyffrous ar gyfer gwaith newydd, tra bydd ar y cwmnïau mwy hefyd angen unigolion sydd â sgiliau arbenigol, megis gwneud modelau.

Nod yr uned hon yw estyn galluedd y dysgwyr ym mhob cam o'r broses o animeiddio modelau yn y dull symudiad stop (defnyddir y term 'model' yn yr uned hon i gynnwys y gwrthrychau, y pypedau neu'r ffigurau a ddefnyddir fel cymeriadau mewn animeiddiad symudiad stop). Bydd y dysgwyr yn gweithio ar ddyluniad, cymeriad, cyd-destun a naratif, ac ar yr un pryd yn datblygu ystod o dechnegau cynhyrchu. Mae safbwynt, goleuo a symudiad, megis cerdded a chydamseru gwefusau, yn faterion allweddol yn yr uned hon. Mae animeiddio symudiad stop yn cynnwys datblygu syniadau creadigol o ran y cymeriad, y cyd-destun a'r stori, a fydd yn ennyn diddordeb y gynulleidfa a ddewiswyd. Anogir dysgwyr i arbrofi gyda'r cynnwys a'r dechneg.

Fel deunydd cefndir hanfodol, mae angen i ddysgwyr ymchwilio i'r technegau cynhyrchu a'r cynnwys a ddefnyddiwyd mewn enghreifftiau hanesyddol a chyfoes o waith, a deall pethau megis parhad yr hyn a welir, cyflymdra fframiau, technegau fframiau stop, gwneud modelau a setiau.

Wrth ddilyn yr uned, bydd y dysgwyr yn sylweddoli'n gynyddol bod angen cadw eu cynulleidfa darged mewn cof bob amser, a rhoi sylw, ym mhob cam, i rôl animeiddio fel dull o gyfathrebu. Er mwyn eu hannog i sylweddoli hyn, bydd eu gwaith animeiddio yn cael ei arddangos i gynulleidfaedd ar ôl ei gwblhau, a bydd ymatebion y gynulleidfa'n cael eu gwerthuso.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall technegau a datblygiad animeiddio symudiad stop
- 2 Gallu dyfeisio animeiddiad symudiad stop gyda thrac sain
- 3 Gallu cynhyrchu animeiddiad symudiad stop gyda thrac sain
- 4 Gallu gwerthuso ymatebion cynulleidfa i'w gwaith animeiddio symudiad stop eu hun.

Cynnwys yr Uned

1 Deall technegau a datblygiad animeiddio symudiad stop

Technegau: parhad yr hyn a welir; ffrâm stop; cyflymdra fframiau

Datblygiad: arloeswyr, e.e. Joseph Plateau (phenakitoscope), William Horner (zoetrope), Emile Reynaud (praxinoscope), Edward Muybridge, Edison (kinetoscope), y brodyr Lumière, George Pal; datblygwyr, e.e. Willis O'Brien, Ray Harryhausen, Jan Švankmajer; gwaith cyfoes, e.e. y brodyr Quay, Tim Burton, Aardman Animations; genres a ffurfiau, e.e. animeiddio ar y teledu, identau sianeli, sinema, hysbysebu, fideos cerddoriaeth, gemau cyfrifiadur, ffonau symudol, gwefannau

2 Gallu dyfeisio animeiddiad symudiad stop gyda thrac sain

Defnydd o fformatau posib: e.e. technegau ffrâm stop, ffotograffiaeth treigl amser, animeiddio plastisin, animeiddio clai, defnyddio gwrthrychau a ganfuwyd, modelu, pypedwaith, fformatau cyfun

Creu cysyniadau: testun; cymeriadau; darluniad; ymwybyddiaeth o gyfyngiadau technegol; ecsbloetio posibiliadau'r fformat

Creu syniadau cynhyrchu: storïau sylfaenol; setiau; cefndiroedd; senarios; sain

Cynulleidfa: diffiniad o'r gynulleidfa, e.e. yn ôl oedran, yn ôl rhyw, yn ôl diddordebau; chwaeth; cyd-destun gwylio

Cynllunio: darluniadau; llunio byrddau stori; ystyried symudiadau; dilyniant; fframiau yr eiliad; persbectif; dylunio trac sain; safbwynt; set neu gefndir; goleuo: lliw

3 Gallu cynhyrchu animeiddiad symudiad stop gyda thrac sain

Cydrannau cynhyrchu: fformat; naratif; cerddoriaeth; effeithiau arbennig; toriadau; trawsnewid; amseru; nifer y fframiau; taflenni cynllunio

Elfennau adeiladu: cymeriad; modelau; propiau; goleuo; set, e.e. set tair wal, sgrin las, lleoliad

Symudiad: e.e. cerdded, cydamseru gwefusau, mynegiant, sicrhau bod y pypedau ynghlwm wrth y set, gwneud i byped hedfan

Camera: fframio; mynediad i'r set; ongl; symudiad; goleuo; safbwynt priodol; ffocws; persbectif

Golygu ôl-gynhyrchu: ychwanegu effeithiau gweledol: cyfuno gwahanol elfennau mewn un saethiad; cael gwared ar rigiau

Sain ôl-gynhyrchu: trac sain; deialog; cydamseru; sganio lefelau; defnyddio meddalwedd golygu; fframiau allweddol

4 Gallu gwerthuso ymatebion cynulleidfa i'w gwaith animeiddio symudiad stop eu hun

Dangos gwaith i gynulleidfaeod: e.e. sgrinio'n lleol, gwyliau, gwefannau

Nodi'r meini prawf ar gyfer adborth: genre; cynnwys; arddull; naratif; cymeriad; technegau; nodweddion technegol; nodweddion esthetig; nodweddion creadigol

Casglu ymatebion y gynulleidfa: trafodaethau; holiaduron; adolygiadau; grwpiau ffocws; adborth o'r arddangosfa ar-lein

Adrodd y canfyddiadau: cyflwyniad llafar; adroddiad ysgrifenedig; cynllun gweithredu; adolygu

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio technegau a datblygiad animeiddio symudiad stop gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio technegau a datblygiad animeiddio symudiad stop, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drylwyr dechnegau a datblygiad animeiddio symudiad stop, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 creu amlinelliad o syniadau ar gyfer animeiddiad symudiad stop gyda thrac sain, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC]	T2 creu syniadau manwl ar gyfer animeiddiad symudiad stop gyda thrac sain, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 creu syniadau sydd wedi'u pwyso a'u mesur yn drwyadl ar gyfer animeiddiad symudiad stop gyda thrac sain, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu animeiddiad symudiad stop gyda thrac sain, gyda pheth cymorth	T3 cynhyrchu animeiddiad symudiad stop gyda thrac sain o safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynhyrchu animeiddiad symudiad stop gyda thrac sain o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 gwneud sylwadau ar ymatebion cynulleidfa i'ch gwaith animeiddio symudiad stop eich hun, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [DA]	T4 esbonio ymatebion cynulleidfa i'ch gwaith animeiddio symudiad stop eich hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan wneud defnydd o derminoleg y pwnc sy'n gywir at ei gilydd.	Rh4 gwerthuso'n feirniadol ymatebion cynulleidfa i'ch gwaith animeiddio symudiad stop eich hun, gyda dadleuon cefnogi ac enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 34: Cynhyrchu Animeiddio 2D

Côd yr Uned:	J/502/5663
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau dysgwyr wrth gynhyrchu animeiddiadau 2D gan ddefnyddio technegau traddodiadol neu ddigidol, neu gyfuniad o'r ddau. Bydd y dysgwyr yn gweithio ar ddyluniad, cymeriad, cyd-destun a naratif, ac ar yr un pryd yn datblygu technegau cynhyrchu.

Cyflwyniad i'r uned

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio'r technegau cynhyrchu a'r cynnwys a ddefnyddiwyd mewn enghreifftiau hanesyddol a chyfoes o waith. Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o faterion megis parhad yr hyn a welir, cyflymder fframiau, technegau fframiau stop, a chynhyrchu celloedd. Bydd y cefndir hwn yn hysbysu cynllunio a chynhyrchu gwaith gan ddefnyddio dulliau traddodiadol neu rai o'r offer digidol ar gyfer animeiddio 2D. Er mwyn datblygu eu dealltwriaeth a'u sgiliau, bydd angen i'r dysgwyr gadw eu cynulleidfa darged mewn cof bob amser, ac i'r diben hwnnw, bydd eu gwaith animeiddio yn cael ei arddangos i gynulleidfaedd ar ôl ei gwblhau, a bydd yr ymatebion yn cael eu gwerthuso.

Mae animeiddio wedi dod yn ffurf gynyddol bwysig ar y cyfryngau, a gellir gweld enghreifftiau ar lwyfannau mor wahanol â hysbysebu, ffilmiau nodwedd, cynnwys ar gyfer ffonau symudol, y rhyngwrwd a'r teledu. Mae sgiliau animeiddio da hefyd yn bwysig yn y diwydiant gemau cyfrifiadur.

Mae'r diwydiant animeiddio'n cynnwys cwmnïau cynhyrchu mawr a bach, ac unigolion sy'n gweithio ar brosiectau digidol bychain. Mae ar animeiddio ar bob graddfa angen pobl sydd â syniadau ffres a chyffrous ar gyfer gwaith newydd, tra bydd ar gwmnïau mwy angen unigolion sydd â sgiliau arbenigol, megis llunio byrddau storio a 'tweening', neu'r dystiolaeth i brofi y gallant eu datblygu. Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu eu gallu yn y ddau faes gwaith. Anogir dysgwyr hefyd i arbrofi gyda'r cynnwys a'r dechneg.

I gael gyrfa lwyddiannus ym maes animeiddio bydd angen, yn gyntaf oll, sgiliau lluniadu da, gan fod y rhain yn hanfodol i gael mynediad i'r diwydiant. Yn ail, mae angen y gallu i ddatblygu syniadau ffres ar gyfer cynnwys a fydd yn ennyn diddordeb y gynulleidfa dan sylw. Hefyd, bydd animeiddiwr da yn rhoi sylw i rôl gyfathrebu animeiddio ym mhob cam o'r broses, boed hynny er mwyn rhoi adloniant neu wybodaeth. Mae bob amser yn ceisio mynd y tu hwnt i greu siapiau sy'n symud ar sgrîn.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall technegau a datblygiad animeiddio 2D
- 2 Gallu dyfeisio animeiddiad 2D gyda thrac sain
- 3 Gallu cynhyrchu animeiddiad 2D gyda thrac sain
- 4 Gallu gwerthuso ymatebion cynulleidfa i'w gwaith animeiddio 2D eu hun.

Cynnwys yr Uned

1 Deall technegau a datblygiad animeiddio 2D

Technegau: animeiddio 2D traddodiadol (llyfr fflicio, animeiddio 'cel', rotosgop, lluniadu ar ffilm, lluniau llonydd ffotograffig); technegau digidol ar gyfer animeiddio 2D (graffeg bitmap 2D, graffeg vector 2D); meddalwedd cymhwysiad, e.e. Flash, After Effects, Anime Studio, Toon Boom Studio, PowerPoint

Datblygiad: arloeswyr, e.e. Joseph Plateau (phenakitoscope), William Horner (zoetrope), Emile Reynaud (praxinoscope), Edward Muybridge, Edison (kinetoscope), y brodyr Lumière, George Pal; datblygwyr, e.e. Walt Disney, Hannah Barbera, Warner Bros, Norman McLaren, Len Lye; gwaith cyfoes, e.e. *Monty Python, Yellow Submarine, A Scanner Darkly, Persepolis*; genres a ffurfiau, e.e. sinema, hysbysebu, teledu plant, fideos cerddoriaeth, gemau cyfrifiadur, ffonau symudol, gwefannau

2 Gallu dyfeisio animeiddiad 2D gyda thrac sain

Dewis o fformatau posib: addasrwydd ar gyfer yr adnoddau sydd ar gael; priodoldeb ar gyfer yr arddull a ddewiswyd, e.e. technegau ffrâm stop, ffliplyfr, animatig, sribed ffilm, ffotograffiaeth treigl amser, ffotograffau dilyniannol, collage, cardiau mynegai, animeiddio torri allan, animeiddio 'cel', gwneud marciau ar ffilm

Cynhyrchu syniadau: darluniad; cymeriadau; cefndiroedd; storiâu sylfaenol; sain; gweithio oddi mewn i gyfyngiadau technegol

Ystyried yr apêl i gynulleidfa: diffiniad o'r gynulleidfa, e.e. yn ôl oedran, yn ôl rhyw, yn ôl diddordebau; chwaeth; cyd-destun gwyllo

Cynllunio: dyluniadau; darluniadau; llunio byrddau stori; ystyried symudiadau; dilyniant; fframiau yr eiliad; persbectif; dylunio trac sain; safbwynt, e.e. newidiadau neu hyd a lled gweithred neu symudiad

3 Gallu cynhyrchu animeiddiad 2D gyda thrac sain

Cydrannau cynhyrchu: fformat; cynnwys sy'n barod ar gyfer y camera; naratif; cerddoriaeth; effeithiau arbennig; toriadau; trawsnewid; amseru; nifer y fframiau; taflenni cynllunio

Camera: fframio; ongl; symudiad; goleuo; safbwynt priodol

Sain ôl-gynhyrchu: trac sain; deialog; cydamseru; sganio lefelau; defnydd o feddalwedd; fframiau allweddol

Ar gyfer cynhyrchu digidol: defnydd o gymwysiadau meddalwedd, e.e. Flash, Photoshop, After Effect, Anime Studio, Toon Boom Studio, PowerPoint

4 Gallu gwerthuso ymatebion cynulleidfa i'w gwaith animeiddio 2D eu hun

Dangos gwaith i gynulleidfaeod: e.e. sgrinio'n lleol, gwyliau, gwefannau

Nodi'r meini prawf ar gyfer adborth: genre; cynnwys; arddull; naratif; cymeriad; technegau; nodweddion technegol; nodweddion esthetig; nodweddion creadigol;

Casglu ymatebion y gynulleidfa: trafodaethau; holiaduron; adolygiadau; grwpiau ffocws; adborth o'r arddangosfa ar-lein

Adrodd y canfyddiadau: e.e. cyflwyniad llafar, adroddiad ysgrifenedig, cynllun gweithredu, adolygiad

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 crynhoi'n gywir dechnegau a datblygiad animeiddio 2D gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio technegau a datblygiad animeiddio 2D, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drylwyr dechnegau a datblygiad animeiddio 2D, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 creu amlinelliad o syniadau ar gyfer animeiddiad 2D gyda thrac sain, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC]	T2 creu syniadau manwl ar gyfer animeiddiad 2D gyda thrac sain, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 creu syniadau sydd wedi'u pwysu a'u mesur yn drwyadl ar gyfer animeiddiad 2D gyda thrac sain, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu animeiddiad 2D gyda thrac sain, gyda pheth cymorth [HR]	T3 cynhyrchu animeiddiad 2D gyda thrac sain o safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynhyrchu animeiddiad 2D gyda thrac sain o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 gwneud sylwadau ar ymatebion cynulleidfa i'ch gwaith animeiddio 2D eich hun, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [DA]	T4 esbonio ymatebion cynulleidfa i'ch gwaith animeiddio 2D eich hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan wneud defnydd o derminoleg y pwnc sy'n gywir at ei gilydd.	Rh4 gwerthuso'n feirniadol ymatebion cynulleidfa i'ch gwaith animeiddio 2D eich hun, gyda dadleuon cefnogi ac enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 35: Cynhyrchu Gwaith Gosodiadau Fideo

Côd yr Uned:	R/502/5696
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw annog dysgwyr i arbrofi gyda fideo fel cyfrwng. Byddant yn datblygu ymwybyddiaeth o bosibiliadau dulliau o gynhyrchu fideo nad ydynt yn rhan o'r brif ffrwd, ac yn dyfeisio, cynhyrchu ac arddangos gwaith, gan gaffael dealltwriaeth o waith gosodiadau fideo yng nghyd-destun oriel neu ardal arddangos arall.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r dysgwyr yn debygol o fod yn gyfarwydd â gwaith fideo arbrofol, arloesol neu nad yw'n rhan o'r brif ffrwd, yn enwedig ym maes fideos cerddorol, ond maent yn llai tebygol o fod yn gyfarwydd â gwaith gosodiadau, gan fod hwn yn weithgaredd cyfryngau hynod leiafrifol. Ar y cyfan mae wedi ei gyfyngu i orielau arbenigol ac adrannau celf prifysgolion, ac nid dyma'r mwyaf masnachol o weithgareddau cyfryngau. Mae hefyd yn wir bod dysgwyr yn annhebygol iawn o wneud unrhyw arian o osodiadau fideo ar unrhyw adeg yn eu gyrfaedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n werth ei ystyried am nifer o resymau. Yn gyntaf, mae'n ffurf ar gelfyddyd fynegiannol sy'n debygol o fod o ddiddordeb i ddysgwyr wrth iddynt anelu at fod yn ymarferwyr fideo, gan eu galluogi i archwilio syniadau personol ac ymdrin â chynnwys heriol. Yn ail, mae'n ffordd ardderchog o estyn a datblygu gwybodaeth a sgiliau. Yn drydydd, gall fod iddo beth gwerth masnachol o safbwynt yr unigolyn gan ei fod yn darparu ffocws ar gyfer rhwydweithio gydag ymarferwyr eraill, a gall ddarparu cyfle i arddangos galluoedd technegol a chreadigol yng nghymuned ehangach diwydiant y cyfryngau.

Yn yr uned hon anogir dysgwyr i arbrofi gyda fideo fel cyfrwng. Byddant yn datblygu sgiliau ymarferol a damcaniaethol mewn dulliau o gynhyrchu fideo nad ydynt yn rhan o'r brif ffrwd, ac yn caffael dealltwriaeth o waith gosodiadau fideo yng nghyd-destun oriel neu ardal arddangos arall.

Gellir codi cwestiynau ynghylch naratif, estheteg a'r cysylltiadau rhwng recordiadau fideo a realiti yn ystod yr uned hon. Mae'r term 'gosodiad fideo' wedi caffael ei gyfres ei hun o gonfensiynau, y dylai dysgwyr eu hystyried, er y gall y rhain amrywio mewn gwahanol fathau o orielau a manau ar gyfer celf gyhoeddus.

Bydd yr uned hon yn rhoi i'r dysgwyr ddealltwriaeth o gynhyrchu fideo pan dynnir ef allan o gyfyngiadau confensiynau ffurfiau cyfryngau prif ffrwd, a bydd yn eu hannog i fyfrio ar bosibiliadau fideo fel ffurf ar gelfyddyd weledol. Bydd angen i'r dysgwyr fyfrio'n ofalus ar gyfansoddiad y saethu a'r defnydd o godau gweledol goleuo, lliw, siâp, procsemeg, semioteg ac onglau camera. Mae elfennau ychwanegol amser a symudiad yn golygu bod hwn yn wahanol i fathau eraill o gelfyddyd weledol.

Er nad yw'n rhan o'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel y 'cyfryngau prif ffrwd', bydd gwaith gosodiadau fideo yn gofyn bod y dysgwyr yn arddangos lefelau uchel o allu technegol ac arferion cynhyrchu proffesiynol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall posibiliadau fideo mewn safle arddangos fel math ar gelfyddyd
- 2 Gallu cynnig syniad gwreiddiol ar gyfer gosodiad fideo mewn lleoliad penodol a'i ddatblygu
- 3 Gallu cynhyrchu fideo ar gyfer gosodiad mewn lleoliad penodol
- 4 Gallu rhoi'r gosodiad yn ei le.

Cynnwys yr Uned

1 Deall posibiliadau fideo mewn safle arddangos fel math ar gelfyddyd

Arfer yn awr ac yn y gorffennol: ymarferwyr yn awr ac yn y gorffennol; defnydd o dechnoleg a thechnegau; arddulliau; ffurfiau naratif a ffurfiau heblaw naratif; defnydd o ofod arddangos i greu ystyr; y berthynas rhwng y gwaith a'ch syniadau eich hun

Cynulleidfa: natur y gynulleidfa; ymatebion y gynulleidfa

2 Gallu cynnig syniad gwreiddiol ar gyfer gosodiad fideo mewn lleoliad penodol a'i ddatblygu

Syniadau: tasgu syniadau; arfer yn awr ac yn y gorffennol; nodiadau; brasluniau; sgriptiau drafftiau; set neu frasluniau o'r gosodiad; ymchwil a datblygiad

Technolegau: yr elfen weledol, e.e. camerâu fideo, camerâu llonydd, gwaith celf crefftwaith llaw, ffilm, animeiddio, technolegau digidol; yr elfen sain, e.e. llais, deialog, cerddoriaeth, electronig, distawrwydd; goleuo; tafluniad neu sgrîn; ffynhonnell neu ffynonellau ar gyfer delweddau; cydgyfeiriant technolegol

Lleoliad: ymchwilio i leoliadau posib; rhagchwiliadau; nodi cyfleusterau; asesiadau risg o'r lleoliad

Cyn cynhyrchu: sgriptiau; byrddau stori; cast a chriw; amserlenni cynhyrchu; materion hawlfraint; llogi'r lleoliad; asesiadau risg o'r gosodiad

3 Gallu cynhyrchu fideo ar gyfer gosodiad mewn lleoliad penodol

Cynhyrchu: creu deunydd gweledol fel y cynlluniwyd; creu deunydd sain fel y cynlluniwyd

Ôl-gynhyrchu: dethol delweddau; dethol sain; rhestr o'r penderfyniadau golygu; dilyniannu; golygu: effeithiau gweledol a sain; cyfuniad o ddelwedd a sain; cynhyrchu tâp lŵp neu DVD

4 Gallu rhoi'r gosodiad yn ei le

Cynllunio'r gosodiad: cysylltu â'r lleoliad; gwiriad iechyd a diogelwch; nodi'r adnoddau a'r cyfarpar angenrheidiol; trefnu'r cymorth angenrheidiol; cynllunio'r logisteg

Y broses osod: cydosod yr adnoddau a'r cyfarpar; creu amgylchedd gwaith addas; cwblhau'r gosodiad; arddangos arferion gwaith diogel; cwblhau'r gwiriad diogelwch

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio gwaith artistiaid fideo gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio gwaith artistiaid fideo, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drylwyr waith artistiaid fideo, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.
LI2 creu syniadau amlinellol ar gyfer gwaith fideo i'w arddangos mewn lleoliad penodol, a'u datblygu, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC]	T2 cynnig syniadau manwl gwreiddiol a'u datblygu ar gyfer gwaith fideo i'w arddangos mewn lleoliad penodol, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynnig syniadau gwreiddiol wedi eu pwyso a'u mesur yn drwyadl a'u datblygu ar gyfer gwaith fideo i'w arddangos mewn lleoliad penodol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu gwaith fideo i'w arddangos mewn lleoliad penodol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth	T3 cynhyrchu gwaith fideo i'w arddangos mewn lleoliad penodol o safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynhyrchu gwaith fideo i'w arddangos mewn lleoliad penodol o safon dechnegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan arddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI4 gosod gwaith fideo i'w arddangos yn ei le yn ddiogel yn y lleoliad penodedig, gyda pheth cymorth.</p> <p>[HR]</p>	<p>T4 gosod gwaith fideo i'w arddangos yn ei le yn ddiogel yn y lleoliad penodedig, a gwneud hynny'n alluog heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.</p>	<p>Rh4 gosod gwaith fideo i'w arddangos yn ei le yn ddiogel yn y lleoliad penodedig, gydag ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.</p>

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 36: Technegau Cyfweld ar gyfer Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol

Côd yr Uned:	Y/600/6643
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu'r sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gynnal cyfweiliadau'n effeithiol ar gyfer ystod o gynnyrch cyfryngau. Mae'r uned yn datblygu gwerthfawrogiad dysgwyr o'r technegau a ddefnyddir gan ymarferwyr eraill yn y maes cyn symud ymlaen i roi profiad uniongyrchol iddynt o baratoi ar gyfer cyfweiliadau a'u cynnal.

Cyflwyniad i'r uned

Yn ddiamau, sgiliau cyfathrebu effeithiol ac effeithlon yw un o'r galluoedd allweddol y mae eu hangen ar unrhyw unigolyn i lwyddo yn niwydiant y cyfryngau. Mae'r gallu i gyfleu syniadau a bwriadau i eraill yn hanfodol. Fodd bynnag, mae cyfathrebu ag eraill er mwyn casglu gwybodaeth neu wella dealltwriaeth trwy gyfrwng cyfweiliad yn sgil penodol, y gosodir gwerth mawr arno, yn enwedig mewn meysydd megis newyddiaduraeth papurau newydd a darlledu.

Trwy eu gwaith ar yr uned hon, bydd y dysgwyr yn ehangu eu dealltwriaeth o dechnegau cyfweld ac yn gwella'u gallu i gynnal cyfweiliadau effeithiol, llwyddiannus at ddibenion ymarferol. Ar ôl cwblhau'r uned, bydd y dysgwyr yn gallu nodi'r technegau a ddefnyddir gan eraill a rhoi eu sgiliau eu hunain ar waith, gan gaffael profiad uniongyrchol o'r broses hon, sy'n aml yn gymhleth, ond yn rhoi llawer o foddhad.

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng sgil datblygu gyrfa mwy cyffredinol perfformio'n dda mewn cyfweiliadau am swyddi, nad yw'n ffocws yn yr uned hon, er y gall llawer o'r sgiliau a ddatblygir yn yr uned hon fod o gymorth mewn sefyllfa o'r fath. Mae'r uned hon yn canolbwyntio'n unig ar arfer diwydiant y cyfryngau o gyfweld unigolion at ddibenion ymchwil neu gyflwyniad er mwyn casglu gwybodaeth, barn, neu well dealltwriaeth o bwnc.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall dibenion a thechnegau cyfweld yn well
- 2 Gallu cynnal ymchwil i baratoi ar gyfer cyfweliad
- 3 Gallu cynllunio a strwythuro cyfweliadau at ddibenion a nodwyd
- 4 Gallu cynnal a recordio cyfweliadau at ddibenion a nodwyd.

Cynnwys yr Uned

1 Deall dibenion a thechnegau cyfweld yn well

Technegau cyfweld: mathau o gwestiynau (agored, caeedig, unigol, lluosog, uniongyrchol, awgrymog); arddull y cyfweliad, e.e. newyddion ffeithiol, gornest, ysgafn, adloniant, ymchwilio, hyrwyddo; strwythuro (cyflwyniad, cwestiynau datblygu, meithrin hyder, cwestiynau allweddol, dywediadau bachog, crynhoi, diwedd glo); sgiliau cyfathrebu, e.e. meithrin cyd-ddealltwriaeth, gwranddo'n weithredol, iaith y corff; technegau dros y ffôn, e.e. casglu gwybodaeth, derbyn sylwadau

Cyd-destunau newyddiadurol: e.e. print, teledu, radio, ar-lein, newyddion, chwaraeon, awduron nodwedd, golygyddol

Dibenion cyfweliadau: ymchwil; gwella dealltwriaeth y gynulleidfa; darparu gwybodaeth, e.e. cyflwyno gwybodaeth dehongli, e.e. mynegi neu esbonio barn, cyfiawnhad, atebolrwydd; emosiynol, e.e. rhoi cipolwg ar sefyllfa'r gynulleidfa

2 Gallu cynnal ymchwil i baratoi ar gyfer cyfweliad

Diben yr ymchwil: nodi ffeithiau allweddol am y pwnc; nodi materion a allai godi; nodi meysydd posib o ddiddordeb; amlygu meysydd o ddiddordeb neu sy'n destun pryder yng nghyd-destun y pwnc; nodi materion perthnasol yng nghefnidir y cyfwelai

Ymchwil baratoadol: arsylwi neu ddarllen cyfweliadau blaenorol; sefydlu'r ffeithiau allweddol a dyddiadau sy'n ymwneud â'r pwnc; themâu sy'n ymwneud â'r cyfwelai, e.e. materion neu gynnyrch y mae'r cyfwelai yn rhan ohonynt, gweithgareddau blaenorol y cyfwelai, ymateb eraill ynghylch mater neu gynnyrch, sylwadau eraill ynghylch y cyfwelai

Dulliau ymchwil: cynradd; eilaidd, e.e. llyfrau, cylchgronau, gwefannau, fforymau trafod, rhaglenni teledu, sylwebaeth DVD, cyfweliadau ag eraill, arsylwi digwyddiadau, pethau eraill mae'r cyfwelai yn rhan ohonynt

3 Gallu cynllunio a strwythuro cyfweiliadau at ddibenion a nodwyd

Dibenion: e.e. erthygl mewn cylchgrawn ffordd o fyw, erthygl ar deledu ffordd o fyw neu ar raglen radio, rhaglen ddogfen ar y teledu neu'r radio, gwefan newyddion i blant, blog masnachol, newyddion lleol ar y teledu, newyddion cenedlaethol ar y radio, cystadleuwyr teledu realaeth

Cynllunio cyfweiliad: lleoliad; dyddiad ac amser; lleoliad priodol; dulliau cofnodi; ystyriaethau amgylchynol; ystyriaethau cyswllt â doniau; gofynion y cyfweiliad

Strwythuro: llunio cwestiynau; sgriptio mewnbwn y cyfwelydd; ystyried arddull y cyfweiliad; diffinio'r dilyniant strwythurol, e.e. cyflwyniad, cwestiynau cynyddol, crynhoi

Paratoi: cyswllt â'r cleient; delio â rheolwyr doniau, e.e. cytundebau, rhagolwg o'r cwestiynau cyfweld, briffio paratoadol yn y wasg; cydymffurfiaeth olygyddol (delio'n deg â chyfranwyr, gan sicrhau eu cydsyniad, materion hawlfraint)

4 Gallu cynnal a recordio cyfweiliadau at ddibenion a nodwyd

Cynnal: dilyn strwythur wrth gynnal y cyfweiliad; cymryd nodiadau wrth gefn; sicrhau bod yr wybodaeth ofynnol wedi cael ei chasglu; sesiwn i gloi gyda'r cyfwelai

Recordio: defnyddio technoleg briodol, e.e. dictaffon, mini-disg, camera fideo, gwe-gamera, cysylltiad byw

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio technegau a ddefnyddir gan gyfwelwyr proffesiynol neu newyddiadurwyr, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio'r technegau a ddefnyddir gan gyfwelwyr proffesiynol neu newyddiadurwyr, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd.	Rh1 esbonio'n drylwyr y technegau a ddefnyddir gan gyfwelwyr proffesiynol neu newyddiadurwyr, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gywir
LI2 cynnal ymchwil ar gyfer paratoi a chynllunio cyfweiliad, gyda pheth cymorth [YA, HR]	T2 cynnal ymchwil ar gyfer paratoi a chynllunio cyfweiliad yn alluog, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynnal ymchwil ar gyfer paratoi a chynllunio cyfweiliad at safon sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 dylunio cyfweiliadau at ddibenion a nodwyd gyda pheth cymorth [MC]	T3 dylunio cyfweiliadau at ddibenion a nodwyd yn alluog, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 dylunio cyfweiliadau at ddibenion a nodwyd at safon sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI4 cynnal a recordio cyfweiliadau at ddibenion a nodwyd gyda pheth cymorth. [HR]	T4 cynnal a recordio cyfweiliadau at ddibenion a nodwyd yn alluog, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh4 cynnal a recordio cyfweiliadau at ddibenion a nodwyd at safon sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 37: Technegau Cyflwyno ar gyfer Darlledu

Côd yr Uned:	H/600/6662
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i ystod o dechnegau cyflwyno yn y cyfryngau darlledu a'u helpu i ddeall sut mae'r technegau hyn yn effeithio ar ystyr. Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyflwyno eu hunain er mwyn cyflawni arddull benodol, ac yn deall sut gall eu ffordd o gyflwyno gwybodaeth effeithio ar ddealltwriaeth cynulleidfa o'r wybodaeth honno.

Cyflwyniad i'r uned

Diben llawer o gynnyrch cyfryngau yw cyfleu gwybodaeth i gynulleidfa, ond bydd y dull o gyflwyno'r wybodaeth yn effeithio ar ddealltwriaeth y gynulleidfa o'r wybodaeth honno, neu hyd yn oed ar eu hawydd i'w derbyn. Yn dibynnu ar gyd-destun y cyflwyniad, gallai'r un dechneg gael effeithiau gwahanol. Petai rhywun oedd yn darllen y newyddion ar Radio 4 yn defnyddio slang yn ystod bwletin newyddion, gallai hynny ddigio rhai yn ei gynulleidfa. Gallai'r gynulleidfa deimlo'r un math o ddryswch pe na bai'r darllenydd bwletin ar Radio 1 yn defnyddio slang yn achlysurol. Yn yr un modd, petai cyflwynydd newyddion ar y teledu yn gwisgo crys-T a jîns, byddai'r gynulleidfa'n ymateb yn wahanol i'r hyn fyddai petai'r cyflwynydd yn gwisgo siwt ffurfiol, er mai'r un wybodaeth oedd yn cael ei chyflwyno.

Mae'r cyfryngau'n dibynnu'n drwm ar gyflwynwyr i gyfleu gwybodaeth, boed hynny ar y teledu, y radio, ar fideo, ar-lein, trwy drosleisio neu yn bersonol. Mae angen cyflwynwyr ar gyfer ystod eang o raglenni, yn cynnwys newyddion a materion cyfoes, rhaglenni cylchgrawn a defnyddwyr, rhaglenni dogfen, sioeau cwis, sioeau sgwrsio, ac wrth gwrs, ar gyfer darllen cyhoeddiadau rhwng rhaglenni. Maent yn dod o ystod yr un mor eang o gefndiroedd. Mae llawer yn newyddiadurwyr profiadol wedi eu hyfforddi, roedd rhai yn actorion neu'n gomediwyr gynt, tra bod eraill wedi

dechrau arbenigo mewn maes penodol cyn dod yn gyflwynwyr rhaglenni. Nid yw hon, felly, yn swydd y mae newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn yn debygol o'u cael eu hunain yn ei gwneud, ac er bod eithriadau amlwg, i'r mwyafrif mae hon yn swydd y dylid gweithio tuag ati a pharatoi ar ei chyfer ar hyd blynyddoedd cynnar gyrfa. Serch hynny, mae llawer o asiantaethau ar-lein sy'n cynnig gwaith achlysurol i ddarpar artistiaid trosleisio sydd heb fawr ddim profiad blaenorol, os o gwbl.

Mae sgiliau cyflwyno hefyd, wrth gwrs, yn aml yn rhan hanfodol o sicrhau cyflogaeth yn y diwydiant hynod gystadleuol hwn. Mae'r sgiliau a ddatblygir trwy ddilyn yr uned hon, felly, yn eithriadol o drosglwyddadwy, gan eu bod yn bwysig wrth bitsio syniad i gleient, er enghraifft, neu wrth roi cyflwyniad fel ymgeisydd am swydd yn niwydiant y cyfryngau.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall rolau a thechnegau cyflwyniadau
- 2 Gallu ymchwilio i gynigion ar gyfer cyflwyniadau
- 3 Gallu cyflwyno mewn rôl benodol at ddiben penodol
- 4 Gallu myfyrio ar eu cyflwyniad eu hunain.

Cynnwys yr Uned

1 Deall rolau a thechnegau cyflwyniadau

Rolau: e.e. cyflwynydd newyddion, cyhoeddwr dilyniannol, newyddiadurwr darlledu, cyflwynydd rhaglen gylchgrawn, cyflwynydd rhaglen ffordd o fyw, cyflwynydd rhaglenni dogfen, DJ, cyflwynydd sioe sgwrsio, cyflwynydd sioe gemau

Technegau geiriol: defnyddio iaith a strwythur ymadroddion; ehangder geirfa; ymadroddi; strwythur brawddegau; defnyddio paragraffau; aralleirio; iaith ddarluniadol; defnyddio dyfyniadau; cysondeb; ymadroddion nodweddiadol; acen; goslef y llais; cyflymdra'r cyflwyno; soniaredd; priodoldeb ar gyfer y gynulleidfa

Technegau gweledol: gwisg a golwg; iaith y corff; ystumiau corfforol; symudiad; mynegiant yr wyneb; priodoldeb ar gyfer y gynulleidfa

Cyd-destun: sefydliad y cynhyrchiad; cefndir (stiwedio, lleoliad); cynulleidfa darged

2 Gallu ymchwilio i gynigion ar gyfer cyflwyniadau

Ymchwil: nodi adnoddau, e.e. llyfrau, y rhyngrwyd, CD-ROM, cyfryngau eraill; gwybodaeth gefndir, e.e. bywgraffiadau, asiantau, gwybodaeth am drydydd parti, sylw yn y newyddion; cyfyngiadau amser

Cynigion: addasrwydd ar gyfer y cyfrwng; nodi arddull; cynulleidfa; effaith a fwriedir ar y gynulleidfa, e.e. addysgu, hysbysu, adlonni, creu argraff; cynigion geiriol ac ysgrifenedig

3 Gallu cyflwyno mewn rôl benodol at ddiben penodol

Cynllunio: paratoi; dogfennaeth cyn cynhyrchu, e.e. sgriptiau, byrddau stori, sgriptiau saethu, taflenni ciwio, amserlenni; dethol lleoliad; gwisg a golwg; propiau; cyfarpar addas ar gyfer recordio (sain neu glyweledol)

Cyflwyniad: ymarfer; recordio

4 Gallu myfyrio ar eu cyflwyniad eu hunain

Ffynonellau gwybodaeth: hunan-werthuso; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid

Proses: ymchwil; paratoi; ymarfer; recordio; rheoli amser; gwaith tîm

Eich gwaith eich hun: cynnwys; arddull; cymharu â'r bwriadau gwreiddiol; priodoldeb ar gyfer y gynulleidfa; nodweddion technegol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 arddangos dealltwriaeth o rolau a thechnegau cyflwyno	T1 arddangos dealltwriaeth gadarn o rolau a thechnegau cyflwyno, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt	Rh1 arddangos dealltwriaeth drylwyr o rolau a thechnegau cyflwyno, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro
LI2 ymchwilio i gynigion ar gyfer cyflwyniadau, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol a chyda pheth cymorth [YA]	T2 ymchwilio i gynigion ar gyfer cyflwyniadau yn alluog, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 ymchwilio i gynigion ar gyfer cyflwyniadau, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu cyflwyniad mewn rôl benodedig at ddiben penodol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol [HR]	T3 cynhyrchu cyflwyniad galluog mewn rôl benodedig at ddiben penodol, gan ddangos peth dychymyg	Rh3 cynhyrchu cyflwyniad mewn rôl benodedig at ddiben penodol, at safonau sydd bron yn broffesiynol, gan arddangos gallu creadigol a fflach
LI4 gwneud sylwadau ar eich gwaith cyflwyno eich hun. [DA]	T4 esbonio eich gwaith cyflwyno eich hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono.	Rh4 gwerthuso eich gwaith cyflwyno eich hun yn feirniadol yng nghydestun arfer proffesiynol, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 38: Cynhyrchu Trac Sain ar gyfer y Ddelwedd Symudol

Côd yr Uned:	H/502/5699
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o'r berthynas rhwng sain a llun wrth gynhyrchu delweddau symudol, a'r sgiliau y mae eu hangen i gynhyrchu traciau sain delweddau symudol trwy gaffael sain wreiddiol, defnyddio adnoddau sain sydd eisoes yn bodoli, a defnyddio meddalwedd ôl-gynhyrchu.

Cyflwyniad i'r uned

Mae sain yn chwarae rôl ganolog mewn cynyrchiadau delwedd symudol, p'un a ydynt yn brosiectau gwerth miliynau lawer o bunnoedd fel ffilmiau llawn cyffro a dramâu treftadaeth lliwgar ar gyfer y teledu, neu'n greadigaethau cyllideb fechan, ar raddfa fach, fel animeiddiadau a gynhyrchir ar gyfer y gylchdaith tŷ celf neu wefannau. Mae pobl sy'n gweithio ym maes cynhyrchu delweddau symudol yn ymwybodol ers cryn amser bod y trac sain yn ychwanegu at y ddelwedd weledol trwy helpu i greu ystyr, naws ac argraffiadau. Mae felly yn rhan annatod o gyfathrebu clywedol gyda chynulleidfaoedd.

Mae'r uned hon yn cydnabod yr amrywiaeth o arferion, technegau a lefelau arbenigedd ym maes cynhyrchu delweddau symudol, ac yn ymdrin yn benodol â'r sgiliau y mae eu hangen ar unigolion sy'n gweithredu yng nghyd-destun cynhyrchiad fideo digidol, lle mae gofyn i aelodau'r criw feddu ar sgiliau lluosog. Mae hyn yn wahanol i'r agwedd fwy arbenigol a geir mewn cynyrchiadau sydd â mwy o bobl yn y criw.

Lluniwyd yr uned hon i ddatblygu'r sgiliau y mae eu hangen i gynhyrchu traciau sain ar gyfer prosiectau fideo neu ffilm. Mae'n ymdrin ag ystod o sgiliau recordio ac ôl-gynhyrchu ar lefel briodol i ddysgwyr sy'n ymwneud â chynhyrchu o'r fath. Fodd bynnag, gall hefyd ddarparu sylfaen eang ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn llwybr sain mwy arbenigol.

Mae cwmpas yr uned yn cynnwys astudio traciau sain a'r technegau a ddefnyddir i'w cynhyrchu. Gellir nodi mai'r technegau hyn yw caffael sain wreiddiol, defnyddio adnoddau sain sydd eisoes yn bodoli a'u cyfuno gan ddefnyddio meddalwedd ôl-gynhyrchu.

Bydd dysgwyr yn astudio technegau recordio sain ar gyfer fideo a ffilm yn y stiwdio ac ar leoliad, gyda'r nod o gynhyrchu deunydd sain o ansawdd uchel. Bydd angen i'r rhai sy'n gweithio mewn maes yn y cyfryngau lle caiff sain ei recordio wybod sut mae defnyddio cyfarpar priodol (gan gynnwys meicroffonau), deall y materion sy'n gysylltiedig ag amgylcheddau recordio a gallu dilyn arferion proffesiynol presennol o ran recordio cerddoriaeth, y gair llafar ac effeithiau. Bydd dysgwyr hefyd yn edrych ar gyfraith hawlfraint yng nghyswllt cerddoriaeth a gyhoeddwyd, cerddoriaeth o'r llyfrgell ac effeithiau sain.

Nid arbenigwyr yn unig sy'n defnyddio meddalwedd golygu sain bellach, ac adlewyrchir y defnydd ehangach hwn yn yr uned.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall y berthynas rhwng sain a llun mewn cynrychiadau delwedd symudol
- 2 Gallu recordio sain ar gyfer delwedd symudol
- 3 Gallu dyfeisio trac sain ar gyfer prosiect delwedd symudol
- 4 Gallu cynhyrchu trac sain ar gyfer prosiect delwedd symudol.

Cynnwys yr Uned

1 Deall y berthynas rhwng sain a llun mewn cynyrchiadau delwedd symudol

Delwedd symudol: ffilm; teledu; y we; offer llaw; fideo; animeiddio

Cydrannau sain: stiwdio a lleoliad; cyfweiliadau; cyflwyniad; trosleisio; deialog drama; sain amgylchynol; cerddoriaeth; effeithiau sain (SFX); ffynonellau sain sefydlog a symudol; defnydd o bresenoldeb

Y berthynas rhwng sain a llun: cynefin; anghynefin; cynefin allanol; naws; ystyr; argraff

2 Gallu recordio sain ar gyfer delwedd symudol

Amgylcheddau: fformatau sain mewn stiwdio ac ar leoliad; cymysgu sain byw; ymyrraeth acwstig

Cyfarpar: dethol; cyflunio a gweithredu (stiwdio, y tu mewn, y tu allan, ar leoliad); fideo; digidol; o ffynonellau unigol; o ffynonellau lluosog

Meicroffonau: dethol; trafod; lleoli ar gyfer gwahanol amgylcheddau (o dan do, y tu allan ac yn y stiwdio)

Cysylltu sain: ymwybyddiaeth o siarad nôl; clustffonau; adnabod a chymhwysu cysylltiadau ceblau

Monitro a rheoli: monitro a rheoli lefelau recordio trwy fesuryddion PPM a VUM; hanfodion desibelau (dB)

Cydamseru: defnydd o god amser; SMPTE

Cynnwys: deialog, e.e. unigolion, grwpiau, torfeydd; cerddoriaeth, e.e. unawd, ensemble, lleisiol, offerynnol; lleoliad, e.e. cefndir byw, cefndir difywyd, trac gwyllt; SFX

Dogfennaeth a storio: marcio; storio ac archifo pob math o gyfryngau recordio sain; logio traciau ac amseru; logio traciau sain o'r brysluniau fideo a sain, gan ddefnyddio cod amser a thrac rheoli

3 Gallu dyfeisio trac sain ar gyfer prosiect delwedd symudol

Arfer proffesiynol: gweithio gyda chyfarwyddwr; gweithio'n unol â briff; gweithio gyda chriw stiwdio; gweithio gyda chriw lleoliad; bodloni gofynion y gynulleidfa o ran materion chwaeth a gwedduster

Cydrannau: deialog; cerddoriaeth wedi ei recordio; cerddoriaeth wedi ei recordio ymlaen llaw; SFX, e.e. wedi eu recordio ymlaen llaw, yn y parth cyhoeddus, trwyddedig, eu heiddo eu hunain; llyfrgell, e.e. CD sain, CD ROM, y rhyngrwyd, y parth cyhoeddus, deunydd trwyddedig

Cynllunio: posibiliadau'r lleoliadau sydd ar gael; cyfarpar recordio; meddalwedd; adnabod gwahanol fformatau sain ac i ba raddau maent yn cydweddu â'i gilydd; hawlfreintiau; dogfennaeth

Eiddo deallusol: y parth cyhoeddus; lawrlwytho o'r rhyngwyd; cerddoriaeth drwyddedig; SFX trwyddedig; Mechanical Copyright Protection Society-Performing Rights Society Alliance (MCPS-PRS)

4 Gallu cynhyrchu trac sain ar gyfer prosiect delwedd symudol

Arfer proffesiynol: gweithio gyda chyfarwyddwr; gofynion y cleient; gofynion y gynulleidfa

Creadigrwydd: defnyddio trac sain i gyd-fynd â chynnwys gweledol cynhyrchiad (llafar, cerddoriaeth, sain amgylchynol, SFX)

Golygu'r sain i gyd-fynd â'r llun: cloi'r sain a'r gweld (cydamseru); cydamseru gwefusau; golygu hollt; defnydd o god amser; ychwanegu cerddoriaeth neu awyrgylch cefndir; gosod y sain (laying off) a gosod traciau cefndir

Prosesu a gwella'r sain: defnyddio cynyrchydion effeithiau digidol neu synthesyddion

Cymysgu a dybio ffynonellau sain: gosod lefelau; cydraddoli; cymysgu deialog; cerddoriaeth ac effeithiau; defnyddio cywasgu priodol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio'r berthynas rhwng cydrannau sain a llun, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio'r berthynas rhwng cydrannau sain a llun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohoni, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'r berthynas rhwng cydrannau sain a llun yn drylwyr, gan gyfeirio at enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynhyrchu deunydd sain wedi'i recordio ar gyfer delwedd symudol gyda pheth cymorth	T2 cynhyrchu recordiadau sain ar gyfer delweddau symudol o safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynhyrchu recordiadau sain ar gyfer delweddau symudol o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 creu cynlluniau bras ar gyfer cynhyrchu trac sain ar gyfer prosiect delweddau symudol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC]	T3 creu dyluniadau manwl ar gyfer cynhyrchu trac sain ar gyfer prosiect delweddau symudol, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynhyrchu dyluniadau sydd wedi eu pwysu a'u mesur yn drylwyr ar gyfer cynhyrchu trac sain i brosiect delweddau symudol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI4 cymhwyso technegau recordio a golygu sain i gynhyrchu trac sain ar gyfer prosiect delweddau symudol gyda pheth cymorth. [GT]</p>	<p>T4 cymhwyso technegau recordio a golygu sain i gynhyrchu trac sain ar gyfer prosiect delweddau symudol o safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.</p>	<p>Rh4 cymhwyso technegau recordio a golygu sain i gynhyrchu trac sain ar gyfer prosiect delweddau symudol o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.</p>

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 39: Ysgrifennu Sgriptiau ar gyfer y Radio

Côd yr Uned:	F/600/6670
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau'r dysgwyr wrth ysgrifennu sgriptiau ar gyfer ystod o genres radio ffeithiol, a bydd yn darparu cyfleoedd i ymchwilio ac ysgrifennu sgriptiau ar gyfer rhaglenni radio. Mae'n cyflwyno'r dysgwyr i gonfensiynau perthnasol arddull, gramadeg, cystrawen a genre wrth ysgrifennu ar gyfer y radio.

Cyflwyniad i'r uned

Mae llawer iawn o ddarlledu radio wedi ei sgriptio ymlaen llaw, hyd yn oed os yw'n ymddangos yn gwbl ddifyfyr i'r gwrandawyr. Mae llawer o wahanol genres radio yn galw am ddefnyddio sgriptiau a ysgrifennwyd ymlaen llaw, gan gynnwys cyhoeddiadau dilyniant, dilyniannau cerddoriaeth, pecynnau llafar, erthyglau nodwedd ar y radio, cylchgronau, rhaglenni dogfen a thrafodaethau. Gall y pynciau gwmpasu gwyddoniaeth, ffyrdd o fyw, iechyd, hanes byd natur, busnes, adloniant, deunydd o'r archifau, adroddiadau ymchwilio, materion defnyddwyr ac yn y blaen. Mae technoleg ddsbarthu fodern yn golygu bod modd i raglenni radio heddiw gael eu cyrchu dros y rhyngwrwd gan y gynulleidfa ar ffurf podlediadau, neu eu lawrlwytho i ffonau symudol.

Diben deunydd wedi ei sgriptio yw sicrhau bod yr holl gynnwys arfaethedig yn cael ei gwmpasu a bodloni gofynion yr amserlenni a'r cyfnodau amser rhagbenodedig trwy osgoi rhaglenni radio sy'n rhy hir neu'n rhy fyr. Mae'n bosib tanamcangyfrif amrywiaeth y ddeialog sy'n cael ei sgriptio ymlaen llaw, yn enwedig wrth gynhyrchu dilyniannau cerddoriaeth, lle caiff y cyflwyniadau i draciau cerddorol a'r cyhoeddiadau ar ôl eu chwarae eu sgriptio'n ganolog weithiau a'u dosbarthu dros y rhyngwrwd i orsafoedd radio yn feunyddiol, heb adael ond cyfnod byr iawn yng nghanol y ddolen i'r cyflwynydd sgwrsio'n ddifyfyr.

Gall strwythur y sgriptiau amrywio o rai sydd wedi eu hysgrifennu'n llawn ac sy'n cael eu darllen air am air, i restrau pwyntiau bwled o bynciau i brocio cof y cyflwynydd. Serch hynny, drwy ddiffiniad, mae angen i ddramâu radio, newyddion radio, hysbysebion a phecynnau llafar gael eu sgriptio'n llawn, a chynhwysir sgriptio ar gyfer y genres hynny mewn unedau eraill sydd â theitlau priodol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall confensiynau ysgrifennu sgriptiau ar gyfer gwahanol genres radio
- 2 Gallu cynnig a datblygu gwahanol sgriptiau radio gan ddefnyddio sgiliau mynegiant priodol
- 3 Gallu golygu copi ysgrifenedig ar gyfer gwahanol gyd-destunau a chynulleidfaoedd.

Cynnwys yr Uned

1 Deall confensiynau ysgrifennu sgriptiau ar gyfer gwahanol genres radio

Confensiynau ieithyddol: defnydd o gyfeiriadau a chrybwyll; byrfoddau; ysgrifennu rhifau; ehangu acronymau; strwythurau cystrawennol; atalnodi; sgriptiau fformwlaig; iaith ffurfiol a llafar; WAR (rhybuddio, cynghori, ailadrodd); yn ôl genre; sillafu geiriau anodd yn ffonetig

Arddull: ysgrifennu ar gyfer y glust; arddulliau tŷ; ciwiau safonol i mewn ac allan; mynegbyst; darllen yn uchel ymlaen llaw; arddull yr iaith, e.e. darbwylllo, hamddenol, cyffrous; cystrawen lenyddol a chlywedol; rhythmau llafar naturiol; goslef; sylwi ar dermau amgen; cyfystyron; cynllun; dolenni dilyniant; pecynnu cynnyrch

Genres cydnabyddedig: e.e. sgriptiau cerddoriaeth, rhaglenni dogfen, pecynnau llafar, deunydd erthyglau byw

2 Gallu cynnig a datblygu gwahanol sgriptiau radio gan ddefnyddio sgiliau mynegiant priodol

Mynegiant: llafar (ynganiad a dderbynnir, tafodiaith, slang, acenion rhanbarthol, Saesneg/Cymraeg llafar); geiriau ffasiynol; jargon; terminoleg wleidyddol sensitif; llaw fer geiriol;

Eglurder: amwysedd mewn Saesneg/Cymraeg ysgrifenedig; ensyniad; ystyron cudd; awgrymiad; goblygiad; casgliad

Copi a seiliwyd ar ddeunydd gwreiddiol: sgript dilyniant; rhaglen ddogfen gyda naratif; cynhyrchiad nodwedd; eitemau hysbysu (ar gyfer cylchgronau neu ddilyniannau cerddoriaeth)

Copi a seiliwyd ar ddeunydd sydd eisoes yn bodoli: addasu sgriptiau ar gyfer y radio o gyfryngau eraill (print, y rhyngrwyd, y teledu neu'r sinema); newid genre sgript oddi mewn i gonfensiynau radio (o ddifri neu barodi); troi data o ffynonellau eraill yn sgript ddarllenadwy, e.e. siartiau cerddoriaeth, mesuriadau poblogrwydd ffilmiau

Copi cynnal: dolenni dilyniant ar gyfer darllediadau byw; sgriptiau ffeithiau ysgafn ar gyfer adroddiadau chwaraeon neu ddarllediadau tebyg; cefndir ar gyfer digwyddiadau pwysig neu sylwebaeth arall; ysgrifennu atmosfferig a disgrifiadol; sgript y gellir ei darllen ar yr olwg gyntaf

Datblygu: o'r cysyniad gwreiddiol i'r sgriptiau gorffenedig; gwahanol sgriptiau (gwahaniaethu yn ôl cynnwys, yn ôl genre)

3 Gallu golygu copi ysgrifenedig ar gyfer gwahanol gyd-destunau a chynulleidfaoedd

Copi: ar gyfer eitemau a adeiladwyd (rhaglenni, pecynnau, erthyglau nodwedd neu hysbysfyrddau); taflenni ciwio; deunydd hyrwyddo

Cynulleidfaoedd: gwahaniaethu yn ôl demograffeg (gan gynnwys oedran, ethnigrwydd, rhyw, grŵp economaidd gymdeithasol, lleoliad daearyddol)

Golygu: addasrwydd at y diben (sensoriaeth, symleiddio, newid pwyslais neu agwedd, cydymffurfio ag arddull tŷ, cydymffurfio â gofynion rheoliadol mewn slot amser gwahanol)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio confensiynau sgrïptiau ar gyfer gwahanol genres radio gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio confensiynau sgrïptiau ar gyfer gwahanol genres radio, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drylwyr gonfensiynau sgrïptiau ar gyfer gwahanol genres radio, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 defnyddio sgiliau ysgrifennu sgrïptiau i gynhyrchu sgrïptiau ar gyfer gwahanol ffurfiau ar raglenni a chynulleidfaoedd, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T2 defnyddio sgiliau ysgrifennu sgrïptiau i gynhyrchu sgrïptiau a ysgrifennwyd yn alluog ar gyfer gwahanol fathau ar raglenni a chynulleidfaoedd, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 defnyddio sgiliau ysgrifennu sgrïptiau i gynhyrchu sgrïptiau ar gyfer gwahanol fathau ar raglenni a chynulleidfaoedd, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at safonau sydd bron yn broffesiynol
LI3 golygu sgrïpt sydd eisoes yn bodoli ar gyfer gwahanol fathau ar raglenni a chynulleidfaoedd gyda pheth cymorth. [MC, HR]	T3 golygu sgrïpt sydd eisoes yn bodoli yn alluog ar gyfer gwahanol fathau ar raglenni a chynulleidfaoedd, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 golygu sgrïpt sydd eisoes yn bodoli ar gyfer gwahanol fathau ar raglenni a chynulleidfaoedd, i safon sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 40: Cynhyrchu Pecynnau Llafar

Côd yr Uned:	R/600/6673
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o gyfleoedd i gynhyrchu pecynnau llafar ar gyfer gorsafoedd radio cyfoes yn y DU. Wedyn galluogir y dysgwyr i greu eu syniadau eu hunain ar gyfer pecynnau llafar penodol a recordio a golygu pecyn llafar ar gyfer math penodol o raglen sy'n addas ar gyfer cynulleidfa arbennig.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r pecyn llafar wedi'i recordio ymlaen llaw yn elfen hanfodol o lawer o raglenni radio. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth fanylach i'r gwrandawyr ynghylch pwnc penodol. Mae modd cael hyd i becynnau llafar mewn amrywiaeth o raglenni radio, gan gynnwys y math o fwletinau newyddion sy'n nodweddiadol ar orsafoedd cerddoriaeth, mewn trafodaethau materion cyfoes a newyddion, ac mewn rhaglenni cylchgrawn o wahanol fathau. Pennir hyd, parhad ac amseru pecyn llafar gan gyfuniad o'r cynnwys, arddull tŷ'r orsaf a pharhad y rhaglen y mae'n cael ei gynnwys ynddi. Gall rhaglenni hwy gynnwys pecynnau llafar hwy.

Er y byddai pecyn llafar fel arfer yn cynnwys deunydd cyfweld, gallai'r elfennau eraill gynnwys digwyddiadau ar y pryd, effeithiau sain, haenau cerddoriaeth a vox pops. Yn ei hanfod, fodd bynnag, rhaid i'r pecyn llafar fod yn ffeithiol yn hytrach na ffuglennol, a dylai gyfleu yn ei strwythur hanfodion stori wir, o bosib yn egluro pwnc cyfoes neu'n cyflwyno dwy ochr pwnc llosg cyfredol.

Mae angen i gynhyrchwyr pecynnau llafar allu cynnig syniadau priodol a fydd o ddiddordeb i'r gynulleidfa darged ac ymchwilio'n llawn iddynt a'u cynhyrchu, yn barod ar gyfer eu darlledu. Fel arfer byddant yn newyddiadurwyr neu'n gynhyrchwyr sy'n gweithio mewn gorsaf radio neu rwydwaith cenedlaethol, ond weithiau mae cynhyrchwyr ar eu liwt eu hunain yn cynnwys pecynnau ar gyfer rhaglenni cylchgrawn ar bynciau penodol, ac os cânt eu comisiynu, byddant yn eu cynhyrchu am ffi.

Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth a'u sgiliau yng nghyswllt cynhyrchu pecynnau llafar, gan symud o nodi a chreu syniadau cychwynnol ar gyfer pecynnau llafar, trwy'r cam ymchwil, at gynhyrchu'r cynnyrch gorffenedig. Gall pecynnau llafar a gynhyrchwyd yn unigol gan ddysgwyr wrth gyflawni'r uned hon gael eu cynnwys mewn rhaglenni a gynhyrchir ar gyfer unedau cysylltiedig yn y cymhwyster.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu nodi cyfleoedd i gynhyrchu pecynnau llafar ar gyfer rhaglenni radio ffeithiol a newyddion
- 2 Gallu cynnig syniadau ar gyfer pecynnau llafar mewn cyd-destunau penodol ac i gynulleidfaoedd targed penodol
- 3 Gallu ymchwilio i'r cynnwys ffeithiol ar gyfer pecyn llafar
- 4 Gallu paratoi a chynhyrchu pecyn llafar gyda chysylltiad â'r stiwdio a deunydd ciwio.

Cynnwys yr Uned

1 Gallu nodi cyfleoedd i gynhyrchu pecynnau llafar ar gyfer rhaglenni radio ffeithiol a newyddion

Rhaglenni ffeithiol: genre y rhaglen (trafodaeth, cylchgrawn, dilyniant cerddorol, rhaglen ddogfen, ymchwiliol); testunau, e.e. defnyddwyr, busnes, ffordd o fyw, chwaraeon; wedi eu recordio ymlaen llaw; cynulleidfa (cenedlaethol, rhanbarthol, lleol)

Rhaglenni newyddion: rhaglenni gwybodaeth a materion cyfoes; cyd-destun (bwletinâu, rhaglenni newyddion hwy, materion cyfoes); diben (adroddiadau manwl, coffáu, hysbysfwrdd)

Cyfranwyr: e.e. cyfweleion, newyddiadurwyr, gohebwy, arbenigwyr, gwleidyddion; vox pops; recordio (wyneb yn wyneb, ar leoliad, yn y stiwdio, dros y ffôn)

Moeseg a rheoleiddio: stereoteipio; preifatrwydd; cyfrinachedd; cynrychiolaeth (menywod, grwpiau lleiafrifol, grwpiau ethnig)

2 Gallu cynnig syniadau ar gyfer pecynnau llafar mewn cyd-destunau penodol ac i gynulleidfaoedd targed penodol

Triniaeth: cyflymdra; cyflwyno; cywair iaith; arddull (ffurfiol, achlysurol, difrifol, hysbysu, gwrthdaro, emosiynol, difyr, addysgiadol)

Cyd-destunau: bwletinâu newyddion; rhaglenni ffeithiol (newyddion, trafodaeth, cylchgrawn, dilyniant cerddorol, ymchwiliol) gorsafoedd cenedlaethol; gorsafoedd rhanbarthol; gorsafoedd lleol; BBC; radio masnachol

Cynulleidfaoedd targed: demograffeg (oedran, rhyw, dosbarth cymdeithasol, ethnigrwydd); diddordebau; seicograffeg

3 Gallu ymchwilio i'r cynnwys ffeithiol ar gyfer pecyn llafar

Ymchwil eilaidd: y rhyngwyd; teletestun; teledu; datganiadau i'r wasg; rhaglenni radio eraill; llyfrau; papurau newydd; cylchgronau; archifau

Ymchwil gynradd: galwadau gwirio; llyfr cysylltiadau; hanesion uniongyrchol (llygad-dyst, goroeswr, tystiolaeth arbenigwr, y gwasanaethau brys, vox pops); cyfweiliadau; awyrgylch; digwyddiadau ar y pryd

4 Gallu paratoi a chynhyrchu pecyn llafar gyda chysylltiad â'r stiwdio a deunydd ciwio

Cynnwys: elfennau strwythurol (sgript, cwestiynau, cysylltiadau â newyddiadurwr, cyfweleion, cyfranwyr, vox pops); lleoliad (yn y stiwdio, o bell); ffeithiol; seiliwyd ar ymchwil; deunydd ychwanegol (awyrgylch yn y cefndir, digwyddiadau ar y pryd)

Cyflwyniad: wedi eu recordio ymlaen llaw (yn y cyflwyniad, yn y dolenni cyswllt, yn y diweddglo); fel petai'n fyw (osgoi dweud 'fe wnes i ofyn' yn y rhannau cyswllt); cyflymdra (o ran naws, mynegiant, dealltwriaeth); cyflwyno (dros haenau cerddoriaeth, yn sych)

Deunydd ciwio: defnyddio taflenni ciwio; ciwiau ysgrifenedig (cysylltiadau stiwdio i mewn ac allan o'r pecyn); gwybodaeth y cynnwys (nodi geiriau 'i mewn' ac 'allan', parhad); elfennau rhagflas; gwybodaeth gefndir; gwybodaeth dechnegol

Ansawdd technegol: ansawdd y sain yn y lleoliad; lefelau sain; normaleiddio; ystyried gwerthoedd cynhyrchu (defnyddio recordydd cludadwy, llinell sefydlog, cysylltiadau ffôn symudol)

Iechyd a diogelwch: e.e. ar leoliad, yn y stiwdio, yn y man gwaith

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio cyfleoedd i gynhyrchu pecynnau llafar ar gyfer rhaglenni radio ffeithiol a newyddion	T1 esbonio'r cyfleoedd i gynhyrchu pecynnau llafar ar gyfer rhaglenni radio ffeithiol a newyddion, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt	Rh1 gwerthuso'n feirniadol y cyfleoedd i gynhyrchu pecynnau llafar ar gyfer rhaglenni radio ffeithiol a newyddion, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro
LI2 cynnig syniadau addas ar gyfer pecynnau llafar i gyd-destunau a chynulleidfaoedd targed penodol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC]	T2 cynnig syniadau manwl ar gyfer pecynnau llafar i gyd-destunau a chynulleidfaoedd targed penodol, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynnig syniadau sydd wedi cael eu pwysu a'u mesur yn drylwyr ar gyfer pecynnau llafar i gyd-destunau a chynulleidfaoedd targed penodol, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 ymchwilio i ddeunydd priodol ar gyfer pecyn llafar [YA]	T3 ymchwilio i ddeunydd enghreifftiol manwl ar gyfer pecyn llafar, gan esbonio'r dewisiadau a wnaed	Rh3 ymchwilio i ddeunydd â ffocws manwl gywir ar gyfer pecyn llafar, gan gyfiawnhau'r dewisiadau a wnaed yn llawn
LI4 cynhyrchu pecyn llafar gyda chysylltiad â'r stiwdio a deunydd ciwio gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [HR]	T4 cynhyrchu pecyn llafar gyda chyswllt perthnasol â'r stiwdio a deunydd ciwio at safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh4 cynhyrchu pecyn llafar gyda chyswllt perthnasol â'r stiwdio a deunydd ciwio o safon dechnegol sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 41: Cynhyrchu Newyddion ar gyfer y Radio

Côd yr Uned:	L/600/6655
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau newyddiaduraeth radio, y mae modd trosglwyddo llawer ohonynt i gyfryngau eraill. Datblygir ymwybyddiaeth o werthoedd newyddion, ynghyd â'r sgiliau ymarferol angenrheidiol i lunio, golygu a chyflwyno bwletinâu newyddion o wahanol hyd ar gyfer y radio.

Cyflwyniad i'r uned

Mae casglu newyddion bellach yn broses 24 awr, sydd ar gael gydag allbwn ar ystod eang iawn o lwyfannau, o radio FM daearol i wasanaethau ar y rhyngwrwd yn unig, podlediadau, newyddion treigl ar y teledu, a blogio.

Mae angen gweld cynhyrchu newyddion ar y radio yng nghyd-destun gweithle sy'n newid yn gyflym a chynulleidfa ddarniog. Mae'r ffiniau rhwng newyddiaduraeth draddodiadol cynhyrchu deunydd printiedig a'r ddarpariaeth a ddarlledir ac sydd ar y rhyngwrwd yn gwanhau'n barhaus wrth i bapurau newydd symud i fersiynau ar-lein, ac i ddarlledwyr gynnwys blogiau. Hefyd, mae amlygrwydd cynyddol rhwydweithiau cymdeithasol fel Facebook a Twitter, er enghraifft, wedi ychwanegu at gyflymdra lledaenu newyddion.

Fu newyddiadurwyr radio erioed o dan fwy o bwysau i fod y cyntaf i gyflwyno'r stori. Ond hefyd, dylai'r angen am gadw sgiliau craidd cywirdeb, gonestrwydd, parch a moeseg fod yn rhan sylfaenol o hyfforddiant a dealltwriaeth unrhyw newyddiadurwr.

Mae llawer o'r gwaith casglu newyddion ar gyfer y radio bellach yn digwydd 'yn y maes' gan newyddiadurwyr sydd allan o'r ystafell newyddion am gyfnodau, ac yn bwydo deunydd sain yn ôl trwy dechnoleg ddarlledu hynod gludadwy sy'n defnyddio'r rhwydwaith ffonau symudol. Mae hynny wedi disodli'r angen am geir radio. Gall cyflwyno cerbydau lloeren teledu llai lle nad oes angen peirianwyr bellach olygu hefyd bod newyddiadurwyr radio yn eu cael eu hunain naill ai'n lleisio deunydd byw ar gyfer y teledu, neu yn cael eu gweld. Gall fod disgwyl, felly, i'r newyddiadurwr radio cyfoes weithio mewn amrywiaeth o ffyrdd heriol. Mae sgiliau craidd y newyddiadurwr yn parhau heb newid, fodd bynnag. Bydd y dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o werthoedd newyddion a'r sgiliau ymchwil a chynhyrchu angenrheidiol i gynhyrchu a darlledu eu heitemau newyddion eu hunain. Bydd arddull y deunydd hwn yn adlewyrchu'r fformat, y darlledwr, y dull dosbarthu a'r gynulleidfa darged y mae wedi'i fwriadu ar ei chyfer.

Anogir y dysgwyr i weithio gyda'r cyflymdra a'r hyblygrwydd sydd fel arfer yn ofynnol gan newyddiadurwyr radio, a lle bo modd, dylid rhoi cyfle iddynt ddarlledu i gynulleidfaedd go iawn. Bydd angen hefyd i ddysgwyr ymchwilio i'r cyfyngiadau rheoliadol, yn rhai cyfreithiol a moesegol, sydd ar gynhyrchu newyddion radio. Bydd hyn yn hysbysu eu harfer eu hunain wrth gynhyrchu deunydd newyddion ar gyfer y radio, ac yn rhoi cipolwg iddynt ar sut mae'r diwydiant yn delio â'r cyfyngiadau hyn.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall ffurfiau ac arddulliau o adrodd newyddion radio
- 2 Deall y cyfyngiadau sydd ar gynhyrchu newyddion radio
- 3 Gallu cynhyrchu deunydd newyddion ar gyfer fformatau radio penodol
- 4 Gallu adolygu eu gwaith newyddion radio eu hunain.

Cynnwys yr Uned

1 Deall ffurfiau ac arddulliau o adrodd newyddion radio

Ffurfiâu: bwletin; pennawd; rhaglen newyddion; copi yn unig; gyda chlipiau sain; lleiswyr; lapio; croesi byw; y ddwy ffordd (byw a 'fel petai'n fyw')

Arddulliau: cysylltiedig â'r gynulleidfa; gwasanaeth cyhoeddus; masnachol; cymunedol; ar raddfa fach; lleol; rhanbarthol; cenedlaethol; y rhynggrwyd, lloeren a chebl

2 Deall y cyfyngiadau sydd ar gynhyrchu newyddion radio

Cyfyngiadau cyfreithiol a rheoliadol: trafod storïau sy'n cynnwys rhai o dan oed; dirmyg llys; enllib a difenwi; rhoi sylw i etholiadau; Deddf Cyfrinachau Swyddogol; Ofcom; canllawiau golygu'r BBC

Moeseg: storïau difrifol a llawn cyffro; ymyrryd â phreifatrwydd; budd y cyhoedd

Gwerthoedd newyddion: blaenoriaeth y stori (cenedlaethol a lleol, tramor a chartref); uniongyrchedd; onglau dilynol; argaeledd sain; polisi'r ystafell newyddion; diddordeb dynol; agenda budd y cyhoedd

3 Gallu cynhyrchu deunydd newyddion ar gyfer fformatau radio penodol

Nodi a thrafod storïau: perthnasedd i'r gynulleidfa (gwahaniaethu, segmentiad, rhyngwladol, cenedlaethol, lleol, onglau lleol ar stori genedlaethol); math (gorchest, trychineb, diddordeb dynol, pobl bwysig, 'ac yn olaf'); gwirio gwybodaeth; manylder y sylw

Defnyddio adnoddau: cadw dyddiadur newyddion; llunio a defnyddio rhestrau galwadau; datganiadau newyddion; galwyr ffôn; awgrymiadau; darparwyr newyddion ac asiantaethau; cysylltiadau; blogiau; adroddiadau llygad-dystion; gwybodaeth uniongyrchol; adnoddau ymchwil eilaidd, e.e. y rhynggrwyd, CD ROMs, newyddiaduron, cyhoeddiadau

Copi: at wahanol ddibenion (bwletinau, penawdau, fflachiadau); ysgrifennu clir a strwythur brawddegau; iaith syml, hygyrch; strwythur ciwio tair llinell; allwedd i'r stori yn y llinell gyntaf; arddull penawdau wedi eu byrhau; addasrwydd yr iaith i'r gynulleidfa darged; datblygu'r stori yn y ciw; defnydd cywir o strwythur enwau

Recordio: iechyd a diogelwch; stiwdio a chyfarpar cludadwy, e.e. disg caled, recordyddion MP3, CD, MiniDisc™; defnydd o ffynonellau o bell (lleoliad, ffôn, ISDN (Rhwydwaith Digidol Gwasanaethau Integredig), awyrgylch; digwyddiadau ar y pryd (vox pops, cyfweliadau, deunydd o'r archifau)

Cyflwyniad: arddull boblogaidd; arddull ddifrifol; cydymffurfio â pholisi'r golygydd; polisi cyflwyno; hyd priodol; ciwio allan safonol; ar gyfer eich allfeydd eich hun, e.e. chwarae nôl yn y dosbarth, radio campws, radio cymunedol, radio ysbyty, diwrnod newyddion

4 Gallu adolygu eu gwaith newyddion radio eu hunain

Adborth gan y gynulleidfa: ansawdd technegol; addasrwydd at y diben; diddordeb a gorfodaeth

Eich myfyrdod eich hun: cymharu â chynnyrch proffesiynol; cryfderau a gwendidau; awgrymiadau ar gyfer gwelliannau

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio ffurfiau ac arddulliau adrodd newyddion ar y radio, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio ffurfiau ac arddulliau adrodd newyddion ar y radio, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 gwerthuso'n feirniadol ffurfiau ac arddulliau adrodd newyddion ar y radio, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio'r cyfyngiadau ar gynhyrchu newyddion radio, gan gyfeirio at faterion cyfreithiol a rheoliadol, moeseg a gwerthoedd newyddion [YA]	T2 esbonio'r cyfyngiadau ar gynhyrchu newyddion radio, gan gyfeirio'n fanwl at faterion cyfreithiol a rheoliadol, moeseg a gwerthoedd newyddion, a chan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt	Rh2 gwerthuso'n feirniadol y cyfyngiadau ar gynhyrchu newyddion radio, gyda chyfeiriadau cynhwysfawr at faterion cyfreithiol a rheoliadol, moeseg a gwerthoedd newyddion, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro
LI3 cynhyrchu deunydd newyddion ar gyfer fformatau radio arbennig gyda pheth cymorth [MC, HR]	T3 cynhyrchu deunydd newyddion ar gyfer fformatau arbennig at safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynhyrchu deunydd newyddion ar gyfer fformatau arbennig at ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cyflwyno sylwadau ar eu gwaith newyddion radio eu hunain, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [DA]	T4 esbonio eu gwaith newyddion radio eu hunain, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan wneud defnydd o derminoleg y pwnc sy'n gywir at ei gilydd.	Rh4 gwerthuso eu gwaith newyddion radio eu hun yn feirniadol yng nghyd-destun arfer proffesiynol, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 42: Drama Radio

Côd yr Uned:	T/600/6665
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth o'r codau, y confensiynau a darlenniadau'r gynulleidfa o ddrama radio, a fydd yn cynnal sgiliau'r dysgwyr wrth iddynt lunio a sgriptio drama radio ar gyfer dewis o genres. Bydd dysgwyr yn cynhyrchu drama radio ar gyfer cynulleidfa darged benodol.

Cyflwyniad i'r uned

Nid yw drama radio yn ffeithiol trwy ddiffiniad, ond gall fod wedi ei seilio ar ffeithiau. Pan gaiff storiâu neu ddigwyddiadau gwir eu dramateiddio, gellir aberthu union fanylion a chronoleg yr hyn ddigwyddodd neu ei ail-ddehongli er budd adloniant neu ryddid creadigol. Mewn cyferbyniad, byddai hanes ffeithiol gywir am ddigwyddiad neu bwnc yn rhaglen ddogfen. Mae dramâu radio yn defnyddio cymeriadau a chwaraeir gan actorion ac yn cyflwyno digwyddiadau gan ddefnyddio codau radio, sef llafar, seiniau, cerddoriaeth a distawrwydd, yn unig, yn unol â chonfensiynau cyfarwydd, sy'n helpu i adrodd stori heb ddefnyddio'r elfen weledol.

Oherwydd ei bod yn gymharol ddrud i'w chynhyrchu, darlledir drama radio yn bennaf gan rwydweithiau cenedlaethol sydd â chyllidebau mawr, yn enwedig Radio 3 a Radio 4 (a Radio Cymru) ar y BBC. Mae rhai gorsafoedd lleol, hyd yn oed yn y sector masnachol, hefyd yn cynhyrchu drama, ond mae mwyafrif y swyddi cynhyrchu ar gael yn y BBC. Maent yn cynnwys awdur sgriptiau, cynhyrchydd, gweithredydd technegol (neu reolwr y stiwdio) a chynorthwydd cynhyrchu. Yr is-genres mwyaf cyffredin o ran drama radio yw dramâu unigol, cyfresi drama, operâu sebon a chyfresi. Mae technoleg ddosbarthu fodern yn golygu bod modd i ddramâu heddiw gael eu cyrchu dros y rhyngwyd gan y gynulleidfa ar ffurf podlediadau, neu eu lawrlwytho i ffonau symudol.

Dylid annog bod yn greadigol ac yn arbrofol gyda chodau a chonfensiynau drama unwaith y ceir dealltwriaeth o'r paramedrau cydnabyddedig. Dylai'r dysgwyr ddod i werthfawrogi drama radio trwy gael eu hannog i wrando ar ystod eang o raglenni. Y sgiliau sy'n derbyn sylw yn yr uned hon yw tarddiad syniadau, ysgrifennu sgriptiau, addasu a chynhyrchu.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall codau, confensiynau, arddull a strwythur genres drama radio
- 2 Gallu cynhyrchu a phitsio cynigion a thriniaethau ar gyfer drama radio
- 3 Gallu datblygu triniaeth ar gyfer drama radio i greu sgript
- 4 Cynllunio a chynhyrchu drama radio.

Cynnwys yr Uned

1 Deall codau, confensiynau, arddull a strwythur genres drama radio

Codau: yn y defnydd o gynnwys dramatig (geiriau, lleisiau, llafar, cerddoriaeth, awrygylch cyffredinol, seiniau, distawrwydd)

Confensiynau: mynegbyst clywedol; diweddglo amhendant; fflachio nôl; peri i'r sain ddiflannu'n raddol; defnyddio distawrwydd; cymeriadaeth; datblygiad cronolegol; naratif; llafar uniongyrchol; teitlau; credydu; cerddoriaeth

Arddull: priodoldeb ar gyfer y gynulleidfa darged; ail-greu dramatig; arddulliau, e.e. traddodiadol, ôl-fodern; drama radio - 'theatr y meddwl'; creu naws neu leoliad (effeithiau, acwsteg)

Strwythur: hyd; strwythur y naratif; datblygiad y plot

2 Gallu cynhyrchu a phitsio cynigion a thriniaethau ar gyfer drama radio

Fformatau: e.e. drama unigol, cyfres ddrama, opera sebon ar y radio, drama gyfres, cyfres glasurol, rhaglen ddogfen ffeithiol wedi ei dramateiddio

Strwythurau naratif: priodol ar gyfer yr arddull a'r amserlennu, e.e. un llinyn, llinynnau lluosog, agored, caeedig, llinol, anllinol, realaeth, gwrth-realaeth

Cynrychiolaeth: rhyw; ethnigrwydd; oedran; stereoteipio; labelu

Cynulleidfa darged: nodweddir yn ôl demograffeg (grŵp economaidd gymdeithasol, rhyw, oedran, ethnigrwydd); gwybodaeth a phrofiad blaenorol; disgwyliadau a rhagfarn

Pitsh: paratoi'r pitsh, e.e. sleidiau, nodiadau atgoffa, taflenni i'w dosbarthu; cyflwyno'r pitsh; ymateb i adborth

3 Gallu datblygu triniaeth ar gyfer drama radio i greu sgript

O driniaeth: datblygu deunydd crai yn naratif; cynnwys (pwnc a'i ddatblygu); strwythur y naratif (gwrthdaro, adferiad); creu'r 'darlun'

Cymeriadaeth: cefndiroedd; personoliaethau; perthynas â'i gilydd; yr hyn mae cymeriadau'n ei gyfrannu; rolau; nodweddion cymeriadau, e.e. nodweddion unigryw, disgwyliadau, dyheadau

Sgriptiau: creu gwaith gwreiddiol; dilyniant; nodiant; cynllun; cyfarwyddiadau llwyfan; cyfarwyddiadau cynhyrchu; amser rhedeg

4 Cynllunio a chynhyrchu drama radio

Castio: priodoldeb y doniau; clyweliadau; dehongli; dethol; cyfarwyddwr castio; amserlennu

Logisteg: dewis technegau recordio a golygu priodol; dewis stiwdio; llogi cyfleusterau; nodi lleoliadau; ymweld â lleoliadau a chynnal rhagchwiliadau; amserlen cynhyrchu; trefniadau wrth gefn

Cynhyrchu: ymarfer a darllen trwodd; perfformiad; cyfarwyddo doniau; dewis o gyfryngau recordio; meicroffonau; effaith agosrwydd; defnydd o glustffonau a monitorau agos at y maes; effeithiau sain byw; recordio ac ôl-gynhyrchu (trac llais sych, cymysgu byw, prosesu byw)

Ôl-gynhyrchu: dybio cerddoriaeth ac effeithiau sain; golygu; lefelau cydbwysu; panio; cydraddoli; adlais; dirgryniad; modyliad lefelau; afluniad; gatiâu sŵn; effeithiau sain (SFX); cyfyngu a normaleiddio

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio codau, confensiynau, arddull a strwythur gwahanol genres drama radio, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio'n fanwl godau, confensiynau, arddull a strwythur gwahanol genres o ddrama radio, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 gwerthuso'n feirniadol godau, confensiynau, arddull a strwythur gwahanol genres radio, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynhyrchu a phitsio cynnig a thriniaeth ar gyfer drama radio sy'n targedu cynulleidfa benodol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol a chyda pheth cymorth [MC]	T2 cynhyrchu a phitsho cynnig a thriniaeth wedi eu datblygu'n dda ar gyfer drama radio, sy'n targedu cynulleidfa benodol, ac yn dangos peth dychymyg, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynhyrchu a phitsho cynnig a thriniaeth sydd wedi cael eu pwysu a'u mesur yn drwyadl ar gyfer drama radio sy'n targedu cynulleidfa benodol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 datblygu triniaeth ar gyfer drama radio i greu sgript, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a derbyn peth cymorth [MC, HR]	T3 datblygu triniaeth ar gyfer drama radio i greu sgript, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 datblygu triniaeth ar gyfer drama radio i greu sgript, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cynllunio a chynhyrchu drama radio, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chyda pheth cymorth. [MC, GT]	T4 cynllunio a chynhyrchu drama radio o safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh4 cynllunio a chynhyrchu drama radio o safon dechnegol sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 43: Astudiaethau Radio

Côd yr Uned:	F/600/6667
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu ymwybyddiaeth feirniadol y dysgwyr o faterion testunol a chyd-destunol ar y radio, ar draws amrywiaeth o genres. Bydd dysgwyr yn edrych ar oblygiadau ehangach radio i gymdeithas, sut mae'n cael ei drefnu, ei gynhyrchu a'i dderbyn, yn ogystal â'r rhagolygon at y dyfodol.

Cyflwyniad i'r uned

Radio yw'r hynaf a'r mwyaf sefydledig o'r cyfryngau electronig. O'i ddechreuadau cynnar ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, mae'r radio wedi datblygu'n gyfrwng modern, cyffrous, sydd yr un mor berthnasol i ni heddiw ag yr oedd i genedlaethau o'n blaen. Y radio a alluogodd bobl gyffredin gyntaf i brofi digwyddiadau cyhoeddus byw yn eu cartrefi, i gael gwybodaeth wrth symud o gwmpas, ac i glywed sêr yn siarad fel pe baen nhw'n cael sgwrs bersonol â nhw. Mae cofleidio'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf wedi golygu camau breision ymlaen o ran cynhyrchu a dosbarthu, a ph'un a ydynt yn cael eu hanfon ar draws ardaloedd anferth trwy drosglwyddyddion pwerus, yn cael eu cyrchu trwy bodlediadau dros y rhynggrwyd, neu eu lawrlwytho i ffonau symudol, gall rhaglenni radio swnio mor ddiddorol a gwreiddiol heddiw ag i genedlaethau blaenorol.

Nid yw'n gwbl hanfodol meddu ar wybodaeth am hanes radio na gallu dadansoddi allbwn radio o bersbectif deallusol neu academiaidd er mwyn gweithio'n effeithiol yn y diwydiant. Fodd bynnag, mae mwyafrif y bobl sydd yn gweithio ynddo yn cael bod y math yma o wybodaeth a dealltwriaeth yn helpu i hysbysu eu gwaith a dyfnhau eu plaser yng ngwaith eraill. Mae theori'r cyfryngau hefyd yn gydran allweddol ar gyfer graddau sylfaen neu anrhydedd yn y maes.

Wrth astudio damcaniaeth radio, bydd materion allweddol astudiaethau cyfryngau yn cael eu harchwilio mewn nifer o gyd-destunau radio.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall datblygiad a chyd-destunau sefydliadol radio
- 2 Deall y defnydd o godau a chonfensiynau mewn amrywiaeth o genres radio
- 3 Deall y defnydd o strwythurau naratif ar y radio
- 4 Deall prif theorïau ideoleg a chynulleidfa sy'n gysylltiedig â'r radio.

Cynnwys yr Uned

1 Deall datblygiad a chyd-destunau sefydliadol radio

Datblygiad: technoleg trosglwyddo a derbyn (Marconi, cyfathrebu milwrol, setiau radio domestig, y transistor, AM, FM, stereo, Radio Data System (RDS), Digital Audio Broadcasting (DAB), Digital Radio Mondiale (DRM), trwy'r teledu, y rhyngwrwyd, podledu, ffonau symudol); rhaglennu (Cwmni Marconi, BBC, Sarnoff, gwasanaeth llawn, thematig, darlledu rhyngwladol, gorsafoedd tramor sydd wedi eu hanelu at y DU); rheoliadol (Cwmni Darlledu Prydeinig, pwyllgorau Sykes a Crawford, Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, gorsafoedd answyddogol oddi ar y lan, radio lleol annibynnol, radio masnachol cenedlaethol a rhanbarthol, radio cymunedol); technoleg cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu (symud i ddigidol, awtomeiddio, syndiceiddio, cyd-leoli)

Cyd-destunau sefydliadol: rheoleiddio (Ofcom, BBC, gorsafoedd answyddogol ar y tir); materion cynnwys (chwaeth a gwedduster, amserlennu, bod yn ddiuedd); perchenogaeth (y wladwriaeth, preifat, gorsafoedd annibynnol, radio cymunedol amser llawn, rheolaeth grŵp, trosfeddiannu a chyfuno); cyflogaeth (staff, gweithwyr ar eu liwt eu hunain, cynhyrchwyr annibynnol, gwirfoddolwyr)

2 Deall y defnydd o godau a chonfensiynau mewn amrywiaeth o genres radio

Genres: mewn rhaglennu newyddion, cerddoriaeth a llafar, hysbysebion, drama, sylwebaeth, rhaglenni ffonio i mewn; rhaglenni a dilyniannau wedi eu hadeiladu; fformatau dilyniant, e.e. zoo, shock jock

Codau: acwsteg (y tu mewn, y tu allan, dirgryniad, adlais, triniaeth acwsteg, acwsteg stiwdio, parth marw); awyrgylch (i greu gweithredu, lleoliad, naws neu gyfnod); effeithiau un man (i greu gweithredu, newid naws); sŵn gwyn; llygredd sŵn; prosesu; golygu; effeithiau sain; strwythur; cynnwys; arddull; defnydd o lefelau i newid yr olygfa mewn drama

Confensiynau: strwythurol (ar gyfer atalnodi, ar gyfer adnabyddiaeth, ar gyfer brandio); semantig (ystyr o ran goslef, cyflymdra, cyfuno ag elfennau eraill)

3 Deall y defnydd o strwythurau naratif ar y radio

Strwythurau agored a chaeedig: mewn newyddiaduraeth; mewn cyfweiliadau; mewn cyhoeddiadau dilyniant; mewn hysbysebion; mewn drama (dramâu unigol, cyfres, dramâu cyfres); trosleisio; sylwebaeth

Naratif llinynnau lluosog: drama (dilyniant llinellau stori lluosog, cymeriad, diwedd glo amhendiant); amser go iawn ac amser ffug

Strwythurau naratif amgen: elfennau heblaw naratif; anllinol; swreal; argraffiadol

4 Deall prif theorïau ideoleg a chynulleidfa sy'n gysylltiedig â'r radio

Ideoleg: modelau cymdeithas a chyfalaf (Reith ac ethos darlledu cyhoeddus, datblygu radio masnachol, datganoli darlledu, rhyddhau ers 1973, radio cymunedol er budd cymdeithas); imperialaeth (BBC Empire Service a'r World Service); bod yn ddiduedd ac yn wrthrychol (cydbwysedd a bias); sensoriaeth a hunan-sensoriaeth; cynrychiolaeth (hil, dosbarth, oedran, anabledd, rhyw); cyfranogiad (negeseuon testun, ffonio i mewn, e-byst, ystafelloedd sgwrsio, blogiau)

Cynulleidfa: modelau o ymatebion goddefol a gweithredol cysylltiedig â thestunau radio (nodwydd hypodermig, cymhelliad-ymateb, modelau defnydd a boddhad)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio cyd-destunau hanesyddol a sefydliadol allweddol y radio [YA]	T1 esbonio cyd-destunau hanesyddol a sefydliadol allweddol y radio, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt	Rh1 gwerthuso'n feirniadol gyd-destunau hanesyddol a sefydliadol allweddol y radio, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro
LI2 disgrifio'r defnydd o godau a chonfensiynau genres radio, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T2 esbonio'r defnydd o godau a chonfensiynau genres radio, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 gwerthuso'n feirniadol y defnydd o godau a chonfensiynau genres radio, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 disgrifio strwythurau naratif testunau radio gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T3 esbonio strwythurau naratif testunau radio, a mynegi syniadau gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh3 gwerthuso'n feirniadol strwythurau naratif testunau radio, gyda dadleuol ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI4 disgrifio prif theorïau ideoleg a chynulleidfa mewn cyd-destunau radio, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [YA]	T4 esbonio prif theorïau ideoleg a chynulleidfa mewn cyd-destunau radio, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd.	Rh4 gwerthuso'n feirniadol brif theorïau ideoleg a chynulleidfa mewn cyd-destunau radio, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 44: Rhaglennu Seiliedig ar Gerddoriaeth

Côd yr Uned:	A/600/6652
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o arddulliau, pwrpas a chynnwys rhaglennu seiliedig ar gerddoriaeth ar orsafoedd radio cyfoes yn y DU. Bydd y dysgwyr yn datblygu dilyniannau cerddorol ar gyfer amrywiaeth o wahanol gynulleidfaoedd neu gleientiaid, gan edrych ar sut gellir ymgorffori deunydd nodwedd a llafar i'r dilyniannau hyn.

Cyflwyniad i'r uned

Mae swyddi yn y diwydiant radio yn aml yn cynnwys cynllunio, cynhyrchu neu gyflwyno dilyniannau cerddorol, neu'r tri ohonynt. Mae cannoedd yn llythrennol o orsafoedd radio cerddorol - gorsafoedd cenedlaethol, rhanbarthol, lleol, myfyrwyr, ysbytai a chymunedol - sy'n trefnu eu hallbwn oddi mewn i raglenni dilyniant hir, sy'n parhau am dair i bum awr. Mae sain mewn siopau, a ddsbarthid ar un adeg trwy ddulliau recordio yn unig, yn cael ei gyflenwi'n gynyddol yn fyw, naill ai drwy loeren neu ar-lein. O ganlyniad, mae'r gwahaniaethau cynnwys rhwng sain mewn siopau a darlledu radio wedi dod yn llai amlwg nag erioed o'r blaen. Mae cwmnïau cynhyrchu arbenigol yn creu rhaglennu i'w defnyddio yn y siop ar gyfer archfarchnadoedd a manwerthwyr eraill.

Mae rhaglennu seiliedig ar gerddoriaeth ar y radio ac at ddefnydd mewn siopau yn galw am nifer o sgiliau cyn cynhyrchu, yn cynnwys dethol ac amseru, yn unol â diben y deunydd, a'r cyd-destunau y clywir ef ynddynt. Yn y ddau achos, gellir gwella'r effaith yn sylweddol trwy ymgorffori elfennau eraill, o frandio i adloniant hysbysu. Weithiau gall elfen o ryngweithio â chynulleidfa olygu bod rhaglennu o'r fath yn fwy diddorol fyth.

Bydd yr uned hon yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu sgiliau mewn rhaglennu seiliedig ar gerddoriaeth ar gyfer dau gyd-destun gwahanol ond cysylltiedig yn y diwydiannau radio a recordio sain: darlledu radio a sain mewn siopau. Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r math hwn o raglennu er mwyn hysbysu eu gwaith cynhyrchu, a byddant hefyd yn datblygu eu gallu i esbonio sut mae'r dewisiadau cynhyrchu a wneir yn addas ar gyfer cynulleidfaoedd arfaethedig.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall gwahanol fathau ac arddulliau o raglennu seiliedig ar gerddoriaeth
- 2 Gallu creu dilyniannau cerddorol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd
- 3 Gallu ymgorffori cynnwys llafar a nodwedd ychwanegol i ddilyniannau cerddorol
- 4 Gallu adolygu eu rhaglenni seiliedig ar gerddoriaeth eu hunain, gan gyfeirio at y diben a'r gynulleidfa.

Cynnwys yr Uned

1 Deall gwahanol fathau ac arddulliau o raglennu seiliedig ar gerddoriaeth

Rhaglennu seiliedig ar gerddoriaeth: mewn fformat, e.e. Contemporary Hit Radio (CHR), Adult Contemporary (AC), gold, cylchol, gwrandio ysgafn, clasurol, arbenigol; o gyfnodau penodol, e.e. roc a rôl, y saithdegau, cyfoes; meini prawf dethol, e.e. estheteg, cynulleidfa darged, llunio naratif, rhyngweithio â'r gynulleidfa, siartiau'r 40 uchaf

Mathau: radio a ddarllidir (gwasanaeth cyhoeddus, masnachol); radio ar y rhynggrwyd (gwasanaeth cyhoeddus, masnachol); sain mewn siopau (hyrwyddo, yn y cefndir)

Arddulliau: cymhareb lafar neu sain arall i'r gerddoriaeth; brandio ac adnabod; cynnwys wedi ei ddewis am resymau esthetig; addasrwydd ar gyfer y gynulleidfa darged; cyflwyniad, e.e. personoliaeth, dienw; cyflwyniad lleisiol, e.e. sgysiol, darparu gwybodaeth

2 Gallu creu dilyniannau cerddorol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd

Cynnwys: fformatau penodol, e.e. CHR, AC, gold, cylchol, gwrandio ysgafn; priodol ar gyfer y cyfnod o'r dydd (brecwast, yn ystod y dydd, amser gyrru adref, gyda'r hwyr); hyd (ar gyfer darlledu, ar gyfer y rhynggrwyd, ar gyfer sain mewn siopau)

Cynulleidfaoedd: e.e. grŵp oedran, dosbarth cymdeithasol, rhyw, ffordd o fyw, tueddfryd rhywiol, geodemograffeg, lleol, rhanbarthol, cenedlaethol

Cyd-destun: e.e. darlledu, y rhynggrwyd, mewn siopau (defnyddio technegau gwerthu a hyrwyddo, hysbysebu yn y man gwerthu, ymwybyddiaeth o'r brand, hyrwyddo cyffredinol, cerddoriaeth gefndir); targedu grwpiau demograffig (oedran, dosbarth cymdeithasol, rhyw)

3 Gallu ymgorffori cynnwys llafar a nodwedd ychwanegol i ddilyniannau cerddorol

Cynnwys: darlenniadau byw, e.e. sych, dros haenau; cysylltiadau â deunydd a recordiwyd ymlaen llaw; ar gyfer y radio, e.e. cyfweiliadau, eitemau nodwedd, bwletinau traffig, cystadlaethau; ar gyfer sain mewn siopau, e.e. arwerthiannau a hyrwyddo, negeseuon masnachol, adloniant ar ffurf gwybodaeth; deunydd pontio i atalnodi, e.e. jingles, pwyntiau pigog

Diben: radio, e.e. lefelau cynulleidfa, fformat, gwasanaeth cyhoeddus, masnachol, materion rheoliadol, nawdd; mewn siopau, e.e. cynyddu gwerthiant, ymwybyddiaeth o'r brand, cadw cwsmeriaid

4 Gallu adolygu eu rhaglenni seiliedig ar gerddoriaeth eu hunain, gan gyfeirio at y diben a'r gynulleidfa

Diben: addasrwydd at y diben; cymharu â'r bwriadau gwreiddiol; nodweddion technegol; nodweddion esthetig; hygyrchedd i'r gynulleidfa darged

Ymateb y gynulleidfa: meintiol, e.e. graddau; ansoddol, e.e. yn ôl y mynegai gwerthfawrogiad (AI); holiaduron; grwpiau ffocws; adolygiadau cymheiriaid

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio gwahanol fathau ac arddulliau o raglennu seiliedig ar gerddoriaeth, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio gwahanol fathau ac arddulliau o raglennu seiliedig ar gerddoriaeth, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 gwerthuso'n feirniadol wahanol fathau ac arddulliau o rhaglennu seiliedig ar gerddoriaeth, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynhyrchu dilyniannau cerddorol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chyda pheth cymorth [MC, GT, HR]	T2 cynhyrchu dilyniannau cerddorol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd o safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynhyrchu dilyniannau cerddorol i safon dechnegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 ymgorffori cynnwys ychwanegol llafar a nodwedd i ddilyniannau cerddorol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, GT, HR]	T3 ymgorffori cynnwys ychwanegol llafar a nodwedd i ddilyniannau cerddorol o safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 ymgorffori cynnwys ychwanegol llafar a nodwedd i ddilyniannau cerddorol o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI4 nodi cryfderau a gwendidau eu rhaglenni seiliedig ar gerddoriaeth eu hunain, gan gyfeirio at y diben a'r gynulleidfa, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [DA]</p>	<p>T4 trafod cryfderau a gwendidau eu rhaglenni seiliedig ar gerddoriaeth eu hunain, gan gyfeirio at y diben a'r gynulleidfa, gyda chyfeiriadau at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd.</p>	<p>Rh4 gwerthuso'n feirniadol gryfderau a gwendidau eu rhaglenni seiliedig ar gerddoriaeth eu hunain, gan gyfeirio at y diben a'r gynulleidfa, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.</p>

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 45: Cynhyrchu Hysbysebion ar gyfer y Radio

Côd yr Uned:	L/600/6607
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o arddulliau, strwythur, pwrpas a chynnwys hysbysebion a gynhyrchir ar gyfer eu darlledu gan y sector radio annibynnol. Mae'r uned yn cwmpasu'r broses o gynhyrchu hysbysebion radio, gan gynnwys cyllid, ystod o gyfleusterau cynhyrchu, rolau swyddi, a tharddiad y cynnwys.

Cyflwyniad i'r uned

Mae hysbysebion radio yn rhan hanfodol o gynnwys radio annibynnol, ac yn cynrychioli rhyw 20 y cant o allbwn darlledu gorsaf radio. Mae dau ddiben i hysbysebion radio: ennill arian i alluogi gorsaf radio fasnachol i barhau i ddarlledu, a hyrwyddo gwerthiant nwyddau a gwasanaethau'r hysbysebwyrr.

Mae amserau darlledu'r hysbysebion (egwyliau hysbysebion fel y'u gelwir) a nifer yr hysbysebion y gall egwyliau o'r fath eu cynnwys o dan reolaeth gadarn gan y rheoleiddiwr darlledu Ofcom. Pennir y terfynau hyn adeg rhoi trwydded i'r orsaf radio ar gyfer darlledu. Mae hysbysebion penodol wedi eu hamserlennu ar gyfer y slotiau pan fydd cynulleidfaoedd arbennig yn gwrando. Ni fydd hysbysebion byth yn cael eu defnyddio i lenwi bylchau yn yr amserlen ddarlledu.

Mae'r angen am sicrhau bod hysbysebion yn ddiddorol ac yn tynnu sylw wedi arwain at sôn am gynhyrchu hysbysebion fel gwaith 'creadigol', ac yn aml cyfeirir at y timau sy'n eu cynhyrchu fel 'adrannau creadigol'. Mae rhai gorsafoedd yn cynhyrchu hysbysebion yn fewnol, ac mae nifer o dai cynhyrchu sy'n gweithio o dan gontract i nifer o orsafoedd ac asiantaethau hysbysebu. Mae mwyafrif y sector radio masnachol yn y DU ym mherchenogaeth nifer bach o grwpiau corfforaethol, y mae hysbysebion yn cael eu cynhyrchu ganddynt, a'u dosbarthu neu eu 'delio' yn ganolog.

Caiff hysbysebion gorffenedig eu dosbarthu i orsafoedd radio bron yn ddieithriad trwy gysylltiad band eang. Mae dulliau cynhyrchu cyfoes yn defnyddio cyfleusterau stiwdio recordio sy'n defnyddio cyfrifiadur personol. Mae llyfrgelloedd cerddoriaeth gynhyrchu yn cyflenwi cerddoriaeth a chyflogir actorion i lefaru deialog a sgriptiwyd yn briodol.

Bydd yr uned hon yn galluogi'r dysgwyr i werthuso'n feirniadol a chymharu cynnwys ac arddull hysbysebion radio a gynhyrchwyd yn y DU, a deall y prosesau cynhyrchu angenrheidiol i'w creu. Bydd dysgwyr yn cymhwyso'r wybodaeth a'r sgiliau maent yn eu caffael i gynhyrchu hysbyseb radio unigol mewn ymateb i frîff penodol gan gleient.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall arddull, strwythur, diben a rheoleiddio hysbysebion radio cyfoes yn y DU
- 2 Deall y broses o gynhyrchu hysbysebion radio
- 3 Gallu cynhyrchu triniaethau a sgriptiau ar gyfer hysbyseb radio mewn ymateb i frîff gan gleient
- 4 Gallu cynhyrchu hysbyseb radio mewn ymateb i frîff gan gleient.

Cynnwys yr Uned

1 Deall arddull, strwythur, diben a rheoleiddio hysbysebion radio cyfoes yn y DU

Arddull: e.e. llawn hiwmor, difrifol, ffeithiol, ffuglen, pastiche, ailadrodd, syml, cymhleth, hiraethus, modern, dyfodolaidd, ymosodol, dengar, darbwyllol, swreal, uniongyrchedd, tymor hir

Strwythur: neges; un llais; lleisiau lluosog; sgysiol; llinell tag; ailadrodd enw'r cynnyrch; manylion cyswllt; llais/lleisiau dros haen o gerddoriaeth; effeithiau sain; ergyd; cynnwys darbwyllol (pwynt gwerthu unigryw (USP), cymeradwyaeth gan sêr, pris, manteision i'r defnyddiwr), codau a chonfensiynau (defnydd parhaus o enw'r cynnyrch neu'r gwasanaeth, unigryw, cyfres, cysylltiad rhwng cynnyrch a rhaglen, ymwneud ag arddull tŷ gorsaf radio benodol)

Diben: cynyddu ymwybyddiaeth o'r brand; darparu gwybodaeth; hybu gwerthiant a chynigion arbennig; cynyddu cyfran y farchnad; cynyddu ymwybyddiaeth dymhorol; atgyfnerthu; creu incwm ar gyfer gorsafoedd radio; hyrwyddo cynnyrch neu wasanaeth (cenedlaethol, lleol)

Rheoleiddio a chodau ymarfer: gofynion rheoleiddio (chwaeth, moeseg, categorïau cyfyngedig neu waharddedig, defnydd o blant, amddiffyn defnyddwyr); cyrff rheoleiddio (Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA), Ofcom, Radio Advertising Clearance Centre)

2 Deall y broses o gynhyrchu hysbysebion radio

Cyfleusterau cynhyrchu: yn fewnol mewn gorsafoedd radio; trwy gwmni cynhyrchu; defnyddio llyfrgelloedd cerddoriaeth gynhyrchu; effeithiau sain wedi eu recordio ymlaen llaw; cyfleusterau stiwdio (bwth llais, gorsaf waith golygu, meddalwedd)

Rolau cynhyrchu: cynhyrchydd creadigol; peiriannydd recordio; ysgrifennwr copi; artistiaid trosleisio, e.e. actorion llais, sêr; lleiswyr sesiwn

Cerddoriaeth: fyw; cerddoriaeth gynhyrchu neu o lyfrgell; arddull a threfniant; y math o gerddoriaeth, e.e. pastiche; swyddogaeth, e.e. prif haen, tag, ergyd

Ystyriaethau ariannol: cyllideb gynhyrchu wedi ei chyd-drafod (gan y tîm gwerthiant lleol, gan asiantaeth genedlaethol, gan asiantaeth ranbarthol); taliadau breindal am gerddoriaeth; ffioedd artistiaid trosleisio; costau delio (amserlennu, bilio)

3 Gallu cynhyrchu triniaethau a sgriptiau ar gyfer hysbyseb radio mewn ymateb i friff gan gleient

Cleient: cwmni preifat; corfforaethol; busnes lleol; llywodraeth genedlaethol; llywodraeth leol

Briff y cleient: cyllideb; arddull; fformat; cynulleidfa darged; pwynt gwerthu unigryw (USP)

Datblygu sgript: syniadau cychwynnol; proses ddrafftio; golygu; newidiadau pwyslais; newidiadau arddull; amseru; neges; llinell tag

Cynhyrchu sgript: agweddau gwahanol at syniadau; drafft terfynol; cymeradwyaeth gan y cleient cyn cynhyrchu

4 Gallu cynhyrchu hysbyseb radio mewn ymateb i friff gan gleient

Cael hyd i elfennau: cerddoriaeth; deialog (un llais, lleisiau lluosog); effeithiau sain

Recordio'r sesiwn leisiol: ymarfer; cyfarwyddo doniau; cyfyngiadau amser; recordio

Cymysgu a chydbwyso: yn fyw wrth recordio'r llais; mewn gwaith ôl-gynhyrchu

Ôl-gynhyrchu: golygu; meistr; copi wrth gefn; fformat dosbarthu

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio arddull, strwythur, diben a rheoleiddio hysbysebion radio a ddarlledir yn y DU [YA]	T1 esbonio arddull, strwythur, diben a rheoleiddio hysbysebion radio a ddarlledir yn y DU, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt	Rh1 gwerthuso'n feirniadol arddull, strwythur, diben a rheoleiddio hysbysebion radio a ddarlledir yn y DU, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro
LI2 disgrifio'r camau allweddol yn y broses o gynhyrchu hysbysebion radio, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T2 esbonio'r camau allweddol yn y broses o gynhyrchu hysbysebion radio, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n gynhwysfawr gamau allweddol y broses o gynhyrchu hysbysebion radio, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 creu triniaethau a sgriptiau ar gyfer hysbyseb radio mewn ymateb i friff gan gleient, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [HR]	T3 creu triniaethau a sgriptiau ar gyfer hysbyseb radio mewn ymateb i friff gan gleient, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 creu triniaethau a sgriptiau ar gyfer hysbyseb radio mewn ymateb i friff gan gleient, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cynhyrchu hysbyseb radio mewn ymateb i frîff gan gleient gyda pheth cymorth. [GT]	T4 cynhyrchu hysbyseb radio mewn ymateb i frîff gan gleient, o safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh4 cynhyrchu hysbyseb radio mewn ymateb i frîff gan gleient at safon sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 46: Technegau Cynhyrchu Rhaglenni Ffeithiol ar gyfer y Radio

Côd yr Uned:	H/600/6628
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o godau a chonfensiynau rhaglennu ffeithiol ar gyfer y radio a rhoi cyfle iddynt ddatblygu pwnc neu destun mewn rhaglen radio ffeithiol a fydd yn hysbysu ac yn addysgu'r gwrandäwr ynghylch y mater dan sylw.

Cyflwyniad i'r uned

Mae rhaglenni ffeithiol yn cynrychioli un o sectorau mwyaf cynhyrchu radio, gan ddarparu ystod helaeth o gyfleoedd a rolau proffesiynol o fewn y diwydiant.

Y sector hwn yw'r prif gyfathrebydd gwybodaeth yng nghyswllt digwyddiadau byd-eang, materion neu farn cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac agweddau cymdeithas a chymunedau, o'r materion byd-eang mwyaf difrifol i adloniant pur. Mae'n darparu cyfleoedd aruthrol o ran syniadau ar gyfer cynrychiadau posib.

Mae'r genre yn cynnwys rhaglenni dogfen, addysgiadol, cylchgrawn, trafodaeth, adolygu, sioe sgwrsio, diddordeb arbennig (hobiau, gweddnewid a fformat sut mae gwneud), teledu 'realaeth' ac is-genres eraill. Mae'n golygu ymwneud â materion cyfryngau allweddol cynrychiolaeth, mynediad, gwrthrychedd, goddrychedd a chyfleu ystyr.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu'r ystod lawn o sgiliau angenrheidiol i gynhyrchu rhaglenni ffeithiol, o ymchwilio i gynrychiadau a'u cynllunio, hyd at y broses gynhyrchu. Mae'n adeiladu ar sgiliau cyffredinol rheoli cyn cynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu ac yn darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau arbenigol uwch megis newyddiaduraeth radio, technegau cyfweld a chyflwyno a'r proffesiynoldeb sy'n angenrheidiol wrth weithio gyda'r cyhoedd.

Er mai 'ffeithiol' yw'r diffiniad sylfaenol o'r genre, mae ystod eang o gyfleoedd i fod yn greadigol, a hynny o fewn y broses gynhyrchu ac wrth ddehongli'r pwnc neu'r cynnwys, gan gynnwys cyfleoedd i ddysgwyr weithio ar brosiectau maen nhw'n teimlo'n bersonol eu bod yn ddiddorol ac yn heriol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall genres, fformatau, codau a chonfensiynau rhaglenni radio ffeithiol
- 2 Gallu paratoi a phitsho cynnig ar gyfer rhaglen radio ffeithiol mewn ymateb i frîff
- 3 Gallu ymchwilio i raglen radio ffeithiol a'i chynhyrchu
- 4 Gallu cynhyrchu rhaglen radio ffeithiol.

Cynnwys yr Uned

1 Deall genres, fformatau, codau a chonfensiynau rhaglenni radio ffeithiol

Genres: rhaglen ddogfen; addysgiadol; bywyd gwyllt; diddordeb arbennig; cylchgrawn; trafodaeth; ymchwiliol; archifau

Fformatau: cyflwynydd yn arwain; naratif; arddull baled; seiliwyd ar ddigwyddiadau ar y pryd; cysylltiadau cerddoriaeth a chaneuon

Codau a chonfensiynau: cywirdeb; cydbwysedd; bod yn ddiuedd; gwrthrychedd; goddrychedd; barn; bias; cynrychiolaeth; mynediad; preifatrwydd; contract gyda'r gwrandawr

2 Gallu paratoi a phitsho cynnig ar gyfer rhaglen radio ffeithiol mewn ymateb i friff

Briff cychwynnol: syniad am bwnc; fformat; genre; arddull; cynulleidfa; nod arfaethedig; cyllideb

Cynnig mewn ymateb i'r briff: teitl y gwaith; senario; cyfranogwyr; elfennau; cyfranogwyr; cyllideb amlinellol; pitsio'r cynnig

3 Gallu ymchwilio i raglen radio ffeithiol a'i chynhyrchu

Ymchwil: ffynonellau eilaidd, e.e. darllediadau o'r archifau, y rhyngwyd, archifau wedi eu recordio; ffynonellau cynradd, e.e. cysylltiadau, cyfweliadau cychwynnol; dilysu data

Datblygu syniadau: cysyniad y rhaglen; cynulleidfa darged; technegau datblygu, e.e. creu naratif, senario, synopsis, y broses ymchwil, cwestiynau cyfweliad

Triniaeth: manylion y tîm cynhyrchu; manylion y cyfranogwyr; esboniad; gwrthdaro; adferiad; cwestiynau cyfweliad; manylion yr elfennau

Cynllunio: trefnu'r cynhyrchiad; rolau a chyfrifoldebau; amserlenni; apwyntiadau cyfweld a chysylltiadau; rhagchwiliadau o'r lleoliad; cyllideb (a gynlluniwyd, yn esblygu); asesiadau risg; dogfennaeth; trefniadau wrth gefn

Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol: recordio'n gyhoeddus; cliriadau a chaniatâd; preifatrwydd; difenwi; canllawiau cynhyrchwyr y BBC; codau ymarfer Ofcom

4 Gallu cynhyrchu rhaglen radio ffeithiol

Cyn cynhyrchu: crynhoi dogfennaeth; monitro cynnydd; nodi a datrys problemau; trefnu'r cynhyrchiad, e.e. taflenni galw, rhestrau cyfarpar, manylion lleoliadau, rheoli logisteg, asesiadau risg o'r lleoliadau

Caffael cynnwys: recordio sain (barn gyffredinol, cyfweliadau); deialog wedi ei sgriptio; lleisio yn y stiwdio; lleoliad; man cyhoeddus; cyfweliadau; disgrifiadau'r cyflwynydd, sain stiwdio

Golygu: creu naratif; cyfleu ystyr; darlunio'r pwnc; crynhoi; cymysgu; normaleiddio

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio genres, fformatau, codau a chonfensiynau rhaglenni radio ffeithiol, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio genres, fformatau, codau a chonfensiynau rhaglenni radio ffeithiol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n gynhwysfawr genres, fformatau, codau a chonfensiynau rhaglenni radio ffeithiol, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 paratoi a phitsho cynnig ar gyfer rhaglen radio ffeithiol mewn ymateb i frîff, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T2 Paratoi a phitsho cynnig yn alluog ar gyfer rhaglen radio ffeithiol mewn ymateb i frîff, gyda defnydd o derminoleg y pwnc sy'n gywir at ei gilydd	Rh2 paratoi a phitsho cynnig ar gyfer rhaglen radio ffeithiol mewn ymateb i frîff at safon sydd bron yn broffesiynol, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 ymchwilio a chynllunio rhaglen ffeithiol ar gyfer y radio gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol [HR, GT]	T3 ymchwilio a chynllunio rhaglen ffeithiol ar gyfer y radio yn alluog, gan ddangos peth dychymyg	Rh3 ymchwilio a chynllunio rhaglen ffeithiol ar gyfer y radio o ansawdd sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach
LI4 cynhyrchu rhaglen ffeithiol ar gyfer y radio gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol a chan dderbyn peth cymorth. [GT]	T4 cynhyrchu rhaglen ffeithiol ar gyfer y radio yn alluog, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh4 cynhyrchu rhaglen ffeithiol ar gyfer y radio o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan arddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 47: Llyfrau a Chyfeirlyfrau Sain

Côd yr Uned:	J/600/6606
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth o'r gynulleidfa ar gyfer llyfrau a chyfeirlyfrau sain a'r sgiliau golygu a thechnegol y mae eu hangen i'w cynhyrchu at ddibenion adloniant, hyfforddi a gwybodaeth, yn ogystal â deunydd sain ar gyfer y rhai sydd â nam ar eu golwg.

Cyflwyniad i'r uned

Mae marchnad gynyddol ar gyfer llyfrau a chyfeirlyfrau sain, wrth i ffyniant defnyddwyr a natur soffistigedig rhwydweithiau dosbarthu manwerthu ac allfeydd gynyddu dros amser. Mae'r cynulleidfaoedd ar gyfer y cynnyrch hyn yn amrywio o'r ifanc iawn i'r hen iawn. Defnyddir rhai chyfeirlyfrau sain mewn lleoliadau penodol, megis amgueddfeydd neu arddangosfeydd, ac mae cyfarpar mwyfwy soffistigedig i'w chwarae yn golygu nad ydynt bellach wedi eu cyfyngu i ddisgiau y gellir eu tynnu allan na fformatau tâp hŷn. Mae hyn yn golygu bod modd cael lefel uwch nag erioed o ryngweithio mewn cynnyrch o'r fath, gan fod modd dewis pennod, troi nôl a neidio ymlaen yn gwbl ddiffwdan.

Ar ben hynny, mae'r rhai sydd â nam ar eu golwg yn cael bod y cynnyrch sain hyn (ac eraill a ddatblygwyd yn arbennig ar eu cyfer) yn ddefnyddiol ac yn ddifyr, felly maent yn cyflawni swyddogaeth gymdeithasol werthfawr trwy alluogi pobl ddall neu â golwg rhannol i brofi mwy o'r byd o'u cwmpas. Mae technoleg ddsbarthu fodern yn golygu bod modd i'r deunydd hwn yn awr gael ei gyrchu dros y rhyngwyd ar ffurf podlediadau, neu ei lawrlwytho i ffonau symudol.

Mae'r uned yn cynnig cyfleoedd i ymchwilio i ddeunydd sy'n briodol ar gyfer grwpiau ag anghenion penodol a'i gynhyrchu, a bydd yn helpu'r dysgwyr i werthfawrogi problemau dosbarthiad, mewn rhai achosion i ardal ddaearyddol eang.

Mae cynhyrchu sain ar gyfer defnyddiau heblaw darlledu fel hyn yn galw am nifer o sgiliau cyn cynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu, y mae llawer ohonynt yn debyg i'r rhai y mae eu hangen yn y diwydiant radio. Maent yn cynnwys dethol ac amserlennu deunydd yn ôl ei ddiben a'r cyd-destun y caiff ei glywed ynddynt.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall y berthynas rhwng amrywiaeth o lyfrau a chyfeirlyfrau sain a gwahanol gynulleidfaoedd
- 2 Gallu dethol a defnyddio deunydd priodol ar gyfer gwaith addasu a chyn cynhyrchu
- 3 Gallu creu a chynhyrchu deunydd priodol ar gyfer cynulleidfa darged benodol
- 4 Deall y cyfyngiadau economaidd ar gynhyrchu a dulliau dosbarthu.

Cynnwys yr Uned

1 Deall y berthynas rhwng amrywiaeth o lyfrau a chyfeirlyfrau sain a gwahanol gynulleidfaoedd

Defnyddwyr: ffactorau demograffig (ystod oedran, rhyw, ethnigrwydd, diwylliant, iaith); apêl y cynnwys; y galw yn y farchnad; parhad y cyfnod silff

Ymwelwyr: cyd-destun cyfeirlyfrau sain (atyniadau i ymwelwyr, amgueddfeydd, arddangosfeydd); addasrwydd ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol (derbyniol i'r hen a'r ifanc, ymwelwyr tramor); addasrwydd at y diben (llawn gwybodaeth, addysgiadol, difyr)

Pobl â nam ar eu golwg: golwg rhannol a dallineb; pwysigrwydd ansawdd y sain; arddull y cyflwyno; yr angen am wybodaeth ac adloniant; dibyniaeth ar wasanaeth rheolaidd

2 Gallu dethol a defnyddio deunydd priodol ar gyfer gwaith addasu a chyn cynhyrchu

O ffynonellau ymchwil: newyddion; galwadau ffôn; y rhyngwrwyd; datganiadau i'r wasg; swyddogion y wasg; teledu; radio; llyfrau; cylchgronau; papurau newydd; llygad dystion; teletestun

Addasu: gweithio'n unol â briff y cytunwyd arno ymlaen llaw; addasu cynnwys gwreiddiol ar gyfer cynulleidfa darged; hygrychedd; ystyriaethau hawlfraint; perthnasedd; diddordeb; hyd; cynnwys, e.e. nofelau, dramâu, bywgraffiadau, bwletinâu newyddion, storïau newyddion; creu triniaethau; paratoi sgriptiau cynhyrchu

Cyn cynhyrchu: dethol cyfranwyr; dethol actorion lleisiol; cael hyd i ddigwyddiadau ar y pryd, cynnwys o'r archifau, effeithiau sain, cerddoriaeth; dogfennaeth, e.e. amserlenni, cyllidebau, taflenni galw, rhestrau o'r criw, taflenni golygu, logiau recordio

3 Gallu creu a chynhyrchu deunydd priodol ar gyfer cynulleidfa darged benodol

Cynhyrchu: dilyn y sgript; sicrhau addasrwydd at y diben; recordio deialog, e.e. ar leoliad, yn y stiwdio; eglurder y cydrannau a recordiwyd

Ôl-gynhyrchu: golygu; cymysgu; cydbwyso; deialog, effeithiau sain; cerddoriaeth; defnyddio distawrwydd; meistrolï sicrhau eglurder sain

4 Deall y cyfyngiadau economaidd ar gynhyrchu a dulliau dosbarthu

Dosbarthu: fformatau; caledwedd (systemau disgiau, systemau cyflwr solet, dosbarthiad seinyddion); pecynnu; dychwelyd disgiau; tanysgrifio; dosbarthiad manwerthu

Dyblygu: nifer y copïau; hyd; cysondeb ansawdd; gwydnwch; labelu; pecynnu

Cyfyngiadau economaidd: costau cynhyrchu (cyflogau, ffioedd i gyfranwyr, nifer y cyfranwyr, ffioedd hawlfraint); hysbysebu; nawdd; maint y gynulleidfa; darbodion maint; proffil y gynulleidfa

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio'r berthynas rhwng llyfrau a chyfeirlyfrau sain a gwahanol gynulleidfaoedd [YA]	T1 esbonio'r berthynas rhwng llyfrau a chyfeirlyfrau sain a gwahanol gynulleidfaoedd, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt	Rh1 asesu'n feirniadol y berthynas rhwng llyfrau a chyfeirlyfrau sain a gwahanol gynulleidfaoedd, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro
LI2 ymchwilio, dethol a defnyddio deunydd priodol ar gyfer gwaith addasu a chyn cynhyrchu, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol [MC]	T2 ymchwilio, dethol a defnyddio deunydd priodol ar gyfer gwaith addasu a chyn cynhyrchu, gan ddangos peth dychymyg	Rh2 ymchwilio, dethol a defnyddio deunydd priodol ar gyfer gwaith addasu a chyn cynhyrchu, gan ddangos gallu creadigol a fflach
LI3 creu a chynhyrchu deunydd priodol ar gyfer cynulleidfa darged benodol gyda pheth cymorth [MC, HR]	T3 creu a chynhyrchu deunydd priodol o safon dechnegol dda ar gyfer cynulleidfa darged benodol, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 creu a chynhyrchu deunydd priodol ar gyfer cynulleidfa darged o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI4 disgrifio'r cyfyngiadau economaidd ar gynhyrchu a dulliau dosbarthu, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [YA]	T4 esbonio, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, y cyfyngiadau economaidd ar gynhyrchu a dulliau dosbarthu, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd.	Rh4 esbonio'n gynhwysfawr y cyfyngiadau economaidd ar gynhyrchu a dulliau dosbarthu, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 48:

Recordio Cerddoriaeth

Côd yr Uned:	A/600/6649
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth y dysgwyr - a'u gallu i ddefnyddio'r ystod o dechnegau angenrheidiol i recordio'n effeithiol, gan ddefnyddio dulliau priodol ar gyfer y deunydd gwreiddiol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae cerddoriaeth wedi ei recordio'n dda yn hanfodol ar gyfer y rhan fwyaf o gynrychiadau cyfryngau clyweledol, o gemau, rhaglenni dogfen a dramâu cyfnod, i chwaraeon, darllediadau newyddion ac animeiddio. Mae dewis cerddoriaeth sy'n gweddu i'r cynhyrchiad yr un mor bwysig ag ansawdd y sain. Mae sain a cherddoriaeth nid yn unig yn creu naws ac yn pwysleisio cynnwys emosiynol y cynhyrchiad, ond hefyd yn helpu i hoelio sylw'r gwylwr neu'r gwrاندawr ar y cynnwys arall.

Wrth i ansawdd cyfarpar sain domestig wella, bydd defnyddwyr yn mynnu sain o ansawdd well yn barhaus, felly mae'n hanfodol bod dysgwyr yn gwerthfawrogi ac yn dysgu'r egwyddorion sylfaenol sy'n arwain at recordio sain o ansawdd uchel.

Mae'r rhai sy'n gweithio yn y sector hwn o'r diwydiant yn ymwybodol bod eglurder a phurdeb sain yn hanfodol bwysig, ac mai dim ond trwy wybod am egwyddorion recordio sain a thechnegau cynhyrchu y gellir cyflawni hynny. Mae hyn yn galluogi cyflawni'r driniaeth sain briodol ar gyfer cyfryngau trosglwyddo gwahanol. Bydd datblygu dealltwriaeth o iaith sylfaenol sain, ynghyd â sgiliau gwrandawr cysylltiedig, hefyd yn helpu dysgwyr i werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith dysgwyr eraill yn feirniadol, a'i gymharu â gwaith ymarferwyr yn y gorffennol a'r presennol.

Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i'r dysgwyr gael profiad o dechnoleg recordio cerddoriaeth gyfoes, yng nghyd-destun y sgiliau traddodiadol mae'r dechnoleg honno yn deillio ohonynt. Bydd yn datblygu eu sgiliau recordio sain sylfaenol (megis defnyddio meic gydag offerynnau a recordio o wahanol ffynonellau) yng nghyd-

destun y diwydiant cerddoriaeth, ac yn rhoi cyfle iddynt gael profiad a dod i deall amgylchedd y stiwdio recordio. Mae'r uned hefyd yn ceisio ymhelaethu ar sgiliau a ddysgwyd mewn rhannau eraill o'r llwybr sain, megis cipio, cymysgu a golygu sain, a dangos eu perthnasedd i'r diwydiant recordio cerddoriaeth.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall nodweddion cynhyrchu recordiadau cerddoriaeth
- 2 Gallu defnyddio meic gydag offerynnau cerdd mewn gwahanol sefyllfaoedd recordio
- 3 Gallu recordio cerddoriaeth o wahanol ffynonellau ar gyfer cyd-destunau penodol
- 4 Gallu cymysgu ac ailgymysgu recordiadau cerddoriaeth o wahanol ffynonellau.

Cynnwys yr Uned

1 Deall nodweddion cynhyrchu recordiadau cerddoriaeth

Genre: e.e. cerddoriaeth ddawns, roc, indie, reggae, jazz, clasurol, gwlad, cerddoriaeth fyd

Sain: ansawdd; ffactorau sy'n dylanwadu ar ansawdd (adlewyrchiad acwstig, amsugniad, dirgryniad, sŵn yn y cefndir); sŵn y dorf; mynegiant; emosiwn; cynnwys y gwrandawr

Recordio: stereo; mono; aml-drac; systemau recordio analog a digidol; tâp rîl i rîl; lleihau sŵn; systemau recordio a golygu meddalwedd; rhyngwynebâu caledwedd a chyfrifiadurol cyfredol; effeithiau a phroseswyr; ystyriaethau meistrolï

2 Gallu defnyddio meic gydag offerynnau cerdd mewn gwahanol sefyllfaoedd recordio

Lleoliadau: e.e. stiwdio recordio, neuadd gyngerdd, yr awyr agored, eglwys, stadiwm, arena dan do, warws, ystafell ddosbarth

Meicroffon: mathau, e.e. deinamig, cyddwysydd; patrymau codi (diagramau pegynol, cyfeiriadol, i bob cyfeiriad, cardioid, hypergardioid)

Offerynnau cerdd: llinynnau, e.e. piano, gitâr, feiolin, soddgrwth; offerynnau chwyth, e.e. ffliwt, obo, clarinét; pres: trwmped, corn Ffrengig, trombôn; offer taro, e.e. drymiau, symbalau, hi-hat, maracas, tambwrîn; arall, e.e. electronig, ethnig

3 Gallu recordio cerddoriaeth o wahanol ffynonellau ar gyfer cyd-destunau penodol

Cyn recordio: rhedeg trwodd; ymarfer; gwirio lefelau a sain; perfformiad; strwythurau cynnydd; llwybrau; sesiwn stiwdio; stereo; mono; recordio aml-drac; cysylltiadau; effaith agosrwydd; recordio byw; addasu acwstig; sgriniau

Offerynnau electronig: chwistrelliad uniongyrchol; syntheseiddyddion; gitâr drydan; peiriant drymiau; piano trydan; allweddell; midi; meddalwedd gyfrifiadurol

Recordio: monitro'r systemau; monitro'r lefelau; clustffonau; systemau plygu nôl; siarad nôl; adnabod traciau; taflenni traciau; gorddybio; gwrandawr am afluniad; gwirio wrth chwarae nôl

4 Gallu cymysgu ac ailgymysgu recordiadau cerddoriaeth o wahanol ffynonellau

Cymysgu: cymysgu deunydd gwreiddiol; ailgymysgu deunydd sydd eisoes yn bodoli neu a ganfyddwyd; panio; cydraddoli; dirgryniad; cywasgu; ehangu; cyfyngu; unedau effeithiau; grwpio

Meistroli: cynhyrchu'r recordiad stereo neu fono; system a fformat meistroli; anghenion fformat y cleient; melysu'r sain derfynol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 adolygu nodweddion cynhyrchu recordiadau cerddoriaeth gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio nodweddion cynhyrchu recordiadau cerddoriaeth, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drylwyr nodweddion cynhyrchu recordiadau cerddoriaeth, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.
LI2 defnyddio meic gydag offerynnau cerdd mewn gwahanol sefyllfaoedd recordio gyda pheth cymorth [MC]	T2 defnyddio meic gydag offerynnau cerdd mewn gwahanol sefyllfaoedd recordio at safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 defnyddio meic gydag offerynnau cerdd mewn gwahanol sefyllfaoedd recordio gydag ansawdd sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu cerddoriaeth wedi ei recordio o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer cyd-destunau penodol, gyda pheth cymorth [MC]	T3 cynhyrchu cerddoriaeth wedi ei recordio o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer cyd-destunau penodol i safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynhyrchu cerddoriaeth wedi ei recordio o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer cyd-destunau penodol gydag ansawdd sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI4 cynhyrchu enghreifftiau o gymysgu ac ailgymysgu cerddoriaeth, gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau gyda pheth cymorth. [HR]</p>	<p>T4 cynhyrchu enghreifftiau o gymysgu ac ailgymysgu cerddoriaeth gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau, gyda safon dechnegol dda, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.</p>	<p>Rh4 cynhyrchu enghreifftiau o gymysgu ac ailgymysgu cerddoriaeth gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau, gydag ansawdd sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.</p>

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 49: Cyflwyniad i Dechnoleg Cerddoriaeth

Côd yr Uned:	F/502/5693
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i gyfarpar a thechnegau technoleg cerddoriaeth. Bydd y dysgwyr yn dod yn gyfarwydd ag amrywiaeth o gyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin i greu cerddoriaeth, a byddant yn cynhyrchu amrywiaeth o recordiadau gan ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd drwy'r uned.

Cyflwyniad i'r uned

Yn amgylchedd modern y cyfryngau, recordio a sain byw, mae'n hanfodol bod peirianwyr, cynhyrchwyr a chynorthwywyr yn gallu defnyddio cyfarpar technoleg cerddoriaeth, yn ogystal â chyfleusterau sain arbenigol. Mae llawer o gyfansoddwyr a threfnwyr yn creu cynnyrch â'u cyfleusterau cyfrifiadurol eu hunain, ac yna'n dod â hwy i'r stiwdio recordio broffesiynol neu'r lleoliad byw i'w perfformio, eu gorddybio a'u cymysgu'n derfynol, yn aml gyda lluniau. Gall hyn fod ym maes cerddoriaeth ffilm, gemau, cyflwyniadau amlygyfrwng, crynoddsgiau cerddoriaeth, cynyrchiadau radio a theledu, llyfrau sy'n siarad, y theatr a llawer o feysydd eraill yn y cyfryngau.

Y dyddiau hyn mae'n hanfodol bod peirianwyr sain yn gwybod sut mae'r pecynnau dilyniannu a'r dyfeisiau atodol yn rhyngwynebu ac yn cydamseru â'i gilydd ac â chyfarpar arall. Yn aml bydd angen i'r peiriannydd gywiro amseru, tonyddiaeth a phroblemau sonig sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchu, yn ogystal ag ymateb i faterion cydamseru, trosglwyddo ffeiliau a fformatio cymhleth.

Mae'r uned hon yn ymwneud â datblygu dealltwriaeth sylfaenol dysgwyr o'r cyfarpar a'r prosesau ym maes technoleg cerddoriaeth, a sut gellir eu defnyddio i ddatblygu gofynion cerddorol. Mae'r uned, felly, yn cynnwys elfen greadigol gref. Bydd y dysgwyr yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau, yn cynnwys meddalwedd, caledwedd, a chyfarpar penodol ar gyfer y maes.

Mae'r canlyniadau dysgu yn dilyn dilyniant rhesymegol dysgu sut mae'r cyfarpar yn gweithio, sut mae rhoi'r cyfarpar at ei gilydd, a sut mae ei ddefnyddio'n greadigol.

Lluniwyd yr uned i baratoi'r dysgwyr ar gyfer gwaith yn niwydiannau'r cyfryngau, naill ai fel gweithwyr cyflogedig, neu ar eu liwt eu hunain. Mae hefyd yn briodol ar gyfer dysgwyr sydd am ddatblygu eu potensial cerddorol eu hunain.

Oherwydd bod astudio technoleg cerddoriaeth yn cwmpasu cerddoriaeth a chreadigrwydd, rhifedd a llythrennedd, sgiliau technoleg a TG uwch, a gwaith grwpiau a thimau, mae cyfleoedd ardderchog ar gyfer dysgu trawsgwricwlaidd a dulliau arloesol o addysgu.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu cysylltu, gosod a phrofi cyfarpar technoleg cerddoriaeth
- 2 Gallu cynhyrchu perfformiad rhithwir o ddarn penodol o gerddoriaeth nodiant
- 3 Gallu cynhyrchu trefniant creadigol o ddarn o gerddoriaeth sydd eisoes yn bodoli
- 4 Gallu dylunio a chreu darn o gerddoriaeth wreiddiol, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

Cynnwys yr Uned

1 Gallu cysylltu, gosod a phrofi cyfarpar technoleg cerddoriaeth

Cyfarpar chwarae nôl: cyfleusterau stiwdio (aml-drac, stereo); cymysgyddion; meicroffonau

Systemau monitro: seinyddion a'r amgylchedd monitro; mwyhawyr; y gadwyn recordio a chwarae nôl; cysylltiadau a strwythurau cynnydd; diogelwch a lefelau monitro

Addasu'r sain: datseinedd; effeithiau a phroseswyr; cywasgu a chyfyngu; cydraddoli

Rhyngwyneb: ceblau a chysylltwyr; USB; FireWire; ceblau rhyngwyneb digidol offerynnau cerdd (MIDI); ether-rwyd

Iechyd a diogelwch: risgiau trydanol; risgiau corfforol; trafod a storio diogel; lefelau sŵn

2 Gallu cynhyrchu perfformiad rhithwir o ddarn penodol o gerddoriaeth nodiant

Systemau dilyniannu: manylebau MIDI; cysylltiadau MIDI; rheolydd MIDI; sianeli MIDI (anfon a derbyn); gwybodaeth am y rheolydd MIDI, ffeiliau MIDI

Systemau cyfrifiadurol: pecynnau dilyniannu meddalwedd; llwyfannau cyfrifiadurol a systemau gweithredu; pecynnau synthesis a samplo meddalwedd; wynebau rheoli

Allweddellau: allweddellau a rhyngwynebau allweddell; allweddellau syntheseiddiwr, gyda meddalwedd dilyniannu cynwysedig; allweddellau gyda thechnoleg samplo cynwysedig;

Cynhyrchwyr sain: syntheseiddyddion; samplwyr a thechnoleg samplo; modiwlau sain; systemau soniaredd lluosog

3 Gallu cynhyrchu trefniant creadigol o ddarn o gerddoriaeth sydd eisoes yn bodoli

Dehongli: dehongliad cywir o'r seinio; mynegiant; symbolau cordiau; ymwybyddiaeth idiomatig; cywirdeb traw; rhythm; tempo; deinameg; brawddeg a seinio; patrymau sgôr; offerynnau trawsgyweirio; defnyddio'r dechnoleg yn briodol ar gyfer yr idiom gerddorol neu'r genre

Gwireddu: mewnbynnu'r nodau gan ddefnyddio camau amser ac amser go iawn; penderfyniadau creadigol a deongliadol

Sgiliau golygu: newid y rhaglen; buanedd; mynegiant; gwyr'o'r traw; hyd nodau; cwanteiddio; cywirdeb; rhannau drymiau

Soniaredd: dethol seiniau priodol; priodweddau a gwedd y sain; masgio sonig a chydbwysedd; technegau lleisio; gwedd; dwysedd; trefniant a rhannau

cerddorfaol

4 Gallu dylunio a chreu darn o gerddoriaeth wreiddiol, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael

Cyfansoddi: e.e. strwythur, ffurf, genre, datganiad, ailadrodd, gwyrddroi, gwahaniaeth; unigolyddiaeth; gwreiddioldeb; hawliau cyfansoddwyr

Dylunio sain: e.e. technegau samplo, strwythurau ffurf tonnau, technegau golygu ffurf tonnau

Argaeledd: mewnbwn meddalwedd; mewnbwn analog a digidol; ffynonellau golygu; llyfrgelloedd sain; cyfarpar chwarae nôl; trosglwyddo ffeiliau, fformatau a chydweddiad; materion hawlfraint

Meistroli: e.e. meistroli i CD, codau PQ, mp3, dosbarthu ar y rhyngwrwyd, cywasgu, uchder y sain, cydraddoli, problemau sonig

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 cysylltu, gosod a phrofi cyfarpar technoleg cerddoriaeth gyda pheth cymorth [HR]	T1 cysylltu, gosod a phrofi cyfarpar technoleg cerddoriaeth gyda safon dechnegol dda, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh1 cysylltu, gosod a phrofi cyfarpar technoleg cerddoriaeth gydag ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI2 cynhyrchu perfformiad rhithwir o ddarn penodol o gerddoriaeth, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T2 cynhyrchu perfformiad rhithwir o ddarn penodol o gerddoriaeth gyda safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynhyrchu perfformiad rhithwir o ddarn penodol o gerddoriaeth gydag ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu trefniant newydd o ddarn o gerddoriaeth sydd eisoes yn bodoli, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T3 cynhyrchu trefniant newydd o ddarn o gerddoriaeth sydd eisoes yn bodoli, gyda safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynhyrchu trefniant newydd o ddarn o gerddoriaeth sydd eisoes yn bodoli, gydag ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI4 cynhyrchu darn o gerddoriaeth wreiddiol gan ddefnyddio ystod o dechnegau, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC, HR]</p>	<p>T4 cynhyrchu darn o gerddoriaeth wreiddiol gan ddefnyddio ystod o dechnegau, gyda safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.</p>	<p>Rh4 cynhyrchu darn o gerddoriaeth wreiddiol gan ddefnyddio ystod o dechnegau, gydag ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.</p>

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 50: Ysgrifennu Copi

Côd yr Uned:	T/600/6701
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gael hyd i ddeunydd ac i ysgrifennu copi ar gyfer gwahanol gynnyrch cyfryngau, gan roi cyfle iddyn nhw ddangos yr hyn y maen nhw wedi ei ddysgu trwy amrywiaeth o weithgareddau ysgrifennu ymarferol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae cynhyrchu geiriau ysgrifenedig gwreiddiol, neu gopi, o'r pwysigrwydd mwyaf wrth lunio'r rhan fwyaf o destunau cyfryngau printiedig a llawer o gyfryngau rhyngweithiol. Gall cynhyrchu copi gwreiddiol ar gyfer testun cyfryngau megis papur newydd, cylchgrawn, taflen neu dudalen ar y we fod yn waith heriol. Yn aml mae rhaid i newyddiadurwyr ac ysgrifenyddwyr copi gadw at derfynau amser caeth iawn wrth eu gwaith, ac mae angen iddynt sicrhau bod y geiriau maent yn eu defnyddio yn glir ac yn effeithiol o ran trosglwyddo'r neges gywir i'r gynulleidfa darged.

Bydd cyfansoddiad y gynulleidfa darged hon, diben a fformat y cynnyrch cyfryngau, a'r effaith a ddymunir i gyd yn cael effaith ar arddull a ffurf yr ysgrifennu y mae angen ei gynhyrchu, gan ddylanwadu ar y dewis o eiriau, arddull yr ysgrifennu, hyd y brawddegau a strwythur y testun.

Cyn dechrau ysgrifennu, mae'n anochel y bydd angen i newyddiadurwyr ac ysgrifenyddwyr copi gyflawni gwahanol fathau o ymchwil a chasglu gwybodaeth ychwanegol o ffynonellau a chan gysylltiadau newydd a sefydledig, fel bod ganddynt y deunydd crai angenrheidiol i fedru cynhyrchu'r ysgrifennu.

Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gasglu, storio a rheoli gwybodaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd, ac yna i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn sail ar gyfer cynhyrchu copi gwreiddiol sy'n addas ar gyfer testunau cyfryngau megis papurau newydd, cylchgronau, deunydd hyrwyddo a thudalennau ar y we. Bydd y dysgwyr hefyd yn cael cyfle i ddatblygu dealltwriaeth o gyfrifoldebau a rhwymedigaethau ysgrifenyddwyr wrth weithio yn y diwydiant.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu casglu gwybodaeth trwy wahanol ddulliau o ffynonellau cynradd ac eilaidd
- 2 Gallu storio a rheoli'r wybodaeth a gasglwyd
- 3 Gallu cynhyrchu copi mewn arddulliau addas ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, cyhoeddiadau a fformatau
- 4 Deall cyfrifoldebau a rhwymedigaethau ysgrifenwyr.

Cynnwys yr Uned

1 Gallu casglu gwybodaeth trwy wahanol ddulliau o ffynonellau cynradd ac eilaidd

Casglu gwybodaeth: arsylwi; cyfweld; darllen; cymryd nodiadau; recordio

Ffynonellau: cynradd; eilaidd (swyddogol, answyddogol, y gellir eu priodoli, cyfrinachol)

Ymchwil: ffynonellau dogfennol; ffynonellau electronig; llyfrgelloedd; mynegeion

2 Gallu storio a rheoli'r wybodaeth a gasglwyd

Cynnwys: ysgrifenedig, e.e. nodiadau, toriadau, cyfeirlyfrau; sain a gweledol, e.e. tâp sain, casét sain, MiniDisc™, recordyddion data, tâp fideo, ffeiliau fideo digidol, lluniau, siartiau, diagramau; data electronig; ffynonellau, e.e. pobl, sefydliadau, gwefannau

Labelu: teitlau; cyfeiriadaeth; croes-gyfeiriadaeth

Mynegai: meysydd pwnc; teitlau; geiriau allweddol; enwau; dyddiadau

3 Gallu cynhyrchu copi mewn arddulliau addas ar gyfer gwahanol gynulleidfaedd, cyhoeddiadau a fformatau

Mathau o gopi: storiâu newyddion (newyddion caled, newyddion meddal); nodweddion (profiad personol, elfen ymchwiliol, darparu gwybodaeth, hyfforddi); cyfweiliadau (proffil, personoliaeth); hysbysebu; hyrwyddo

Arddull: disgyrsiol; holi ac ateb; nodweddion disgrifiadol; dadl

Fformatau: e.e. papurau newydd, cylchgronau, llyfrau, taflenni, llyfrynnau, poster, tudalennau ar y we

Ystyriaethau: hyd; byrhau; ehangu; cyfuno testunau; cywirdeb, e.e. gwirio ffeithiau, cywiro gwallau; cydbwysedd; priodoli; cyfeiriadaeth; cysylltiadau â darluniadau; cynulleidfaedd; marchnadoedd

4 Deall cyfrifoldebau a rhwymedigaethau ysgrifenywyr

Ymwybyddiaeth gymdeithasol a diwylliannol: cynrychiolaeth, e.e. hil, rhyw, rhywioldeb; cynodiadau; darlleniadau amgen, e.e. gan blant, gan leiafrifoedd, gan ddioddefwyr

Natur ddarllenadwy: arddull; hyd brawddegau; paragraffau; eglurder; geirfa; cywair; sillafu; gramadeg; cystrawen; atalnodi

Hygrededd: gwrthrychedd; cywirdeb; gwirionedd; tegwch; cydbwysedd

Cyfraith a moeseg: cyfreithiol (difenwi, dirmyg, hawlfraint, plant a phobl ifanc, cyfrinachedd, cyfrinachau swyddogol); moesegol (codau ymarfer, preifatrwydd, ymyrraeth, aflonyddu)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 casglu gwybodaeth briodol o ffynonellau cynradd ac eilaidd, gyda pheth cymorth [YA]	T1 casglu gwybodaeth ddefnyddiol o ffynonellau cynradd ac eilaidd, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh1 casglu gwybodaeth sydd â ffocws manwl gywir o ffynonellau cynradd ac eilaidd, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI2 storio a rheoli gwybodaeth gyda pheth cymorth [HR]	T2 storio a rheoli gwybodaeth yn alluog, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 storio a rheoli gwybodaeth at safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu copi a ysgrifennwyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a chyd-destunau, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC]	T3 cynhyrchu copi a ysgrifennwyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a chyd-destunau yn alluog, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynhyrchu copi a ysgrifennwyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a chyd-destunau at safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI4 disgrifio rhwymedigaethau cymdeithasol, moesegol a chyfreithiol ysgrifenydd. [DA]	T4 esbonio rhwymedigaethau cymdeithasol, moesegol a chyfreithiol ysgrifenydd, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt.	Rh4 asesu'n feirniadol rhwymedigaethau cymdeithasol, moesegol a chyfreithiol ysgrifenydd, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 51: Patrwm a Dyluniad Tudalennau

Côd yr Uned:	D/600/6658
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau'r dysgwyr wrth ddylunio a chynhyrchu patrymau tudalennau ar gyfer cynnyrch printiedig a digidol, gan ddefnyddio meddalwedd dylunio. Bydd y dysgwyr yn edrych ar olygu deunyddiau, cael hyd iddynt a'u paratoi, a sut mae dylunio tudalen yn effeithiol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae patrwm a dyluniad y dudalen yn gam pwysig yn natblygiad unrhyw destun printiedig, yn ogystal ag ar gyfer testunau cyfryngau rhyngweithiol megis gwefannau a CD ROM. Mae rhaid i'r rhan fwyaf o gynnyrch cyfryngau gystadlu am incwm hysbysebwr a darllenwyr mewn amgylchedd sydd yn aml yn ffyrnig o gystadleuol. Mae patrwm a dyluniad clir ac effeithiol i'r dudalen yn bwysig i sicrhau bod testunau'n cyfleu'r neges gywir yn effeithiol i'r gynulleidfa iawn, a hynny mewn modd effeithlon a phroffesiynol.

Defnyddir caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol mwyfwy soffistigedig yn y broses ddylunio a gosod, a bydd gofyn bod gan unrhyw un sy'n gweithio yn y maes hwn wybodaeth ymarferol dda o'r prif raglenni meddalwedd sydd wedi dod yn safonol o fewn y diwydiant, yn ogystal â gwybodaeth a dealltwriaeth dda o dechnegau dylunio a gosod.

Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr yr wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol y mae eu hangen i baratoi a phrosesu testun, a chael hyd i ffotograffau a delweddau eraill a'u paratoi ar gyfer eu defnyddio mewn amrywiaeth o gynnyrch cyfryngau printiedig a rhyngweithiol, yn cynnwys papurau newydd, cylchgronau, llyfrau a gwefannau. Wedyn bydd y dysgwyr yn gallu cyfuno'r elfennau hyn a chymhwyso egwyddorion dylunio a gosod i gynhyrchu patrymau effeithiol a deniadol ar gyfer tudalennau, gan ddefnyddio meddalwedd dylunio a chyhoeddi pen desg. Trwy'r gweithgareddau hyn bydd dysgwyr yn caffael dealltwriaeth ymarferol o'r egwyddorion a'r confensiynau sy'n sylfaen ar gyfer gosod a dylunio tudalennau mewn gwahanol fformatau, ynghyd â dealltwriaeth ymarferol o gymwysiadau meddalwedd, a gallu i'w defnyddio.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu golygu a phrosesu testun mewn ymateb i frîff
- 2 Gallu cael hyd i ddelweddau er mwyn ymateb i frîff
- 3 Gallu paratoi delweddau er mwyn ymateb i frîff
- 4 Gallu dylunio a chynhyrchu patrwm ar gyfer tudalen mewn ymateb i frîff.

Cynnwys yr Uned

1 Gallu golygu a phrosesu testun mewn ymateb i frîff

Golygu: dethol deunydd; apêl i'r gynulleidfa; perthnasedd; golygu copi; prawfddarllen

Prosesu: crynhoi'r testun; byrhau; ehangu a chyfuno testun; gwirio a chywiro (ffeithiau, ffynonellau, cywirdeb, cydbwysedd); cywiro arddull ysgrifennu, e.e. sillafu, gramadeg, atalnodi, eglurder, arddull, maint y teip, hyd y llinellau

2 Gallu cael hyd i ddelweddau er mwyn ymateb i frîff

Deunydd sydd eisoes yn bodoli: ffynonellau, e.e. llyfrgelloedd lluniau, banciau delweddau, eich deunydd eich hun sydd eisoes yn bodoli; sganio; lawrlwytho; hawlfraint; caniatâd

Deunydd newydd: e.e. darluniadau, ffotograffau, graffiau, diagramau; gwaith gwreiddiol a gomisiynwyd; eich gwaith gwreiddiol eich hun

3 Gallu paratoi delweddau er mwyn ymateb i frîff

Paratoi delweddau: sganio; manipwleiddio, e.e. graddoli, tocio, lliw, effaith, hidlyddion; cydraniad; capsïynau

4 Gallu dylunio a chynhyrchu patrwm ar gyfer tudalen mewn ymateb i frîff

Rhaglenni dylunio: pecynnau gosod cyhoeddi pen desg (defnydd o deipograffeg, manipwleiddio delweddau, manipwleiddio copi); pecynnau awduro ar y we; pecynnau awduro cyfryngau rhyngweithiol; pecynnau prosesu delweddau digidol; pecynnau lluniadu factor

Fformatau: print, e.e. papurau newydd, cylchgronau, llyfrau, llyfrynau, taflenni, posterï; electronig, e.e. tudalennau gwe, CD ROM

Confensiynau: patrwm (ymylon, gridiau, lledaeniad, colofnau, llinellau dyddiad, teitlau, rhifo tudalennau, cyfeiriadedd); dyraniad (lleoliad testun, darluniadau a rhaniadau testun ar y dudalen); dyfeisiau (penawdau, teitlau, croes benawdau, torri allan, is-benawdau, llinellau sylfaen, riwliau, ffiniau, blobiau a sêr, priflythrennau cwmpo, gwrthdro, gofod gwyn); arddulliau (strwythur colofnau, testun, ffontiau, teipograffeg, cydbwysedd optegol, arddull ddylunio, lliw, gosod i'r chwith, canoli, priflythrennau, llythrennau bach, ysgafn, bras, italig)

Iaith weledol: cyfansoddiad (cyfosodiad, cysylltiad); creu delwedd, e.e. ffurf, gwedd, siâp, patrwm, llinell, tôn, lliw; cynrychiolaeth, e.e. symbolau, trosiad, semioteg, cynodiad

Cynulleidfaoedd: ystod o ystyriaethau, e.e. statws cymdeithasol, rhyw, tueddfryd rhywiol, grwpiau cymheiriaid, galwedigaethol, gwleidyddol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 golygu a phrosesu testun mewn ymateb i frîff gyda pheth cymorth	T1 golygu a phrosesu testun mewn ymateb i frîff, gyda safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh1 golygu a phrosesu testun mewn ymateb i frîff, gydag ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI2 cael hyd i ddelweddau er mwyn ymateb i frîff gyda pheth cymorth [YA, HR]	T2 cael hyd i ddelweddau er mwyn ymateb i frîff yn alluog, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cael hyd i ddelweddau er mwyn ymateb i frîff at safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 paratoi delweddau er mwyn ymateb i frîff gyda pheth cymorth [MC, HR]	T3 paratoi delweddau er mwyn ymateb i frîff gyda safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 paratoi delweddau er mwyn ymateb i frîff, gydag ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI4 dylunio a chynhyrchu patrwm tudalen mewn ymateb i frîff, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC, HR]</p>	<p>T4 dylunio a chynhyrchu patrwm tudalen mewn ymateb i frîff, gyda safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.</p>	<p>Rh4 dylunio a chynhyrchu patrwm tudalen mewn ymateb i frîff, gydag ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.</p>

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 52: Ysgrifennu Ffeithiol ar gyfer Deunydd Printiedig

Côd yr Uned:	K/600/6632
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r technegau a'r sgiliau sy'n ofynnol i gynhyrchu deunydd ffeithiol ar gyfer cyfryngau printiedig, a'r gallu i'w cymhwyso. Trwy ddilyn yr uned hon bydd y dysgwyr yn deall y nodweddion sy'n hanfodol ar gyfer cyfathrebu ffeithiol llwyddiannus.

Cyflwyniad i'r uned

Mae ysgrifennu ffeithiol yn rhan o bron bob ffurf ar y cyfryngau printiedig, gyda chynnyrch mor amrywiol â chylchgronau ffordd o fyw, taflenni hyfforddi, deunydd pecynnu a hysbysebion i gyd yn galw am gynnwys ffeithiol gywir. Mae'r cyfleoedd cyflogaeth ym meysydd newyddiaduraeth, ysgrifennu copi, cysylltiadau cyhoeddus a hyrwyddo corfforaethol yn dal i dyfu. Rhoddir gwerth mawr ar y gallu i fynegi gwybodaeth ffeithiol yn ysgrifenedig yn effeithlon ac effeithlon mewn llawer maes o ddiwydiannau'r cyfryngau.

Bydd y dysgwyr yn dadansoddi enghreifftiau o ddeunydd ffeithiol, gan edrych ar eu heffeithiolrwydd a'u heglurder, a nodi'r technegau a ddefnyddiwyd i gyfleu gwybodaeth. Bydd hyn yn eu galluogi i ehangu eu profiad a'u dealltwriaeth o gopi ysgrifenedig a delweddau sy'n darparu gwybodaeth. Bydd y dysgwyr yn mynd ymlaen i gynhyrchu eu deunydd eu hunain, gan ddefnyddio cyfryngau, dulliau a phrosesau priodol i'w gyflwyno. Bydd y dysgwyr yn rhoi'r dulliau a nodwyd yn eu dadansoddiad ar waith, gan gynhyrchu copi yn ogystal â chynnyrch gorffenedig sy'n addas at y diben, ac yn briodol ar gyfer cynulleidfa benodol. Dylai cwblhau'r uned hon ehangu dealltwriaeth y dysgwyr o'r nodweddion sy'n hanfodol er mwyn cynhyrchu cyfathrebu ffeithiol llwyddiannus.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall y nodweddion sy'n angenrheidiol ar gyfer cyfathrebu ffeithiol effeithiol mewn cynnyrch printiedig
- 2 Gallu cynhyrchu copi ffeithiol ar gyfer deunydd printiedig
- 3 Gallu cyflwyno copi ffeithiol a delweddau at ddiben penodol mewn fformat priodol
- 4 Gallu myfyrio ar eu gwaith eu hun.

Cynnwys yr Uned

1 Deall y nodweddion sy'n angenrheidiol ar gyfer cyfathrebu ffeithiol effeithiol mewn cynnyrch printiedig

Cyfathrebu ffeithiol mewn print: dogfennau sy'n darparu gwybodaeth, e.e. taflenni, llawlyfrau cyfarwyddyd, canllawiau sut mae gwneud; newyddiaduraeth ffeithiol, e.e. adrodd am ddiwyddiadau, canfyddiadau ymchwil; copi; darluniadau a diagramau ategol; dewisiadau o deipograffeg, e.e. defnydd o liw, print bras, ffont

Cyfathrebu effeithiol: eglurder; bod yn gryno; cywirdeb; osgoi amwysedd; bias; cywair; tystiolaeth o ddadl; cyfeirio at ffynonellau; cyfyngiadau cyfreithiol; codau ymarfer

2 Gallu cynhyrchu copi ffeithiol ar gyfer deunydd printiedig

Cynnwys ymchwil: ffynonellau cynradd, e.e. cysylltiadau, cyfweiliadau; ffynonellau eilaidd, e.e. adolygiadau, y rhyngwyd, archifau, deunydd a ddarllledwyd; dilysu ffynonellau

Cynhyrchu copi: cymhwyso rheolau'r iaith ysgrifenedig, e.e. gramadeg, cystrawen, sillafu, atalnodi; cywair; goslef; arddull, e.e. ffurfiol, anffurfiol, iaith sathredig, tafodiaith; esbonio jargon; drafftio; ailddrafftio; adolygu; diwygio; cywiro; defnyddio meddalwedd prosesu geiriau

3 Gallu cyflwyno copi ffeithiol a delweddau at ddiben penodol mewn fformat priodol

Elfennau gweledol: e.e. diagramau, darluniadau, mapiau, graffiau, tablau

Cael hyd i ddeunyddiau: copïau gwreiddiol; ffotograffiaeth; llyfrau; cylchgronau; newyddiaduron; tudalennau gwe; cyfyngiadau cyfreithiol a moesegol, e.e. hawlfraint, caniatâd

Diben a nodwyd: cynulleidfa arfaethedig; rôl y cynnyrch; diben yn y cyd-destun

Fformat: e.e. llyfrynau, taflenni, llawlyfrau, erthyglau papur newydd, erthyglau cylchgrawn, pecynnu, labeli

4 Gallu myfyrio ar eu gwaith eu hun

Ffynonellau gwybodaeth: hunanwerthuso; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, cleientiaid

Proses: cynllunio; paratoi; rheoli amser; adolygu'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen; cymwyseddau technegol, galluedd creadigol

Cynnyrch gorffenedig: i ba raddau y gwireddwyd y bwriadau; priodoldeb ar gyfer y gynulleidfa; cynnwys; arddull; tystiolaeth o sgiliau; datblygiad sgiliau; meysydd ar gyfer gwelliant

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio'r nodweddion angenrheidiol ar gyfer cyfathrebu ffeithiol effeithiol mewn cynnyrch printiedig, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio'r nodweddion angenrheidiol ar gyfer cyfathrebu ffeithiol effeithiol mewn cynnyrch printiedig, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 gwerthuso'n feirniadol y nodweddion angenrheidiol ar gyfer cyfathrebu ffeithiol effeithiol mewn cynnyrch printiedig, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 ysgrifennu copi ffeithiol cywir at ddiben penodol, gan fynegi syniadau mewn arddull briodol, gyda digon o eglurder i'w cyfleu, gan dderbyn peth cymorth [MC]	T2 ysgrifennu copi ffeithiol cywir ac effeithiol at ddiben penodol, gyda chydabyddiaeth dda o'r gynulleidfa a iaith ysgrifenedig o safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 ysgrifennu copi ffeithiol cywir at ddiben penodol, gyda chydabyddiaeth fanwl o'r gynulleidfa a chan fynegi syniadau'n rhugl mewn iaith ysgrifenedig dechnegol gywir, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cyfuno copi ffeithiol a delweddau at ddiben penodol mewn fformat printiedig priodol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC]	T3 cyfuno copi ffeithiol a delweddau at ddiben penodol mewn fformat printiedig priodol yn effeithiol, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cyfuno copi ffeithiol a delweddau at ddiben penodol ffeithiol mewn fformat printiedig priodol, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cyflwyno sylwadau ar eu gwaith eu hunain, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [DA]	T4 esbonio eu gwaith eu hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd.	Rh4 gwerthuso eich gwaith eich hun yn feirniadol yng nghyd-destun arfer proffesiynol, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 53: Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus

Côd yr Uned:	K/600/6646
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i'r arfer o farchnata a chysylltiadau cyhoeddus. Ar ôl edrych ar y dulliau a'r technegau a ddefnyddiwyd i greu ymwybyddiaeth, bydd dysgwyr yn cymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i sefyllfaoedd penodol. Byddant yn dadansoddi'r problemau a'r heriau marchnata penodol sy'n bodoli cyn cynnig strategaethau a datrysiadau i sefyllfaoedd a nodwyd.

Cyflwyniad i'r uned

Mae marchnata a hyrwyddo cynnyrch cyfryngau masnachol yn gam pwysig wrth geisio sicrhau ei lwyddiant o ran cyrraedd y gynulleidfa darged a chael y derbyniad a ddymunir gan y gynulleidfa honno. Mae adrannau, cwmnïau ac asiantaethau ymchwil marchnad yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau a thechnegau i geisio darganfod barn a theimladau defnyddwyr testunau cyfryngau am y testunau hynny. Nod ymchwilwyr yw rhoi cipolwg realistig ar yr hyn mae cynulleidfaoedd yn ei ffafrio, ei eisiau, ei angen, ei ddymuno ac yn dyheu amdano, fel bod modd i'r cynnyrch cyfryngau terfynol gael ei farchnata a'i hyrwyddo mor llwyddiannus â phosib. Bydd cwmnïau cysylltiadau cyhoeddus (PR) hefyd yn ceisio rheoli'r neges sy'n cael ei chyfleu ynghylch cynnyrch neu wasanaeth penodol a cheisio sicrhau ei bod yn cael ei gweld mewn goleuni cadarnhaol.

Ni all marchnata a chysylltiadau cyhoeddus warantu canlyniadau, gan mai'r defnyddiwr sy'n creu'r ystyr yn y pen draw, ond gall marchnata a hyrwyddo effeithiol ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer lansio llwyddiannus, a chefnogaeth barhaus, i gynnyrch sy'n ceisio cyrraedd y targedau disgwylidig.

Bydd gan y mwyafrif o gwmnïau mawr eu hadran farchnata neu gysylltiadau cyhoeddus eu hunain, tra bydd cwmnïau llai yn cyflogi arbenigwyr annibynnol i farchnata a hyrwyddo eu cynnyrch yn benodol ar eu cyfer.

Beth bynnag yw'r arena, mae dealltwriaeth o farchnata ac ymwybyddiaeth o'r dulliau hyrwyddo yn hanfodol i ddiwydiant y cyfryngau a llwyddiant ei gynnyrch a'i wasanaethau.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall swyddogaethau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus
- 2 Deall y prif ddulliau a thechnegau a ddefnyddir mewn marchnata a chysylltiadau cyhoeddus
- 3 Gallu adnabod materion y mae angen cael hyd i atebion marchnata neu gysylltiadau cyhoeddus iddynt
- 4 Gallu creu strategaethau sy'n cynnig atebion i faterion marchnata neu gysylltiadau cyhoeddus a nodwyd.

Cynnwys yr Uned

1 Deall swyddogaethau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus

Yr ystod o swyddogaethau: marchnata (ymchwil marchnad, dadansoddi'r farchnad, strategaeth farchnata, hysbysebu, hyrwyddo'r brand); cysylltiadau cyhoeddus (rheoli'r neges, cyhoeddusrwydd cadarnhaol, 'sbin', cyfyngu ar niwed, trefnu digwyddiadau, lobïo)

Meysydd marchnata a chysylltiadau cyhoeddus: cyfryngau; busnes; llywodraeth; gwasanaethau cyhoeddus; elusennau; carfannau pwysau; adloniant; chwaraeon; sêr

2 Deall y prif ddulliau a thechnegau a ddefnyddir mewn marchnata a chysylltiadau cyhoeddus

Marchnata: dulliau ymchwil (cynradd, eilaidd, ansoddol, meintiol, ymchwil marchnad, arolygon, grwpiau ffocws); deall cleientiaid a'u gofynion; deall marchnadoedd; dadansoddiad cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT); proffilio; cymysgedd o farchnata; ystod o ddeunyddiau marchnata (print, fideo, sain, rhyngweithiol); hysbysebu; nawdd; cymeradwyaeth; marsiandïaeth; digwyddiadau

Cysylltiadau cyhoeddus: datganiadau yn y wasg; datganiadau i'r wasg; pecynnau cyfryngau electronig; sesiynau briffio; cynadleddau i'r wasg; taflenni i'w dosbarthu; cyfweliadau; cyfleoedd ar gyfer ffilm a lluniau; cysylltiadau; rhwydweithio

3 Gallu adnabod materion y mae angen cael hyd i atebion marchnata neu gysylltiadau cyhoeddus iddynt

Materion: ansawdd; delwedd; pris; gwerth; marchnad; cystadleuaeth; cryfderau; gwendidau; cyfleoedd; bygythiadau

4 Gallu creu strategaethau sy'n cynnig atebion i faterion marchnata neu gysylltiadau cyhoeddus a nodwyd

Strategaethau ar gyfer ymgyrchoedd marchnata a chysylltiadau cyhoeddus: pennu amcanion; cynllunio'r ymgyrch; rheoli'r neges; gormodiaith; geirwiredd; cyflwyno'r ffeithiau; cyfathrebu; symbyliad mewnol; symbyliad y cyfryngau; ymateb cystadleuwyr

Atebion: ymarferol; cyflawnadwy; fforddiadwy; targedau CAMPUS (penodol, mesuradwy, cyflawnadwy, amserol, synhwyrol)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio swyddogaethau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio swyddogaethau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio swyddogaethau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus yn drylwyr, gydag enghreifftiau a eglurwyd, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio prif ddulliau a thechnegau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T2 esbonio prif ddulliau a thechnegau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio prif ddulliau a thechnegau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus yn drylwyr, gydag enghreifftiau a eglurwyd, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 nodi materion marchnata neu gysylltiadau cyhoeddus gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [GT, MC]	T3 esbonio materion marchnata neu gysylltiadau cyhoeddus, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh3 asesu'n feirniadol faterion marchnata neu gysylltiadau cyhoeddus, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 datblygu atebion confensiynol fel rhan o strategaeth farchnata neu gysylltiadau cyhoeddus. [GT, MC]	T4 datblygu atebion llawn dychymyg fel rhan o strategaeth farchnata neu gysylltiadau cyhoeddus effeithiol.	Rh4 datblygu atebion sy'n dangos gallu creadigol a fflach fel rhan o strategaeth farchnata neu gysylltiadau cyhoeddus gydlynus ac effeithiol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 54: Graffeg Ddigidol ar gyfer Print

Côd yr Uned:	L/600/6624
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gynhyrchu, prosesu, rheoli a manipwleiddio graffeg ddigidol a ddefnyddir ar gyfer amrywiaeth o gyfryngau printiedig, rhyngweithiol a delweddau symudol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae cynnwys graffeg priodol mewn cynnyrch print, delwedd symudol neu gyfryngau rhyngweithiol yn aml yn hanfodol i'w allu i ddenu'r gynulleidfa iawn a chyfleu'r neges a ddymunir yn effeithiol. Mae cynnyrch printiedig megis papurau newydd, cylchgronau, posteri, taflenni, a chloriau DVD a CD i gyd yn cynnwys graffeg a darluniadau sydd yno i dynnu sylw'r darllynydd a chyfleu neges benodol. Mae pob cynnyrch rhyngweithiol megis gwefannau, gemau cyfrifiadurol a CD ROM yn ymgorffori graffeg ddigidol o ryw fath, a bydd llawer o ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu yn cynnwys dilyniannau sy'n defnyddio g raffeg ddigidol o rhyw fath, yn enwedig yn y teitlau agoriadol a'r credydau terfynol.

Mae cynhyrchu a manipwleiddio graffeg effeithiol ar gyfer cynnyrch cyfryngau printiedig a digidol yn waith crefftus sy'n galw nid yn unig am sgiliau dylunio graffeg, ond hefyd am brofiad o ddefnyddio'r feddalwedd dylunio a manipwleiddio delweddau sy'n ganolog i lawer o brosesau cynhyrchu cyfryngau heddiw.

Mae defnydd cynyddol o galedwedd cyfrifiadurol a meddalwedd dylunio delweddau yn golygu bod angen i ddylunydd graffeg sy'n gweithio yn y diwydiant heddiw fod yn gyfarwydd â nifer o ffeiliau a fformatau graffeg gwahanol, a meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i allu prosesu, rheoli a chyfuno'r ffeiliau hyn i greu testunau cyfryngau effeithiol, sy'n rhoi boddhad esthetig.

Trwy gwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn dod i ddeall ochr ymarferol yr egwyddorion a'r confensiynau sy'n sail ar gyfer dylunio graffeg ddigidol effeithiol, a byddant yn gallu cymhwyso'r sgiliau a'r technegau a ddysgwyd mewn amrywiaeth o wahanol gyd-destunau.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall fformatau a chymwysiadau ffeiliau graffeg
- 2 Gallu defnyddio meddalwedd priodol ar gyfer dylunio a manipwleiddio delweddau
- 3 Gallu cynhyrchu graffeg ddigidol mewn ymateb i frîff
- 4 Gallu myfyrio ar eu gwaith graffeg ddigidol eu hun.

Cynnwys yr Uned

1 Deall fformatau a chymwysiadau ffeiliau graffeg

Fformatau ffeiliau: ystod o fformatau cyffredin, e.e. raster, vector, metaffeiliau; estyniadau ffeiliau

Cymwysiadau: cymwysiadau vector; cymwysiadau raster; defnydd mewn gwahanol gyfryngau (print, delweddau symudol, rhyngweithiol)

2 Gallu defnyddio meddalwedd priodol ar gyfer dylunio a manipwleiddio delweddau

Lle gwaith: ardal waith; blwch offer; bar statws; gwybodaeth am y ffeil; bar opsiynau offer; cronfa'r palet; rheoli'r ffenestr; paletau sy'n arnofio

Offer a nodweddion: paletau (lliw, haenau, gwrthrychau, brwshys, hanes, gweithredoedd, maint, cydraniad); offer (marquee, lasso, ffon hud, lasso magnetig, dethol, tocio, offeryn clonio); haenau (trawsnewid haenau, copïo a chadw haenau, rhoi trefn ar haenau, moddau anhryloywder a chyfuno, effeithiau haenau); manipwleiddio (ysgafnhau'r ymylon, hidlyddion, goleuni a chyferbyniad, arlliw a dirlawnder, masgiau, llwybrau, gwead, effeithiau); arbed; dadwneud

3 Gallu cynhyrchu graffeg ddigidol mewn ymateb i friff

Datblygu syniadau: sefydlu cysyniad; dethol fformat; hyd a natur y cynnwys; ystyried defnydd y gynulleidfa; dyluniad y gosod; mewnbynnu a manipwleiddio delweddau; dethol arddull a goslef; ystyried cyfyngiadau a manteision y fformat; terfynau amser; amserlen

Cynhyrchu graffeg: dethol fformatau ffeiliau; trosi i fformatau priodol; mewnosod ac amgodio'r elfennau gofynnol; profi a datrys problemau; llwytho i fyny; allforio ac allbynnu i fformatau ffeiliau

4 Gallu myfyrio ar eu gwaith graffeg ddigidol eu hun

Effeithiolrwydd: i ba raddau y cyflawnwyd y brîff; defnydd o ddulliau a thechnegau priodol; tystiolaeth o lefel y sgiliau; cyflawni'r lefel o broffesiynoldeb; beth mae'r fersiwn derfynol yn ei gyfleu; y prosesau a gyflawnwyd; datrys problemau; datblygu sgiliau; meysydd ar gyfer gwelliant

Ffynonellau gwybodaeth: hunan-werthuso; dogfennaeth, e.e. nodiadau, brasluniau, logiau cynhyrchu; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient

Y broses gynhyrchu: cyn cynhyrchu, e.e. cynllunio, paratoi; cynhyrchu, e.e. rheoli amser, rheoli'r prosiect, monitro'r gwaith sy'n mynd rhagddo, cymwyseddau technegol, gallu creadigol, eich gwaith eich hun, gwaith tîm

Cynnyrch gorffenedig: cymharu â'r bwriadau gwreiddiol; priodoldeb ar gyfer y gynulleidfa; nodweddion technegol; nodweddion esthetig; cynnwys; arddull

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio fformatau ffeiliau graffeg a'u cymwysiadau gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio fformatau ffeiliau graffeg a'u cymwysiadau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drylwyr fformatau ffeiliau graffeg a'u cymwysiadau, gan gyfeirio at enghreifftiau a eglurwyd, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 defnyddio meddalwedd priodol ar gyfer dylunio a manipwleiddio delweddau, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T2 defnyddio meddalwedd priodol ar gyfer dylunio a manipwleiddio delweddau at safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 defnyddio meddalwedd priodol ar gyfer dylunio a manipwleiddio delweddau at safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 dylunio a chynhyrchu graffeg ddigidol mewn ymateb i frîff, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T3 dylunio a chynhyrchu graffeg ddigidol mewn ymateb i frîff, gyda safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 dylunio a chynhyrchu graffeg ddigidol mewn ymateb i frîff at safon sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cyflwyno sylwadau ar eu gwaith eu hunain, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [DA]	T4 esbonio eu gwaith eu hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd.	Rh4 gwerthuso eu gwaith eu hun yn feirniadol yng nghyd-destun arfer proffesiynol, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 55: Cynhyrchu Naratif Graffeg

Côd yr Uned:	J/600/6640
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddatblygu sgiliau wrth gynhyrchu naratif graffeg dau ddimensiwn a chymhwyso celf ddilyniannol yn effeithiol trwy ddealltwriaeth o egwyddorion cymeriad, deialog a phlot trwy gyfrwng adrodd stori yn weledol. Bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy y gellid eu cymhwyso ar draws ardal helaeth o gyfathrebu gweledol, megis ffilm, teledu, cymwysiadau ffotograffig, animeiddio, graffeg cyfrifiadurol a chyfryngau printiedig.

Cyflwyniad i'r uned

Mae naratif graffeg yn bodoli mewn amrywiaeth o fformatau megis llyfrau comig, nofelau graffeg, stribedi cartŵn, llyfrau plant, ffotostoriau, pecynnu, hysbysebu, deunydd cyhoeddusrwydd, ac mewn cyfryngau digidol megis CD ROM a'r we fyd-eang (comigau ar y we). Maent yn cynrychioli math ar ffuglen sy'n adrodd stori ar ffurf naratif graffeg dilyniannol. Ar ben hynny, mae llawer o fathau eraill o gynnyrch cyfryngau yn cael eu cynllunio a'u harchwilio'n wreiddiol gan ddefnyddio technegau gweledol dau ddimensiwn. Enghraifft o hyn fyddai byrddau stori, a ddefnyddir yn nodweddiadol i greu golygfeydd a dilyniannau ar gyfer ffilmiau a theledu. Maent yn sicrhau bod rhan benodol o'r stori, neu gyfres o weithredoedd cysylltiedig, yn dod at ei gilydd i greu ystyr ac yn cael yr effaith a ddymunir. Gall byrddau stori ddod â'r sgrïpt yn fyw yn weledol, ac mae angen ystyried dyfeisiau megis onglau a symudiadau'r camera, safbwyntiau a goleuo.

Mae ein bywydau'n llawn storïau, ac mae creu stori yn ei ffurf elfennol yn golygu llunio cyfres o ddigwyddiadau, gwrthdaro ac adferiad. Diffinnir naratif gan y cymeriadau a'r lleoliadau, a gellir ei gyflwyno'n nodweddiadol mewn mythau, hanesion tylwyth teg, chwedlau a hanesion, ond o fod yn arloesol, gellir gosod naratif mewn amrywiaeth o gyd-destunau a'i fanipwleiddio i greu amrywiaeth o ystyron.

Mae genres megis manga o Siapan, a nofelau graffeg eraill mwy aeddfed, wedi ysbrydoli cenedlaeth newydd a'i gwneud yn llawn brwdfrydedd dros y cyfrwng hwn. Mae'r synergedd â ffilmiau llwyddiannus a gemau fideo yn dod yn fwy amlwg, ac mae llyfrau comig yn aml yn cyfeirio at yr un math o ddarlunio deinamig ag a geir yn naratif ffilmiau a theledu.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ganolbwyntio ar gynhyrchu naratif graffeg dau ddimensiwn. Byddant yn gallu cymhwyso eu syniadau a'u gallu creadigol eu hunain i gynhyrchu ystod o naratifau, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol ar gyfer cynhyrchu dau ddimensiwn. Gall y dysgwyr ddewis cynhyrchu cynnyrch naratif graffeg annibynnol megis llyfr comig, llyfr plant neu gyfres o sribedi cartŵn, neu gynllunio naratif ar gyfer cynyrchiadau eraill megis drama deledu, ffilm neu animeiddiad. Efallai bydd dysgwyr am archwilio'r arddulliau nofel graffeg mwy arloesol, sy'n gwrthio confensiynau'r ffrâm weledol ac yn denu'r darlennydd i fyd newydd nad yw bellach o dan reolau adrodd stori traddodiadol gweledol.

Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn gallu dangos datblygiad eu gwaith a'u bod yn cynnwys yr holl ddeunydd cynllunio perthnasol a nodiadau, megis sgriptiau a brasluniau gwreiddiol, ymchwil, adborth a datblygu cynnyrch. Bydd angen i'r dysgwyr gymhwyso celf ddilyniannol yn effeithiol a deall egwyddorion cymeriad, deialog a phlot trwy adrodd stori yn weledol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu datblygu syniadau a dyluniadau ar gyfer naratif graffeg
- 2 Gallu defnyddio technoleg a phrosesau priodol i gynhyrchu naratif graffeg
- 3 Gallu myfyrio ar eu gwaith naratif graffeg eu hun.

Cynnwys yr Uned

1 Gallu datblygu syniadau a dyluniadau ar gyfer naratif graffeg

Cynhyrchu syniadau: meddwl yn greadigol, e.e. mapio meddwl, tasgu syniadau, trafodaeth grŵp; ymchwil, e.e. arfer masnachol yn awr ac yn y gorffennol; ymatebion i frîff; casglu adborth; cyflwyno syniadau; cofnodi syniadau, e.e. nodiadau, sgriptiau, brasluniau, collages, enghreifftiau arbrofol, llyfrau fflicio

Creu dyluniad gwreiddiol: cynllunio cychwynnol, e.e. brasluniau bawd, taflenni syniadau, llyfrau fflicio, byrddau stori, sgriptiau; lluniadau cysyniadol, e.e. yn defnyddio testun, teipograffeg, darluniad, llinell, tŵn, lliw; ymwybyddiaeth o ddulliau â llaw, mecanyddol a digidol; defnyddio meddalwedd dylunio ar gyfer llunio a manipwleiddio delweddau a thestun

Cyfryngau: cyhoeddiadau, e.e. llyfrau, papurau newydd, cylchgronau, teledu, ffilm, CD ROM, y rhynggrwyd; fformatau, e.e. darluniad, cartŵn, sribed comig, llyfr fflicio, ffotostori, bwrdd stori, ffilm, fideo, animeiddiad; technolegau newydd, e.e. animeiddio cyfrifiadurol, cyfryngau rhyngweithiol

Ystyriaethau: costau; yr adnoddau sydd ar gael; nifer; cynulleidfa; marchnad darged; ffactorau ansawdd; codau ymarfer; rheoleiddio; materion cyfreithiol, e.e. hawlfraint; materion moesegol, e.e. gwedduster, cynrychiolaeth, sensitifrwydd diwylliannol

Cyn cynhyrchu: e.e. cyllideb, adnoddau, amser, personél, cliriadau, iechyd a diogelwch;

2 Gallu defnyddio technoleg a phrosesau priodol i gynhyrchu naratif graffeg

Digidol: cyhoeddi pen desg; manipwleiddio delweddau; meddalwedd darluniadau; cymwysadau ar gyfer y we; CD ROM; cyflwyniadau digidol; deunydd ffotograffig; unwaith ac am byth; ffurf luosog, e.e. llungopïo, argraffu laser

Â llaw: e.e. lluniadu, peintio, collage, ysgythru, engrafu, lithograffeg uniongyrchol, torlun leino, coloteip, printio sgrin, cyfryngau cymysg

Mecanyddol: e.e. grafur, proses sgrin, lithograffeg offset, y we, fflecsograffeg, llythrenwasg, ffotograffiaeth ffilm, ffotograffiaeth ddigidol

Cyd-destunau: e.e. cynhyrchu papurau newydd, cynhyrchu cylchgronau, deunydd cyhoeddusrwydd, pecynnu, comigau, llyfrau, taflenni, poster, cartwnau, print celfyddyd gain, comigau ar y we

Iechyd a diogelwch: Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH); rheoliadau cyfarpar sgrin arddangos; arferion diogel mewn stiwdios a gweithdai

3 Gallu myfyrio ar eu gwaith naratif graffeg eu hun

Strwythur y naratif: mathau o strwythur, e.e. agored, caeedig, un llinyn, llinynnau lluosog, llinol, anllinol, realydd, gwrthrealydd, heblaw naratif; cydrannau, e.e. agoriad, gwrthdaro, adferiad, achos ac effaith, enigma, cydbwysedd, uchafbwynt, symbyliadau, manipwleiddio amser a gofod

Creu delwedd: e.e. ffurf, gwead, siâp, patrwm, llinell, tŷn, lliw; angori, e.e. capsiynau, slogan, cyfuniad o eiriau-delweddau-testun; arwyddocâd, e.e. codau technegol, codau symbolaidd, codau diwylliannol, cynodiadau; cynrychiolaeth, e.e. rhyw, hil, oedran, rhywioldeb, dosbarth, grwpiau cymdeithasol, cymdeithasau, diwylliannau, crefyddau

Cyd-destun hanesyddol a diwylliannol: ystod o gyfeiriadau, e.e. cymdeithas, hil, crefydd, gwleidyddiaeth, economeg, celf a dylunio, diwylliant poblogaidd, technoleg

Prosesau cynhyrchu: cymwyseddau technegol; gallu creadigol; rheoli amser, ymateb i adborth

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 cynhyrchu syniadau a dyluniadau ar gyfer naratif graffig, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [YA, MC]	T1 cynhyrchu syniadau a dyluniadau ar gyfer naratif graffeg o safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh1 cynhyrchu syniadau a dyluniadau ar gyfer naratif graffeg o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI2 cynhyrchu naratif graffeg gan ddefnyddio technoleg a phrosesau priodol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [GT, HR, CE]	T2 cynhyrchu naratif graffeg gan ddefnyddio technoleg a phrosesau priodol at safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynhyrchu naratif graffeg gan ddefnyddio technoleg a phrosesau priodol o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cyflwyno sylwadau ar eu gwaith naratif graffeg eu hunain, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [DA]	T3 esbonio eu gwaith naratif graffeg eu hunain, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan wneud defnydd o derminoleg y pwnc sy'n gywir at ei gilydd.	Rh3 gwerthuso eu gwaith naratif graffeg eu hun yn feirniadol yng nghyd-destun arfer proffesiynol, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 56: Cyfathrebu Digidol

Côd yr Uned:	M/600/6616
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw sicrhau bod y dysgwyr yn dod i ddeall systemau cyfathrebu digidol modern, a hynny rhwng un person ac un arall, ac i gynulleidfa ehangach. Disgwylir i ddysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau negeseuon digidol modern, a pharatoi tudalennau ar gyfer gwefan fach.

Cyflwyniad i'r uned

Mae busnesau ac unigolion yn datblygu ffyrdd newydd o gyfathrebu trwy negeseuon di-oed, protocol trosleisio rhynggrwyd (VoIP) a logiau gwe (blogiau). Nid yw'r rhynggrwyd wedi ei gyfyngu i ben y ddesg bellach: mae miliynau o ddefnyddwyr yn cyrchu tudalennau gwe trwy ddyfeisiau symudol (megis ffonau symudol a chynorthwywyr digidol personol). Mae corfforaethau mawr, rhai bach, a hyd yn oed busnesau yn y cartref i gyd yn cael bod gwefannau a chyfarpar cyfathrebu modern yn hanfodol. Mae cyfathrebu personol heddiw yn gofyn o leiaf am y gallu i ddefnyddio e-bost, yn ogystal â bod yn gyfarwydd ac yn gyfforddus wrth ddefnyddio negeseuon testun ar ffôn symudol. Mae poblogrwydd trosleisio rhynggrwyd gartref ac ym myd masnach yn tyfu'n gyflym.

Mae ystod eang o systemau cyfathrebu digidol bellach ar gael, a bydd dealltwriaeth o'u swyddogaethau a'r dyfeisiau gofynnol i'w gweithredu yn golygu bod modd i'r dysgwyr ddod yn gyfathrebwyr hyderus ac effeithlon yn eu cyflogaeth yn y dyfodol. Bydd arfer technegau cyfathrebu modern yn caniatáu i'r dysgwyr ddatblygu mewnwelediad i sut y gellir defnyddio'r dulliau hyn yn greadigol i drosglwyddo gwybodaeth a meddyliau'n gyflym i gynulleidfaoedd ar draws y byd.

Bydd dealltwriaeth o'r dulliau o greu tudalennau ar y we at wahanol ddibenion, eu cyhoeddi a'u gwesteia yn galluogi'r dysgwyr i gyfrannu'n effeithiol ar bresenoldeb digidol eu cyflogwyr yn y dyfodol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall systemau cyfathrebu digidol
- 2 Gallu defnyddio technegau cyfathrebu digidol
- 3 Gallu cynhyrchu gwefan.

Cynnwys yr Uned

1 Deall systemau cyfathrebu digidol

Protocolau cyfathrebu: consortiwm y we fyd-eang (W3C); protocol mynediad diwifr (WAP); system symudol fyd-eang (GSM); protocolau'r 3ed genhedlaeth (3G); gwasanaeth negeseuon amlygyfrwng (MMS); gwasanaeth radio paced cyffredinol (GPRS); Bluetooth; band eang (ADSL (Asymmetric Digital Subscriber Line), cêbl); protocol trosleisio rhyngrwyd (VoIP)

Dulliau: e-bost; negeseuon di-oed (IM); system negeseuon byr (SMS); system negeseuon amlygyfrwng (MMS); y rhyngrwyd; byrddau bwletin; fforymau trafod; gwe logiau (blogiau); grwpiau newyddion; teleffoni'r rhyngrwyd; cynadledda (fideo gynadledda, awdio gynadledda); cynadledda trwy gymunedau rhithwir, e.e. MMRPGs (Massively Multiplayer Persistent Online Role-Playing Games), Second Life

Gwasanaethau rhyngrwyd: y we fyd-eang (www); darparwyr gwasanaeth ar y rhyngrwyd (ISP); uniform resource locator (URL); enw parth; parth lefel uchaf; cofrestru enw'r parth; gwesteia

Web 2.0: rhwydweithio cymdeithasol; rhannu gwybodaeth; ychwanegu cynnwys, e.e. fideos i YouTube, modelau SketchUp i Google Earth; tagio cynnwys

Confensiynau iaith priodol: dulliau, e.e. tudalennau gwe, e-bost, negeseuon testun, negeseuon; dibenion (busnes, personol)

2 Gallu defnyddio technegau cyfathrebu digidol

Systemau negeseuon: e-bost; negeseuon di-oed (IM), e.e. Windows Live Messenger, MSN, AOL Instant Messenger (AIM), Google Talk; system negeseuon byr (SMS) (o ffonau symudol, o gyfrifiaduron personol); system negeseuon amlygyfrwng (MMS)

Cymunedau Web 2.0: fforymau trafod; wicis; blogiau; amgylcheddau dysgu rhithwir (VLE); rhwydweithio cymdeithasol, e.e. Facebook, Twitter; rhannu gwybodaeth, e.e. Flickr, YouTube

Cynadledda: awdio gynadledda; protocol trosleisio rhyngrwyd (VoIP); fideo gynadledda; cynadledda trwy gymunedau rhithwir, e.e. MMRPGs, Second Life

Dyfeisiau: dyfeisiau llaw diwifr (ffôn symudol, cynorthwydd personol digidol, ipod); gwegamera; pensetiau; Dyfeisiau Bluetooth, e.e. gliniaduron, ffonau symudol, pensetiau, Wiimotes; meddalwedd cynadledda, e.e. Netmeeting, Skype, GoogleTalk; consolau gemau, e.e. XboxLive, Wii Speak

3 Gallu cynhyrchu gwefan

Diben: cynulleidfa; ystyriaethau dyfeisiau (cyfrifiadur personol, dyfais symudol, meddalwedd porwr)

Cynnwys: e.e. testun, delweddau, animeiddio, fideo, seiniau, cerddoriaeth, cynnwys Web 2.0 (rwydweithio cymdeithasol, rhannu gwybodaeth)

Cynllunio: brasluniau o batrwm tudalennau (briffiau dylunio tudalennau, byrddau stori); map o'r safle; ystyriaethau cyfreithiol a moesegol; caniatâd hawlfraint

Strwythur: strwythur y safle, e.e. mynegai, tudalennau cynnwys wedi'u cysylltu; cynllun y tudalennau, e.e. cysondeb, arddull y pennawd, arddull y corff, cynllun lliwiau; rheoli ffolderi (is-ffolder delweddau); confensiynau enwi tudalennau; templed; taflenni arddull; hypergysylltiadau; strwythur y tudalennau, e.e. y pennawd, y corff, metadagiau

Meddalwedd: iaith marcio hyperdestun (hypertext markup language) (HTML); dalenni arddull rhaeadrol (cascading style sheets) (CSS); golygydd testun, e.e. Notepad; golygydd gweledol, e.e. Dreamweaver

Profi: hygyrchedd; côd; cysylltiad; sillafu; rhagolwg; canlyniadau profi wedi eu cofnodi

Llwytho i fyny: protocol trosglwyddo ffeiliau (FTP)

Arfer adfyfyriol: cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol, nodweddion esthetig, cynnwys, arddull); sgiliau cynhyrchu; cynhyrchu syniadau; cynllunio; paratoi; llif gwaith a rheoli amser; cymhwysedd technegol; rheoli prosiect; monitro gwaith sy'n mynd rhagddo; gallu creadigol; eich gwaith eich hun; gwaith tîm; hunan-werthuso; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient; dogfennaeth, e.e. nodiadau, brasluniau, byrddau stori, logiau cynhyrchu

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio protocolau, dyfeisiau a dulliau a ddefnyddir mewn systemau cyfathrebu digidol, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio protocolau, dyfeisiau a dulliau a ddefnyddir mewn systemau cyfathrebu digidol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio protocolau, dyfeisiau a dulliau a ddefnyddir mewn systemau cyfathrebu digidol gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 defnyddio systemau cyfathrebu digidol gyda pheth cymorth	T2 defnyddio amrywiaeth o systemau cyfathrebu digidol yn alluog, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 defnyddio ystod eang o systemau cyfathrebu digidol gyda lefel uchel o allu a medrusrwydd, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu gwefan gyda pheth cymorth. [MC, DA, HR]	T3 cynhyrchu gwefan o safon dechnegol dda heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynhyrchu gwefan o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 57: Ffotograffiaeth ac Arfer Ffotograffig

Côd yr Uned:	H/600/6659
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr am ffotograffiaeth a datblygu eu sgiliau ymarferol yn y maes. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i wahanol feysydd ffotograffig, megis hyrwyddo, hysbysebu a ffotonewyddiaduraeth, ac yn cynhyrchu eu henghreifftiau ymarferol eu hunain o waith ffotograffig ac yn myfyrio arnynt.

Cyflwyniad i'r uned

Mae ffotograffiaeth, neu ffoto-ddelweddu, yn ddiwydiant pwysig ynddo'i hun yn sector y cyfryngau, gydag amrywiaeth eang o gymwysiadau, o gynhyrchu cofnodion personol megis lluniau priodas neu bortreadau teulu i gymwysiadau technegol megis ffotograffiaeth ddiwydiannol neu feddygol. Mae llawer o ddiwydiannau eraill y cyfryngau, megis y wasg, y teledu, ffilm a'r cyfryngau rhyngweithiol, yn defnyddio delweddau ffotograffig (ac yn aml yn dibynnu arnynt) i gefnogi eu cynnyrch. Gall ffotograffwyr proffesiynol hefyd weithredu'n annibynnol, gan weithio ar gomisiwn neu gynhyrchu gwaith arddangos sy'n deillio o'u diddordebau eu hunain.

Mae technoleg ddigidol yn newid y dull o gynhyrchu delweddau yn gyflym, ac mae delweddu digidol yn dod yn fwyfwy amlwg yn y diwydiant. Mae llawer o ffotograffwyr proffesiynol yn awr yn saethu mewn fformat digidol yn unig, ac mae eu cleientiaid yn gofyn eu bod yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mae lle i ddulliau ffotograffiaeth traddodiadol o hyd, gan fod modd i brintiau a sleidiau gael eu sganio'n hwylus a'u trosi i lwyfan digidol.

Bydd yr uned yn galluogi'r dysgwyr i arbrofi gydag ystod o dechnoleg a thechnegau, a dylai ganiatáu ar gyfer cynhyrchu digidol a ffilm. Bydd y dysgwyr yn gallu archwilio galluoedd cynhyrchu delweddau digidol a sut gellir rheoli a manipwleiddio camerâu a phrosesau digidol i greu'r effaith a ddymunir. Bydd yr uned hefyd yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau dadansoddi a'u llythrennedd gweledol, gan ddod yn ymwybodol o gyd-destun a diwylliant ffotograffiaeth.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall gwahanol gymwysiadau ffotograffiaeth
- 2 Gwybod sut mae defnyddio cyfarpar ffotograffig a thechnegau ffotograffig
- 3 Gallu cynllunio a chynhyrchu delweddau ffotograffig at ddiben penodol
- 4 Gallu myfyrio ar eu gwaith ffotograffig eu hun.

Cynnwys yr Uned

1 Deall gwahanol gymwysiadau ffotograffiaeth

Cymwysiadau ffotograffig: hysbysebu; hyrwyddo; ffasiwn; ffoto-newyddiaduraeth; portreadau; gwaith stiwdio ar y stryd fawr; pensaernïol; meddygol; darluniadu; celfyddyd gain; dogfennol

Cyd-destunau: cylchgronau; papurau newydd; hysbysfyrddau; llyfrau; tudalennau gwe; CD-ROM; ar gyfer cleientiaid unigol; orielau

2 Gwybod sut mae defnyddio cyfarpar ffotograffig a thechnegau ffotograffig

Cyfarpar ffotograffig: camera ffilm; camera digidol; treipod; lensys (ongl lydan, hir, teleffoto, macro, atodiadau); mathau o ffilm a dyfeisiau storio (lliw, du a gwyn, tryloywon, di-oed, cardiau cof, cardiau fflach); goleuadau artiffisial (fflach, goleuadau stiwdio, tryledwyr); prosesu (tanciau, sbwliau, silindrau mesur, thermomedrau); printio (helaethwyr, fframiau, printiau cyffwrdd, dysglau, gefeiliau); delweddu digidol (cyfrifiadur, meddalwedd, sganiwr, dal delweddu, storio delweddu, adalw delweddu, argraffwr)

Technegau: camera (agorfa, cyflymdra'r clawr, ffocws, hyd y lens, hidlyddion, stoc y ffilm, cyflymdra'r ffilm); prosesu (rheolaeth amser, rheolaeth tymheredd, prosesu gwthio, storio negatifau); printio (taflenni cyffwrdd, dewis papur, stribedi profi, amser cyswllt, agorfa, tocio, uchder y pen, osgoi, lloggi, masgio, effeithiau arbennig, lliwio, amser trochi, tymheredd y bath, gwacâd cemegion); manipwleiddio digidol, e.e. lliw, siâp, gwead, tocio; cyfleusterau pecynnau meddalwedd, e.e. paletau, offer tocio, stampiau, lassos, haenau; argraffu digidol (swyddogaethau'r argraffydd, dewis o bapur)

Iechyd a diogelwch: yn yr ystafell dywyll; defnyddio goleuadau; asesiadau risg lleoliadau; deddfwriaeth, e.e. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974), Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Peryglu Iechyd (COSHH)(2002), Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith (1998), Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrîn Arddangos) 1992

3 Gallu cynllunio a chynhyrchu delweddu ffotograffig at ddiben penodol

Cynllunio: meddwl yn greadigol, e.e. mapio meddwl, tasgu syniadau, trafodaeth grŵp; ymchwil, arfer proffesiynol yn awr ac yn y gorffennol, cefndir testun, ymateb i frîff, adborth ar eu gwaith eu hun; cofnodi syniadau, e.e. nodiadau, brasluniau, collage, lluniau arbrofol, dylanwadau; amserlen saethu, e.e. llogi stiwdio, llogi cyfarpar, lleoliadau, asesu risg, iechyd a diogelwch, modelau, propiau

Diben: e.e. hysbysebu, hyrwyddo, ffoto-newyddiaduraeth, portreadau, tudalennau gwe, darluniadu, celfyddyd gain, dogfennol

Cyflwyniad: portffolio (deunydd, electronig); arddangos; taflunio

4 Gallu myfyrio ar eu gwaith ffotograffig eu hun

Iaith weledol: cyfansoddiad (cyfosodiad, cysylltiad, ongl y gweld); llunio delwedd, e.e. ffurf, gwead, siâp, patrwm, llinell, tôn, lliw, symbolau, trosiad, semioteg, cynodiad, cynrychiolaeth

Cynulleidfaoedd: ystod o ystyriaethau, e.e. grŵp, cymdeithasol, rhyw, grŵp cymheiriaid, grŵp galwedigaethol, safbwynt gwleidyddol

Cyd-destun hanesyddol a diwylliannol: ystod o gyfeiriadau, e.e. cymdeithasol, hil, crefydd, gwleidyddol, economaidd, cyfeiriadau celf a dylunio, diwylliant poblogaidd

Cynnyrch gorffenedig: gwireddu bwriadau; addasrwydd at y diben; ymateb i adborth; nodweddion technegol; nodweddion esthetig; y sgiliau a'r wybodaeth a gafwyd

Prosesau cynhyrchu: cymwyseddau technegol; gallu creadigol; rheoli amser

Ffynonellau gwybodaeth: hunan-werthuso; dogfennaeth, e.e. nodiadau am syniadau, logiau cynhyrchu, brasluniau, saethu arbrofol, nodiadau ar ffotograffwyr proffesiynol a ffotograffiaeth; sylwadau gan eraill (cynulleidfaoedd, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio gwahanol gymwysiadau ffotograffiaeth, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio gwahanol gymwysiadau ffotograffiaeth, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 gwerthuso'n feirniadol wahanol gymwysiadau ffotograffiaeth, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 defnyddio cyfarpar ffotograffig a thechnegau ffotograffig gyda pheth cymorth [MC]	T2 defnyddio cyfarpar ffotograffig a thechnegau ffotograffig at safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 defnyddio cyfarpar ffotograffig a thechnegau ffotograffig o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu delweddau ffotograffig at ddiben penodol, gyda deunydd cynllunio perthnasol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T3 cynhyrchu delweddau ffotograffig at ddiben penodol gyda deunydd cynllunio perthnasol at safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cynhyrchu delweddau ffotograffig at ddiben penodol gyda deunydd cynllunio perthnasol o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cyflwyno sylwadau ar eu gwaith ffotograffig eu hunain, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [DA]	T4 esbonio eu gwaith ffotograffig eu hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd.	Rh4 gwerthuso eu gwaith ffotograffig eu hun yn feirniadol yng nghydestun arfer proffesiynol, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 58: Awduro a Dylunio Dewislenni DVD

Côd yr Uned:	Y/600/6626
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol i ddylunio a chynhyrchu dewislenni DVD. Gallai'r rhain fod ar gyfer comisiwn penodol, neu fel rhan o gynhyrchu eu cynnyrch DVD eu hunain.

Cyflwyniad i'r uned

Mae fformat y Disg Amlbwrpas Digidol (DVD) yn dod yn gyffredin iawn yn sector y cyfryngau. Mae DVD yn darparu cymaint yn fwy o gyfle i gynhyrchu delwedd a sain o ansawdd sydd mor aml ar goll o fformatau tâp. Mae DVD hefyd yn galluogi rhyngweithedd ac yn caniatáu ychwanegu deunydd ychwanegol at brosiectau. Mae llawer o gynhyrchwyr ffilmiau nodwedd bellach yn darparu 'elfennau ychwanegol' ar eu cynnyrch DVD, megis sylwebaeth gan y cyfarwyddwyr, rhagluniau, a manylion 'sut lluniwyd y ffilm'. Gall DVD hefyd ddarparu cyfle i ychwanegu isdeitlau ac amrywiaeth o ieithoedd wedi eu dybio. Mae'r elfen dylunio graffeg yn bwysig wrth ddatblygu dewislen DVD, gan fod modd mewnfario delweddau llonydd neu symudol i ddyluniad dewislen, yn ogystal â dewis o arddulliau testun.

Mae'r fformatau DVD yn rhoi cyfle i'r dysgwyr gyflwyno eu gwaith mewn ffordd newydd, gyffrous. Gallant lunio cynnyrch ac ychwanegu elfennau eraill sy'n dangos eu sgiliau wrth ddewis deunydd, ail-olygu ac ym maes dylunio graffeg. Bydd y dysgwyr yn gallu datblygu sgiliau o ran dylunio elfennau rhyngweithiol botymau a dolenni i ddeunydd arall.

Awduro yw'r broses o gasglu sain, fideo, dewislenni, isdeitlau a deunydd arall yn strwythur canghennog rhyngweithiol a fydd yn y pen draw yn dod yn DVD, y gellir ei chwarae ar nifer o lwyfannau.

Bydd y dysgwyr yn gallu defnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd yn yr uned hon i baratoi dewislenni DVD a chynnyrch DVD gorffenedig ar gyfer eu gwaith ar ddelweddau symudol. Mae'n bosib y bydd y dysgwyr yn gallu derbyn comisiwn gan ddysgwyr arall neu gleient sydd am gael cynnyrch delwedd symudol mewn fformat DVD priodol.

Mae fformat DVD yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ddarparu tystiolaeth o'u sgiliau gwerthuso, gan y gall fod modd iddynt ychwanegu trac sylwebaeth at eu cynnyrch. Gallai'r trac sylwebaeth hwn fod yn fodd iddynt drafod eu dewis o saethiadau, eu harddull olygu neu'r rhesymau am y syniad cychwynnol.

Mae'r uned hon yn annog y dysgwyr i ddatblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i wneud cynnydd ym myd delweddau symudol a chynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall cymhwysadau ac arfer dylunio ac awduro dewislenni DVD
- 2 Gallu dylunio dewislen DVD ar gyfer cymhwysiad
- 3 Gallu cynhyrchu dewislen ar gyfer DVD.

Cynnwys yr Uned

1 Deall cymwysiadau ac arfer dylunio ac awduro dewislenni DVD

Confensiynau: +R; +RW -R; -RW; haen ddeuol; cyflymdra ysgrifennu; sain; fideo; dewislenni; elfennau ychwanegol, e.e. isdeitlau, gwahanol ieithoedd, deunydd testun, wyau Pasg, animeiddiadau, DTS (Systemau Theatr Ddigidol), Dolby; disgiau y gellir eu printio; codau rhanbarthol; diogelu hawlfraint; mesurau rheoli i rieni

Swyddogaethau ac elfennau: botymau; delweddau llonydd (graffeg, ffotograffau); delweddau symudol (ffilm, animeiddio); testun; sain

Defnyddiau a chymwysiadau: delwedd symudol; cyfryngau rhyngweithiol; ffeiliau testun; ffeiliau delwedd; sioe sleidiau o ddelweddau; deunydd ychwanegol; elfennau ychwanegol

2 Gallu dylunio dewislen DVD ar gyfer cymhwysiad

Technegau: mewnfario deunydd; llinellau amser; dethol delweddau; dethol sain; creu testun; creu penodau; cysylltiadau; botymau treiglo; effeithiau gweledol; effeithiau sain

Technoleg: caledwedd; meddalwedd; manipwleiddio delweddau; cywasgu; digideiddio

Elfennau: cefndir; botymau (testun, delweddau llonydd, lluniau symudol); sain; graffeg

Cynllunio: datblygiad syniadau; cyswllt â'r cleient; rheoli amser; adnoddau (amser, cyllideb, caledwedd, meddalwedd)

3 Gallu cynhyrchu dewislen ar gyfer DVD

Arferion cynhyrchu: cyswllt â'r cleient; triniaethau; cynigion; bwrdd stori; sgriptiau; sgemateg; amserlen cynhyrchu; adolygu; addasu; cliriadau hawlfraint

Elfennau: deunydd delweddau symudol; deunydd sain, e.e. cerddoriaeth, trosleisio; penodau; dewislen; deunydd ac elfennau ychwanegol, e.e. sylwebaeth, 'hanes y creu', lluniau llonydd o'r cynhyrchu, rhestr o'r criw a'r cast, rhagluniau; dolenni i ddeunydd pellach

Cynhyrchu: digideiddio'r cynnwys; mewnfario cynnwys, e.e. graffeg, lluniau, sain; creu penodau; patrwm y dylunio; llywio; cysylltu'r cynnwys â'r ddewislen; gosod y chwarae cyntaf; gosod y naid i'r diwedd; gosod y lefel gywasgu; adeiladu a llosgi

Adnoddau: amser; cyllideb; caledwedd; meddalwedd; personél, e.e. dylunydd graffeg, cyfarwyddwr, golygydd

Materion cyfreithiol a moesegol: hawlfraint, e.e. delweddau, cerddoriaeth, testun; rheoleiddio; dosbarthiad; cynrychiolaeth

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio cymwysiadau ac arfer dylunio ac awduro dewislenni DVD gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio cymwysiadau ac arfer dylunio ac awduro dewislenni DVD gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 gwerthuso'n feirniadol gymwysiadau ac arfer dylunio ac awduro dewislenni DVD, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 dylunio dewislen DVD gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T2 dylunio dewislen DVD yn effeithiol, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 dylunio dewislen DVD o ansawdd sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu dewislen ar gyfer DVD, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC, HR]	T3 cynhyrchu dewislen ar gyfer DVD o safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 cynhyrchu dewislen ar gyfer DVD o safon dechnegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan arddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 59: Awduro ar y We

Côd yr Uned:	A/600/6697
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth o sut creir gwefannau, a darparu sgiliau yn y broses o awduro ar y we. Bydd y dysgwyr yn cyflawni hyn trwy astudio gwefannau sydd eisoes yn bodoli, cynllunio, cynhyrchu a phrofi gwefan, a myfyrio ar eu gwaith.

Cyflwyniad i'r uned

Awduron gwe sy'n cynhyrchu'r rhyngwynebau y mae dros biliwn o bobl ar draws y byd yn eu defnyddio mewn ffyrdd mwyfwy soffistigedig. Rhai o'r cymwysiadau ar gyfer gwefannau yw hysbysebu, gwerthiant, addysg, gemau, cyfathrebu, newyddion, sain a llun, ymchwil a rhannu. Mae pobl yn datblygu ffyrdd newydd o gyfathrebu trwy negeseuon di-oed, protocol trosleisio rhyngrwyd (VoIP) a logiau gwe (blogiau). Mae arferion siopa hefyd wedi newid, gyda defnyddwyr craff yn manteisio ar arolygon cynnyrch ar-lein, lefelau graddio, offer cymharu prisiau, ac occiynau ar-lein i sicrhau eu bod yn cael y fargen orau. Nid yw'r rhyngrwyd wedi ei gyfyngu i ben y ddesg bellach. Mae miliynau o ddefnyddwyr bellach yn cyrchu tudalennau ar y we trwy ddyfeisiau symudol (ffonau symudol, cynorthwywyr digidol personol ac ati). Mae busnesau'n gwneud defnydd sylweddol o ddeunydd y gellir ei gyrchu trwy'r we ar eu safleoedd mewnwyd. Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau mawr eu timau datblygu a rheoli gwefan eu hunain. Y peth cyffrous yw bod y rhyngrwyd yn dal yn gyfrwng sy'n datblygu ac yn esblygu, gyda digon o gyfle i fynegi eich hun fel unigolyn a bod yn arloesol ac yn greadigol.

Mae'r uned hon yn darparu gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth a phrofiad ymarferol i ddysgwyr ym maes awduro ar gyfer y we fyd-eang. Bydd yn rhoi i'r dysgwyr yr wybodaeth a'r sgiliau craidd sy'n briodol ar gyfer ystod eang o swyddi a ddisbarthir o dan deitl cyffredinol awduro ar gyfer y we, yn cynnwys dylunio tudalennau gwe, a chyhoeddi, profi a chynllunio gwefannau.

Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r cysyniadau a'r derminoleg sy'n gysylltiedig ag awduro ar y we. Byddant hefyd yn dysgu hanfodion dylunio gwefannau ac am offer a nodweddion meddalwedd awduro ar y we. Bydd y dysgwyr yn cyffwrdd â materion pwysig eraill megis hygyrchedd, diogeledd, dibynadwyedd, argaeledd, cyflymdra a firysau. Bydd yr uned hefyd yn helpu'r dysgwyr i nodi'r datblygiad personol sy'n ofynnol i ddilyn gyrfa ym maes datblygu ar y we.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall protocolau codio cyffredin ar y we
- 2 Gallu dyfeisio gwefan strwythuredig
- 3 Gallu defnyddio offer awduro ar y we i gynhyrchu, cyhoeddi a phrofi gwefan lawn cyfryngau yn unol â manyleb.

Cynnwys yr Uned

1 Deall protocolau codio cyffredin ar y we

Tudalen ar y we: adeiladu tudalen ar y we; testun; ffontiau; lliw; delweddau; tablau; hypergysylltiadau; iaith a theminoleg; metaddata

HTML: natur HTML (iaith marcio hypergyswllt) ac XHTML (iaith marchio hypergyswllt estynadwy - *extensible hypertext markup language*); nodweddion HTML ac XHTML; sut mae defnyddio HTML ac XHTML

Taflenni arddull rhaeadrol (CSS); natur taflenni arddull rhaeadrol (CSS); nodweddion CSS; sut mae defnyddio CSS

Terminoleg: awduro; safleoedd; llwytho i fyny; protocol trosglwyddo ffeiliau (FTP)

2 Gallu dyfeisio gwefan strwythuredig

Cydrannau cynhyrchu: gofynion y cleient; ystyriaethau cynulleidfa; cynhyrchu syniadau; cysyniadaeth; darluniad; pensaernïaeth gwybodaeth; llunio byrddau stori; map o'r safle; adnoddau

Cynllunio: pwysigrwydd cynllunio; rheoli amser; terfynau amser

Cynhyrchu: cadw at amserlen; gwaith tîm a rheoli adnoddau; cyswllt gyda'r cleient

Proffesiynoldeb: cadw at derfynau amser; cyd-drafod â chleientiaid; rheoli ansawdd; gwaith tîm; cyswllt gyda'r cleient; gweithio'n unol â briff y cleient; cyflwyniadau

Rheoli safle: dibenion rheoli safle; defnyddiau rheoli safle; mapiau safle; safleoedd lleol a phellennig; cysylltiadau; copïo; cydamseru

Manyleb gwefan: anghenion y cleient; cynulleidfa; map o'r safle; arddull weledol, e.e. lliw, arddull, cyfansoddiad; teipograffeg; ystyriaethau technegol

3 Gallu defnyddio offer awduro ar y we i gynhyrchu, cyhoeddi a phrofi gwefan lawn cyfryngau yn unol â manyleb

Offer a nodweddion: lle gwaith; testun; tablau; fframiau; ffurflenni; templedi; nodau; cyfryngau; pennawd; sgript; dylunio; côd; priodweddau; llusgo a gollwng; cysylltu; integreiddio a mewnofio gwahanol fformatau cyfryngau hwylustod defnydd; paletau lliw safonol; natur ryngweithiol; rheoli safle; FTP wedi'i fewnosod; llyfrgelloedd wedi'u mewnosod; bariau llywio; cynnwys fframiau; ffurflenni; blychau gwirio; botymau radio; dewislenni rhestr; botymau; côd golygu; taflenni arddull; arddulliau unigryw; arddulliau rhaeadrol; arddulliau mewdol ac allanol; haenau; creu; enwi; addasu; trefnu; nythu; animeiddio; fframiau allweddol; gwrthrychau a nodweddion; gwelededd; ymddygiad

Hygyrchedd: testun alt; defnydd o dablau; bysellau llwybr byr; bysellau neidio; lliwiau a chyferbyniad; defnydd o offer dilysu

Optimeiddio ar gyfer peiriannau chwilio: metadogiau; algorithmau dulliau rhestru peiriannau chwilio; dolenni i safleoedd sefydledig; atal tudalennau gwe rhag dod o dan ddylanwad corrbyn; osgoi gwallau, e.e. dewislenni na all peiriannau eu darllen, dolenni sydd wedi torri, strwythur llywio gwael

Profi: llwytho i fyny i weinydd trwy brotocol trosglwyddo ffeiliau (FTP); hypergysylltiadau sydd wedi torri; cyflymdra; diogeled; cydweddoldeb â phorwr; cydymffurfio â safonau W3C; hwylustod defnydd; hygyrchedd

Arfer adfyfyriol: cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol, nodweddion esthetig, cynnwys, arddull); sgiliau cynhyrchu; cynhyrchu syniadau; cynllunio; paratoi; llif gwaith a rheoli amser; cymhwysedd technegol; rheoli prosiect; monitro gwaith sy'n mynd rhagddo; gallu creadigol; eich gwaith eich hun; gwaith tîm; hunan-werthuso; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient; dogfennaeth, e.e. nodiadau, brasluniau, byrddau stori, logiau cynhyrchu

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio protocolau codio ar y we, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio protocolau codio ar y we, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio protocolau codio ar y we yn drylwyr, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynnig syniadau amlinellol ar gyfer gwefan lawn cyfryngau, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC]	T2 cynnig syniadau manwl ar gyfer gwefan lawn cyfryngau, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynnig syniadau sydd wedi eu pwysu a'u mesur yn drylwyr ar gyfer gwefan lawn cyfryngau, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cymhwyso offer a nodweddion meddalwedd awduro ar y we i gynhyrchu, cyhoeddi a phrofi gwefan lawn cyfryngau yn unol â manyleb, gan dderbyn peth cymorth. [HR, DA]	T3 cymhwyso offer a nodweddion meddalwedd awduro ar y we yn alluog i gynhyrchu, cyhoeddi a phrofi gwefan lawn cyfryngau yn unol â manyleb, at safon dechnegol dda, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 cymhwyso offer a nodweddion meddalwedd awduro ar y we i gynhyrchu, cyhoeddi a phrofi gwefan lawn cyfryngau yn unol â manyleb, o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 60: Awduro Cyfryngau Rhyngweithiol

Côd yr Uned:	T/502/5769
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion awduro cyfryngau rhyngweithiol ar gyfer CDs a DVD-ROMs, a sgiliau wrth gymhwyso'r egwyddorion hynny yn ymarferol. Bydd y dysgwyr yn astudio'n broses gynhyrchu, yn cynllunio prosiect ar gyfer CD neu DVD ROM, ac yn defnyddio offer a nodweddion awduro cyfryngau rhyngweithiol i gwblhau'r prosiect hwnnw.

Cyflwyniad i'r uned

Pwy sy'n defnyddio awduro cyfryngau rhyngweithiol? Mae datblygwyr gwe yn ei ddefnyddio i ychwanegu nodweddion rhyngweithiol, sain a symud i'w tudalennau gwe. Mae animeiddwyr yn ei ddefnyddio i greu animeiddio ar gyfer allbwn i dâp fideo neu i ffrydio ffilmiau ar y we. Mae datblygwyr yn ei ddefnyddio i greu gemau un defnyddiwr i'w dosbarthu ar CD ROM neu DVD ROM. Mae addysgwyr yn ei ddefnyddio i greu deunyddiau dysgu rhyngweithiol a phrofi i'w dosbarthu dros y we neu ar CD. Mae datblygwyr meddalwedd yn ei ddefnyddio i greu modelau gweithredol o gymwysiadau, gan ganiatáu arddangos a mireinio golwg a theimlad cynnyrch sy'n dal i gael eu datblygu. Mae cyhoeddwyr meddalwedd yn ei ddefnyddio i greu sesiynau tiwtorial ar gyfer cynnyrch. Mae busnesau yn ei ddefnyddio i greu cyflwyniadau, deunyddiau hyfforddi a chatalogau rhyngweithiol sy'n helpu prynwyr i ddewis lliwiau a phatrymau. Mae dylunwyr arddangos yn ei ddefnyddio i greu ciosgau sgrîn cyffwrdd sy'n darparu gwybodaeth i ymwelwyr â'r arddangosfa ar unwaith.

Mae awduro cyfryngau rhyngweithiol yn integreiddio amrywiaeth eang o elfennau, yn cynnwys sain, fideo, animeiddio, testun, cwisiau a nodweddion rhyngweithiol, i gynhyrchu pecyn cyfan y gellir ei ddosbarthu mewn amrywiaeth o fformatau. Y fformatau mwyaf cyffredin yw CD/DVD ROM (er enghraifft y rhai a gynhwysir ar glawr cylchgronau), er bod peth deunydd hefyd yn cael ei gyhoeddi i'w ddefnyddio ar y rhyngwyd. Mae llawer o lyfrau hefyd yn cynnwys CD ROM rhyngweithiol i ategu'r cynnwys testun traddodiadol. Mae awduro cyfryngau rhyngweithiol hefyd yn cael ei ddefnyddio fwyfwy i greu cynnyrch addysgol a hyfforddi.

Cynhyrchir cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan ddefnyddio offeryn awduro sy'n caniatáu mewforio a rheoli'r mathau mwyaf cyffredin o asedau. Mae rhai o'r offer yn defnyddio dull tudalen a llyfr i adeiladu a chysylltu sgriniau o fewn y cynnyrch, tra bod eraill yn defnyddio llinell amser neu sgôr a chmau. Bydd yr offer awduro hefyd yn cynnwys rhyw fath ar raglennu neu sgriptio i gynhyrchu'r rhyngweithedd cymhleth sy'n ofynnol ar gyfer gemau a chwisiau.

Trwy ddilyn yr uned hon bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o alluoedd a rhyngwyneb meddalwedd awduro cyfryngau rhyngweithiol, ac yn deall a defnyddio'r prif offer a nodweddion, gan gynnwys iaith sgriptio sy'n gysylltiedig â meddalwedd awduro cyfryngau rhyngweithiol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall egwyddorion awduro cyfryngau rhyngweithiol
- 2 Gallu dyfeisio cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol
- 3 Gallu creu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan ddilyn arfer y diwydiant.

Cynnwys yr Uned

1 Deall egwyddorion awduro cyfryngau rhyngweithiol

Awduro: diffiniad; offer awduro cyfryngau rhyngweithiol; cynllunio; dylunio; datblygiad; cynhyrchu

Cymwysiadau: defnyddiau, e.e. adloniant, marchnata, cyflwyniadau, catalogau cynnyrch, dogfennaeth, gemau, addysg, hyfforddiant cyfrifiadurol, asesu

Fformat: y we; CD/DVD ROM; ciosgau gwybodaeth; cyflwyniadau; teledu rhyngweithiol; dyfeisiau llaw

Asedau: sain; testun; fideo; graffeg fector; animeiddiadau; delweddau

Rhyngweithedd a rheolaeth: botymau; digwyddiadau; poethfannau; sgriptio; llinellau amser; sioeau sleidiau; effeithiau

Cyfyngiadau: maint; amser lawrlwytho; y math o gynnwys; yr angen am ategion

2 Gallu dyfeisio cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol

Symbyliad: e.e. brîff gan gleient, eich brîff eich hun, o ymchwil marchnad

Syniadau: tasgu syniadau; byrddau hwyliau; rhagddelweddu, e.e. brasluniau cynllun, byrddau stori; rhyngwyneb y defnyddiwr; arddull weledol, e.e. paletau lliw, teipograffeg; seiniau; animeiddiadau; rhyngweithedd

Asedau: eisoes yn bodoli; i'w creu

Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol: cyfreithiol, e.e. hawlfraint; moesegol, e.e. cyfrinachedd, preifatrwydd, gwedduster, enllib; cynrychiolaeth, e.e. hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb

Manyleb y cynnyrch: pwrpas (anghenion cleient, cynulleidfa darged, cynnwys, fformat cyhoeddi); ansawdd esthetig (arddull weledol, gosodiad)

3 Gallu creu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan ddilyn arfer y diwydiant

Cynllunio: rheoli asedau (storio ac adalw ffeiliau, confensiynau enwi); llif gwaith (amserlennu, rheoli amser yn effeithlon); terfynau amser (cerrig milltir cynhyrchu, elfennau y gellir eu cyflenwi, sicrhau ansawdd)

Lle gwaith: paneli, e.e. cam, llinell amser, bar dewislen, bar offer, llyfrgell, paletau lliw, priodweddau, dewisiadau, help

Golygu: golygu testun; golygu fector

Asedau defnydd: gwrthrychau (cast, cipluniau); sgriptiau; mewnfario; priodweddau; fformat ffeiliau, e.e. avi, bmp, png, jpeg, RealVideo, QuickTime, fideo DVD, aiff, wav, midi, mp3, asf

Animeiddio: trosglwyddiadau ac effeithiau llinell amser; golygu animeiddio

Rhyngweithedd: botymau; poethfannau; hypergysylltiadau; rhaglennu a sgriptio; ymddygiad, gweithredoedd a phriodweddau, e.e. gweithrediadau llygoden a bysellfwrdd, rheoli fideo a sain

Profi: alffa; beta; profi gan y defnyddiwr; addasiadau a gwelliannau

Cyhoeddi: e.e. cyflwyniad sy'n rhedeg ei hun (taflunydd); cyfrwng y cynnyrch, e.e. CD, DVD ROM, y we

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol, nodweddion esthetig); sgiliau cynhyrchu (cynnig syniadau, manyleb y cynnyrch, llif gwaith a rheoli amser, gallu technegol, gwaith tîm)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
P1 crynhoi'n gywir egwyddorion awduro cyfryngau rhyngweithiol, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio egwyddorion awduro cyfryngau rhyngweithiol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	D1 asesu'n feirniadol egwyddorion awduro cyfryngau rhyngweithiol gyda dadleuon atebol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 creu syniadau amlinellol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC]	T2 creu syniadau manwl ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan ddefnyddio peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 creu syniadau sydd wedi cael eu pwysu a'u mesur yn drylwyr ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 creu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [HR, DA]	T3 creu graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol o safon dechnegol dda gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 creu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol sydd o safon dechnegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 61: Dylunio Cyfryngau Rhyngweithiol

Côd yr Uned:	J/502/5680
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o ddylunio cyfryngau rhyngweithiol a'u sgiliau yn y maes. Bydd y dysgwyr yn edrych ar hawlfraint, perchenogaeth a'r amrywiol gyfreithiau sy'n berthnasol i waith dylunio cyfryngau rhyngweithiol. Byddant yn dysgu sut mae cymhwyso egwyddorion dylunio i greu prosiectau rhyngweithiol.

Cyflwyniad i'r uned

Diwydiant y cyfryngau rhyngweithiol yw un o'r sectorau sy'n symud gyflymaf yn y byd. Mae'n creu ystod eang o gynnyrch at wahanol ddibenion, yn cynnwys gwefannau, CDs rhyngweithiol, DVDs, ciosgau, gemau a theledu rhyngweithiol. Bydd angen gallu creadigol, gafael gadarn ar egwyddorion dylunio cyfryngau rhyngweithiol a sgiliau cynllunio da ar y rhai sy'n gobeithio creu gyrfa yn y sector hwn. Mae'r rhinweddau a'r sgiliau a ddatblygir yn yr uned hon yn berthnasol i'r holl wahanol linyddau yn sector y cyfryngau rhyngweithiol.

Mae deall beth sy'n creu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol da sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol ac arfer gorau yn hanfodol i sicrhau gyrfa lwyddiannus yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol. Mae'r un mor bwysig gwybod sut mae llunio cynnyrch yn brydlon mewn ymateb i anghenion y cleient. Mae'r uned hon yn delio â'r arferion a'r dulliau a ddefnyddir yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol i ymateb i'r gofynion hyn. Bydd yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau craidd a'r wybodaeth a fydd yn gosod sylfaen ar gyfer datblygiad pellach mewn unedau eraill arbenigol y dewisant eu hastudio.

Drwy astudio'r uned hon bydd dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o'r syniadau craidd gwaelodol ym maes dylunio cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol. Bydd archwilio cysyniadau sylfaenol graffeg gan astudio'r rhyngweithedd a'r posibiliadau llywio sydd ar gael mewn cynnyrch rhyngweithiol yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer adeiladu sgiliau unedau eraill, mwy ymarferol. Er mwyn sicrhau bod eu cynnyrch terfynol o unedau eraill yn gyfreithiol ac yn foesegol byddant hefyd yn dysgu am faterion pwysig megis hawlfraint, perchenogaeth a'r amrywiol gyfreithiau sy'n berthnasol i ddylunio cyfryngau rhyngweithiol. Byddant yn dysgu sut mae dyfeisio cynnyrch proffesiynol trwy gymhwyso egwyddorion dylunio sefydledig a datblygu sgiliau craidd i gynnal sgiliau awduro unedau eraill. Fe'u hanogir i ddatblygu a chymhwyso sgiliau meddwl yn greadigol, a byddant yn dysgu sut i gynllunio a rheoli prosiectau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwireddu'n brydlon. Bydd yr uned hon hefyd yn datblygu gallu dysgwyr i fyfyrion'n feirniadol ar eu gwaith eu hun, gan y bydd angen y sgil hwn arnynt yn eu gyrfaedd.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall egwyddorion dylunio cyfryngau rhyngweithiol
- 2 Deall y cyfyngiadau cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i ddiwydiant y cyfryngau rhyngweithiol
- 3 Gallu cymhwyso dylunio cyfryngau rhyngweithiol gan ddilyn arfer y diwydiant.

Cynnwys yr Uned

1 Deall egwyddorion dylunio cyfryngau rhyngweithiol

Dylunio graffeg: damcaniaeth lliw; cyfansoddiad, e.e. rheol traeanau, llinellau arweiniol, canolbwynt, dyfnder maes; cydbwysedd, e.e. gofod gwyn, gofod llwyd, gofod du; teipograffeg, e.e. ffontiau a theuluoedd o ffontiau; apêl esthetig; cyd-destun e.e. arddull weledol, hygyrchedd

Dylunio rhyngweithiol: cynulleidfa, e.e. profiad, oedran, hygyrchedd, iaith a therminoleg; cynnwys (testun, graffeg, animeiddio, sain, rhyngweithedd); semioteg (geiriau, seiniau, lliwiau, delweddau); ffurf (dim annibendod, cysondeb, dilyniant, swm yr wybodaeth a gyflwynir, grwpio a blaenoriaethu gwybodaeth)

Dyluniad llywio: defnydd o lywio, e.e. llywio da a drwg, mathau o lywio, byd-eang, lleol a chysylltliol (cynradd, eilaidd, trydyddol); ciwiau gweledol e.e. testun wedi ei amlygu, denu sylw, nodi, blaenoriaethu; hwylustod defnydd e.e. syml, effeithiol, goddefgar (dadwneud gwallau, ailfwydo mewnbwn)

Technoleg: cynnyrch rhyngweithiol, e.e. tudalennau gwe, CDs, DVDs, ciosgau, graffeg symud, animeiddio, effeithiau arbennig, gemau; llwyfannau cynnwys, e.e. gwefannau, cyfrifiaduron, dyfeisiau symudol, ciosgau, teledu rhyngweithiol; offer cymhwyso, e.e. meddalwedd cyflwyniadau clyweledol, golygydd gwe, meddalwedd awduro, meddalwedd animeiddio

2 Deall y cyfyngiadau cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i ddiwydiant y cyfryngau rhyngweithiol

Cyfreithiol: hawliau eiddo deallusol, e.e. hawlfraint, hawliau dylunio, hawliau moesol a thadol, masnachnodau, patentau; caniatâd; enllib; Deddf Cysylltiadau Hiliol; Deddf Cyhoeddiadau Anwedus; Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron; Deddf Diogelu Data; hygyrchedd; contractau, e.e. mathau o gontract, is-gontractio, defnyddio ffynonellau allanol, gweithio i frîff, cosbau

Moesegol: perthynas â'r cleient (parchu dymuniadau'r cleient, gwranddo ar anghenion); materion awduraeth a pherchenogaeth; cynrychiolaeth, e.e. hil, rhyw, oedran; cabledd; dadleuon ynghylch effeithiau

3 Gallu cymhwyso dylunio cyfryngau rhyngweithiol gan ddilyn arfer y diwydiant

Dadansoddiad: ysgogiad, e.e. brîff y cleient, eich brîff eich hun; cyfathrebu â'r cleient, e.e. nodiadau cyfarfodydd, cofnodi ymatebion i gwestiynau; manyleb derfynol

Sgiliau meddwl yn greadigol: tasgu syniadau; mapiau meddwl; byrddau stori; byrddau hwyliau; offer datrys problemau creadigol e.e. rhestru priodweddau, dadansoddiad morffolegol, SWOT

Technegau cynllunio: patrwm, e.e. brasluniau, byrddau stori, canllawiau gweledol, sgript; pensaerniaeth gwybodaeth; arddull weledol; paletau lliw; teipograffeg; llif gwaith (llwybrau byr, gweithio rhwng rhaglenni, rheoli amser yn effeithlon); terfynau amser (cerrig milltir cynhyrchu); offer rheoli

Sgiliau dogfennol: pwrpas, e.e. triniaeth, manyleb; cynnwys, e.e. cyflwyniad, maint y cynnyrch, cwmpas y cynnyrch, arddull weledol, bwrdd stori, brasluniau bawd, patrwm, celf gysyniadol, sgript; strwythur, e.e. dalen y clawr, logo, manylion cyswllt, crynodeb, adrannau; arddull, e.e. goslef leisiol, iaith dechnegol; ansawdd, e.e. prosesu geiriau, gwirydd sillafu, prawfddarllen

Arfer y diwydiant: cofnodi'r canlyniad a fwriedir (briff y prosiect, manyleb hunan-gynhyrchu); cynlluniau cofnodi (manyion y gwaith, amserlen, trefniadau wrth gefn); dyddiadur beunyddiol (teimladau, gwaith a wnaed, cynhyrchedd a gyflawnwyd, monitro, diwygio a wnaed, trefniadau wrth gefn a ddefnyddiwyd); profi'r cynnyrch terfynol (hunan, eraill, cofnodi barn); gwerthuso'r cynnyrch terfynol (ansawdd technegol, ansawdd esthetig, yn erbyn y bwriad gwreiddiol); gwerthuso sgiliau cynhyrchu (sgiliau technegol, llif gwaith a sgiliau rheoli amser)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 crynhoi'n gywir egwyddorion dylunio a gymhwysir i gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio egwyddorion dylunio a gymhwysir i gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 asesu'n feirniadol egwyddorion dylunio a gymhwysir i gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio'r cyfyngiadau cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T2 egluro'r cyfyngiadau cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 egluro'n drylwyr y cyfyngiadau cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn rhugl yn gyson
LI3 cymhwyso dylunio cyfryngau rhyngweithiol gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC, HR]	T3 cymhwyso dylunio cyfryngau rhyngweithiol o safon dechnegol dda gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 cymhwyso dylunio cyfryngau rhyngweithiol o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan arddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 62: Cynhyrchu Fideo Digidol ar gyfer Cyfryngau Rhyngweithiol

Côd yr Uned:	T/502/5674
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i gynhyrchu a defnyddio deunydd fideo digidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol. Bydd y dysgwyr yn archwilio sut defnyddir fideo mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol a'r dechnoleg a ddefnyddir i gynhyrchu a manipwleiddio dilyniannau fideo digidol. Bydd y dysgwyr yn cynllunio a chreu dilyniant fideo ac yn ei baratoi ar gyfer defnydd fel rhan o gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol.

Cyflwyniad i'r uned

Nid yw delweddau symudol bellach wedi eu cyfyngu i'r sinema a'r teledu. Mae newidiadau technolegol yn golygu bod pobl yn disgwyl gallu gwyllo a rhannu ffilmiau ar-lein ac wrth symud o gwmpas. Wrth i gyfran defnyddwyr y rhyngwryd sydd â band eang barhau i dyfu, mae'n dod yn fwyfwy posib gwyllo, llwytho i fyny a lawrlwytho ffilmiau yn gyflym. Mae ffonau symudol yn cynnwys technoleg fwyfwy soffistigedig ar gyfer saethu, rhannu a chwarae delweddau symudol. Mae chwaraewyr cerddoriaeth cludadwy yn dangos cynnwys o'r teledu a gall pobl wyllo ffilmiau ar eu consolau gemau cludadwy. Mae DVD wedi disodli fideo VHS fel y fformat amlycaf ar gyfer gwyllo ffilmiau gartref, felly mae pob fformat poblogaidd bellach yn ddigidol. Yn fyr, mae fideo mewn cyfryngau rhyngweithiol ymhobman. Goblygiad hynny i gynhyrchwyr cyfryngau rhyngweithiol yw bod eu gwaith yn gorgyffwrdd â gwaith cynhyrchwyr ffilmiau a fideo traddodiadol, ond gydag angen ychwanegol am weithredu hyn trwy dechnolegau cyfredol cyfryngau digidol. Mae hyn yn cyflwyno rhai heriau newydd i'r dysgwyr, gan gynnwys gofynion technolegol yr amlhau llwyfannau yma.

Mae'r uned hon yn dechrau gydag ymchwiliadau i fideo mewn cyfryngau rhyngweithiol, gan alluogi'r dysgwyr i ddeall y defnyddiau a'r technolegau. Wedyn bydd y dysgwyr yn cynllunio prosiect fideo digidol, gan gynnig syniadau, gwneud penderfyniadau am y cynnwys, creu byrddau stori, golygu, a chynhyrchu deunydd fideo digidol i'w ddefnyddio mewn cyd-destun cyfryngau rhyngweithiol.

Gall dysgwyr ddefnyddio'r uned hon i ennill profiad o gynhyrchu deunydd fideo digidol a'i baratoi ar gyfer ei ymgorffori mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol megis DVD, y we fyd-eang neu ddyfais symudol. Mae allforio'r fideo wedi ei golygu gan ddefnyddio'r cywasgu a'r fformat ffeil priodol yn hanfodol i sicrhau ei fod yn gweithio ar lwyfannau penodol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall egwyddorion technoleg fideo digidol mewn cyfryngau rhyngweithiol
- 2 Gallu dyfeisio dilyniant fideo digidol i'w ddefnyddio mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol
- 3 Gallu saethu a chael hyd i asedau fideo digidol i'w defnyddio mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol
- 4 Gallu creu dilyniant fideo digidol i'w ddefnyddio mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan ddilyn arfer y diwydiant.

Cynnwys yr Uned

1 Deall egwyddorion technegol fideo digidol mewn cyfryngau rhyngweithiol

Cymwysiadau: defnyddiau, e.e. ffilmiau byr, deunydd hyrwyddo, rhagluniau ffilmiau, cynnwys a gynhyrchwyd gan y defnyddwyr, marchnata firaol, hysbysebu, teithiau realaeth rhithwir, gemau, e-ddysgu; llwyfannau, e.e. y we fyd-eang, atodiadau e-bost, DVD, CD, ciosgau, cyflwyniadau, dyfeisiau symudol

Technoleg: cipio fideo digidol; cywasgu (lossy, lossless) fformat ffeiliau fideo digidol (.mpg, .mp4, .mov, .avi, .wmv, .flv, .swf, .3GP, .ASF); dulliau ffrydio (lawrlwytho, lawrlwytho dilyniannol, ffrydio); cyflymdra trosglwyddo data; maint y ffeil (cydraniad, cyflymdra data, cyflymdra fframiau, cyflymdra fframiau allweddol, cywasgydd, gosodiadau sain); cymhareb agwedd, (4:3, 16:9); chwaraewyr cyfryngau (Flash Player, QuickTime, Windows Media Player, RealMedia Player, DivX); systemau rheoli hawliau digidol

2 Gallu dyfeisio dilyniant fideo digidol i'w ddefnyddio mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol

Symbyliad: e.e. briff gan gleient, eich briff eich hun, o ymchwil marchnad

Syniadau: tasgu syniadau; rhagddelweddu (brasluniau, bwrdd stori, sgript)

Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol: cyfreithiol, e.e. hawlfraint, enllib; moesegol, e.e. cyfrinachedd, gwedduster; cynrychiolaeth, e.e. hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb

Manyleb dilyniant fideo: anghenion y cleient; cynulleidfa; sgript; bwrdd stori; ystyriaethau technegol, e.e. llwyfan, fformat y ffeil, maint y ffeil, cywasgiad, dull ffrydio, chwaraeydd cyfryngau

3 Gallu saethu a chael hyd i asedau fideo digidol i'w defnyddio mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol

Cynllunio: llif gwaith (amserlennu, rheoli amser yn effeithlon); terfynau amser (cerrig milltir cynhyrchu, elfennau y gellir eu cyflenwi, sicrhau ansawdd)

Saethu asedau fideo: ansawdd y saethu (goleuo, ffocws, dyfnder maes, lliw, cydbwysedd, amlygiad); cyfansoddiad y saethu (ongl y camera, fframio)

Cael hyd i asedau fideo: e.e. llyfrgell fideo, ar-lein, darlledu, cleient, cymheiriaid, tiwtor

4 Gallu credu dilyniant fideo digidol i'w ddefnyddio mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan ddilyn arfer y diwydiant

Rheoli Asedau: mewnfario (fideo a saethwyd, fideo a ddaeth o ffynhonnell arall); trefnu (storio ac adalw ffeiliau, confensiynau enwi)

Technegau meddalwedd ôl-gynhyrchu: lle gwaith, e.e. porwr/ffenestr y prosiect, ffenestr llinell amser, ffenestr bocs offer, tab effeithiau, tab cymysgydd sain; creu prosiect newydd; mewnfario; penderfyniadau golygu (logio, rhestrau o'r penderfyniadau golygu, golygu i sain, golygu ar gyfer dilyniant, creu llif naratif), golygu clipiau (tocio clipiau, golygu tri phwynt, golygu treigl a chrycholygu); pontio (gosodiad pontio, ychwanegu, golygu); creu dilyniant o ddelweddau llonydd; cywiro lliw; effeithiau fideo; sain (golygu, cryfhau, gwanhau); teitlau (sefydlog, cylchol); troshaen gwahanu lliwiau; cynnwys elfennau cyfansawdd

Allfario fideo digidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol: llwyfannau, e.e. y we fyd-eang, CD, DVD, ciosgau, cyflwyniadau, dyfeisiau symudol; cywasgu; fformat ffeiliau fideo digidol, e.e. .mpg, .mp4, .mov, .avi, .wmv, .flv, .swf, .3GP, .ASF; dulliau ffrydio (lawrlwytho, lawrlwytho dilyniannol, ffrydio); cyflymdra trosglwyddo data; maint y ffeil, e.e. cydraniad, cyflymdra data, cyflymdra fframiau, cyflymdra fframiau allweddol, cywasgydd, gosodiadau sain; cymhareb agwedd, e.e. 4:3, 16:9; chwaraewyr cyfryngau, e.e. Flash Player, QuickTime, Windows Media Player, RealMedia Player, DivX

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol); sgiliau cynhyrchu (cynhyrchu syniadau, manyleb graffeg, llif gwaith a rheoli amser, gallu technegol, gwaith tîm)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 crynhoi'n gywir egwyddorion technoleg fideo digidol mewn cyfryngau rhyngweithiol, gan ddefnyddio peth o derminoleg y pwnc yn briodol	T1 egluro egwyddorion technoleg fideo digidol mewn cyfryngau rhyngweithio gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n gynhwysfawr egwyddorion technoleg fideo digidol mewn cyfryngau rhyngweithiol gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynnig syniadau amlinellol ar gyfer dilyniant fideo, gan weithio oddi mewn i'r confensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T2 cynnig syniadau manwl ar gyfer dilyniant fideo digidol, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynnig syniadau a gafodd eu pwysu a'u mesur yn drylwyr ar gyfer dilyniant fideo digidol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 creu asedau fideo digidol gyda pheth cymorth [HR]	T3 creu asedau fideo digidol yn alluog heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 creu asedau fideo digidol i safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI4 creu dilyniant graffeg ddigidol i'w ddefnyddio mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC, HR, DA]</p>	<p>T4 creu dilyniant graffeg ddigidol i'w ddefnyddio mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan weithio i safon dechnegol dda gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.</p>	<p>Rh4 creu dilyniant fideo digidol i'w ddefnyddio mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan weithio at safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.</p>

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 63: Sain mewn Cyfryngau Rhyngweithiol

Côd yr Uned:	Y/502/5778
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau wrth gynllunio a chreu sain ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan ddefnyddio meddalwedd golygu sain ddigidol. Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r defnydd o sain mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol. Byddant yn dylunio ac yn cynhyrchu seiniau gwreiddiol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol ac yn integreiddio'r seiniau hyn â'r cynnyrch.

Cyflwyniad i'r uned

Wrth i'r diwydiant cyfryngau rhyngweithiol ddatblygu ac ehangu, mae'r galw am unigolion sydd â'r gallu creadigol a'r sgiliau technolegol i wireddu cynnyrch sain effeithiol yn cynyddu. Mae union natur y rhan fwyaf o gyfryngau rhyngweithiol, megis cynnwys ar y we, technolegau ffonau symudol a gemau cyfrifiadur, yn gofyn bod y cynnwys sain yn briodol ac yn effeithiol o ran cyfleu negeseuon, naratif, hwyliau a goslef.

Fwyfwy yn y diwydiant cyfryngau rhyngweithiol, mae gofyn bod unigolion yn meddu ar sgiliau lluosog wrth eu gwaith. Mae dealltwriaeth dda o effaith sain, yn ogystal â gallu i ymgorffori a gweithredu technolegau cynhyrchu sain, yn aml yn allu y gosodir gwerth mawr arno.

Trwy ddilyn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau ym maes cynllunio a chreu sain ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol. Byddant hefyd yn datblygu eu gwybodaeth am feddalwedd golygu sain ddigidol, ynghyd â dealltwriaeth o'r cysyniadau, yr iaith a'r derminoleg sy'n gysylltiedig â'r maes hwn.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall y defnydd o sain mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol
- 2 Gallu dyfeisio asedau sain ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol
- 3 Gallu creu asedau sain ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan ddilyn arfer y diwydiant
- 4 Gallu cymhwyso asedau sain i gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan ddilyn arfer y diwydiant.

Cynnwys yr Uned

1 Deall y defnydd o sain mewn cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol

Damcaniaeth sain: ffurf tonnau (tonfedd, osgled, amledd); pitsh; Hertz (Hz); lefel desibelau (dB); cynhyrhydd sain (uchelseinydd)

Hanfodion recordio sain: signalau; cymhareb signal i sŵn; llurgunio analog; llurgunio digidol; mono a stereo; cyfryngau recordio sain; fformat ffeiliau sain ddigidol, e.e. .mp3, .wav, .mid, .ogg, .wma, .aif

Analog yn erbyn digidol: cymharu sain analog a digidol; manteision ac anfanteision technegau cynhyrchu; problemau wrth ddigideiddio deunydd analog; materion ansawdd

Cymwysiadau: cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, e.e. gwefannau, rhyngwynebau DVD, cyflwyniadau rhyngweithiol, gemau cyfrifiadur, cynnwys ffonau symudol

Defnydd o sain: cario deialog; gwella hwyliu neu oslef; dangosyddion, e.e. perygl, gweithred ar fin digwydd, emosiwn; tywys defnyddwyr; rhybuddion; adloniant e.e. ffrydio cerddoriaeth

2 Gallu dyfeisio asedau sain ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol

Symbyliad: e.e. brîff gan gleient, eich brîff eich hun, o ymchwil marchnad

Syniadau: tasgu syniadau; bwrdd stori sain, e.e. seinlun; nodi ffynhonnell, e.e. deunydd a recordiwyd gennych eich hun, gwaith maes, stiwdio, deunydd a recordiwyd ymlaen llaw, llyfrgelloedd sain

Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol: cyfreithiol, e.e. hawlfraint; moesegol, e.e. cyfrinachedd, gwedduster; cynrychiolaeth, e.e. hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb

Manyleb asedau: cynulleidfa darged; ystyriaethau, e.e. pwrpas, genre, cyfradd samplo, cydraniad, stereo neu mono, sain gyffredinol, trosleisio, confensiynau gofynnol o ran enwi ffeiliau; rhestr seiniau

3 Gallu creu asedau sain ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan ddilyn arfer y diwydiant

Cynllunio: rheoli asedau (storio ac adalw ffeiliau, confensiynau enwi); llif gwaith (amserlennu, rheoli amser yn effeithlon); terfynau amser (cerrig milltir cynhyrchu, elfennau y gellir eu cyflenwi, sicrhau ansawdd)

Recordio sain: log recordio; recordio (gwaith maes, stiwdio); samplo sain (cyfyngiadau maint ffeiliau, cyfradd samplo, mono, stereo)

Lefelau sain a'u mesur: mesuryddion, e.e. mesurydd VU, mesurydd brig y rhaglen; lefel weithredu safonol

Manipwleiddio sain: mewnforio; golygu, e.e. torri, copïo, pastio, tocio, cymysgu sianeli, pwyntiau ciwio, nodau; effeithiau, e.e. cryfhau, corws, croesbylu, oedi, adlais, dod i mewn/mynd allan yn raddol, gwyrddroi, cwmpasu, normaleiddio, panio, dirgryniad, mynd o chwith, ailsamplo, distawrwydd; amser a phitsh, e.e. Doppler, ymestyn; hidlyddion, e.e. pas (band, uchel, isel), rhicyn, lleihau sŵn, pop/clic, cydraddoli; lwpiau; rhestr ciwiau; rhestr chwarae; cymysgu i lawr

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol); sgiliau cynhyrchu (cynhyrchu syniadau, manyleb graffeg, llif gwaith a rheoli amser, gallu technegol, gwaith tîm)

4 Gallu cymhwyso asedau sain i gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan ddilyn arfer y diwydiant

Rheoli Asedau: mewnforio; trefnu (storio ac adalw ffeiliau, confensiynau enwi)

Golygu sain: deunydd llyfrgell sain, e.e. llyfrgelloedd seiniau, asedau cerddoriaeth stoc; sain a gynhyrchwyd mewn stiwdio, e.e. trosleisio

Cymhwyso: cydamseru seiniau, e.e. gweithredoedd, symud ar y sgrîn, golygfeydd, cydsymud gwefusau; dybio; mewnosod; cysylltu â ffeil sain

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol); sgiliau cynhyrchu (cynhyrchu syniadau, manyleb graffeg, llif gwaith a rheoli amser, gallu technegol, gwaith tîm)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio'r defnydd o sain mewn cyfryngau rhyngweithiol gan ddefnyddio peth o derminoleg y pwnc yn briodol	T1 esbonio'r defnydd o sain mewn cyfryngau rhyngweithiol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 gwerthuso'n feirniadol y defnydd o sain mewn cyfryngau rhyngweithiol, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 creu syniadau amlinellol o ran asedau sain ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC]	T2 creu syniadau manwl o ran asedau sain ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan ddefnyddio peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 creu syniadau sydd wedi cael eu pwysu a'u mesur yn drylwyr o ran asedau sain ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gyda gallu creadigol a fflach, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 creu asedau sain ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T3 creu asedau sain ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan weithio i safon dechnegol dda gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 creu asedau sain ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan weithio at safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cymhwyso asedau sain i gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gyda pheth cymorth. [HR. DA]	T4 cymhwyso asedau sain i gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan weithio at safon dechnegol dda, gan ddilyn arfer y diwydiant, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh4 cymhwyso asedau sain i gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, gan weithio at safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 64: Graffeg Symudol a Llundio Fideo Cyfansawdd

Côd yr Uned:	M/600/6647
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o graffeg symudol a fideo cyfansawdd a'u galluogi i gynhyrchu ystod o effeithiau gweledol ar fideo digidol. Bydd y dysgwyr yn cyflawni hyn trwy astudio enghreifftiau sydd eisoes yn bodoli o graffeg symudol, cynllunio a chynhyrchu dilyniant graffeg symudol, a myfyrio ar eu gwaith.

Cyflwyniad i'r uned

Mae cynrychiadau delweddau symudol yn aml yn cynnwys elfennau o ddylunio graffeg ar gyfer y sgrîn. Er enghraifft, mae gan orsafoedd teledu yn aml logo wedi'i animeiddio ar gyfer dangos y brand rhwng sioeau, gall bariau capsionau ar raglenni dogfen ac erthyglau newyddion animeiddio ar y sgrîn ac oddi arni, mae dilyniannau teitlau yn aml yn gyfuniad o ddelweddau llonydd a rhai symudol ac wedi eu hanimeiddio, ac mae rhyngwynebau DVD yn defnyddio cyfuniadau o graffeg wedi ei animeiddio a theipograffeg gyda dilyniannau fideo digidol. Mae hefyd yn gyffredin gweld effeithiau gweledol yn cael eu cymhwyso i ddilyniannau delweddau symudol mewn ystod eang o gynrychiadau.

Defnyddir technegau graffeg symudol i greu'r dilyniannau hyn. Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu sgiliau graffeg symudol trwy gynllunio a chynhyrchu prosiect graffeg symudol. Mae'r technegau hyn yn mynd â'r dysgwyr y tu hwnt i saethu a golygu fideo i fyd technegau ôl-gynhyrchu mwy cymhleth a soffistigedig.

Mae cynllunio prosiectau yn bwysig, ac mewn graffeg symudol mae hynny'n cynnwys cynnig syniadau, gwneud penderfyniadau am y cynnwys graffeg, a llunio byrddau stori sy'n dangos sut mae hyn wedi ei integreiddio â'r delweddau symudol. Mae angen adolygu ansawdd y gwaith yn barhaus, felly mae angen i'r dysgwyr allu asesu priodoldeb yr hyn y maen nhw'n ei gynhyrchu yn erbyn y briff a roddwyd ac archwilio ei safonau technegol ac esthetig. Bydd angen i'r dysgwyr ddangos tystiolaeth o sut maent wedi rheoli eu prosiect o gynnig syniadau hyd at gaffael adborth ar y gwaith gorffenedig. Mae hyn yn cynrychioli mapio'r prosesau creadigol a rheoli prosiect sydd dan sylw.

Mae'r uned yn dechrau gydag ymchwiliadau i graffeg symudol, gan alluogi'r dysgwyr i ddeall defnyddiau graffeg wrth gynhyrchu delweddau symudol. Bydd yr ymchwiliadau hyn yn cynnwys ymchwil weledol a thechnegol. Bydd y dysgwyr yn edrych yn ofalus ar ddilyniannau graffeg symudol sydd eisoes yn bodoli i ddadansoddi eu dyluniad a'u heffeithiau. Byddant hefyd yn ymchwilio i'r technolegau sy'n gysylltiedig â graffeg symudol a chyflenwi delweddau symudol.

Bydd y dysgwyr yn cymhwyso technegau meddalwedd graffeg symudol i greu eu deunydd gweledol, a fydd yn cael ei asesu am ei nodweddion technegol ac esthetig. Mae hyn yn annog y dysgwyr i gynhyrchu deunydd sy'n ymateb i'r briff mewn modd llawn dychymyg, ac sy'n dechnegol addas at y diben, gan ddarparu sylfaen dda ar gyfer arfer proffesiynol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall defnyddiau cyfredol o graffeg symudol a fideo cyfansawdd
- 2 Gallu cynnig a chynllunio dilyniant graffeg symudol gwreiddiol
- 3 Gallu cynhyrchu dilyniant graffeg symudol.

Cynnwys yr Uned

1 Deall defnyddiau cyfredol o graffeg symudol a fideo cyfansawdd

Defnyddiau: e.e. rhyngwynebaw DVD, dilyniannau teitlau a chredydau, capsynau wedi eu hanimeiddio, colynau, identau, dewislenni rhyngweithiol, baneri gwe

Nodweddion: graffeg; symudiad; effeithiau gweledol

Ystyriaethau technoleg: cyfradd fframiau; fformat y fideo; cymarebau sgrîn; cydraniad; cywasgu

2 Gallu cynnig a chynllunio dilyniant graffeg symudol gwreiddiol

Manyleb: anghenion y cleient; cynulleidfa; gosodiadau sain; gosodiadau fideo; gosodiadau eraill

Datblygu syniadau: tasgu syniadau; byrddau stori; sgriptiau; ystyriaethau cyfreithiol a moesegol

Cynnig: cynnwys; diben; cynulleidfa darged; cyfrwng cyflwyno

Cynllunio: pwysigrwydd cynllunio; rheoli amser; terfynau amser

3 Gallu cynhyrchu dilyniant graffeg symudol

Technegau meddalwedd: mewnoforio; cyfansoddiad; maint y fframiau; cydraniad; copïo a thorri fframiau allweddol; cynorthwyydd fframiau allweddol; rastereiddio; llwybrau symudiad; rhyngosod; cysgodion gollwng; effeithiau; haenau; haenau addasu; masgiau; cyfuno delweddau; rhagolwg RAM; rendro; hidlyddion; cywasgu; allforio

Creu fideo cyfansawdd: haenau; defnyddiau; technegau sgrîn las a sgrîn werdd; meddalwedd creu cyfansoddion; fformatau teledu (PAL, NTSC); cyfradd fframiau; cydraniad; lliwiau; ardal ddiogel

Lle gwaith: ffenestr y prosiect; bar teitl; help; llinell amser; dewislenni; ffenestr effeithiau; gosodiadau unigryw (dewisiadau, cyffredinol, rhagolwg, arddangos)

Rheoli'r cynhyrchu: amserlennu; cadw at derfynau amser; rheoli adnoddau; gweithio'n unol â briff y cleient; cyswllt â chleientiaid; cyd-drafod â chleientiaid; rheoli ansawdd; gwaith tîm; cyflwyniadau

Arfer adfyfyriol: cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol, nodweddion esthetig, cynnwys, arddull); sgiliau cynhyrchu; cynhyrchu syniadau; cynllunio; paratoi; llyf gwaith a rheoli amser; cymhwysedd technegol; rheoli prosiect; monitro gwaith sy'n mynd rhagddo; gallu creadigol; eich gwaith eich hun; gwaith tîm; hunan-werthuso; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient; dogfennaeth, e.e. nodiadau, brasluniau, byrddau stori, logiau cynhyrchu

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio defnyddiau cyfredol graffeg symudol a chreu fideo cyfansawdd gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio defnyddiau cyfredol o graffeg symudol a fideo cyfansawdd, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 trafod yn feirniadol ddefnyddiau cyfredol graffeg symudol a fideo cyfansawdd gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynnig dilyniant graffeg symudol gwreiddiol a'i gynllunio, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC]	T2 cynnig dilyniant graffeg symudol gwreiddiol a'i gynllunio, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynnig dilyniant graffeg symudol gwreiddiol a'i gynllunio gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cynhyrchu dilyniant graffeg symudol gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [HR, DA]	T3 cynhyrchu dilyniant graffeg symudol gan weithio at safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 cynhyrchu dilyniant graffeg symudol at safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 65: Animeiddio Gwe ar gyfer Cyfryngau Rhyngweithiol

Côd yr Uned:	A/502/5661
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau ymarferol y dysgwyr wrth greu animeiddiadau rhyngweithiol a luniwyd i'w cyflwyno ar y we. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i animeiddiadau ar y we ac yn archwilio dulliau animeiddio digidol. Byddant yn dyfeisio, yn cynllunio ac yn creu animeiddiad, gan ddefnyddio technegau meddalwedd animeiddio fector i gynhyrchu cynnwys rhyngweithiol wedi ei animeiddio ar gyfer y we.

Cyflwyniad i'r uned

Mae defnyddwyr y we fyd-eang yn disgwyl cynnwys deinamig, sy'n dal eu sylw yn weledol ac sy'n llawn cyfryngau, a hynny fwyfwy. Gall hyn gael ei greu gan ddylunwyr ar ffurf animeiddiadau fector rhyngweithiol. Gellir graddio animeiddiadau o'r math hwn, felly mae modd newid eu maint yn hwylus ar gyfer cydraniad sgriniau gwahanol, o ddyfeisiau symudol i'r monitorau sydd â'r cydraniad uchaf. Maent hefyd yn ffeiliau bach eu maint, a gallant ffrydio ar draws y rhyngwrwyd hyd yn oed ar gyflymdra modem deialu, a gall holl ddefnyddwyr y rhyngwrwyd lawrlwytho chwaraeydd meddalwedd sy'n golygu bod modd edrych ar eu cynnwys. Mae'r nodweddion hyn yn golygu bod animeiddiadau fector yn ddewis poblogaidd ar gyfer cynnwys bywiog ar y we, ac mae dylunio safleoedd o'r ffath yn sector llewyrchus yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol.

Mae'r uned yn dechrau gydag ymchwiliadau i animeiddiadau ar y we, gan alluogi'r dysgwyr i ddeall defnyddiau animeiddio ar y we. Bydd yr ymchwiliadau hyn yn cwmpasu ymchwil weledol a thechnegol. Anogir y dysgwyr i edrych yn fanwl ar animeiddiadau rhyngweithiol ar y we er mwyn dadansoddi eu dyluniad a'u cynnwys. Byddant hefyd yn ymchwilio i dechnolegau cysylltiedig ag animeiddio ar y we er mwyn deall yn well sut bydd eu gwaith yn rhedeg ar y rhyngwrwyd.

Mae cynllunio prosiect animeiddio ar y we yn golygu dylunio, llunio byrddau stori a lluniadu cynnwys animeiddio. Bydd dysgwyr sy'n dilyn yr uned hon yn cael profiad o gynllunio prosiect animeiddio ar y we mewn ymateb i frîff galwedigaethol berthnasol gan gleient. Bydd y dysgwyr yn defnyddio technegau meddalwedd animeiddio fector i gynhyrchu cynnwys rhyngweithiol wedi ei animeiddio a ddyluniwyd ar gyfer ei gyflwyno ar y rhyngrwyd, a byddant yn cadw ac yn allforio'r animeiddiad hwn mewn fformat addas ar gyfer y we.

Bydd yr uned hon hefyd yn datblygu gallu'r dysgwyr i fyfyrion'n feirniadol ar eu gwaith eu hunain, gan y bydd angen y sgîl proffesiynol hwnnw arnyn nhw mewn unrhyw yrfa yn y dyfodol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall defnyddiau ac egwyddorion animeiddio ar y we
- 2 Gallu dyfeisio animeiddiad gwe
- 3 Gallu creu animeiddiad gwe gan ddilyn arfer y diwydiant.

Cynnwys yr Uned

1 Deall defnyddiau ac egwyddorion animeiddio ar y we

Defnyddiau animeiddio ar y we: baneri hysbysebu; elfennau rhyngwyneb wedi eu hanimeiddio; animeiddiadau llinol a rhyngweithiol; hyrwyddo; cyfarwydddy; gwybodaeth; adloniant

Hanes animeiddio: lluniwyd â llaw (cel); ffliclyfrau; cartŵn wedi ei animeiddio; y broses animeiddio, fformat ffeiliau gwybodaeth graffeg (gif); iaith marcio hyperdestun dynamig (dHTML); iaith marchio hypergyswllt estynadwy (XHTML); Apledi Java

Animeiddio: rhith optegol symudiad (parhad y golwg); animeiddio clai; symudiad stop; creu ar gyfrifiadur (cyfradd fframiau, fframiau, fframiau allweddol, haenau tenau iawn, creu fframiau rhyngol (tweening))

Animeiddio digidol: animeiddio fector; animeiddio raster (bitmap); cywasgu (maint y ffeil, cyflymdra lawrlwytho); graddoladwy; fformatau ffeiliau, e.e. .fla, .swf, .gif, .mng, .svg

Meddalwedd animeiddio ar y we: awduro, e.e. Flash, Swish, Amara, Director; chwaraewyr, e.e. Flash Player, Shockwave, Real Player, Quicktime

2 Gallu dyfeisio animeiddiad gwe

Symbyliad: e.e. brîff gan gleient, eich brîff eich hun, o ymchwil marchnad

Syniadau: tasgu syniadau; byrddau hwyliau; delweddu, e.e. brasluniau, byrddau stori; arddull weledol; paletau lliw; teipograffeg; seiniau; animeiddiadau; rhyngweithedd

Asedau: graffeg gwreiddiol; adnoddau llyfrgell delweddu stoc; lluniadau llaw rydd

Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol: cyfreithiol, e.e. hawlfraint, enllib; moesegol, e.e. cyfrinachedd, gwedduster, preifatrwydd; cynrychiolaeth, e.e. hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb

Manyleb animeiddiad: pwrpas (anghenion cleient, cynulleidfa darged, cynnwys, fformat cyhoeddi); ansawdd esthetig (arddull weledol, gosodiad)

3 Gallu creu animeiddiad gwe gan ddilyn arfer y diwydiant

Cynllunio: rheoli asedau (storio ac adalw ffeiliau, confensiynau enwi); llif gwaith (amserlennu, rheoli amser yn effeithlon); terfynau amser (cerrig milltir cynhyrchu, elfennau y gellir eu cyflenwi, sicrhau ansawdd)

Lle gwaith: paneli, e.e. cam, llinell amser, bar dewislen, bar offer, llyfrgell, paletau lliw, priodweddau, dewisiadau, help

Offer sylfaenol: lluniadu, e.e. pensil, llinell, pin, brwsh, siapiau; trawsnewid rhydd, e.e. troi, rhoi ar ogwydd, llurgunio, graddoli, amlen, riwl a chanllawiau; golygu, e.e. lasso, dileydd, dadwneud, copïo, pastio, dyblygu, mewnosod, dileu, alinio, grwpio, dadgrwpio

Gwrthrychau: symbolau, e.e. achosion, dyblygu symbolau, cyfnewid symbolau, golygu, grwpio

Offer lliw: e.e. nodweddion lliw, diferydd, creu lliwiau unigryw, casgliadau o liwiau, strôc a llenwi

Offer testun: testun, e.e. golygu, symud, troi, adlunio, sgrolio, creu blociau testun, trosi testun yn siapiau

Manipwleiddio gwrthrychau: manipwleiddio siapiau fector; rhyngweithio siapiau fector un haen; trawsnewid a grwpio siapiau fector

Animeiddio: label ffrâm; cyfradd fframiau; llinell amser (man chwarae (playhead), haenau, fframiau, cyfradd fframiau, fframiau allweddol, haenau tenau, marcwyr); manipwleiddio fframiau, e.e. copïo, dileu, gwyrddroi; profi ffilmiau; animeiddio fesul ffrâm; creu fframiau rhyngol (tweening) (siâp, symudiad)

Asedau: mewnforio, e.e. delweddau raster, delweddau fector, ffeiliau sain, ffeiliau fideo, clipiau ffilm; newid maint; trosi bitmap i fector; llyfrgelloedd o asedau

Offer uwch: golygfeydd; haenau tywys; masgio, e.e. haenau masgio, masgiau wedi eu hanimeiddio; effeithiau llinell amser, e.e. pylu, cysgod gollwng, ehangu, ffrwydro, trawsnewid, trosi; nythu clipiau ffilm

Rhyngweithedd: sgriptio; ymddygiad; camau gweithredu; sbardunau; botymau; lluniau treigl; rheoli chwarae nôl; rhaglwythwyr

Cadw ac allforio ar gyfer y we: cadw ffilm; cyhoeddi ffilm; optimeiddio; fformatau ffeiliau; y rhesymau am y fformatau

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol, nodweddion esthetig); sgiliau cynhyrchu (cynnig syniadau, dogfennau dylunio gemau, llif gwaith a rheoli amser, cymhwysedd technegol, gwaith tîm)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio defnyddiau ac egwyddorion animeiddio ar y we gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio defnyddiau ac egwyddorion animeiddio ar y we, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 asesu'n feirniadol ddefnyddiau ac egwyddorion animeiddio ar y we, gyda dadleuon cefnogol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynnig syniadau amlinellol ar gyfer animeiddiad gwe, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T2 cynnig syniadau manwl ar gyfer animeiddiad gwe, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynnig syniadau a gafodd eu pwysu a'u mesur yn drylwyr ar gyfer animeiddiad gwe, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 creu animeiddiad gwe gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [HR, DA]	T3 creu animeiddiad gwe o safon dechnegol dda, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 creu animeiddiad gwe o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan arddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 66: Modelu 3D

Côd yr Uned:	K/600/6601
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i ddamcaniaeth a defnydd meddalwedd modelu 3D. Bydd y dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o sut caiff modelau 3D eu harddangos ar sgrîn cyfrifiadur a byddant yn ymchwilio i'r ddamcaniaeth geometrig sydd y tu ôl i waith modelu 3D. Bydd y dysgwyr yn dyfeisio ac yn creu modelau 3D ac yn myfyrio'n feirniadol ar eu gwaith eu hun.

Cyflwyniad i'r uned

Modelu 3D yw'r grefft o greu cymeriadau a gwrthrychau ar gyfer modelau 3D, gan gynnwys ffurfiau byw, golygfeydd, llystyfiant, celfi a cherbydau. Fe'i creir trwy ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol 3D. Weithiau mae modelwyr 3D hefyd yn gyfrifol am roi gwedd ar wrthrychau, cymeriadau, modelau ac eitemau, megis arwyneb waliau a lloriau adeiladau. Mae hwn yn waith manwl iawn, sy'n galw am gryn wybodaeth am oleuo, persbectif, deunyddiau ac effeithiau gweledol. Defnyddir pecynnau meddalwedd arbenigol i greu'r modelau, a rhaid i'r modelwyr bortreadu'r modelau mewn modd mor realistig â phosib, a hynny'n effeithiol ac effeithlon, gan wneud y defnydd mwyaf priodol o'r dechnoleg.

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn cael cyfle i ddefnyddio cymhwysiad meddalwedd modelu 3D i gynhyrchu modelau 3D ar gyfer golygfa. Mae cysyniadau modelu 3D yn gymhleth, ac yn yr uned hon, anogir y dysgwyr i ymchwilio i'r defnydd o fodelu 3D yn y diwydiant cyfryngau rhyngweithiol. Bydd y dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o sut caiff modelau a gyflwynir mewn 3D eu harddangos ar sgrîn cyfrifiadur. Bydd gwerthfawrogiad o'r ddamcaniaeth geometrig sy'n sail ar gyfer gwaith 3D yn helpu'r dysgwyr i ddeall yr iaith dechnegol a ddefnyddir gan fodelwyr.

Bydd dysgwyr sy'n dilyn yr uned hon yn cael cyfle i ddyfeisio a datblygu syniadau gwreiddiol trwy ddehongli briffiau creadigol ac ystyried cynulleidfaoedd targed posib. Byddant yn datblygu sgiliau wrth ddrfftio brasluniau rhagddelweddu a byrddau stori. Bydd datblygu'r sgiliau cynllunio hyn yn creu arfer o baratoi a rheoli llif gwaith a fydd yn werthfawr i unrhyw un sy'n ymuno â'r diwydiant cyfryngau rhyngweithiol.

Bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau modelu cyfrifiadurol ymarferol ac yn creu modelau 3D gan ddefnyddio ystod o dechnegau, gan gynnwys modelu a rendro blwch ac allwthiad.

Bydd yr uned hon hefyd yn datblygu gallu'r dysgwyr i fyfyrion feirniadol ar eu gwaith eu hun, gan y bydd angen y sgîl proffesiynol hwnnw arnynt mewn unrhyw yrfa yn y dyfodol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall damcaniaeth a chymwysiadau 3D
- 2 Gallu dyfeisio modelau 3D
- 3 Gallu creu modelau 3D gan ddilyn arfer y diwydiant.

Cynnwys yr Uned

1 Deall damcaniaeth a chymwysiadau 3D

Cymwysiadau 3D: e.e. modelau, dylunio cynnyrch, animeiddiadau, teledu, ffilm, y we, gemau, addysg, tywysiad pensaernïol

Arddangos animeiddiadau polygon 3D: rhyngwyneb rhaglennu cymhwysiad, e.e. Direct3D, OpenGL; piblinell graffeg, e.e. modelu, goleuo, gwyllo, taflunio, clipio, trosi sgan, creu gwead a chysgodi, arddangos; technegau rendro (trosglwyddo gwres (radiosity), olrhain pelydrau); peiriannau rendro; technegau rendro dosbarthol; goleuo; gwead; creu effaith niwlog; creu cysgodion; cysgodwyr fertecs a phicsele; lefel manylder

Damcaniaeth geometrig: fertigau; llinellau; cromlinau; ymyl; polygonau; elfen; wyneb; elfennau cysefin; rhwylliad, e.e. ffrâm weiren; geometreg cyfesurynnau (dau ddimensiwn, tri dimensiwn); arwynebau

Creu rhwyllwaith: modelu blwch; modelu allwthiad; defnyddio elfennau cysefin cyffredin, e.e. ciwbiau, pyramidiau, silindrau, sfferau

Meddalwedd datblygu 3D: meddalwedd, e.e. 3D Studio Max, Maya, Lightwave, AutoCAD, Cinema 4D, Softimage|XSI; fformatau ffeiliau, e.e. 3ds, .mb, .lwo, .C4d, .dxf, .obj; elfennau ategol

Cyfyngiadau: cyfrif polygonau; maint y ffeil; amser rendro

2 Gallu dyfeisio modelau 3D

Symbyliad: e.e. brîff gan gleient, eich brîff eich hun, o ymchwil marchnad

Syniadau: tasgu syniadau; brasluniau; rhagddelweddu (lluniadau cysyniadol, byrddau stori, diagramau lefel, darluniadau pensaernïol 2D a 3D)

Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol: cyfreithiol, e.e. hawlfraint; moesegol, e.e. cyfrinachedd, gwedduster; cynrychiolaeth, e.e. hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb

Manyleb: cynulleidfa darged; themâu gweledol allweddol; byrddau stori; cyfyngiadau, e.e. nifer y polygonau, cydraniad delweddau, maint yr allbwn, y math o ffeiliau, maint y ffeiliau

3 Gallu creu modelau 3D gan ddilyn arfer y diwydiant

Rhyngwyneb meddalwedd datblygu: ffeiliau, e.e. llwytho, priodweddau, cyfuno, disodli, mewnfario, cadw; pyrth gweld, e.e. cyflunio pyrth gweld, rheoli pyrth gweld; paneli gorchymyn; llwybrau byr ar y bysellfwrdd; paletau sy'n arnofio; creu rhyngwyneb unigryw; bariau offer sy'n arnofio; unedau lluniadu; cymhorthion lluniadu (haenau, gridiau, snap); confensiynau enwi gwrthrychau

Modelau geometrig a thestun: modelau, e.e. blwch, tiwb, plân, sffêr, disg, côn, silindr, pyramid; testun 3D

Creu a golygu rhwyllwaith: fertigau (ychwanegu, golygu, dileu); polygonau, e.e. planol, amhlanol

Modelu: haenau; addasu (symud, troi, ymestyn, dadffurfio); estyn (befel, allwthiad, turn); cyfuno (Boolean, Patch); dyblygu (drych, arae, clôn); modelu organig, e.e. arwynebu is-rannu, mapiau pwysiad, lefel manylder; nwrbau, e.e. modelu perthnasol, cromlinau, fertigau rheoli, cyfesuryddion UV, arwynebau, allwthiadau, ysgubiadau, tynnu croen,ocio, ffiledi, brasamcanu arwyneb

Camera rhithwir: cysyniadau, e.e. hyd y lens, maes y gweld (FOV), ffocws ac agoriad, dyfnder maes; camerâu, e.e. creu camera, creu golygfa camera; paramedrau camera; y math o gamera, e.e. targed, rhydd; trosi o elfennau cyfatebol byd go iawn (yn enwedig yng ngoleuni ffotograffiaeth ddigidol a defnydd o synwryddion llai)

Goleuo: mathau o olau (amgylchynol, pell, ardal, sbot, pwynt, llinol, ffotometrigr, olrhain pelydrau); rheoli goleuadau ac effeithiau, e.e. taflunydd; gwanhau; lliw; cysgodion; atmosfferig, e.e. cymylau, mwg, tân; folwmetrig, e.e. niwl, tARTH

Nodweddion gwead: creu gweadau; llwytho; cymhwyso gweadau i wrthrychau; golygydd deunyddiau; mapio deunyddiau; addaswyr deunyddiau; mathau o ddeunydd, e.e. bitmap, gweithdrefnol

Rendro: rendro golygfa, e.e. mesurau rheoli rendro, opsiynau rendro, maint yr allbwn a'r gymhareb agwedd, ffrâm ddiogel, y math o ffeil, maint y ffeil; cydraniad delwedd, e.e. teledu, ffilm, y we, pen desg, fformatau delweddau, cywasgu

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol, nodweddion esthetig); sgiliau cynhyrchu (cynhyrchu syniadau, manyleb graffeg, llif gwaith a rheoli amser, gallu technegol, gwaith tîm)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 crynhoi'n gywir ddamcaniaeth a chymwysiadau 3D, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio damcaniaeth a chymwysiadau 3D, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohoni, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drwyadl ddamcaniaeth a chymwysiadau 3D, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynnig syniadau amlinellol ar gyfer modelau 3D, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T2 cynnig syniadau manwl ar gyfer modelau 3D, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynnig syniadau sydd wedi cael eu pwyso a'u mesur yn drwyadl ar gyfer modelau 3D, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 creu modelau 3D gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol a chan dderbyn peth cymorth. [MC, HR, DA]	T3 creu modelau 3D o safon dechnegol dda gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 creu modelau 3D o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 67: Animeiddio 3D

Côd yr Uned:	H/502/5668
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i ddamcaniaeth a defnydd meddalwedd animeiddio 3D. Bydd y dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o sut caiff animeiddiadau 3D eu harddangos ar sgrîn cyfrifiadur ac yn ymchwilio i'r ddamcaniaeth geometrig sy'n sail ar gyfer gwaith animeiddio 3D. Bydd y dysgwyr yn cynllunio ac yn cynhyrchu golygfa 3D wedi ei hanimeiddio, ac yn myfrio'n feirniadol ar eu gwaith eu hun.

Cyflwyniad i'r uned

Animeiddio 3D yw'r grefft o greu delweddau symudol trwy gyfrwng graffeg cyfrifiadurol 3D. Weithiau y llwyfan ar gyfer yr animeiddiad yw'r cyfrifiadur ei hun, dro arall mae'n gyfrwng gwahanol, megis ffilm. Cyfeirir at yr animeiddiadau hyn fel 'delweddau a gynhyrchir â chyfrifiadur' (CGI) Mae animeiddwyr 3D yn gyfrifol am bortreadu symudiad ac ymddygiad. Yn fwyaf aml gwneir hyn er mwyn dod â chymeriadau a chreaduriaid yn fyw, ond weithiau cymhwysir animeiddio i elfennau eraill megis gwrthrychau, golygfeydd, llystyfiant ac effeithiau amgylcheddol. Defnyddir pecynnau meddalwedd arbenigol i greu'r animeiddiadau, a bydd yr animeiddwyr yn portreadu symudiad ac ymddygiad mewn modd effeithiol ac effeithlon sy'n gwneud y defnydd gorau o'r dechnoleg hon. Byddant yn mwyafu'r cyfleoedd i fod yn rhyngweithiol yn ôl y llwyfan y lluniwyd yr animeiddiad ar ei gyfer.

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn cael cyfle i ddefnyddio cymhwysiad meddalwedd animeiddio 3D i gynhyrchu golygfa animeiddio 3D. Mae cysyniadau animeiddio 3D yn gymhleth, ac yn yr uned hon anogir y dysgwyr i ymchwilio i ddefnydd animeiddio 3D yn niwydiannau'r cyfryngau rhyngweithiol a gemau cyfrifiadur. Bydd y dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o sut caiff animeiddio 3D ei arddangos ar sgrîn cyfrifiadur. Bydd gwerthfawrogiad o'r ddamcaniaeth geometrig sy'n sail ar gyfer gwaith 3D yn helpu'r dysgwyr i ddeall yr iaith dechnegol a ddefnyddir gan animeiddwyr.

Bydd dysgwyr sy'n dilyn yr uned hon yn cael cyfle i ddyfeisio a datblygu syniadau gwreiddiol trwy ddehongli briffiau creadigol ac ystyried cynulleidfaoedd targed posib. Bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau o ran drafftio brasluniau rhagddelweddu a byrddau stori. Bydd datblygu'r sgiliau cynllunio hyn yn creu arfer paratoi a rheoli llif gwaith a fydd o werth i unrhyw un sy'n ymuno â diwydiant y cyfryngau rhyngweithiol.

Trwy astudio'r uned hon, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau animeiddio cyfrifiadurol ymarferol ac yn creu animeiddio 3D gan ddefnyddio ystod o dechnegau, gan gynnwys animeiddio fframiau allweddol a rendro.

Bydd yr uned hon hefyd yn datblygu gallu'r dysgwyr i fyfyrion feirniadol ar eu gwaith eu hun, gan y bydd angen y sgîl proffesiynol hwnnw arnynt mewn unrhyw yrfa yn y dyfodol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall damcaniaeth a chymwysiadau 3D
- 2 Gallu dyfeisio animeiddiad 3D
- 3 Gallu creu animeiddiad 3D gan ddilyn arfer y diwydiant.

Cynnwys yr Uned

1 Deall damcaniaeth a chymwysiadau 3D

Cymwysiadau 3D: e.e. amgylcheddau, modelau, dylunio cynnyrch, animeiddiadau, teledu, ffilm, y we, gemau, addysg, tywysiad pensaernïol

Arddangos animeiddiadau polygonau 3D: rhyngwyneb rhaglennu cymhwysiad, e.e. Direct3D, OpenGL; piblinell graffeg, e.e. modelu, goleuo, gwylio, taflunio, clipio, trosi sgan, creu gwedd a chysgodi, arddangos; technegau rendro (trosglwyddo gwres (radiosity), olrhain pelydrau); peiriannau rendro; technegau rendro wedi ei ddsbarthu; goleuo; gweddau; pylu; cysgodi; cysgodwyr fertecs a phicseil; lefel manylder

Damcaniaeth geometrig: fertigau; llinellau; cromlinau; ymyl; polygonau; elfen; wyneb; elfennau cysefin; rhwylliad, e.e. ffrâm weiren; geometreg cyfesurynnau (dau ddimensiwn, tri dimensiwn); arwynebau

Creu rhwyllwaith: modelu blwch; modelu allwthiad; defnyddio elfennau cysefin cyffredin, e.e. ciwbiau, pyramidiau, silindrau, sfferau

Meddalwedd datblygu 3D: meddalwedd, e.e. 3D Studio Max, Maya, Lightwave, AutoCAD, Cinema 4D, Softimage|XSI; fformatau ffeiliau, e.e. 3ds, .mb, .lwo, .C4d, .dxf, .obj; elfennau ategol

Cyfyngiadau: nifer y polygonau; maint y ffeil; amser rendro

2 Gallu dyfeisio animeiddiad 3D

Symbyliad: e.e. brîff gan gleient, eich brîff eich hun, o ymchwil marchnad

Syniadau: tasgu syniadau; brasluniau; rhagddelweddu (lluniadau cysyniadol, byrddau stori)

Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol: cyfreithiol, e.e. hawlfraint; moesegol, e.e. cyfrinachedd, gwedduster; cynrychiolaeth, e.e. hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb

Manyleb: cynulleidfa darged; themâu gweledol allweddol; byrddau stori; cyfyngiadau, e.e. nifer y polygonau, cydraniad delweddau, cyfradd y fframiau, maint yr allbwn a'r gymhareb agwedd, y math o ffeil, maint y ffeil

3 Gallu creu animeiddiad 3D gan ddilyn arfer y diwydiant

Cynllunio: rheoli asedau (storio ac adalw ffeiliau, confensiynau enwi); llif gwaith (amserlennu, rheoli amser yn effeithlon); terfynau amser (cerrig milltir cynhyrchu, elfennau y gellir eu cyflenwi, sicrhau ansawdd)

Rhyngwyneb meddalwedd: ffeiliau, e.e. llwytho, priodweddau, cyfuno, disodli, mewnforio, cadw, creu copiâu wrth gefn a chadw'n awtomatig; pyrth golwg, e.e. cyflunio pyrth golwg, mesurau rheoli pyrth golwg; lle gwaith, e.e. paneli gorchymyn, paletau a bariau offer sy'n arnofio, cymhorthion lluniadu; mesurau rheoli animeiddio, e.e. amser, trafllwybrau, pwyntiau cylchdroi, cinemateg blaen, cinemateg gwrthdro, morffio, effeithiau, fframiau allweddol a chwarae yn ôl

Animeiddio: haenau; confensiynau enwi gwrthrychau; offer, e.e. symud, estyn, troi pwyntiau cylchdro, cysylltu, cinemateg, ysgerbydau, llurguniadau, croen, systemau gronynnau, ffiseg byd go iawn

Technegau animeiddio: seiliedig ar amser (animeiddio â fframiau allweddol); rheoli symud; cinemateg (gwrthdro, blaen); llwyfannu'r animeiddio, e.e. goleuadau, camerâu, cynhaliaeth, treipodau; deudroed; llurguniadau; llwybrau/taflwybrau; effeithiau, e.e. pylu symud, tywyniad, systemau gronynnol, ffiseg byd go iawn; hierarchaeth gwrthrychau; etifeddiaeth a pherthynas rhiant a phlentyn

Y broses animeiddio: animeiddio, e.e. gwrthrychau, goleuadau, camerâu, gwadau, morffau a thrawsnewidiadau

Camera rhithwir: camerâu, e.e. targed, rhydd, golygfa'r camera; paramedrau camera, e.e. hyd y lens, maes y gweld (FOV), ffocws, agorfa dyfnder maes; animeiddio camera

Technegau goleuo: mathau o olau (amgylchynol, pell, ardal, sbot, pwynt, llinol, ffotometrig, olrhain pelydrau; mesurau rheoli ac effeithiau goleuo, e.e. taflunio, gwanhau, lliw, cysgodion; atmosfferig, e.e. cymylau, mwg, tân; folwmetrig, e.e. niwl, tARTH

Technegau creu gwad: y broses o greu gwad, e.e. creu, llwytho gwadau, cymhwyso gwadau; defnyddio deunyddiau, e.e. golygydd deunyddiau, mapio deunyddiau, addaswyr deunyddiau; mathau o ddeunyddiau, e.e. bitmap, gweithdrefnol, defnyddio ffeiliau fideo avi fel gwad

Rendro: rendro golygfa, e.e. mesurau rheoli rendro, opsiynau rendro, maint yr allbwn a'r gymhareb agwedd, ffrâm ddiogel, y math o ffeil, maint y ffeil; cydraniad delweddau, e.e. teledu, ffilm, gêm, y we

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol, nodweddion esthetig); sgiliau cynhyrchu (cynhyrchu syniadau, manyleb animeiddio, llif gwaith a rheoli amser, gallu technegol, gwaith tîm)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 crynhoi'n gywir ddamcaniaeth a chymwysiadau 3D, gan ddefnyddio peth o derminoleg y pwnc yn briodol	T1 esbonio damcaniaeth a chymwysiadau 3D, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohoni, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drwyadl ddamcaniaeth a chymwysiadau 3D, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynnig syniadau amlinellol ar gyfer animeiddiad 3D, gan weithio oddi mewn i'r confensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T2 cynnig syniadau manwl ar gyfer animeiddiad 3D, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynnig syniadau sydd wedi eu pwyso a'u mesur yn drylwyr ar gyfer animeiddiad 3D, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 creu animeiddiad 3D gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC, HR, DA]	T3 creu animeiddiad 3D o safon dechnegol dda gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 creu animeiddiad 3D o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 68: Amgylcheddau 3D

Côd yr Uned:	A/600/6599
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i ddamcaniaeth a defnydd meddalwedd amgylchedd 3D. Bydd y dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o sut caiff amgylcheddau 3D eu harddangos ar sgrîn cyfrifiadur ac yn ymchwilio i'r ddamcaniaeth geometrig sy'n sail ar gyfer gwaith amgylchedd 3D. Bydd y dysgwyr yn dyfeisio ac yn creu golygfa amgylchedd 3D ac yn myfyrio'n feirniadol ar eu gwaith eu hun.

Cyflwyniad i'r uned

Mae artistiaid amgylcheddau 3D yn creu amgylcheddau 3D ar gyfer tywysiadau pensaernïol, rhaglenni teledu, ffilmiau, gwefannau a gemau. Mae'r golygfeydd a greir gan yr artistiaid hyn yn cynnwys, er enghraifft, adeiladau, llystyfiant a chelfi a gynhyrchwyd gan gyfrifiaduron sy'n defnyddio meddalwedd cymhwysiadau 3D. Artistiaid amgylcheddau 3D sy'n gyfrifol am gymhwyso gweadau i wrthrychau ac eitemau yn yr amgylchedd, megis arwynebau waliau a lloriau adeiladau. Mae hwn yn faes gwaith lle mae angen sgiliau datblygedig, ac mae angen gwybodaeth a dealltwriaeth sylweddol o oleuo, persbectif, deunyddiau, damcaniaeth lliw ac effeithiau gweledol. Defnyddir pecynnau meddalwedd arbenigol i greu'r amgylcheddau, a rhaid i'r artistiaid bortreadu'r amgylcheddau mewn modd mor realistig â phosib, mewn ffordd effeithiol ac effeithlon sy'n gwneud y defnydd gorau o'r dechnoleg.

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ddefnyddio cymhwysiad meddalwedd 3D i gynhyrchu golygfa 3D o amgylchedd. Mae hon yn broses gymhleth, ac anogir y dysgwyr i ymchwilio i gysyniadau a defnydd amgylcheddau 3D yn niwydiant y cyfryngau rhyngweithiol. Bydd y dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o sut caiff amgylcheddau 3D a rendrwyd eu harddangos ar sgrîn cyfrifiadur. Bydd gwerthfawrogiad o'r ddamcaniaeth geometrig sy'n sail ar gyfer gwaith 3D yn helpu'r dysgwyr i ddeall yr iaith dechnegol a ddefnyddir gan artistiaid amgylchedd.

Trwy ddilyn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau cyfrifiadurol ymarferol a fydd yn eu galluogi i greu amgylcheddau 3D gwreiddiol gan ddefnyddio ystod o dechnegau, yn cynnwys goleuo, creu gwead a rendro. Byddant yn cael cyfle i ddyfeisio a datblygu syniadau gwreiddiol trwy ddehongli briffiau creadigol ar gyfer cynulleidfaoedd targed posib, a byddant yn datblygu sgiliau paratoi megis drafftio brasluniau rhagddelweddu a byrddau stori.

Bydd yr uned hon yn datblygu gallu'r dysgwyr i adfyfrio'n feirniadol ar eu gwaith eu hunain, gan y bydd angen y sgîl proffesiynol hwn arnynt mewn unrhyw yrfa yn y dyfodol. Mae cynllunio a hunanwerthuso hefyd yn sgiliau proffesiynol a bydd eu datblygu yn creu arfer o baratoi a rheoli llif gwaith a fydd o werth i unrhyw un sy'n ymuno â diwydiant y cyfryngau rhyngweithiol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall damcaniaeth a chymwysiadau 3D
- 2 Gallu dyfeisio amgylchedd 3D
- 3 Gallu creu amgylchedd 3D gan ddilyn arfer y diwydiant.

Cynnwys yr Uned

1 Deall damcaniaeth a chymwysiadau 3D

Cymwysiadau 3D: e.e. amgylcheddau, modelau, dylunio cynnyrch, teledu, ffilm, y we, gemau, addysg, tywysiad pensaernïol

Arddangos amgylcheddau polygon 3D: rhyngwyneb rhaglennu cymhwysiad, e.e. Direct3D, OpenGL; piblinell graffeg, e.e. modelu, goleuo, gwyllo, taflunio, clipio, trosi sgan, creu gwead a chysgodi, arddangos; technegau rendro (trosglwyddo gwres (radiosity), olrhain pelydrau); peiriannau rendro; technegau rendro wedi ei ddsbarthu; goleuo; gweadau; pylu; cysgodi; cysgodwyr fertecs a phicsel; lefel y manylder

Damcaniaeth geometrig: fertigau; llinellau; cromlinau; ymyl; polygonau; elfen; wyneb; elfennau cysefin; rhwylliad, e.e. ffrâm weiren; geometreg cyfesurynnau (dau ddimensiwn, tri dimensiwn); arwynebau

Creu rhwyllwaith: modelu blwch; modelu allwthiad; defnyddio elfennau cysefin cyffredin, e.e. ciwbiau, pyramidiau, silindrau, sfferau

Meddalwedd datblygu 3D: meddalwedd, e.e. 3D Studio Max, Maya, Lightwave, AutoCAD, Cinema 4D, Softimage|XSI; fformatau ffeiliau, e.e. 3ds, .mb, .lwo, .C4d, .dxf, .obj; elfennau ategol

Cyfyngiadau: nifer y polygonau; maint y ffeil; amser rendro

2 Gallu dyfeisio amgylchedd 3D

Symbyliad: e.e. brîff gan gleient, eich brîff eich hun, o ymchwil marchnad

Syniadau: tasgu syniadau; brasluniau; rhagddelweddu (lluniadau cysyniadol, byrddau stori, diagramau lefel, darluniadau pensaernïol 2D a 3D)

Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol: cyfreithiol, e.e. hawlfraint; moesegol, e.e. cyfrinachedd, gwedduster; cynrychiolaeth, e.e. hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb

Manyleb: cynulleidfa darged; themâu gweledol allweddol; byrddau stori; cyfyngiadau, e.e. nifer y polygonau, cydraniad delweddu, maint yr allbwn, y math o ffeiliau, maint y ffeiliau

3 Gallu creu amgylchedd 3D gan ddilyn arfer y diwydiant

Cynllunio: rheoli asedau (storio ac adalw ffeiliau, confensiynau enwi); llif gwaith (amserlennu, rheoli amser yn effeithlon); terfynau amser (cerrig milltir cynhyrchu, elfennau y gellir eu cyflenwi, sicrhau ansawdd)

Rhyngwyneb meddalwedd: ffeiliau, e.e. llwytho, priodweddau, cyfuno, disodli, mewnforio, cadw, creu copiâu wrth gefn a chadw'n awtomatig; pyrth gweld, e.e. cyflunio pyrth gweld, rheoli pyrth gweld; paneli gorchmynion; llwybrau byr ar y bysellfwrdd; paletau sy'n arnofio; creu rhyngwyneb unigryw; bariau offer sy'n arnofio; unedau lluniadu; cymhorthion lluniadu (haenau, gridiau, snap); confensiynau enwi gwrthrychau

Camera rhithwir: cysyniadau, e.e. hyd y lens, maes y gweld (FOV), ffocws ac agoriad, dyfnder maes; symudiad y camera; camerâu, e.e. creu camera, creu golygfa o gamera; paramedrau camera; y math o gamera, e.e. targed, rhydd

Technegau goleuo: mathau o olau (amgylchynol, pell, ardal, sbot, pwynt, llinol, ffotometrigrig, olrhain pelydrau; mesurau rheoli ac effeithiau goleuo, e.e. taflunio, gwanhau, lliw, cysgodion; atmosfferigrig, e.e. cymylau, mwg, tân; folwmetrigrig, e.e. niwl, tARTH

Technegau creu gwedd: y broses o greu gwedd, e.e. creu, llwytho gweddau, cymhwyso gweddau; defnyddio deunyddiau, e.e. golygydd deunyddiau, mapio deunyddiau, addaswyr deunyddiau; mathau o ddeunyddiau, e.e. bitmap, gweithdrefnol, defnyddio ffeiliau fideo avi fel gwedd

Rendro: rendro golygfa, e.e. mesurau rheoli rendro, opsiynau rendro, maint yr allbwn a'r gymhareb agwedd, ffrâm ddiogel, y math o ffeil, maint y ffeil; cydraniad delweddau, e.e. teledu, ffilm, y we

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol, nodweddion esthetigrig); sgiliau cynhyrchu (cynhyrchu syniadau, manyleb yr amgylchedd, llif gwaith a rheoli amser, gallu technegol, gwaith tîm)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 crynhoi'n gywir ddamcaniaeth a chymwysiadau 3D, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio damcaniaeth a chymwysiadau 3D, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drwyadl ddamcaniaeth a chymwysiadau 3D, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynnig syniadau amlinellol ar gyfer amgylchedd 3D, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T2 cynnig syniadau manwl ar gyfer amgylchedd 3D, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynnig syniadau sydd wedi eu pwyso a'u mesur yn drylwyr ar gyfer amgylchedd 3D, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 creu amgylchedd 3D gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC, HR, DA]	T3 creu amgylchedd 3D o safon dechnegol dda, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 creu amgylchedd 3D o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 69: Lluniadu Celf Gysyniadol ar gyfer Gemau Cyfrifiadur

Côd yr Uned:	A/502/5675
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau ymarferol y dysgwyr wrth luniadu celfyddyd gysyniadol ar gyfer gemau. Bydd y dysgwyr yn edrych ar sut defnyddir celf gysyniadol mewn gemau cyfrifiadur ac yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau lluniadu i ddatblygu sgiliau lluniadu arsylwadol. Bydd y dysgwyr yn defnyddio'r sgiliau hyn i ddelweddu cymeriadau, gwrthrychau a lleoliadau dychmygol ar gyfer cysyniad gêm, a byddant yn myfyrio ar ansawdd eu gwaith.

Cyflwyniad i'r uned

Mae dylunio gemau'n tarddu o synfyfrio. Ond rhaid troi'r synfyfyrdodau hyn yn ddelweddu a chyfleu'r rheiny i aelodau a rheolwyr y tîm i'w datblygu ymhellach. Rydym yn byw mewn byd lle ceir delweddu ym mhobman. Mae'r diwydiant gemau yn defnyddio delweddu am lawer o resymau, o'n darbwylo i brynu'r gêm â phosteri a phecynnau sy'n tynnu'n sylw, i gyfrannu at ein helpu i gredu yn yr hyn rydyn ni'n ei weld wrth chwarae'r gêm trwy graffeg realistig. Mae'r delweddu mwyaf effeithiol yn cynnwys negeseuon lluosog a all ychwanegu at ystyr y ddelweddaeth.

Rhaid i ddylunwyr allu cyfleu eu gweledigaeth i artistiaid, rhaglenwyr, cynhyrchwyr, staff marchnata ac eraill sy'n ymwneud â'r broses ddatblygu, a derbyn adborth ar eu gwaith. I alluogi hyn, mae angen i bawb sy'n ymuno â'r diwydiant hwn feddu ar allu sylfaenol i gyfathrebu trwy luniadu. Hanfod yr uned hon yw datblygu sgiliau lluniadu i ganiatáu cyfathrebu breuddwydion datblygwr gemau yn effeithiol – delweddu cymeriadau, gwrthrychau a lleoliadau dychmygol yng nghysyniad y gêm.

Bydd yr uned hon yn rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr archwilio ymatebion gweledol i syniadau ac amgylcheddau. Bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ymarferol a dealltwriaeth o'r berthynas rhwng eu gwaith nhw a gwaith artistiaid a dylunwyr yn y diwydiant gemau. Bydd y dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o gyd-destunau hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol a'u perthnasedd wrth ddatblygu syniadau ac ymchwil.

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i ddatblygu eu sgiliau a'u gallu ym maes lluniadu arsylwadol. Mae proses gwaith arsylwadol yn cynnwys y gallu i ddadansoddi, mesur, rhannu a disgrifio'n gywir. I gyflawni hyn, bydd y dysgwr yn cael cyfleoedd i archwilio, deall a chyfleu'r hyn a welant, gan ymgorffori elfennau ffurfiol wrth luniadu i ddangos y defnydd o linell, siâp, ffurf, lliw, patrwm a gwead.

Mae'r uned yn darparu cyfle i ddatblygu sgiliau mewn cyfathrebu gweledol trwy luniadu celf gysyniadol ar gyfer gêm sy'n cyfateb i frîff. Bydd hefyd yn datblygu gallu'r dysgwyr i fyfyrion feirniadol ar eu gwaith eu hun, gan y bydd angen y sgîl hwnnw arnynt yn eu gyrfa.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall pwrpas celf gysyniadol ar gyfer gemau cyfrifiadur
- 2 Gallu archwilio posibiliadau cyfryngau lluniadu
- 3 Gallu lluniadu celf gysyniadol anatomi, amgylchedd a gwrthrychau ar gyfer gemau cyfrifiadur
- 4 Gallu cyflwyno gwaith celf cysyniadol ar gyfer gemau cyfrifiadur.

Cynnwys yr Uned

1 Deall pwrpas celf gysyniadol ar gyfer gemau cyfrifiadur

Enghreifftiau: gwefannau cyhoeddwr gemau; gwerslyfrau; cyfnodolion a chylchgronau

Diben: delweddu cysyniadau; cyfleu syniadau'n weledol, e.e. elfennau gweledol, arddull, naws, golwg, teimlad, cynlluniau lliw; byrddau stori

2 Gallu archwilio posibiliadau cyfryngau lluniadu

Archwilio: lluniadau arbrofol; anodi (priadweddau, effeithiau, cyfyngiadau, posibiliadau creadigol)

Cyfryngau lluniadu: pensiliau; siarcol; pastel; creonau cwyr; pin ac inc; pinnau marcio; offer eraill gwneud marciau

Darluniadau: darlunio bywyd (nodweddion corfforol); ffurf naturiol (patrwm, gwead, ffurf); lluniadu pensaernïol (persbectif allanol a mewnol, cynlluniau a gweddlluniau)

3 Gallu lluniadu celf gysyniadol anatomi, amgylchedd a gwrthrychau ar gyfer gemau cyfrifiadur

Diben arfaethedig: ar gyfer delweddu cyfeiriadol; ar gyfer cyfleu syniadau'n weledol

Cyfyngiadau: brîff y cleient, cynulleidfa darged; materion cyfreithiol, e.e. eiddo deallusol (IP) gwreiddiol, eiddo deallusol masnachfrait; materion moesegol, e.e. gwedduster; cynrychiolaeth, e.e. hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb

Ffynonellau syniadau: e.e. arsylwi uniongyrchol, naratif, ffotograffig, sinematig, ymchwil archwilio

Arddulliau lluniadu: arsylwi uniongyrchol; ffurf arddulliedig, e.e. cartŵn, manga

Celf gysyniadol anatomi: anatomi, e.e. cymeriadau, creaduriaid; darluniadau astudiaeth ddatblygu; darn terfynol

Celf gysyniadol amgylchedd: amgylchedd, e.e. planhigion, adeiladau, tirwedd; darluniadau astudiaeth ddatblygu; darn terfynol

Celf gysyniadol gwrthrychau: gwrthrychau, e.e. peiriannau, cerbydau, arfau; darluniadau astudiaeth ddatblygu; darn terfynol

4 Gallu cyflwyno gwaith celf cysyniadol ar gyfer gemau cyfrifiadurol

Cynllun: maint poster, e.e. i fod yn addas at y diben; patrwm, e.e. cymesuredd, fformat

Anodi darluniadau: diben; ffynonellau syniadau; sylwadau adfyfyriol (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion esthetig)

Montage poster: astudiaethau datblygu; darn terfynol; anodiadau

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio pwrpas celf gysyniadol ar gyfer gemau, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 egluro pwrpas celf gysyniadol ar gyfer gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohoni, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 gwerthuso'n feirniadol bwrpas celf gysyniadol ar gyfer gemau, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cymhwyso gwahanol gyfryngau a thechnegau lluniadu i greu cynrychiolaethau amgen, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T2 cymhwyso gwahanol gyfryngau a thechnegau lluniadu yn alluog i greu cynrychiolaethau amgen, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cymhwyso gwahanol gyfryngau a thechnegau lluniadu at safonau sydd bron yn broffesiynol i greu cynrychiolaethau amgen, gan ddangos gallu creadigol a fflach a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 lluniadu gwaith celf cysyniadol anatomi, amgylchedd a gwrthrychau ar gyfer gemau cyfrifiadur, gan ddangos safon sylfaenol o sgiliau lluniadu, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC, HR, DA]	T3 lluniadu gwaith celf cysyniadol anatomi, amgylchedd a gwrthrychau o safon dda ar gyfer gemau cyfrifiadur, gan ddangos peth dychymyg, a chan dderbyn cymorth achlysurol yn unig	Rh3 lluniadu gwaith celf cysyniadol anatomi, amgylchedd a gwrthrychau ar gyfer gemau cyfrifiadur, at safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cyflwyno gwaith celf cysyniadol o safon sylfaenol ar gyfer gemau cyfrifiadur, gyda pheth cymorth. [MC. HR]	T4 cyflwyno gwaith celf cysyniadol o safon dda ar gyfer gemau cyfrifiadur, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh4 cyflwyno gwaith celf cysyniadol o safon sydd bron yn broffesiynol ar gyfer gemau cyfrifiadur, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 70: Peiriannau Gemau Cyfrifiadur

Côd yr Uned:	M/502/5771
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth o ran credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i ddefnydd o beiriant gemau fel offeryn i gynhyrchu lefelau gemau. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i bwrpas peiriannau gemau ac yn archwilio eu prif gydrannau. Bydd y dysgwyr yn defnyddio peiriant 2D a pheiriant 3D i ddylunio a chynhyrchu bydoedd gemau.

Cyflwyniad i'r uned

Roedd y gêm enwog *Doom* yn deitl arloesol; daeth â model rhaglennu gemau newydd i fodolaeth a'i wneud yn boblogaidd, sef y 'peiriant gemau.' Roedd y cysyniad dylunio peiriant hwn, a oedd yn fodwlar ac y gellid ei estyn a'i addasu, yn caniatáu i chwaraewyr a rhaglenwyr hacio i mewn i graidd y gêm i greu gemau newydd gyda modelau, golygfeydd a seiniau newydd, neu greu addasiadau gwahanol o'r enw 'mods' i ddeunydd presennol y gêm. Mae *CounterStrike*, *Team Fortress*, *TacOps* a *Strike Force* ymhlith gemau newydd niferus a grëwyd o beiriannau gemau oedd eisoes yn bodoli, gyda'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio un o beiriannau Quake iD yn sail.

Mae'r term 'peiriant gemau' wedi dod yn rhan safonol o iaith chwaraewyr gemau. Mae angen i'r dysgwyr feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o beiriannau gemau, gan fod pob gêm yn cael ei datblygu gan ddefnyddio naill ai peiriant gemau trwyddedig neu beiriant unigryw o stiwdio. Mae'n hanfodol felly bod gan y dysgwyr wybodaeth waith ymarferol a dealltwriaeth dechnegol sylfaenol o beiriannau gemau 2D a 3D. Trwy astudio'r uned hon dylai dysgwyr fedru deall y prosesau sy'n ymwneud â chynhyrchu lefelau gemau 2D a 3D trwy ddefnyddio peiriant gemau, graffeg a'r asedau eraill y mae eu hangen yn y gêm i gynhyrchu lefel.

Bydd yr uned yn archwilio beth yn union sy'n digwydd allan o'r golwg mewn peiriant gemau i alluogi gêm i arddangos graffeg a gweadau, chwarae seiniau, rhoi deallusrwydd i gymeriadau, a sbarduno digwyddiadau yn y gêm. Bydd dysgwyr yn dod yn gyfarwydd â pheiriant gemau ac yn dod i ddeall beth sy'n ei wneud yn offeryn pwysig wrth ddatblygu gemau. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i amrywiol beiriannau gemau a systemau a ddefnyddir wrth greu gêm ryngweithiol. Byddant yn deall sut gellir defnyddio peiriannau gemau i ddatblygu gemau symudol, 2D a 3D. Bydd dysgwyr hefyd yn dangos dealltwriaeth o nodweddion peiriannau gemau, ac yn defnyddio peiriant 2D a 3D i greu byd ar gyfer pob math o gêm.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall dibenion peiriannau gemau
- 2 Deall swyddogaethau cydrannau peiriannau gemau
- 3 Gallu defnyddio peiriant gemau 2D gan ddilyn arfer y diwydiant
- 4 Gallu defnyddio peiriant gemau 3D gan ddilyn arfer y diwydiant.

Cynnwys yr Uned

1 Deall dibenion peiriannau gemau

Mathau o beiriannau gemau: peiriannau 2D; peiriannau 3D; peiriannau symudol; addasiadau (mods) i gemau

Dibenion: rendro graffeg; canfod gwrthdaro; deallusrwydd artiffisial (AI); sain; ffiseg

2 Deall swyddogaethau cydrannau peiriannau gemau

Rendro graffeg: dulliau dethol (dosrannu gofod deuol (BSP), ar sail porth, wynebu tuag yn ôl, gweld ffrwstwm, achludiad, cyfraniad); technegau rendro (trosglwyddo gwres (radiosity), olrhain pelydrau); goleuo; gweadau; pylu; cysgodi; profi dyfnder; mesurau gwrth-alias; cysgodwyr fertecs a phicsel; lefel y manylder

Systemau animeiddio: ar sail llwybr; cinemateg gwrthdro; cinemateg ymlaen; systemau gronynnol

Systemau: ffiseg; effeithiau; sain; rhwydweithio

Deallusrwydd artiffisial: asiantau AI (bots, cymeriadau heblaw chwaraewyr); llywio trwy'r byd (canfod llwybr, osgoi rhwystrau); ymddygiad; rhwydi niwral a rhesymeg niwlog

Canolwedd: cydrannau oddi ar y silff, e.e. rendro, ffiseg, AI, animeiddio, modelu, creu gwead, sain

3 Gallu defnyddio peiriant gemau 2D gan ddilyn arfer y diwydiant

Dylunio lefelau: e.e. genre, dehongli briff creadigol, creu byrddau stori, rheoli asedau, mapiau dylunio lefelau

Asedau: graffigol (corluniau, cefndiroedd, gweadau); ymddygiadol (digwyddiadau, gwrthrychau, sgriptiau); sain, e.e. effeithiau, cerddoriaeth, naws, deialog; mathau o ffeiliau, e.e. bmp, gif, tiff, jpg, wav, midi, aiff, au, smp, mp3, ra, vox

Cynhyrchu: asedau; gweithredoedd; animeiddio; byd y gêm; profi (alffa a beta, profi gan y defnyddiwr)

Cyhoeddi: elfennau gweithredadwy

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol); sgiliau cynhyrchu (dylunio lefelau, llif gwaith a rheoli amser, cymhwysedd technegol, gwaith tîm)

4 Gallu defnyddio peiriant gemau 3D gan ddilyn arfer y diwydiant

Dylunio lefelau: e.e. genre, dehongli brîff creadigol, creu byrddau stori, rheoli asedau, mapiau dylunio lefelau

Asedau: graffigol (gweadau, rhwyllwaith, modelau); digwyddiadau (sbardunau, gweithredoedd, gwrthrychau, sgriptiau); sain, e.e. effeithiau, cerddoriaeth, naws, deialog; mathau o ffeiliau, e.e. bmp, gif, tiff, jpg, wav, midi, aiff, au, smp, mp3, ra, vox

Cynhyrchu: asedau; digwyddiadau; goleuo; animeiddio; byd y gêm; profi (alfa, beta, profi gan y defnyddiwr)

Cyhoeddi: elfennau gweithredadwy

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol); sgiliau cynhyrchu (dylunio lefelau, llif gwaith a rheoli amser, cymhwysedd technegol, gwaith tîm)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio dibenion peiriannau gemau gan ddefnyddio peth o derminoleg y pwnc yn briodol	T1 esbonio dibenion peiriannau gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 rhoi esboniad trylwyr o ddibenion peiriannau gemau, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 crynhoi'n gywir swyddogaethau cydrannau peiriannau gemau, gan ddefnyddio peth o derminoleg y pwnc yn briodol	T2 esbonio cydrannau peiriannau gemau gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 rhoi esboniad trylwyr o gydrannau peiriannau gemau, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 creu byd ar gyfer gêm 2D gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR, DA]	T3 creu byd ar gyfer gêm 2D o safon dechnegol dda, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 creu byd ar gyfer gêm 2D o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI4 creu byd ar gyfer gêm 3D gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC, HR, DA]</p>	<p>T4 creu byd ar gyfer gêm 3D o safon dechnegol dda, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.</p>	<p>Rh4 creu byd ar gyfer gêm 3D o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.</p>

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 71: Dylunio Gwrthrych-Gyfeiriadol ar gyfer Gemau Cyfrifiadur

Côd yr Uned:	R/600/6656
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddeall prif gysyniadau ac egwyddorion dylunio gwrthrych-gyfeiriadol (DGG) a thechnegau modelu, a chymhwyso'r technegau hynny wrth ddylunio gemau. Byddant yn archwilio elfennau strwythurol a gweithredol dylunio gwrthrych-gyfeiriedig gyda modelu, ac yn ymchwilio i elfennau o gemau sydd eisoes yn bodoli.

Cyflwyniad i'r uned

Mae dylunio gemau yn broses gymhleth sy'n galw am lawer o unigolion sydd ag ystod eang o sgiliau. Bydd gan aelodau unigol o'r tîm sgiliau arbenigol (dylunio creadigol, rhaglennu, rheolaeth ac ati), ond bydd angen o hyd iddynt gyfathrebu'n effeithiol er mwyn cynllunio a gweithredu dyluniad gemau. Mae dull gwrthrych-gyfeiriadol o ddylunio yn fodd i rannu proses gymhleth dylunio gêm yn llawer o elfennau (neu wrthrychau) llai. Mae technegau modelu safonol megis iaith foddelu unedig (UML), sy'n defnyddio diagramau a geiriau allweddol i gynrychioli elfennau o'r gêm, yn symleiddio dealltwriaeth ac yn gwneud y broses ddylunio yn fwy effeithlon trwy ganiatáu aildefnyddio elfennau o'r gêm. Mae'r technegau modelu yn darparu rhyngwyneb ar gyfer dylunwyr creadigol (sy'n gallu mynegi eu gofynion heb orfod gwybod manylion y côd) a rhaglenwyr (sy'n gallu defnyddio'r modelau i weithredu'r côd).

Un rhan o'r broses ddylunio gyfan yw dylunio gwrthrych-gyfeiriedig, a dylid ei weld yn y cyd-destun hwnnw. Fel arfer, byddai dylunio gwrthrych-gyfeiriedig yn dechrau ar ôl cwblhau'r cam creadigol (datblygu cysyniadau a syniadau) ac yn cael ei ddefnyddio i roi cig ar yr esgyrn. Wedyn gellir defnyddio'r dull gwrthrychol i gynllunio gweithrediad manwl prosiect, er mwyn sicrhau bod cerrig milltir a pharamedrau eraill yn cael eu cyrraedd.

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o brif gysyniadau ac egwyddorion dylunio gwrthrych-gyfeiriedig a sut gellir addasu technegau modelu ar gyfer dylunio gemau. Byddant yn datblygu dealltwriaeth o elfennau strwythurol a gweithredol gyda modelu, a'r dulliau sydd ynghlwm wrthynt, trwy ymchwilio i elfennau o gêm sydd eisoes yn bodoli. Bydd y dysgwyr yn dylunio elfen gymhleth o gêm gan ddefnyddio technegau modelu gwrthrych-gyfeiriedig.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall diben dylunio gwrthrych-gyfeiriedig ar gyfer gemau
- 2 Deall elfennau dylunio gwrthrych-gyfeiriedig
- 3 Deall modelu gwrthrych-gyfeiriedig
- 4 Gallu defnyddio technegau modelu gwrthrych-gyfeiriedig i ddylunio elfen o gêm.

Cynnwys yr Uned

1 Deall diben dylunio gwrthrych-gyfeiriedig ar gyfer gemau

Cysyniadau ac egwyddorion: dealltwriaeth wedi ei symleiddio; gallu i aildddefnyddio; cynnal a chadw; effeithlonrwydd; modelu byd go iawn; cydweithio a rhannu; cyfathrebu; sicrhau ansawdd

Gwrthrychau yn y gêm: corluniau; cymeriadau; arfau; ystafelloedd; waliau; golygfeydd; achosion; gwobrau, e.e. bonysau, ychwanegu pŵer

Priodweddau gwrthrychau: lliw; maint; cyflymdra; symudiad; seiniau; iechyd; bywydau

Gweithredoedd a digwyddiadau: digwyddiadau llygoden a bysellfwrdd; creu; dinistrio; gwrthdaro; amseryddion; sgorio

Etifeddiaeth: rhiant; plentyn; ymddygiad a phriodweddau a etifeddwyd; digwyddiadau gor-redol

2 Deall elfennau dylunio gwrthrych-gyfeiriedig

Strwythurau: dosbarthiadau; gwrthrychau; enghreifftiau; cydrannau

Priodweddau: priodweddau dosbarthiadau; priodweddau enghreifftiau; etifeddiaeth (etifeddiaeth dosbarth, etifeddiaeth enghraifft)

Dulliau: pennawd dull; corff dull; mewngapsiwleiddio; priodoli gwelededd

Amryffurfedd: gorlwytho; gor-redol

Negeseua: cyfathrebu rhwng gwrthrychau; pennawd neges; corff neges

3 Deall modelu gwrthrych-gyfeiriedig

Cysyniadau iaith modelu unedig: strwythur (priodwedd, dosbarth); ymddygiad (gweithgaredd, digwyddiad, dull); perthynas (cydgrynhoad, anodiad, cyfansoddiad, dibyniaeth, cyffredinoli/etifeddiaeth)

Symbolau a nodiant iaith fodelu unedig : dosbarthiadau; perthnasoedd; cyfyngiadau; cyffredinoli

Mathau o ddiagramau iaith fodelu unedig: strwythur (dosbarth, gwrthrych); ymddygiad (siart cyflwr); rhyngweithio (cydweithio, rhyngweithio, amseru)

Modelu: model o wrthrych (diagramau dosbarth); model deinamig (diagramau dilyniant, siartiau cyflwr)

4 Gallu defnyddio technegau modelu gwrthrych-gyfeiriedig i ddylunio elfen o gêm

Elfen o gêm: gwrthrych, e.e. corlun, cymeriad, cerbyd, arf, ystafelloedd, waliau, golygfeydd

Priodweddau gwrthrych: nodweddion (lليw, gwelededd, tryloywder, maint, cyflymdra, symudiad); ymddygiad (digwyddiadau llygoden, digwyddiadau gwrthdaro, digwyddiadau bysellfwrdd)

Perthnasoedd strwythurol diagram: gwrthrychau; enghreifftiau; etifeddiaeth; cyfathrebu; negeseua

Cynnydd digwyddiad diagram: gwrthrychau; priodweddau; digwyddiadau; ymddygiad; newidynnau; negeseuon; penderfyniadau; lwpiau

Manyleb elfen o gêm: dogfennaeth, e.e. iaith fodelu unedig (UML), model deinamig, diagramau (perthnasoedd strwythurol, cynnydd digwyddiad)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio diben dylunio gwrthrych-gyfeiriedig ar gyfer gemau, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg [YA]	T1 esbonio diben dylunio gwrthrych-gyfeiriedig ar gyfer gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 rhoi esboniad trylwyr ar ddiben dylunio gwrthrych-gyfeiriedig ar gyfer gemau, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio elfennau dylunio gwrthrych-gyfeiriedig gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T2 esbonio elfennau dylunio gwrthrych-gyfeiriedig gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 asesu'n feirniadol elfennau dylunio gwrthrych-gyfeiriedig, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 adolygu modelu gwrthrych-gyfeiriedig gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T3 esbonio modelu gwrthrych-gyfeiriedig gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohono, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh3 gwerthuso modelu gwrthrych-gyfeiriadol yn feirniadol, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI4 cymhwyso technegau modelu gwrthrych-gyfeiriedig i ddylunio elfen o gêm gyda pheth cymorth. [MC, HR]	T4 cymhwyso technegau modelu gwrthrych-gyfeiriedig i ddylunio elfen o gêm sydd o safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh4 cymhwyso technegau modelu gwrthrych-gyfeiriedig i ddylunio elfen o gêm o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 72: Dylunio Gemau Cyfrifiadur

Côd yr Uned:	H/502/5671
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr ddealltwriaeth o egwyddorion gwaelodol dylunio gemau. Bydd y dysgwyr yn edrych ar arddull weledol a dull y chwarae mewn gemau, trwy fynd ati i'w chwarae mewn modd strwythuredig. Byddant yn cynhyrchu syniadau ar gyfer dylunio gemau ac yn dysgu am ddogfennau ffurfiol cychwynnol a'u paratoi i gyfleu'r syniadau hyn.

Cyflwyniad i'r uned

Mae dylunio gemau'n tarddu o synfyfyrto. Ond rhaid cyfleu'r synfyfyrdodau hyn i aelodau'r tîm, rheolwyr a chefnogwyr ariannol. Wedyn rhaid eu datblygu a sicrhau dogfennaeth ar eu cyfer i eraill eu rhoi ar waith, ac mae hynny'n galw am ymdrin â rhai gwirioneddau heriol. Rhaid ystyried cael hyd i'r nodweddion unigryw a fydd yn eu gwneud yn deitlau ar y brig, sy'n braf i'w chwarae. Rhaid cofnodi pob syniad i ddarparu man cychwyn a chyfeirbwynt y gall entrepreneuriaid ei ddefnyddio i ddod i benderfyniad ar y risg fyddai ynghlwm wrth fuddsoddi yn natblygiad y gêm.

Nod yr uned yw rhoi i'r dysgwyr ddealltwriaeth o egwyddorion gwaelodol dylunio gemau, sy'n diffinio sut mae gemau'n gweithio. Rhaid i ddysgwyr werthfawrogi'r nodweddion allweddol hyn mewn gemau cyn eu cymhwyso i'w syniadau eu hunain ar gyfer gemau.

Mae cynnig syniadau yn elfen angenrheidiol iawn o ddatblygiad cychwynnol pob gêm. Ar ôl cyflawni'r uned, bydd y dysgwyr yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch cynulleidfaoedd posib a chanfod ffynonellau posib ar gyfer syniadau. Byddant yn cael cyfle i ymarfer dulliau o ysgogi a chipio'r hyn maent yn ei ddychmygu, a chymharu eu syniadau â theitlau sydd eisoes yn bodoli.

Gan ddefnyddio dogfennaeth fwy ffurfiol, mae stiwdios gemau yn cofnodi a chyfleu'r cysyniadau maent yn gobeithio eu datblygu. Mae'r ddogfen sy'n cynnig dyluniad ffurfiol (neu 'driniaeth') yn dod yn offeryn cychwynnol i ysbrydoli timau datblygu, ac yn cyflwyno dyheadau cychwynnol y dylunydd a'i weledigaeth ar gyfer y cynnyrch gorffenedig. Mae cofnodi a datblygu'r breuddwydion a'r syniadau cychwynnol hyn yn systemataidd yn caniatáu ystyried a chymhwyso egwyddorion dylunio gemau.

Mae 'pitsh' llawer byrrach neu ddogfen 'cysyniad uchel' un dudalen yn hysbysebu syniad y gêm newydd, ac yn cael ei ddefnyddio fel rhagflas i greu awydd a sicrhau gwahoddiad i ddatblygu'r ddogfen driniaeth. Bydd yr uned hon yn cyflwyno'r dysgwyr i'r dogfennau cysyniad uchel a thriniaeth.

Mae datblygu gemau modern yn cynnwys y byd ariannol i ddarparu cefnogaeth i entrepreneuriaid, fel bod modd i syniadau petrus ddod yn deitlau ar silffoedd mewn siopau. Rhaid darbwylo'r cefnogwyr ariannol hyn bod peth siawns y bydd y risg a gymerant yn dychwelyd eu buddsoddiad. Mae'r uned hon yn gyfle i ddatblygu sgiliau ar gyfer y pitsho hollbwysig i sicrhau'r contract cychwynnol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall egwyddorion dylunio gemau
- 2 Gallu cynnig syniadau ar gyfer cysyniad gêm
- 3 Gallu paratoi dogfennaeth dylunio gemau
- 4 Gallu cyflwyno cysyniad gêm i randdeiliaid.

Cynnwys yr Uned

1 Deall egwyddorion dylunio gemau

Arddull weledol: byd (tirwedd, pensaernïaeth, gwrthrychau); cymeriadau; cymeriadau nad ydynt yn chwarae (NPC); rhyngwyneb adborth; persbectif (2D, 3D, person cyntaf, trydydd person, sgrolio, o'r awyr, ymateb i'r cyd-destun); fideo symudiad llawn (FMV)

Chwarae'r gêm: model rhyngweithio, e.e. afatar, elfen hollbresennol; chwaraewr unigol; chwaraewyr lluosog; naratif; cyd-destun y gêm, e.e. ffisegol, amserol, amgylcheddol, emosiynol, moesegol; nodau; heriau; gwobrau; gweithredoedd chwaraewyr; rheolau; anhawster; mecaneg y gêm (rhestr eiddo, sgorio, amod ennill); cydbwysedd; adborth; strwythur y gêm (siart llif); mynd yn gaeth

2 Gallu cynnig syniadau ar gyfer cysyniad gêm

Symbyliad: briff (eiddo deallusol gwreiddiol (IP), IP masnachfaint)

Genre: chwaraeon; antur; gweithredu; efelychu; strategaeth; pos; chwarae rôl; rheoli; addysgol ('difrifol'); marchnata firaol

Ymchwil marchnad: cynulleidfa (oed, rhyw, craidd, achlysurol, cymunedau chwarae gemau, genre y gêm a ffafrir); gemau tebyg sydd eisoes ar y farchnad

Llwyfan targed: cyfrifiadur pen desg; consol; dyfais symudol; teledu; ar-lein

Syniadau: tasgu syniadau; chwarae'r gêm; arddull weledol; byrddau hwyliau; byrddau stori; celf gysyniadol

3 Gallu paratoi dogfennau dylunio gêm

Diben dogfennau dylunio: cysyniad lefel uchel (pwynt gwerthu unigol (USP), pitsh gwerthu un llinell); triniaeth y gêm (dogfen gysyniadol); dogfen ddylunio

Cynllun y ddogfen: teitl; fformat; genre; ymchwil marchnad; cynulleidfa; iaith; tiriogaethau; cynnwys, e.e. trosolwg, amcan, thema, strwythur, nodweddion, cymeriadau, mecaneg, stori, amgylchedd

Cynhyrchu dogfen: strwythur; arddull ysgrifennu, e.e. iaith broffesiynol, llais ail person; cynnwys graffeg dethol; arddull gyflwyno, e.e. prosesu geiriau, gwirio sillafu, prawfddarllen, cadw, creu fersiynau, copïau wrth gefn

4 Gallu cyflwyno cysyniad gêm i randdeiliaid

Cyflwyniad: fformat, e.e. geiriol, unigol, grŵp, clyweledol; sgiliau cyfathrebu (egllurder mynegiant llafar, arddull weledol)

Rhanddeiliaid: e.e. cyfalafwyr menter, deiliaid masnachfaint, cyhoeddwyr, cynhyrchwyr, aelodau'r tîm dylunio

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio arddull weledol ac elfennau chwarae'r gêm a ddefnyddir wrth ddylunio gêm, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio arddull weledol ac elfennau chwarae'r gêm a ddefnyddir wrth ddylunio gêm, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 gwerthuso'n feirniadol arddull weledol ac elfennau chwarae'r gêm a ddefnyddir wrth ddylunio gêm, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynnig syniadau amlinellol ar gyfer cysyniad gêm, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol [MC]	T2 cynnig syniadau manwl ar gyfer cysyniad gêm, gan ddangos peth dychymyg	Rh2 cynnig syniadau a gafodd eu pwysu a'u mesur yn drylwyr ar gyfer cysyniad gêm, gan ddangos gallu creadigol a fflach
LI3 paratoi dogfennau dylunio ar gyfer gêm gyda pheth cymorth [HR]	T3 paratoi dogfennau dylunio o safon dechnegol dda, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 paratoi dogfennau dylunio o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI4 cyflwyno cysyniad gêm i randdeiliaid, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [HR]	T4 cyflwyno cysyniad gêm i randdeiliaid yn alluog, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd.	Rh4 cyflwyno cysyniad gêm o safon sydd bron yn broffesiynol i randdeiliaid, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 73: Sain ar gyfer Gemau Cyfrifiadur

Côd yr Uned:	L/502/5776
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i sut caiff sain ei ddylunio a'i gynhyrchu ar gyfer gemau. Bydd dysgwyr yn ymchwilio i ddefnydd sain a cherddoriaeth mewn gemau ac yn archwilio dulliau o gynhyrchu sain. Bydd y dysgwyr yn dylunio ac yn cynhyrchu seiniau gwreiddiol priodol ar gyfer gêm ac yn integreiddio'r rhain a chynnwys awdio safonol i un o olygfeydd y gêm.

Cyflwyniad i'r uned

Gall y diwydiant gemau fod yn lle cyffrous a deinamig iawn ar gyfer cerddorion a dylunwyr sain. Mae gemau fideo wedi dod yn ffordd newydd o adrodd storïau, ac mae awdio gemau yn rhan hanfodol o hynny. Diben awdio gemau yw gyrru'r gweithredu. Trwy sain a cherddoriaeth, gall gêm drochi chwaraewr yn llwyr mewn bydysawd neu realiti arall. Yr unig gyfyngiadau ar ryddid creadigol i fanipwleiddio hwyliu ac amgylcheddau yw galluoedd technegol y peiriant a dychymyg y cyfansoddwr. Er ei fod yn rhyddhau yn greadigol, gall awdio gemau rhyngweithiol ofyn llawer yn dechnegol yn ogystal. Gall dylunio awdio a chyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer gemau yn aml fod yn llawer mwy heriol na dylunio ar gyfer ffilmiau.

Mae technoleg gemau yn newid yn barhaus, a chyda phob datblygiad newydd, mae pob gêm newydd yn ceisio rhagori ar berfformiad y gêm flaenorol. Wrth i dechnoleg wella, bydd pob gêm newydd yn ceisio gweithredu ffyrdd newydd o gyflymu gemau, a'u gwneud yn fwy ac yn fwy swnllyd nag o'r blaen; mae hynny'n golygu addasu'n barhaus i dechnegau newydd o gynhyrchu sain a cherddoriaeth ar gyfer gemau. Mae trac sain gemau yn dod yn debyg i gerddoriaeth ffilmiau yn yr ystyr bod datblygwyr yn defnyddio technegau lle mae gan gymeriadau themâu personol ac offerynnau nodweddiadol. Bydd lleoliadau a chyrchfannau byd gemau sydd â chyd-destunau cyffredinol a cherddorol eithriadol o hawdd eu hadnabod yn dechrau datblygu ac ehangu, gan gynnwys gweithredu a datblygu cerddoriaeth rhyngweithiol (gwirioneddol addasol) ar gyfer gemau'r genhedlaeth nesaf.

Mae mwy o gof proseswyr yn cael ei neilltuo ar gyfer sain a cherddoriaeth mewn gemau fideo, gan ganiatáu i ddylunwyr sain gyfateb i gyfoeth yr elfennau gweledol a chreu profiad sain mwy epig ar gyfer y chwaraewr. Un o nodweddion dyfodol awdio gemau yw ychwanegu Foley. Mae cyflwyno Foley i awdio gemau yn creu profiad sain mwy cymhleth, sy'n cipio seiniau dynol mwyfwy realistig. Cadarnheir byd rhithwir cymeriad sy'n symud o gwmpas mewn gêm saethu person cyntaf trwy glywed yr arfwisg yn tincial, y gwn yn tincian, sŵn esgidiau mawr ar eira caled sy'n crensian, a defnyddio cerddoriaeth i greu naws a darparu ciwiau sain.

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn deall sut defnyddir sain a cherddoriaeth mewn gêm. Byddant yn datblygu dealltwriaeth o sut caiff sain ei ddylunio a'i gynhyrchu ar gyfer gemau. Bydd y dysgwyr yn dylunio a chynhyrchu seiniau gwreiddiol priodol ar gyfer gêm ac yn eu hintegreiddio, ynghylch â chynnwys awdio stoc, i un o olygfeydd gêm.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall y defnydd o sain a cherddoriaeth mewn gemau
- 2 Deall dulliau ac egwyddorion dylunio a chynhyrchu sain
- 3 Gallu creu asedau sain ar gyfer gêm gyfrifiadur gan ddilyn arfer y diwydiant
- 4 Gallu cymhwyso asedau sain i gêm gyfrifiadur gan ddilyn arfer y diwydiant.

Cynnwys yr Uned

1 Deall y defnydd o sain a cherddoriaeth mewn gemau

Damcaniaeth sain: ffurf tonnau (tonfedd, osgled, amledd); pitsh; Hertz (Hz); lefel desibelau (dB); cynhyrchydd sain (uchelseinydd)

Seicoleg sain: emosiwn; naws; canfyddiad; uchder sain; timbre; elfennau cyfatebol rhwng ffilmiau a gemau (sinema gynnar, sinema gyfoes); sain yn darparu gwybodaeth, e.e. llafar, eiconig, symbolaidd, metafforaidd

Amgylchedd awdio: creu naws; awyrgylch; cyfleu'r hyn mae'r cynhyrchydd am i'r gwrandäwr ei wybod neu ei brofi; awdio 3D; sain amgylchynol; awdio addasol rhyngweithiol

Ffynonellau: artistwaith Foley; llyfrgelloedd sain; datblygiad gwreiddiol; asedau cerddoriaeth stoc

Cerddoriaeth y gêm: diben, e.e. naws, gweithredu, creu tensiwn; dilyniant rhagarweiniol; dilyniant terfynol; dilyniant credydau; symud y plot yn ei flaen; cerddoriaeth addasol rhyngweithiol

Materion cyfreithiol: hawlfraint; trwyddedau; hawliau ategol; breindaliadau; hawliau eiddo; contract rhyddhau doniau

2 Deall dulliau ac egwyddorion dylunio a chynhyrchu sain

Methodoleg dylunio sain: artistwaith Foley; llyfrgelloedd sain; datblygiad gwreiddiol

Fformat ffeiliau sain: heb eu cywasgu, e.e. wav, aiff, au, smp, voc; cywasgiad lossy, e.e. mp3, ra, vox

Cyfyngiadau awdio llwyfannau gemau: prosesydd sain, e.e. uned prosesu sain (SPU), prosesydd sain ddigidol (DSP); cof mynediad ar hap (RAM); storio; cit datblygu meddalwedd; cyfradd samplu; fformat y ffeil; allbwn awdio (mono, stereo, amgylchynol); awdio uniongyrchol (modwleiddio côd pwls (PCM)); modwleiddio côd pwls delta addasol (ADPCM); maint y ffeil

Systemau recordio awdio: analog; digidol, e.e. MiniDisc™, crynoddig (CD), tâp awdio digidol (DAT), disg caled; gweithfan sain cyfrifiadur; systemau amldrac; rhyngwyneb digidol offerynnau cerdd (MIDI); dilyniannwyr meddalwedd; elfennau atodol meddalwedd; golygyddion sain; modiwlau sain; offerynnau allweddell midi

Samplo awdio: cyfyngiadau maint ffeiliau (cydraniad, dyfnder did); cyfradd samplu; mono; stereo; amgylchynol

3 Gallu creu asedau sain ar gyfer gêm gyfrifiadur gan ddilyn arfer y diwydiant

Cynllunio: ystyriaethau, e.e. genre, cyfradd samplo, cydraniad, stereo neu fono, effeithiau proseswr, sain yr amgylchedd, llafar, trosleisio; rhestr seiniau, e.e. bwrdd stori awdio; rheoli asedau (storio ac adalw ffeiliau, confensiynau enwi); llif gwaith (amserlennu, rheoli amser yn effeithlon); terfynau amser (cerrig milltir cynhyrchu, elfennau y gellir eu cyflenwi, sicrhau ansawdd)

Recordio sain: log recordio; recordio (gwaith maes, effeithiau Foley, trosleisio, stiwdio)

Lefelau a mesur awdio: mesuryddion, e.e. mesurydd VU, mesurydd brig y rhaglen; lefel weithredu safonol

Manipwleiddio sain: golygu, e.e. torri, copïo, pastio, tocio, cymysgu sianeli, pwyntiau ciwio, nodwyr; effeithiau e.e. chwyddo'r sain, corws, croes-byllu, oedi, adlais, pylu i mewn/allan, gwyrddroi, amgáu, normaleiddio, panio, dirgrynu, o chwith, ailsamplo, distawrwydd; amser a phitsh, e.e. Doppler, ymestyn; hidlyddion, e.e. pas (band, uchel, isel), rhicyn, lleihau sŵn, pop/clic, cydraddoli; creu haenau; lwpiau; rhestr ciwiau; rhestr chwarae; cymysgu i lawr

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol); sgiliau cynhyrchu (cynhyrchu syniadau, manyleb graffeg, llif gwaith a rheoli amser, gallu technegol, gwaith tîm)

4 Gallu cymhwyso asedau sain i gêm gyfrifiadur gan ddilyn arfer y diwydiant

Rheoli Asedau: mewnforio; trefnu (storio ac adalw ffeiliau, confensiynau enwi)

Golygu awdio: deunydd llyfrgell sain, e.e. llyfrgelloedd seiniau, asedau cerddoriaeth stoc; awdio a gynhyrchwyd mewn stiwdio, e.e. effeithiau Foley, trosleisio, gwaith maes

Integreiddio awdio: cydamseru seiniau, e.e. gweithredoedd, symudiadau ar y sgîn, torri golygfeydd; cydamseru gwefusau

Cynhyrchu awdio: cymysgu; rendro

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol); sgiliau cynhyrchu (cynhyrchu syniadau, manyleb graffeg, llif gwaith a rheoli amser, gallu technegol, gwaith tîm)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio defnyddiau sain a cherddoriaeth mewn gemau gan ddefnyddio peth o derminoleg y pwnc yn briodol	T1 esbonio defnydd sain a cherddoriaeth mewn gemau gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n gynhwysfawr y defnydd o sain a cherddoriaeth mewn gemau, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio dulliau ac egwyddorion dylunio a chynhyrchu sain, gan ddefnyddio peth o derminoleg y pwnc yn briodol	T2 esbonio dulliau ac egwyddorion dylunio a chynhyrchu sain, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 esbonio'n gynhwysfawr ddulliau ac egwyddorion dylunio a chynhyrchu sain, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 creu asedau sain ar gyfer gêm gyfrifiadur gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T3 creu asedau sain o safon dechnegol dda ar gyfer gêm gyfrifiadur, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 creu asedau sain ar gyfer gêm gyfrifiadur, gyda gwaith o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI4 cymhwyso asedau sain i gêm gyfrifiadur, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC DA]</p>	<p>T4 cymhwyso asedau sain i gêm gyfrifiadur, gyda gwaith o safon dechnegol dda, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.</p>	<p>Rh4 cymhwyso asedau sain i gêm gyfrifiadur, gyda gwaith o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.</p>

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 74: Datblygu Stori Gêm Gyfrifiadur

Côd yr Uned:	K/502/5672
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i ysgrifennu storïau ar gyfer gemau. Bydd y dysgwyr yn defnyddio chwarae gemau strwythuredig ac ymchwil i archwilio elfennau blaenorol y stori, y stori a'r ddeialog a ddefnyddir mewn gemau, a byddant yn astudio ac yn ymarfer strategaethau ysgrifennu storïau. Bydd y dysgwyr yn creu stori a deialog ar gyfer gêm.

Cyflwyniad i'r uned

Wrth i gemau ddod yn adloniant mwyfwy prif ffrwd ac i'w cyllidebau datblygu gynyddu, mae pwysigrwydd ysgrifennu da wedi codi hefyd. Er mwyn i gêm fod yn llwyddiannus, mae'n hanfodol bod datblygwyr yn creu stori gadarn a chymeriadau credadwy i dywys y chwaraewyr trwy ofod y gêm, gan ganiatáu iddynt gael profiad personol o'r gêm.

Datblygir y naratif wrth 'chwarae'r stori' - cyfuniad o adrodd y stori a chwarae'r gêm sy'n caniatáu i'r chwaraewyr ddylanwadu ar yr hyn a geir yn y stori a'r profiad a geir. Gall awduron gemau da gynhyrchu naratif cymhleth sy'n rhagweld sut bydd rhyngweithedd a natur anllinol yn effeithio ar brofiad defnyddiwr o'r stori.

Mae chwaraewyr gemau modern yn disgwyl cymeriadau cyflawn, oherwydd bod cymeriadu llawn yn annog credu yn y stori, fel bod chwaraewyr yn gallu trochi eu hunain yn llwyr yn y gêm, gan gyfrannu at lwyddiant y teitl. Hefyd, mewn llawer o gemau, mae'r chwaraewr yn profi'r hyn mae'r prif gymeriad yn ei brofi yn ystod y stori. Mae datblygu cymeriad trwy 'gefndir y stori' yn darparu'r gymeriadaeth sydd mor bwysig wrth ddatblygu gemau modern, ac yn ychwanegu at realaeth y gêm.

Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr werthfawrogiad o egwyddorion gwaelodol adrodd stori, a sut gall hynny wella profiad chwaraewr o gael ei drochi ym myd y gêm. Mae astudio adrodd storïau a datblygu cymeriadau mewn gemau yn bwysig i helpu'r dysgwyr i gaffael y sgiliau angenrheidiol i greu tensiwn dramatig a llinellau stori cymhleth, a fydd yn eu tro yn creu profiadau chwarae mwy dramatig a llawn cymhelliant. Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gadarn o strategaethau ysgrifennu storïau ar gyfer gemau cyn eu cymhwyso i'w naratifau rhyngweithiol eu hunain.

Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut mae defnyddio elfennau megis adrodd stori, monolog a deialog at ddibenion stori eu gêm, a byddant yn cymhwyso eu harsylwadau o agweddau ac emosiynau dynol i ddatblygu cymeriadau sy'n darbwyllo ar gyfer eu cysyniad gêm.

Bydd yr uned hon hefyd yn datblygu gallu'r dysgwyr i fyfyrion'n feirniadol ar eu gwaith eu hunain, gan y bydd angen y sgîl proffesiynol hwn arnynt mewn unrhyw yrfa yn y dyfodol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall elfennau adrodd stori ar gyfer gemau
- 2 Gallu creu stori ar gyfer gêm, gan ddilyn arfer y diwydiant
- 3 Gallu creu deialog gêm, gan ddilyn arfer y diwydiant.

Cynnwys yr Uned

1 Deall elfennau adrodd stori ar gyfer gemau

Mathau o adrodd stori: peintio ogof; traddodiadau llafar (chwedl, myth, hanes); theatr; testun; ffilm; teledu

Genres gemau: cyffro, e.e. llwyfannau, saethu person cyntaf (FPS), saethu trydydd person (TPS), rasio, ymladd; antur; pôs; chwarae rôl; efelychu a chwaraeon, e.e. strategaeth cymryd tro (TBS), strategaeth amser go iawn (RTS)

Dulliau: lleoliad; amodau; gweithredoedd; symbolaeth; strwythur tair act (dechrau, canol, diwedd); taith arwr (12 cam); penodau

Cynrychiolaeth: emosiynau; cymeriadaeth; stereoteipiau, e.e. rhyw, ethnigrwydd

Themâu emosiynol: dial; hapusrwydd; ofn; dicter; dyfalbarhad; arwriaeth; dewrder; gobaith; cystadleurwydd

Stori ryngweithiol: wedi'i mewnosod; yn dod i'r amlwg; sinemateg; golygfeydd a dorrwyd; digwyddiadau a sbardunwyd; rheolaeth y chwaraewr; creu cymeriadau unigryw

Strategaethau ysgrifennu: cyn ysgrifennu, e.e. tasgu syniadau, ymchwil, bwrdd stori, rhestr, braslun, amlinelliad, ysgrifennu rhydd; drafftio (teitl gwaith, cynnwys yr ysgrifennu); adolygu, e.e. ychwanegu, ad-drefnu, dileu, amnewid, gwerthuso

2 Gallu creu stori ar gyfer gêm gan ddilyn arfer y diwydiant

Diben: cysyniad, e.e. eiddo deallusol gwreiddiol (IP), IP masnachfaint, pennod ragarweiniol, brîff y cleient; cynulleidfa darged

Cydrannau: thema lleoliad; cyd-destun; cefndir y stori; rhagdybiaeth

Dyfeisiau'r plot: mathau, e.e. deiseb, achubiaeth, dial, erlid, trychineb, chwyldro, enigma; esboniad (y digwyddiad achosol); rhagarwyddion; gwrthdaro neu broblem (mewnol, allanol); cymhlethdod, e.e. gweithredu yn codi yn dilyn y digwyddiad achosol; nodau, e.e. MacGuffin; cloc yn tician; tro yn y plot, e.e. elfennau camarweiniol, gwyrddroi; uchafbwynt; deus ex machina; creu tensiwn; datrysiad; casgliad

Mathau o gymeriadau: gwrthwynebydd; prif gymeriad; gwarcheidwad; cymeriad dirprwyol; cymeriad sy'n chwarae; cymeriad nad yw'n chwarae (NPC)

Cefndir stori'r cymeriad: ffisiolegol, e.e. rhyw, oedran, pwysau, golwg, gweithredoedd; llafar (mamiaith, acen, geiriau, goslef); cymdeithasol, e.e. ffrindiau, teulu, pŵer economaidd, galwedigaeth, addysg, hil, barn wleidyddol; seicolegol, e.e. credoau, cymeriad, optimistiaeth, pesimistiaeth, allblyg, mewnblyg, cymhlygion, deallusrwydd; materion cynrychiolaeth, e.e. ethnigrwydd, rhyw, oedran; twf cymeriadau, e.e. bwâu cymeriadau; perthnasoedd (deuad, triongl); galluoedd y cymeriad, e.e. gallu defnyddio lasso, dringo, neidio; statws, e.e. wardrob (arfwisg), rhestr eiddo

Llif y naratif: llinol; anllinol (naratif canghennol)

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y stori orffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion llenyddol); sgiliau cynhyrchu (cynhyrchu syniadau, llif gwaith a rheoli amser, gwaith tîm)

3 Gallu creu deialog gêm, gan ddilyn arfer y diwydiant

Ffynonellau deialog gêm: e.e. dogfennau dylunio, stori'r gêm, sgrïpt

Elfennau geiriol: adrodd y stori, e.e. person cyntaf, trydydd person, trosleisio (VO), oddi ar y sgrin (OS); monolog; deialog

Ysgrifennu sgrïpt: cynllun (gweithredu, penawdau golygfeydd, enw'r cymeriad, estyniad, deialog, wrth fynd heibio, pontio, saethu, deialog ddeuol); bwrdd stori; siart llif

Arfer y diwydiant: myfyrio ar ddeialog y gêm orffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion llenyddol); sgiliau cynhyrchu (cynhyrchu syniadau, llif gwaith a rheoli amser, gwaith tîm)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 crynhoi'n gywir elfennau adrodd stori ar gyfer gemau, gan ddefnyddio peth o derminoleg y pwnc yn briodol	T1 esbonio elfennau adrodd stori ar gyfer gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n gynhwysfawr elfennau adrodd stori ar gyfer gemau, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 creu stori ar gyfer gêm gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T2 creu stori ar gyfer gêm gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 creu stori ar gyfer gêm gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 creu deialog ar gyfer gêm gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC, DA, HR]	T3 creu deialog ar gyfer gêm gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 creu deialog ar gyfer gêm gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 75: Rhyngwynebau Dynol-cyfrifiadurol ar gyfer Gemau Cyfrifiadurol

Côd yr Uned:	J/502/5677
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i ddull pobl o ryngweithio â gemau cyfrifiadurol. Bydd y dysgwyr yn dadansoddi'r rhyngwyneb rhwng gêm ryngweithiol a'i defnyddwyr, yn astudio'r mecanweithiau rheoli ac adborth a ddefnyddir mewn gemau, ac yn dylunio rhyngwyneb ar gyfer elfen o gêm.

Cyflwyniad i'r uned

Mae pobl yn rhyngweithio â chyfrifiaduron a dyfeisiau chwarae gemau gan ddefnyddio technolegau mwyfwy soffistigedig. Yn ogystal â dyfeisiau mewnbynnu traddodiadol megis y llygoden a'r bysellfwrdd, mae sgriniau cyffwrdd, olwynion llywio, synwryddion symud, adnabod llais a dyfeisiau realaeth rhithwir. Gall hyd yn oed y ffon reoli draddodiadol ymgorffori adborth grym a botymau rhaglenadwy, ac mae fersiynau arbennig ar gael wedi eu hoptimeiddio ar gyfer gemau penodol (megis efelychu hedfan neu frwydro). Gall yr adborth gweledol gynnwys arddangosiadau sgrîn lydan lluosog, wedi eu hategu gan sain amgylchynol ar sianeli lluosog, sy'n creu byd rhithwir rhyngweithiol. Mae adborth awdio yn darparu elfen o realaeth i helpu i gynnal gallu'r chwaraewr i gredu yn y gêm.

Nid â'r dechnoleg yn unig y mae astudio rhyngwynebau dynol-cyfrifiadurol (HCI) yn ymwneud; mae hefyd yn ystyried sut mae pobl yn rhyngweithio â'r cymhwysiad (gwrthrychau ar y sgrîn, dewislenni ac ati). Gan mai HCI yw'r prif bwynt cyswllt rhwng person a'r gêm, mae'n hanfodol ei fod wedi ei ddylunio'n dda er mwyn galluogi defnyddwyr i hoelio'u sylw ar chwarae'r gêm yn unig.

Mae HCI yn rhan annatod o'r broses o ddylunio gemau, ac yn nodweddiadol mae'n cynnwys astudio, dylunio, adeiladu a gweithredu systemau cyfrifiadurol rhyngweithiol sy'n canolbwyntio ar bobl. Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn dadansoddi'r rhyngwyneb a geir rhwng gêm rhyngweithiol a'i defnyddwyr, yn datblygu dealltwriaeth o'r systemau rheoli ac adborth a ddefnyddir mewn gemau, ac yn dylunio a gwerthuso rhyngwyneb ar gyfer elfen o gêm.

Mae'r sgiliau a'r wybodaeth a ddatblygir yn yr uned hon hefyd yn berthnasol i lawer o feysydd eraill, megis rhyngweithio cyfrifiadurol ar gyfer unigolion ag anableddau, rheoli dyfeisiau meddygol, a chymwysiadau ac efelychiadau milwrol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall rhyngwynebau dynol-cyfrifiadurol ar gyfer gemau
- 2 Deall dulliau o reoli a ffyrdd o roi adborth mewn gemau
- 3 Gallu creu prototeip o rhyngwyneb ar gyfer gêm gan ddefnyddio technegau HCI.

Cynnwys yr Uned

1 Deall rhyngwynebau dynol-cyfrifiadurol ar gyfer gemau

Technoleg: sgriniau; bysellfyrddau; ffyn rheoli; padiau; sgriniau cyffwrdd; olwynion llywio; dyfeisiau pwyntio; synwryddion symud; pensetiau

Rhyngwynebau: mewnbwn llinell orchymyn; adnabod llafar; dethol dewislen a'r dulliau dethol; cyfeiriedig gan y synhwyrâu (graffigol, llafar, cyffwrdd); galluoedd ar gyfer manipwleiddio data dwys; systemau deallus; afatarau

Ffactorau dynol: profiad y defnyddiwr, e.e. arbenigwr, rheolaidd, achlysurol, dechreuwr; gofynion y defnyddiwr, e.e. nam ar y golwg, nam corfforol, anawsterau dysgu; demograffeg, e.e. oedran, rhyw

Egwyddorion dylunio rhyngwyneb defnyddwyr: strwythuredig (cydleoli elfennau cysylltiedig); syml (iaith y defnyddiwr, llwybrau byr ystyrion); gweladwy (osgoi tynnu sylw); adborth (egllurder, perthnasedd); goddefgarwch (dadwneud, ailwneud, mewnbwn anghyson); modd ailddefnyddio (unffurfiaeth, lleihau proses gofio'r defnyddiwr)

2 Deall dulliau o reoli a ffyrdd o roi adborth mewn gemau

Adborth: gweledol e.e. eiconig, seicoleg lliwiau, rhesymiad, safbwynt y chwaraewr, technegau camera (rhagarwyddo, datgelu), effeithiau goleuo; corfforol, e.e. dirgryniad; awdio, e.e. amgylchynol, deialog, effeithiau Foley, cerddoriaeth, hwyliu, emosiwn

Cyfleu gwybodaeth: byd gêm llawn gwybodaeth; anghenion y defnyddiwr, e.e. dadansoddi data yn gyflym i wneud penderfyniad (strategaeth, tacteg); mewnbwn cyflym

Seicoleg y defnyddiwr: cof (tymor hir, tymor byr); rhesymu; canfyddiad; gwybyddiaeth; metafforau

Dylunio dull rheoli: mapio elfennau gweithredol y system; dulliau rheoli ac adborth defnyddwyr i ryngwyneb; creu prototeip; mesur yr elfennau gweithredol yn erbyn boddhad y defnyddiwr; dadansoddiad hewristeg; sensitifrwydd y cyd-destun; dulliau diagramau rhyngwyneb dynol-cyfrifiadurol (HCI)

3 Gallu creu prototeip o ryngwyneb ar gyfer gêm gan ddefnyddio technegau HCI

Dadansoddiad o fanyleb y gêm: arddull weledol; arddull awdio; adnoddau'r gêm; mecaneg greiddiol y gêm, moddau'r gêm, e.e. lefelau'r gêm, moddau anhawster

Penderfyniadau rhyngwyneb ar gyfer pob modd: adnoddau'r gêm; mecaneg y gêm; angen gweithredu gan y chwaraewr; angen adborth; dyfeisiau mewnbwnu, e.e. llygoden, ffon reoli; mewnbwn ar y sgrîn, e.e. dewislenni, botymau; adborth, e.e. gweledol, awdio, arall

Rhyngwyneb y defnyddiwr: brasluniau cynllun; newid modd (siart llif)

Dylunio prototeip o ryngwyneb: e.e. meddalwedd cyflwyno clyweledol, meddalwedd awduro cyfryngau rhyngweithiol, meddalwedd prototeipio masnachol neu ffynhonnell agored

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio rhyngwynebau dynol-cyfrifiadurol ar gyfer gemau gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T1 esbonio rhyngwynebau dynol-cyfrifiadurol ar gyfer gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 gwerthuso'n feirniadol rhyngwynebau dynol-cyfrifiadurol ar gyfer gemau gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau a eglurwyd, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 crynhoi'n gywir ddulliau rheoli a ffurfiau o roi adborth mewn gemau, gan wneud peth defnydd priodol o derminoleg y pwnc	T2 esbonio dulliau rheoli a ffurfiau o roi adborth mewn gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 gwerthuso'n feirniadol ddulliau rheoli a ffurfiau o roi adborth mewn gemau, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 creu prototeip o ryngwyneb ar gyfer gêm gan ddefnyddio technegau rhyngwyneb dynol-cyfrifiadurol, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC, DA]	T3 creu prototeip o ryngwyneb ar gyfer gêm gan ddefnyddio technegau rhyngwyneb dynol-cyfrifiadurol o safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 creu prototeip o ryngwyneb ar gyfer gêm gan ddefnyddio technegau rhyngwyneb dynol-cyfrifiadurol o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 76: Flash ar gyfer Gemau Cyfrifiadur

Côd yr Uned:	J/600/6637
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o'r defnydd o Flash mewn gemau cyfrifiadur, a'r sgiliau y mae eu hangen i ddefnyddio Flash wrth adeiladu gemau ac ActionScript wrth raglennu gemau.

Cyflwyniad i'r uned

Mae Flash fel llwyfan datblygu gemau ar gyfer gemau achlysurol yn offeryn awduro y mae ei bŵer wedi tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd. Gellir defnyddio Flash i greu gemau mor syml â gêm OXO neu mor gymhleth â gêm amser go iawn i chwaraewyr lluosog. Mae Flash yn symleiddio agwedd weledol rhaglennu gemau cyfrifiadur, yn gweithio ar bron bob cyfrifiadur, ac yn defnyddio iaith raglennu ActionScript sy'n bwerus ac yn rhesymol uniongyrchol. Mae Flash yn amgylchedd da iawn ar gyfer dysgu syniadau sylfaenol ar gyfer rhaglennu gemau.

Rhaglennu sy'n gwneud gemau'n rhyngweithiol. Mae'r iaith ActionScript sy'n rhan o Flash yn gadael i'r datblygwr wneud unrhyw beth y mae modd defnyddio animeiddio i'w gyflawni, a hefyd lawer o bethau na ellir eu gwneud â thechnegau animeiddio yn unig.

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn edrych ar beth sy'n digwydd allan o'r golwg mewn gêm Flash a sut defnyddir ActionScript i greu a rheoli gwrthrychau'n uniongyrchol, yn hytrach na dibynnu ar yr amgylchedd Flash yn unig i reoli gwrthrychau trwy animeiddio. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i sut defnyddir Flash wrth greu gêm rhyngweithiol. Byddant yn deall sut gall Flash reoli ffiseg y gêm a chael ei ddefnyddio i ddatblygu gemau isometrig 2D a 3D ar gyfer dyfeisiau symudol a'r we. Bydd y dysgwyr yn defnyddio offer Flash ac ActionScript i greu gêm.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall cymhwysiad Flash wrth ddatblygu gêm
- 2 Gallu defnyddio offer Flash ar gyfer adeiladu gêm
- 3 Gallu defnyddio ActionScript ar gyfer rhaglennu gêm
- 4 Gallu creu gêm Flash gan ddilyn arfer y diwydiant.

Cynnwys yr Uned

1 Deall cymhwysiad Flash wrth ddatblygu gêm

Flash ar gyfer datblygu gemau: amgylchedd datblygu integredig (IDE) Flash; Chwaraewr Flash

Rhaglennu gemau yn Flash: manteision wrth raglennu gemau; ActionScript o'i gymharu ag animeiddio; cyfyngiadau Flash; elfennau atodol; amrywiadau a chwaraewyr Flash, e.e. Flash Lite; confensiynau codio (enwi ffeiliau, llythrennau camel, atalnodi, pantiad); llwyfannau PC (Flash); llwyfannau symudol (Flash Lite)

Creu gemau: creu bydoedd artiffisial; pwysigrwydd rhyngweithedd; gwrthrychau; y rhaglennydd fel chwaraewr 'cudd'

Cynllunio gemau Flash: stori; dyfeisiau mewnbynnu; graffeg; sain; pwysigrwydd y dull o chwarae'r gêm cynllun y gêm (y prif gymeriad, golwg a theimlad, sgriniau'r gêm, gwrthrychau sgrîn, rôl gwrthrychau, ymddygiad gwrthrychau); siartiau llif y gêm

2 Gallu defnyddio offer Flash ar gyfer adeiladu gêm

Amgylchedd Flash: gweithfan (cyfnod, llinell amser, bar offer a phaneli, dewisiadau, help)

Offer sylfaenol: lluniadu, e.e. pensil, llinell, pin, brwsh, siapiau; trawsffurfio rhydd, e.e. troi, sgiwio, llurgunio, graddfa, amgáu, riwl a chanllawiau; golygu, e.e. lasso, dilëydd, dadwneud, copïo, pastio, dyblygu, mewnosod, dileu, alinio, grwpio, dadgrwpio

Gwrthrychau: symbolau, e.e. enghreifftiau, dyblygu symbolau, cyfnewid symbolau, golygu, grwpio; botymau (creu, llyfrgell, cyflyrau botymau côd)

Offer lliwiau: lliw, e.e. nodweddion lliw, diferydd, creu lliwiau unigryw, casgliadau o liwiau, strôc a llenwi

Offer testun: e.e. golygu, symud, troi, newid siâp, sgrolio, creu blociau testun, trosi testun yn siapiau

Animeiddio: llinell amser (man chwarae (playhead), haenau, fframiau, cyfradd fframiau, fframiau allweddol, haenau tenau, marcwyr); manipwleiddio fframiau, e.e. copïo, dileu, gwyrddroi; profi ffilmiau; animeiddio fesul ffrâm; fframiau rhyngol (tweening) (siâp, symudiad)

Asedau: mewnforio, e.e. delweddau raster, delweddau fector, ffeiliau sain, ffeiliau fideo, clipiau ffilm; newid maint; llyfrgelloedd asedau

Offer uwch: golygfeydd; haenau tywys; masgio, e.e. haenau masgio, masgiau wedi eu hanimeiddio; effeithiau llinell amser, e.e. pylu, cysgod gollwng, ehangu, ffrwydro, trawsnewid, trosi; nythu clipiau ffilm; rhyngweithedd, e.e. sgriptio, ymddygiad, camau gweithredu, sbardunau, botymau, lluniau treigl, rheoli chwarae nôl, rhaglwythwyr

Cadw ac allforio: cadw; cyhoeddi; optimeiddio; fformatau ffeiliau; y rhesymau am y fformatau

3 Gallu defnyddio ActionScript ar gyfer rhaglennu gêm

Sylfaenol: rhaglennu gwrthrych-gyfeiriedig, e.e. dosbarth, diffinio dosbarth, enghreifftiau, priodweddau a dulliau; cystrawen; côd ffug; profi; bygiau; chwalfeydd

Testun: statig; deinamig; mewnbwn; newidynnau cysylltiol; mewnbwn darllen

Rhifau ar hap: gwrthrychau math; dis

Gwneud penderfyniadau: amodau; amodau ffug; cymal 'fel arall'

Ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd: lwpiau; araeau

Uwch: digwyddiadau; corluniau; clipiau ffilm; gwrthrychau, e.e. priodweddau, swyddogaethau, nodweddion, priodweddau dx a dy digwyddiadau onEnterFrame; gwirio ffiniau'r gêm; cyfnewid cyrchwr; tracio'r llygoden; deallusrwydd artiffisial (AI); cadw sgôr (meysydd testun, cyflyrau ennill a cholli); allbwn awdio; corluniau wedi eu hanimeiddio, e.e. rheoli'r cyfrifiadur, cyfeiriad cyson, troi, symud; corluniau a reolir gan y defnyddiwr, e.e. mewnbwn bysellwrdd, gwirio am fysellau symudiad; profi am wrthdaro, e.e. swyddogaeth checkCollisions()

Fectorau: e.e. trosiad fector, tafluniad fector wrth symud, canolbwynt disgyrchiant, llwybrau fector, fectorau cyfrifo (dx, dy, ongl, hyd)

Ffiseg y gêm: e.e. buanedd, cyflymu, cyfrifo pellter, fectorau, gwneud iawn am ddisgyrchiant, cyfanrifau ar hap, cyfreithiau Newton, gwrthrychau sy'n symud, tyniant

4 Gallu creu gêm Flash gan ddilyn arfer y diwydiant

Dylunio gêm: ystyriaethau cynllunio, e.e. genre, dehongli brîff creadigol, creu byrddau stori, rheoli asedau

Paratoi asedau: graffigol (corluniau, cefndiroedd); ymddygiadol (effeithiau, gwrthrychau, ActionScripts); sain, e.e. effeithiau, cerddoriaeth, naws, deialog; mathau o ffeiliau, e.e. bmp, gif, tiff, jpg, wav, midi, aiff, au, smp, mp3, ra, vox

Cynhyrchu: asedau; ActionScripts; animeiddio; byd y gêm; profi (alfa, beta, profi gan y defnyddiwr)

Cyhoeddi: elfennau gweithredadwy, e.e. llwyfannau PC (Flash), llwyfannau symudol (Flash Lite), y rhyngrwyd

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol, nodweddion esthetig); sgiliau cynhyrchu (cynhyrchu syniadau, dogfennaeth dylunio'r gêm, llif gwaith a rheoli amser, gallu technegol, gwaith tîm)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio cymhwysiad Flash wrth ddatblygu gemau gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio cymhwysiad Flash wrth ddatblygu gemau gan gyfeirio at enghreifftiau manwl o hynny, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 asesu'n feirniadol gymhwysiad Flash wrth ddatblygu gemau, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cymhwyso offer Flash i adeiladu gemau, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC]	T2 cymhwyso offer Flash i adeiladu gemau o safon dechnegol dda, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cymhwyso offer Flash i adeiladu gemau o safon dechnegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan arddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 cymhwyso ActionScript i raglennu gemau, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC]	T3 cymhwyso ActionScript i raglennu gemau gyda safon dechnegol dda, gan arddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 cymhwyso ActionScript i raglennu gemau gyda safon dechnegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol, gan arddangos gallu creadigol a fflach, a gweithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI creu gêm Flash gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC, DA, HR]	T4 creu gêm Flash o safon dechnegol dda gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh4 creu gêm Flash o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 77: Dylunio Profion ar gyfer Gemau Cyfrifiadur

Côd yr Uned:	H/600/6614
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw darparu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ddylunio a gweithredu'n effeithiol achosion profi a chyfresi o brofion ar gyfer gemau cyfrifiadur.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r diwydiant gemau yn werth miliynau lawer o bunnoedd, ac yn faes cystadleuol. Mae llwyddiant pob teitl yn dibynnu nid yn unig ar ba mor 'dda' yw'r gêm i'w chwarae, ei golwg a'i theimlad, ond hefyd ei pherfformiad ar y llwyfannau y cafodd ei dylunio ar eu cyfer.

Mae amrywiaeth o fygiau a all achosi problemau mewn gêm. Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon yn caffael dealltwriaeth glir o'r mathau o wallau a all ddigwydd mewn gêm, ynghyd â dealltwriaeth o ble ceir hyd i'r bygiau hyn.

Os anfonir gêm at y defnyddiwr yn dal i gynnwys bygiau neu ddiffygion pwysig sy'n atal y chwaraewr rhag mwynhau'r cynnyrch, gall hynny effeithio nid yn unig ar y gêm neu'r brand, ond hefyd ar enw da'r cwmni a'i datblygodd a'i phrofi. Mae llawer o gemau yn dibynnu ar gefnogwyr triw a chymunedau chwarae gemau, sy'n barod i rannu a lledaenu barn, yn ogystal â ffyrdd o dwyllo mewn gemau a llwybrau byr, sydd fel ei gilydd yn gallu effeithio ar yr elw sy'n deillio o gêm yn y pen draw. Mae profi gemau felly yn rhan hanfodol o'r broses o gynhyrchu gemau.

Gall fod yn anodd credu bod pobl yn cael eu talu i eistedd a chwarae gemau, ond er y gall hynny fod yn hwyl, mae profi gemau'n effeithiol yn waith caled. Yn ystod y cam datblygu, mae angen gwirio gemau'n gyson ac yn drylwyr i sicrhau bod unrhyw fygiau neu ddiffygion trafferthus yn cael eu canfod a'u nodi mewn modd cryno, esboniadol. Ar ôl eu cofnodi, caiff bygiau eu trwsio gan y datblygwr, ac wedyn caiff y gêm ei phrofi eto neu ei gwirio gan y profwr. Erbyn i'r gêm ddechrau cael ei gwerthu, dylai'r holl fygiau pwysig fod wedi cael eu dileu.

Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr yr wybodaeth a'r sgiliau i ddylunio achosion profi effeithiol a chyfresi o brofion yn barod ar gyfer gemau cyfrifiadur. Bydd y dysgwyr yn cael eu haddysgu ynghylch peth o'r ddamcaniaeth dechnegol a'r methodolegau profi sy'n sail ar gyfer profion cyfrifiaduron effeithiol. Mae angen deall y ddamcaniaeth waelodol hon cyn i'r dysgwyr ei chymhwyso i ddylunio a chreu eu cyfresi eu hunain o brofion.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall y mathau o ddiffygion sy'n bresennol mewn gêm a adeiladwyd
- 2 Deall cyfnodau a phrosesau profi mewn rhaglen o brofion
- 3 Gallu dylunio cyfres o brofion i'w defnyddio gyda gêm a adeiladwyd neu fodiwl
- 4 Gallu cynhyrchu adroddiad ar fygiau gan ddefnyddio cyfres o brofion.

Cynnwys yr Uned

1 Deall y mathau o ddiffygion sy'n bresennol mewn gêm a adeiladwyd

Mathau o ddiffygion: swyddogaeth; aseiniad; gwirio; amseru; cyfuno pecyn adeiladu; algorithm; dogfennaeth

Sbardunau diffygion: dosbarthiad diffyg orthogonol (ODC); cyfluniadau caledwedd; cyfluniadau meddalwedd; sbardun cyfluniad; sbardun cychwyn; trafod eithriadau; sbardun eithriad; sbardun bod dan bwysau; sbardun normal; sbardun ailgychwyn

Rhanbarthau gweithredu: gweithrediad y gêm; cyn y gêm; dechrau'r gêm; yn y gêm; ar ôl y gêm

2 Deall cyfnodau a phrosesau profi mewn rhaglen o brofion

Cyfnodau profi: paratoi; profion alffa; profion beta mewnlol; profion beta allanol; profion aur; profion diwedd ardystio; meini prawf mynediad; asedau cadw lle; atchweliad

Prosesau: profion mwg; profion blwch gwyn; profion blwch du; profion ystafell lân; profion chwarae; profion ad hoc; mathau o chwaraewyr; clwt bychan; clwt mawr;

Cylch bywyd: cynllunio a dylunio prawf; paratoi prawf; cynnal y prawf; adrodd ar y prawf; profi eto

3 Gallu dylunio cyfres o brofion i'w defnyddio gyda gêm a adeiladwyd neu fodiwl

Beth i'w brofi: digwyddiadau yn y gêm; gosodiadau'r gêm; opsiynau chwarae'r gêm; cyfluniadau caledwedd; priodweddau cymeriadau; dewisiadau unigryw

Profion cyfuniadol: paramedrau; fesul pâr; gwerthoedd; ystodau; ffiniau; tablau cyfuniadol; templedi cyfuniadol; offer cyfuniadol

Diagramau profi llif: elfennau diagram profi llif (TFD); llif y gêm; gweithredoedd; digwyddiadau; cyflyrau; elfennau cysefin; elfennau terfynu; dylunio; llwybrau; diffiniadau geiriadur data; templedi; meddalwedd a ddefnyddiwyd

4 Gallu cynhyrchu adroddiad ar fygiau gan ddefnyddio cyfres o brofion

Statws y prawf: llwyddo yn y prawf; methu'r prawf; blocio; ddim ar gael; blaenoriaethau; fersiynau

Deunydd ategol: arteffactau, e.e. dal chwarae ar dâp/fideo o brofion chwarae, cipluniau, byrddau stori, ffeiliau sain, logiau gweinydd, codau gwallau system weithredu

Ysgrifennu adroddiadau ar fygiau: cynnwys yr adroddiad (pennawd/crynodeb, statws y prawf, difrifoldeb, disgrifiad llawn, a oes modd ei atgynhyrchu, camau i atgynhyrchu, arteffactau cefnogi); arddull ysgrifennu (eglwyr, ysgrifennu cryno, disgrifiadol, cyfarwyddiadol)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio'r math o ddiffygion a all fod yn bresennol mewn gêm a adeiladwyd, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio'r mathau o ddiffygion a all fod yn bresennol mewn gêm a adeiladwyd, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 dadansoddi'n feirniadol y mathau o ddiffygion a all fod yn bresennol mewn gêm a adeiladwyd, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, gan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 disgrifio'r gwahanol gyfnodau a phrosesau profi mewn rhaglen o brofion, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T2 esbonio'r gwahanol gyfnodau a phrosesau profi mewn rhaglen o brofion, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh2 asesu'n feirniadol y gwahanol gyfnodau a phrosesau profi mewn rhaglen o brofion, gyda dadleuon ategol ac enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI3 dylunio cyfres o brofion gyda pheth cymorth i'w defnyddio gyda gêm a adeiladwyd neu fodiwl [MC]	T3 dylunio cyfres o brofion o safon dechnegol dda i'w defnyddio gyda gêm a adeiladwyd neu fodiwl, heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh3 dylunio cyfres o brofion o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau bron yn broffesiynol i'w defnyddio gyda gêm a adeiladwyd neu fodiwl, gan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cynhyrchu adroddiad ar fygiau gan ddefnyddio cyfres o brofion, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc. [HR]	T4 cynhyrchu adroddiad manwl ar fygiau gydag enghreifftiau, gan ddefnyddio cyfres o brofion o safon dechnegol dda, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd.	Rh4 cynhyrchu adroddiad manwl iawn gydag enghreifftiau trylwyr ar fygiau, gan ddefnyddio cyfres o brofion o ansawdd technegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

Uned 78: Graffeg Ddigidol ar gyfer Gemau Cyfrifiadur

Côd yr Uned:	A/600/6621
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned yw cyflwyno'r dysgwyr i offer a thechnegau sylfaenol meddalwedd graffeg ddigidol a ddefnyddir i gynhyrchu delweddau ar gyfer cynnyrch gemau cyfrifiadur. Bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau wrth ddefnyddio meddalwedd delweddu digidol trwy gynhyrchu deunydd gweledol sydd wedi ei fanipwleiddio'n ddigidol. Byddant yn arbrofi gydag arddulliau graffeg a ddefnyddir i greu naws a thema mewn gemau cyfrifiadur, ac yn myfyrio'n feirniadol ar eu gwaith eu hun.

Cyflwyniad i'r uned

Mae angen i unrhyw un sy'n ystyried gyrfa yn y diwydiant gemau cyfrifiadur fod yn ymwybodol o'r gwahanol ddisgyblaethau a sgiliau sy'n berthnasol i'r diwydiant, ond a allai fod y tu allan i'w diddordebau penodol neu eu nodau gyrfa eu hunain. Er enghraifft, rhaid i unrhyw un sy'n ymwneud â datblygu gemau cyfrifiadur fod yn gyfarwydd â chreu delweddau digidol, gan mai ar sail graffeg ddigidol y gwerthir gemau cyfrifiadur. Mae creu graffeg ddigidol yn berthnasol i bob agwedd ar ddylunio, ac mae galw mawr am y sgiliau hyn yn y diwydiant gemau. Dylai'r rhai sy'n dymuno gweithio yn y diwydiant hwn, felly, sicrhau profiad ymarferol sylfaenol o gynhyrchu a datblygu graffeg ddigidol i'w ddefnyddio mewn gemau cyfrifiadur er mwyn cyfleu syniadau neu ddatblygu arbenigedd.

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn dod yn gyfarwydd ag offer a thechnegau sylfaenol y feddalwedd graffeg ddigidol a ddefnyddir i gynhyrchu delweddau ar gyfer gemau cyfrifiadur. Y technegau hyn yw'r sylfaen ar gyfer datblygu graffeg i gynhyrchu posteri gemau, pecynnu gemau, graffeg yn y gêm megis graffeg arddangosiad pensyth, graffeg corluniau, graffeg cefndir, gwead delweddau a graffeg celf gysniadol - yn fyr ar gyfer holl graffeg printiedig a sgrîn gemau cyfrifiadur. Mae'r uned hon, felly, yn hanfodol i ddatblygu sgiliau dylunio digidol ar gyfer cynhyrchu gemau cyfrifiadur.

Mae'r broses graffeg ddigidol yn cynnwys ychwanegu at ddelweddau a gipiwyd yn ddigidol neu eu trawsnewid trwy ddefnyddio meddalwedd arbenigol sy'n golygu delweddau. Trwy ddilyn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau defnyddio meddalwedd delweddu digidol trwy gynhyrchu deunydd gweledol sydd wedi ei fanipwleiddio'n ddigidol. Bydd y dysgwyr hefyd yn cael cyfleoedd i arbrofi gydag arddulliau graffeg a ddefnyddir i greu naws a thema mewn cynnyrch gemau cyfrifiadur.

Gan fod yr uned hon yn annog dysgwyr i fynegi sgiliau defnyddio'r dychymyg, mae'n briodol cyflawni peth ymarfer hunan-fyfyriol beirniadol. Bydd y sgil proffesiynol hwn o werth mewn unrhyw yrfa yn y dyfodol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall damcaniaeth a chymwysiadau graffeg ddigidol a ddefnyddir ar gyfer gemau cyfrifiadur
- 2 Gallu cynnig syniadau celf gysyniadol ar gyfer graffeg gemau cyfrifiadur
- 3 Gallu creu graffeg ddigidol ar gyfer gêm gyfrifiadur, gan ddilyn arfer y diwydiant.

Cynnwys yr Uned

1 Deall damcaniaeth a chymwysiadau graffeg ddigidol a ddefnyddir ar gyfer gemau cyfrifiadur

Arddulliau artistig a ddefnyddir mewn gemau cyfrifiadur: ffotorealaeth; cysgodi cel; haniaeth; gor-ddweud, e.e. anime, manga

Graffeg gemau cyfrifiadurol: celf picstel (corluniau 2D, corluniau isometrig 3D); celf gysyniadol, e.e. cymeriad, arf, cerbyd, amgylchedd; celf gwead; graffeg cefndir, e.e. waliau, fforestydd, cymylau; rhyngwyneb yn y gêm, e.e. arddangosiad pensyth; celf gyfryngol brintiedig, e.e. pecynnu'r gêm, clawr y blwch, y llawlyfr, label, poster

Picstel: elfen y llun, cydraniad y ddelwedd, dwysedd

Mathau o graffeg ddigidol: delweddau raster (bmp, gif, tiff, jpg); delweddau vector (psd, wmf, fla, ai)

Estyniadau ffeiliau: e.e. bmp, png, gif, tiff, jpg, psd

Cywasgu: lossy; lossless

Cipio delwedd: sganiwr; camera digidol; tabled

Optimeiddio: allbwn y ddelwedd darged; dyfnder didol y ddelwedd; cydraniad y ddelwedd; dimensiynau'r ddelwedd; cywasgu

Storio asedau delweddau: maint y ffeil; confensiynau enwi ffeiliau; rheoli asedau

2 Gallu cynnig syniadau celf gysyniadol ar gyfer graffeg gemau cyfrifiadur

Symbyliad: e.e. brîff gan gleient, eich brîff eich hun, o ymchwil marchnad

Syniadau: tasgu syniadau; byrddau hwyliau; brasluniau bawd; lluniadau cysyniadol, e.e. cymeriad, arf, cerbyd, amgylchedd

Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol: cyfreithiol, e.e. hawlfraint, enllib; moesegol, e.e. cyfrinachedd, gwedduster; cynrychiolaeth, e.e. hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb

Graffeg gemau cyfrifiadur: graffeg cyfryngau printiedig, e.e. poster y gêm, pecynnu'r gêm; graffeg yn y gêm (graffeg arddangosiad pensyth, graffeg corluniau, graffeg cefndir, gwead delweddau); graffeg celf gysyniadol

Manyleb graffeg: anghenion y cleient; cynulleidfa; brasluniau bawd; arddull weledol, e.e. lliw, arddull, ffotorealaeth, cysgodi cel, anime; cyfansoddiad; teipograffeg; ystyriaethau technegol, e.e. fformat y ffeil, maint y ffeil, optimeiddio, confensiynau enwi ffeiliau, rheoli asedau, allbwn a fwriedir

3 Gallu creu graffeg ddigidol ar gyfer gêm gyfrifiadur, gan ddilyn arfer y diwydiant

Cynllunio: rheoli asedau (storio ac adalw ffeiliau, confensiynau enwi); llif gwaith (amserlennu, rheoli amser yn effeithlon); terfynau amser (cerrig milltir cynhyrchu, elfennau y gellir eu cyflenwi, sicrhau ansawdd)

Rhyngwyneb meddalwedd: e.e. ardal waith, blwch offer, bar statws, gwybodaeth am ffeiliau, rheoli ffenestri, paletau sy'n arnofio, docio paletau, tabiau

Rheoli asedau: llwybr allforio'r ffeil; fformat y ffeil; cywasgu; confensiynau enwi ffeiliau; copi wrth gefn o'r ffeil

Llif gwaith: e.e. delweddau cyfeiriadol, elfennau ategol, optimeiddio, dyfnder did, cydraniad, dimensiynau)

Dewislenni: agor; arbed; newydd; mewnforio; allforio; golygu; gweld; help

Gosodiadau delweddau: maint; cydraniad, lled; uchder; modd lliw; cefndir; tryloywder; cymhareb agwedd; enw'r ffeil

Offer lluniadu: opsiynau offer; brwsh; pensil; dyblygu; clonio; llenwi; testun; llinell; strôc; siâp; chwyddo; canllawiau a riwl; grid; snap; paletau, e.e. lliw, graddoli, haenau, gwrthrych, brwshys, hanes, camau, maint, cydraniad; haenau, e.e. copïo, arbed, trefnu; gwastatáu; dethol lliwiau, e.e. blaendir, cefndir, casgliadau o liwiau, diferydd

Offer golygu: dethol, e.e. marquee, lasso, ffon hud, lasso magnetig, dad-dethol; trawsnewid, e.e. graddfa, troi, rhoi ar oleddf, fflipio; torri; copïo; pastio; cropio; tocio; dileu; dadwneud; llenwi

Offer uwch: effeithiau, e.e. effeithiau haenau, hidlyddion, sianeli; addasu delweddau, e.e. golau a chyferbyniad, arlliw a dwysedd, cydbwysedd lliw, graddoli, tryloywder, gwyrddroi; masgiau; llwybrau e.e. llwybrau fector, troi testun yn llwybrau; brwshys, brwsh ategol

Graffeg yn y gêm: arddangosiadau pensyth; graffeg corluniau; animeiddio gif; gwedd delweddau; creu asedau o gelf gysyniadol, e.e. cymeriad, arf, cerbyd, cefndiroedd amgylcheddol

Graffeg cyfryngau printiedig: e.e. pecynnu'r gêm, clawr y blwch, y llawlyfr, label, poster, gwaith celf cysyniadol

Camau cynhyrchu: ffeiliau datblygu gwreiddiol; delwedd derfynol wedi ei gwastatáu a'i hoptimeiddio

Nodweddion esthetig: cyfansoddiad; paletau lliw; teipograffeg; creu ystyr

Arfer y diwydiant: myfyrio ar y cynnyrch gorffenedig (cymharu â'r bwriadau gwreiddiol, addasrwydd at y diben, nodweddion technegol, nodweddion esthetig); sgiliau cynhyrchu (cynhyrchu syniadau, manyleb graffeg, llif gwaith a rheoli amser, gallu technegol, gwaith tîm)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwyr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwyr yn gallu:
LI1 crynhoi'n gywir ddamcaniaeth a chymwysiadau graffeg ddigidol a ddefnyddir ar gyfer gemau cyfrifiadur, gyda pheth defnydd priodol o derminoleg y pwnc [YA]	T1 esbonio damcaniaeth a chymwysiadau graffeg ddigidol a ddefnyddir ar gyfer gemau cyfrifiadur, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir at ei gilydd	Rh1 esbonio'n drwyadl ddamcaniaeth a chymwysiadau graffeg ddigidol a ddefnyddir ar gyfer gemau cyfrifiadur, gydag enghreifftiau wedi eu hegluro, a chan ddefnyddio terminoleg y pwnc yn gywir yn gyson
LI2 cynhyrchu syniadau amlinellol ar ffurf celf gysyniadol ar gyfer graffeg gêm gyfrifiadur, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth [MC, HR]	T2 cynhyrchu syniadau manwl ar ffurf celf gysyniadol ar gyfer graffeg gêm gyfrifiadur, gan ddangos peth dychymyg, a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol	Rh2 cynhyrchu syniadau sydd wedi eu pwysu a'u mesur yn drylwyr ar ffurf celf gysyniadol ar gyfer graffeg gêm gyfrifiadur, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol
LI3 creu graffeg ddigidol ar gyfer gêm gyfrifiadur gan ddilyn arfer y diwydiant, gan weithio oddi mewn i gonfensiynau priodol, a chan dderbyn peth cymorth. [MC, HR, DA]	T3 creu graffeg ddigidol ar gyfer gêm gyfrifiadur, a hynny o safon dechnegol dda gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos peth dychymyg a heb dderbyn cymorth ond yn achlysurol.	Rh3 creu graffeg ddigidol ar gyfer gêm gyfrifiadur o safon dechnegol sy'n adlewyrchu safonau sydd bron yn broffesiynol, gan ddilyn arfer y diwydiant, gan ddangos gallu creadigol a fflach, a chan weithio'n annibynnol at ddisgwyliadau proffesiynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol